Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 18FED MEHEFIN, 2026

(NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB A BWRIEDIR CAEL TORIAD I GINIO AM 12.50YP – 1.50YP)

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 12 Mehefin 2026)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Beca Brown
Dawn Lynne Jones
Olaf Cai Larsen
Huw Rowlands
Rhys Tudur
Sian Williams
Jina Gwyrfai
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Dyfrig Siencyn
Elin Walker Jones
Geraint Wyn Parry

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Beth Lawton
John Pughe Roberts
Gwilym Jones
Dewi Owen
Richard Glyn Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

AELODAU CYFETHOLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
[sedd wag]	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Gweno Glyn Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Sharon Roberts	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Elise Poulter	NEU
Gwilym Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION 6 - 49

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 19/01/26 a 12/02/26 fel rhai cywir.

7. POLISI CANU'R GLOCH AELODAU 50 - 60

I ystyried polisi a gweithdrefn canu'r gloch i aelodau.

8. POLISI CLUDIANT ADDYSG 61 - 164

I gyflwyno drafft o Bolisi Cludiant Addysg yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori ar gynigion i ddiwygio cynnwys y polisi presennol.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG 165 - 266

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

(Bwriedir cael toriad i ginio am 12.50yp – 1.50yp)

10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED 267 – 315

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL 316 – 360

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
19/01/26

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Gwynfor Owen, Dawn Lynne Jones, Geraint Parry, Elwyn Jones a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor) a Elise Poulter (NEU).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Iwan Evans (Swyddog Monitro) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 4 – Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Plant Adnoddau Dros Dro), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol) a Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad gan nodi bod ymddiheuriad diffuant eisoes wedi'i gyflwyno i'r dioddefwyr ac i bawb a effeithiwyd gan y

troseddau difrifol a amlygwyd yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, gan bwysleisio bod ymddiheuriad yn wag heb weithredu pendant. Pwysleisiwyd mai camau gweithredu oedd yn allweddol er mwyn sicrhau newid ymarferol a rhoi sicrwydd na fyddai methiannau o'r math yn digwydd eto. Nodwyd nad oedd lleisiau plant wedi'u clywed yn flaenorol, ond bod profiadau a lleisiau plant yn ganolog i'r Cynllun Ymateb wrth symud ymlaen.

Nodwyd bod craffu'n rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd, a bod her adeiladol yn hanfodol ar fater mor ddifrifol. Cadarnhawyd bod y cyfarfod yn rhan o gyfres o gyfarfodydd craffu, a bod trafodaethau yn y Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi arwain at argymhellion ymarferol a chamau gweithredu penodol. Nodwyd bod nifer o argymhellion eisoes wedi'u gweithredu ar unwaith gan swyddogion er mwyn cryfhau trefniadau diogelu.

Pwysleisiwyd bod tryloywder yn hanfodol er mwyn adfer hyder y cyhoedd a hyder staff. Cadarnhawyd mai dogfen fyw a chyhoeddus yw'r Cynllun Ymateb, a byddai cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor er mwyn galluogi aelodau a'r cyhoedd i weld y cynnydd a wneir.

Cydnabuwyd bod y pwnc yn un anodd i'w drafod ac y bu'r adroddiad yn anodd i'w ddarllen, a diolchwyd i'r Pwyllgor am graffu'r mater mewn modd sensitif a phroffesiynol. Pwysleisiwyd mai diogelu a gwarchod plant rhag niwed yw'r cyfrifoldeb pwysicaf i'r Cyngor. Nodwyd ei fod yn gadarnhaol bod nifer o aelodau yn craffu ar y Cynllun.

Mynegwyd hyder yn y Cynllun Ymateb a'r gwaith trawsadrannol sy'n digwydd er mwyn gwella trefniadau diogelu. Diolchwyd i'r Athro Sally Holland, Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb, am ei harweiniad. Cydnabuwyd nad yw'r Cynllun Ymateb yn cynnwys pob ateb ar hyn o bryd gan ei fod yn ddogfen fyw, ac o'r herwydd bod mewnbwn y pwyllgorau craffu yn bwysig.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau, awgrymiadau a beirniadaeth adeiladol er mwyn cryfhau'r Cynllun Ymateb cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu'n ffurfiol. Nodwyd bod gwella trefniadau diogelu yn dibynnu ar rannu gwybodaeth, gweithio'n gyson gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, a chydweithio ar draws gwasanaethau a rhaniadau gwleidyddol, ac na allai un gwasanaeth, un adran, un grŵp gwleidyddol nac unigolyn gyflawni'r gwaith hwn ar ei ben ei hun. Nodwyd y byddai parodrwydd i ddychwelyd gerbron y Pwyllgor maes o law i adrodd ar gynnydd y Cynllun Ymateb ac i gynnal y ddeialog.

Nododd y Prif Weithredwr bod y cyfarfod yn gam pwysig arall ymlaen ar lwybr heriol i adfer hyder a chyrraedd y nod o sicrhau'r trefniadau diogelu gorau posibl. Cydnabuwyd bod y pwnc yn un anodd, ond ei fod yn bwysig gallu trafod y mater yn agored ar ôl cyfnod hir o adolygiadau ac ymchwiliadau, a bod hynny wedi bod yn rhwystredig i bawb. Nodwyd bod y Cynllun Ymateb cyntaf wedi'i gyhoeddi dros flwyddyn yn ôl, cyn cyhoeddi'r adolygiad ymarfer plant, a bod cydnabyddiaeth o'r cychwyn y byddai angen ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl

cyhoeddi'r adroddiad, a mai'r fersiwn ddiwygiedig oedd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn.

Cadarnhawyd bod y Cynllun eisoes wedi'i ystyried gan Fwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb ac wedi bod yn destun her gan sefydliadau allanol. Nodwyd y byddai'r Cynllun yn dychwelyd i'r Bwrdd Rhaglen i ystyried sylwadau'r cyfarfodydd craffu a chyngor llawn arbennig, cyn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu, gyda gwaith craffu pellach i ddilyn.

Nodwyd bod tri maes penodol i'w craffu. Nodwyd yn gyntaf yr angen am sicrwydd bod y Cynllun yn gyflawn ac yn ymateb yn briodol ac yn gynhwysfawr i adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ac ystyried os oedd unrhyw beth pellach y dylid ei gynnwys neu unrhyw fater a allai fod wedi'i anwybyddu. Nodwyd yn ail yr angen am arweiniad ar flaenoriaethau'r Cynllun, gan gydnabod nad oedd yn ymarferol cyflawni popeth ar yr un pryd, dylid ystyried a oedd rhai elfennau angen eu blaenoriaethu yn fwy nag eraill. Nodwyd yn drydydd yr angen i ystyried dibyniaethau rhwng argymhellion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

O ran dibyniaethau, nodwyd enghraifft o ddibyniaethau a'r angen i flaenoriaethu mewn perthynas â gweithdrefn pryderon lefel isel. Nodwyd bod trefn o'r fath yn bodoli yn Lloegr ond nid yng Nghymru, a bod argymhelliad cenedlaethol i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithdrefn o'r fath. Nodwyd y gallai hynny gymryd amser oherwydd natur y gwaith ar draws nifer o awdurdodau, a phwysleisiwyd na ellid aros am hynny. Cadarnhawyd bod gwaith eisoes ar y gweill i sefydlu gweithdrefn fewnol gan y Cyngor, gyda'r posibilrwydd o'i haddasu yn nes ymlaen pe bai trefn genedlaethol wahanol neu well yn cael ei chyflwyno.

Nodwyd bod trefniadau canu'r gloch wedi bod yn destun trafodaeth sylweddol. Cadarnhawyd bod trefniadau staff yn bodoli eisoes ond bod angen eu diweddaru a'u gwella, a bod y gwaith hwnnw wedi'i wneud yn gyflym er mwyn galluogi staff i'w defnyddio. Nodwyd ymhellach fod angen gwella trefniadau ar gyfer aelodau a llywodraethwyr gan fod y trefniadau presennol wedi'u gwasgaru ar draws gwahanol ddogfennau a'u bod yn anodd eu llywio. Cadarnhawyd bod gwaith eisoes wedi dechrau i'w symleiddio a'u cryfhau, gan gynnwys y bwriad i gynnwys arbenigedd allanol a defnyddwyr y drefn yn y gwaith o lunio'r trefniadau gorau posibl.

Nodwyd bod yr atodiadau i'r adroddiad yn cynnwys y Cynllun Ymateb diwygiedig ar ffurf naratif, wedi'i rannu'n saith thema a oedd yn cyd-fynd â themâu adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Nodwyd bod arweinydd wedi'i benodi ar gyfer pob thema. Nodwyd mai'r saith thema oedd:

- Llais y plentyn a chefnogi dioddefwyr - sicrhau bod plant yn cael eu gwrando, eu credu a'u cymryd o ddifrif, gan gryfhau trefniadau i roi llais i blant er mwyn eu cadw'n ddiogel.
- Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant - sicrhau trefniadau diogelu o'r safon uchaf, bod pryderon yn cael eu cymryd

o ddifrif ac yn cael sylw'n brydlon, a bod trefniadau Rhan 5 yn gadarn, yn gyflawn ac yn hawdd eu deall.
- Hyfforddiant a pholisïau - pwyslais ar sicrhau bod hyfforddiant yn briodol i rolau, bod polisïau'n cael eu mabwysiadu a'u gweithredu'n llawn mewn ysgolion, a bod pawb yn deall yr angen i feddwl yr annirnadwy a chydnabod y gallai digwyddiadau ddigwydd mewn unrhyw leoliad.
- Llywodraethiant ysgolion - sicrhau bod llywodraethwyr yn deall ac yn gallu cyflawni eu rolau'n effeithiol.
- Defnydd o rym rhesymol - angen i'w ddefnyddio dim ond pan fo'n angenrheidiol ac mewn modd priodol.
- Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng.
- Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars.

Nodwyd bod yr atodiadau yn cynnwys enghreifftiau o'r math o adroddiadau monitro roedd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb yn ei dderbyn a oedd yn nodi amserlen ar gyfer pob argymhelliad. Nodwyd bod yr atodiad olaf yn cynnwys y cynllun gweithredu manwl, gyda nifer fawr o gamau gweithredu, gan bwysleisio mai diben ei gyflwyno oedd dangos lefel y manylder, bod arweinwyr wedi'u nodi ar gyfer pob ffrwd waith, bod amserlenni clir, a bod camau wedi'u torri i lawr er mwyn lleihau'r risg o golli unrhyw elfennau. Pwysleisiwyd y bwriad i sicrhau Cynllun cadarn a chryf, a chroesawyd derbyn unrhyw awgrymiadau newydd o ran cynnwys y Cynllun Ymateb.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am y cyflwyniad gan nodi ei bod yn briodol cydnabod y gwaith sylweddol a wnaed i lunio'r Cynllun Ymateb. Cwestiynwyd a oedd y Cynllun Ymateb yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gweithdrefnau a diwylliant yn y gweithle, gan nodi bod prosesau'n gallu bodoli ond nad ydynt o reidrwydd yn cael eu gweithredu oherwydd diwylliant. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau yn gymharol hawdd i'w llunio a'u rhoi ar waith ar bapur, ond bod newid diwylliant yn broses fwy cymhleth.
- Bod newid diwylliant yn fwy anodd ac yn cymryd mwy o amser ond yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn glynu wrth bolisïau ac yn eu gweithredu'n gyson.
- Bod angen cyflawni'r camau cychwynnol yn awr, ond bod y gwaith ar newid diwylliant yn elfen hollbwysig ochr yn ochr â'r camau gweithdrefnol.
- Bod yr ymateb yn cynnwys sawl haen, sef y camau ymarferol y gellir eu rheoli'n fewnol a'u gweithredu'n gyflym, ynghyd â'r elfennau mwy meddal sy'n gofyn am amser, gan gynnwys newid diwylliant o fewn y Cyngor ac o fewn ysgolion.

<u>Ffrwd Gwaith 1: Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr</u>

Nodwyd bod y cyfarfod yn ddechrau'r daith graffu a bod adfer hyder pobl Gwynedd yn debygol o gymryd blynyddoedd. Holwyd sut y byddai'r ffrwd gwaith yn sicrhau na fyddai trefniadau a gweithdrefnau'r Cyngor yn ail-drawmateiddio'r plant a'r dioddefwyr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod pryder ynghylch sut y gallai'r drafodaeth barhaus a'r sylw cyhoeddus gael effaith ar ddioddefwyr, teuluoedd, y gymuned, staff, aelodau etholedig a phawb arall.
- Bod ymwybyddiaeth o'r risg o ail-drawmateiddio, a bod angen i unrhyw gamau neu weithdrefnau osgoi ehangu'r trawma hwnnw.
- Bod y prosesau sy'n ymwneud â dioddefwyr yn ceisio lleihau'r trawma, gyda'r nod o'u cefnogi drwy'r profiad yn hytrach na'i waethygu.
- Bod ymrwymiad i roi ystyriaeth bellach ar ôl y cyfarfod er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw elfen o'r gwaith arfaethedig yn ychwanegu at y trawma wrth symud ymlaen.

Holwyd sut yr oedd mecanweithiau'r Cynllun wedi sicrhau bod llais y plentyn wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau penodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Cynllun wedi'i ddatblygu ac wedi'i lunio ar sail ffrydiau gwaith.
- Bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r Cynllun, a bod trafodaethau wedi digwydd yn y Fforwm Plant a Phobl Ifanc.
- Bod angen bod yn ofalus i beidio â gofyn gormod i blant am yr un pwnc dro ar ôl tro, gan gydnabod bod angen taro cydbwysedd rhwng cynhwysiad ac amddiffyn rhag gorlwytho.
- Bod ffrwd waith benodol ar lais y plentyn, a bod ymrwymiad i gryfhau'r gwaith o gynnwys llais plant a phobl ifanc wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a bod llais plant yn cael ei glywed yn fwy ystyrlon.
- Bod angen rhoi sylw penodol i lais y dioddefwyr mewn ffordd ofalus iawn er mwyn osgoi achosi ail-fyw trawma.
- Bod y mater yn cael ei ystyried yn fanwl fel rhan o waith y Bwrdd Ymateb.

Holwyd a fyddai'n bosibl cadw cofnod o'r achlysuron lle ystyriwyd llais y plentyn neu lle y gwnaed wahaniaeth, er mwyn galluogi craffu yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod bwriad i sicrhau bod llais y plentyn yn cael dylanwad gwirioneddol ar benderfyniadau, ac nid yn unig gwneud datganiadau uchel eu proffil heb sicrhau effaith ymarferol.
- Bod Fforwm Pobl Ifanc wedi'i ailsefydlu, gyda swyddog penodol yn gweithio ar ei ddatblygu.
- Bod dyhead i ddatblygu'r Cyngor yn un sy'n fwy cyfeillgar i blant, gyda'r posibilrwydd dros amser i'r Fforwm Pobl Ifanc ddod yn rhan gadarn o'r broses ddemocrataidd.
- Bod gwaith ehangach ar y gweill i ddatblygu'r Sir fel sir gyfeillgar i blant, a bod y sylwadau'n bwydo mewn i'r gwaith hwnnw.

Tanlinellwyd nad yw plant yn grŵp unffurf, a holwyd sut y byddai'r gwaith yn sicrhau bod llais pob plentyn yn cael ei glywed, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus neu'r rhai y gallai eu cefndir neu'u hymddygiad olygu eu bod yn cael eu cymryd yn llai o ddifri. Nodwyd pryder ynghylch rhagfarn anymwybodol a'r modd y gallai hynny ddylanwadu ar sut y gwrandewir ar rai plant, a nodwyd bod thema debyg yn ymddangos yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder,

gyda'r perygl bod troseddwyr yn targedu plant y credir eu bod yn llai tebygol o gael eu credu. Mewn ymateb, nodwyd bod perygl o glywed lleisiau rhai carfannau'n gryfach na lleisiau eraill, a bod angen osgoi hynny er mwyn peidio â than-gynrychioli'r rhai llai amlwg. Pwysleisiwyd y bwriad, wrth symud ymlaen, i sicrhau bod lleisiau plant o garfannau llai amlwg yn cael eu clywed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n agored i wasanaethau plant, a grwpiau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ehangach yn y gwaith. Cadarnhawyd bod trefniadau eisoes o fewn gwasanaethau plant i wrando ar lais y plentyn ym mhob achos, er bod heriau ymarferol yn gysylltiedig â'r gwaith, a bod y Cyngor yn ceisio cryfhau'r dull yn sgil yr adroddiad.

Cwestiynwyd a oedd gwaith penodol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â rhagfarn anymwybodol drwy hyfforddiant, gan gynnwys atgoffa'r sawl sy'n gweithio gyda phlant o'r risg o wneud rhagdybiaethau a'r angen i adnabod bregusrwydd yn gynnar. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gwaith penodol ar ragfarn anymwybodol o fewn y gwasanaethau addysg heb ei ddatblygu hyd yma.
- Bod cydnabyddiaeth y gall canfyddiadau staff gael eu dylanwadu gan broffil plentyn.
- Bod y pwynt yn un dilys, a byddai'r mater yn cael ei ystyried ymhellach er mwyn ymateb yn gadarnhaol.
- Bod yr egwyddor o estyn y tu hwnt i'r lleisiau arferol yn berthnasol ar draws meysydd gwaith y Cyngor, a bod angen sicrhau bod ymgysylltu yn cyrraedd ystod ehangach o blant, pobl ifanc a chymunedau.
- Bod gweithwyr cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol fel rhan o'u cymwysterau, gyda hyfforddiant ychwanegol ar gael ar y pwnc.
- Bod gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau er mwyn sicrhau bod lleisiau'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth yn cael eu clywed, a bod bid ariannol ar y gweill i geisio penodi swyddog ychwanegol i ganolbwyntio ar hynny.
- Bod gofynion hyfforddiant yn dod yn fwy cymhleth, gyda nifer o gyrsiau'n cael eu disgwyl o weithwyr yn sgil yr adroddiad. Angen blaenoriaethu ac ystyried cyfuno elfennau lle bo hynny'n ymarferol.
- Bod mewnbwn pwyllgorau craffu yn berthnasol i'r drafodaeth ar flaenoriaethu hyfforddiant a sicrhau ei fod yn realistig ac yn effeithiol.
- Bod aelodau etholedig eisoes wedi derbyn hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol, ond bod bwriad i ddarparu cyfle i'r sawl a fethodd neu i'r sawl oedd yn dymuno ail-gwblhau'r hyfforddiant.

Holwyd a ellid sicrhau y byddai'r drws ar agor i ddioddefwyr dderbyn cymorth gan y Cyngor am flynyddoedd i ddod gan bod trawma yn gallu effeithio ar unigolion flynyddoedd yn ddiweddarach ac, yn aml, drwy gydol eu hoes, gan gydnabod nad oedd pob dioddefwr yn dymuno derbyn y cynnig ar hyn o bryd. Mewn ymateb, cytunwyd yn llwyr â'r pwynt a godwyd, gan nodi y gall trawma effeithio ar bobl am ddegawdau. Pwysleisiwyd bod angen cadw'r drws ar agor i'r dioddefwyr yn y tymor hir a bod y pwynt yn un y dylid ei wneud yn glir yn y Cynllun Ymateb er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth am barhad y cynnig.

Nodwyd pryder bod Polisi Diogelu Plant Ysgolion Gwynedd yn ddogfen gymhleth a chynhwysfawr, a bod disgwyl i Gadeirydd Cyngor yr Ysgol ei lofnodi ar ran disgyblion. Nodwyd nad oedd y ddogfen yn gyfeillgar i blant nac yn hawdd ei deall i ddisgyblion cynradd nac uwchradd, a holwyd pam nad oedd fersiwn hygyrch neu hawdd ei darllen eisoes ar gael i blant, gan nodi y dylai plant allu gweld y polisi a'i drafod yn ddeallus. Mewn ymateb, nodwyd bod y polisi'n cynnwys nifer o elfennau ac yn adlewyrchu gofynion cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau'n glir ac yn gyflawn. Ymhelaethwyd bod bwriad i weithio gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc ar fersiwn gryno, ac i sicrhau bod fersiwn i blant ar gael y tro nesaf y byddai'r polisi yn cael ei gyflwyno fel y gallai disgyblion ei darllen, ei thrafod, a'i llofnodi i ddangos dealltwriaeth, gyda'r ddogfen lawn ar gael i'r sawl oedd yn dymuno ei darllen.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod manylion cyswllt yr aelod allanol o'r corff llywodraethu ar gyfer adrodd pryderon tu allan i'r ysgol yn weladwy ac yn hawdd eu cyrraedd i bawb. Nodwyd y dylid sicrhau bod y manylion ar wefannau ysgolion ac mewn mannau amlwg eraill. Nodwyd pryder am ragdybiaethau posibl ynghylch pwy allai fod yn ddioddefwyr, gan bwysleisio'r angen i sicrhau nad oedd y trefniadau yn eithrio bechgyn ac y dylai'r wybodaeth fod yn eglur i bob plentyn a rhiant. Nodwyd pwysigrwydd gallu cysylltu'n gyflym ac yn hawdd pan fydd pryder.

Cwestiynwyd a oedd gofal bugeiliol yn bodoli bellach mewn ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd bod gofal bugeiliol yn bodoli ar draws yr ysgolion, a bod cymorth bugeiliol yn ffurfio rhan sylweddol o waith dydd i ddydd staff addysg. Pwysleisiwyd bod llawer o athrawon yn mynd y filltir ychwanegol i gefnogi plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, ochr yn ochr â'u dyletswyddau addysgu.

<u>Ffrwd Gwaith 2: Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n Gweithio Gyda Phlant</u>

Holwyd sut yr oedd trefniadau rheoli honiadau a phryderon am oedolion wedi eu newid yn ymarferol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod rhai newidiadau eisoes wedi'u rhoi ar waith, gyda gwaith pellach i dynhau'r systemau.
- Bod trefniadau wedi'u hychwanegu i sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cael ei gofnodi'n briodol, a bod cadarnhad clir bod atgyfeiriadau blaenorol wedi'u gwirio a'u hystyried.
- Bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail darlun llawn o'r hyn sydd wedi digwydd.
- Bod bwriad i sicrhau bod gweithiwr cymdeithasol yn gweld ac yn siarad â phob plentyn sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o honiad, gan nodi bod hyn eisoes wedi dechrau digwydd, gyda rhagor o waith i'w wreiddio'n gyson.
- Bod heriau ymarferol wedi codi gyda rhai rhieni ddim yn fodlon â'r dull, yn enwedig pan nad yw'r plentyn, yn eu barn hwy, yng nghanol yr honiad. Nodwyd y bwriad i barhau â'r egwyddor.

- Bod y gwaith o siarad â'r plentyn i'w wneud gan weithiwr cymdeithasol cymwys bob tro, yn hytrach nag unrhyw ymarferydd arall, er mwyn sicrhau safon broffesiynol gyson.
- Bod y dull hwn yn arwain at heriau adnoddau i'r adran, a nodwyd bod bid ariannol sylweddol wedi'i gyflwyno i gryfhau capasiti a chynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol, gyda gobaith y byddai'r Cabinet a'r Cyngor yn ei gefnogi.
- Bod angen sicrhau nad yw penderfyniadau ar drothwyon a meini prawf yn cael eu gwneud gan un swyddog yn unig, a bod y bwriad i sicrhau trafodaeth a phenderfynu ar y cyd.
- Bod bwriad i gryfhau'r elfen amlasiantaethol, gan nodi bod trefniadau ar hyn o bryd yn digwydd mewn modd mwy ad hoc ac ar sail mynediad agored gyda'r heddlu.
- Bod trafodaethau'n parhau gyda'r heddlu ar y dull gorau, gan nodi bod y heddlu yn ffafrio mynediad agored, ond bod y Cyngor yn ystyried a ellid ffurfioli'r trefniadau drwy gyfarfodydd mwy rheolaidd a strwythuredig yn sgil yr adroddiad.
- Bod y cynllun gweithredu yn cynnwys dros 200 o linellau ac mae nifer sylweddol yn berthnasol i'r maes hwn.

Holwyd pa dystiolaeth oedd bod y drefn hon yn debygol o atal methiannau fel y rhai a welwyd yn y gorffennol, yn hytrach na newidiadau gweinyddol yn unig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y term tystiolaeth yn heriol yn y cyd-destun hwn gan ei bod yn rhy gynnar i ddarparu tystiolaeth gadarn a mesuradwy bod y newidiadau hyd yma wedi arwain at system fwy effeithiol neu fwy cadarn.
- Bod nifer o ffynonellau wedi darparu argymhellion dros gyfnod diweddar, gan gynnwys yr adolygiad ymarfer plant, a bod y rhain yn tynnu i'r un cyfeiriad o ran nodi beth yw arfer da.
- Bod yr argymhellion yn cyd-fynd ac yn atgyfnerthu ei gilydd, a bod pob argymhelliad yn cael eu gweithredu arnynt ac ei dilyn i fyny.
- Bod rhai agweddau ar arfer da yn datblygu'n genedlaethol, ac y gallai hynny olygu y bydd angen i ganllawiau cenedlaethol esblygu dros amser, ond nodwyd nad oedd hynny'n rheswm i oedi'n lleol.
- Bod yr argymhellion yn berthnasol i bob awdurdod yng Nghymru, ond bod y gallu i weithredu rhai elfennau yn dibynnu ar adnoddau. Roedd angen buddsoddiad ac adnoddau ychwanegol i wireddu rhai camau yn ymarferol.
- Bod enghraifft benodol, sef sicrhau ymweliad gan weithiwr cymdeithasol cymwys gyda phob plentyn sy'n gysylltiedig â honiad, yn gofyn am gyllid a recriwtio, a nodwyd bod hyn yn cael ei yrru ymlaen yn lleol drwy gyflwyno bid ariannol a chynllunio'r gweithlu.
- Bod goblygiadau ehangach ar lefel genedlaethol o ran sut y caiff awdurdodau eu hariannu a'u cefnogi i weithredu'r disgwyliadau newydd yn llawn.

Nodwyd bod gwelliannau wedi digwydd o ran systemau, ond bod pryder nad oedd yr elfen ddiwylliannol wedi'i datrys yn llawn. Nodwyd bod amcanion y Cynllun Ymateb yn cynnwys sefydlu holl ffeithiau'r achos a dysgu'r holl wersi, a nodwyd bod adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn amlygu cyfleoedd a

gollwyd mewn nifer sylweddol o achosion. Nodwyd bod gwybodaeth gefndirol wedi dod gerbron y Cyngor ar y pryd, ac nad oedd yn eglur pam na aethpwyd ymhellach gyda'r materion hynny. Nodwyd bod barn bargyfreithiwr wedi'i chomisiynu ond nad oedd wedi'i chyhoeddi, a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol gweld gwaith a allai egluro'r rhesymau dros y cyfleoedd a gollwyd. Nodwyd, pe na ellid cyhoeddi'r adroddiad bargyfreithiwr am resymau cyfreithiol dilys, y dylid sicrhau bod gwaith arall ar yr un trywydd yn cael ei gomisiynu fel y gellid ei gyhoeddi.

Holwyd pa sicrwydd oedd bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol pan fo'r risg yn uchel. Holwyd beth oedd rôl yr ail swyddog diogelu sydd wedi'i benodi, a fyddai atgyfeiriadau'n mynd at fwy nag un swyddog diogelu o hyn ymlaen, a sut y byddai hynny'n digwydd yn ymarferol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Swyddog Penodedig Awdurdod Lleol (LADO) eisoes yn trafod gydag swyddogion eraill, a bod hynny'n rhan o'r weithdrefn bresennol.
- Bod adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn gosod gofynion penodol o ran sicrhau hyfforddiant a goruchwyliaeth benodol i'r LADO.
- Bod goruchwyliaeth eisoes yn bodoli, ond bod y trefniadau bellach yn cael eu tynhau yn sgil yr adroddiad.
- Bod penderfyniadau trothwy a meini prawf yn cael eu gwneud gan fwy nag un unigolyn, a bod gwaith pellach yn parhau i fireinio rhai o'r trefniadau hynny.

Pwysleisiwyd yr angen i gadw capasiti a chyllid priodol yn ganolog o fewn yr awdurdod lleol i gynnal swyddogaethau diogelu. Nodwyd hyder y gallai'r Cyngor arwain ar lefel genedlaethol drwy'r ymateb hwn, a nodwyd y byddai awdurdodau eraill yn edrych ar y gwaith er mwyn dysgu.

Nodwyd nad oedd pris ar ddiogelu plant, ac na ddylai unrhyw gais am adnoddau ychwanegol gael ei wrthod ar sail cost yn unig. Mewn ymateb, nodwyd bod cyfarwyddyd clir wedi bod o'r cychwyn mai'r nod oedd sicrhau'r trefniadau gorau posibl, ac y byddai cost ynghlwm wrth hynny. Nodwyd bod nifer sylweddol o geisiadau am adnoddau yn y maes hwn, a nodwyd bod hynny'n briodol o ystyried natur a maint y gwaith. Ymhelaethwyd bod penderfyniad ffurfiol ar adnoddau ychwanegol yn cael ei wneud yng nghyfarfod y Cabinet ar 10 Chwefror 2026, a nodwyd nad oedd blaenoriaeth uwch na hyn ar hyn o bryd.

Holwyd am ddiweddariad ar yr ymchwiliad craffu i drefniadau diogelu mewn ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd bod oedi wedi bod, yn bennaf oherwydd yr angen i sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i'r ymchwiliad. Nodwyd bod anawsterau wedi bod wrth geisio penodi darparwr addas i wneud gwaith penodol ar glywed llais disgyblion, a bod hynny wedi ychwanegu at yr amserlen. Ymhelaethwyd bod angen cynnal trafodaethau ychwanegol cyn llunio adroddiad drafft. Cadarnhawyd bod gwaith yn parhau ac yn symud ymlaen, ond na ellid rhoi dyddiad pendant ar pryd byddai'r adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan ei fod yn dibynnu ar nifer o ffactorau.

Holwyd am ragor o wybodaeth am beilot prosesau newydd o dan Adran 47 a threfniadau Rhan 5, gan gynnwys gwaith ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adolygiad ymarfer plant yn gofyn am sicrhad bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd â'r heddlu, a bod angen ffurfioli'r trafodaethau hynny ymhellach. Nodwyd bod trafodaethau'n parhau ynghylch trefniant lle gellid cynnal sgwrs ddyddiol am achosion drwy ddull rhithiol, ond nodwyd nad oedd yr heddlu mor awyddus i symud i drefn fwy ffurfiol gan eu bod yn ffafrio'r trefniant presennol o fynediad agored. Nodwyd bod y drafodaeth ar ffurfioli trefniadau yn parhau, ond cadarnhawyd bod cydweithio agos iawn yn digwydd eisoes gyda'r heddlu.

Holwyd am addasrwydd i weithio gyda phlant ac, yn benodol, am risg drosglwyddadwy, lle gall ymddygiad amhriodol gan oedolyn tuag at oedolyn arall mewn lleoliad gwaith megis ysgol godi cwestiwn a ddylai hynny gael ei ystyried fel risg i blant ac felly fel mater o dan brosesau Rhan 5. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr ateb yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos, a bod Rhan 5 yn berthnasol i oedolion bregus ac oedolion heb gapasiti yn ogystal â phlant.
- Bod trefniant i gadw cofnod o bob honiad o dan Rhan 5 yn cryfhau'r gallu i weld patrwm a chysylltu gwybodaeth os daw pryderon pellach yn y dyfodol.
- Bod sefyllfaoedd penodol, megis niwed i oedolyn bregus, yn faterion Rhan 5 ac yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd i weithio.
- Bod rhai senarios eraill yn fwy cymhleth ac efallai'n syrthio'n bennaf o fewn prosesau disgyblu a phrosesau adnoddau dynol.
- Bod y term addasrwydd yn cael ei ddefnyddio'n amlach yn y trafodaethau bellach, gan awgrymu newid mewn diwylliant a ffocws wrth ystyried pryderon.

Awgrymwyd y posibilrwydd y dylai fod mecanweithiau cliriach i sicrhau bod materion sy'n codi drwy brosesau disgyblu ysgolion neu brosesau adnoddau dynol y Cyngor yn sbarduno ystyriaeth Rhan 5 pan fo hynny'n briodol, er mwyn osgoi sefyllfa lle mai dim ond achosion sy'n cyrraedd gwasanaethau cymdeithasol sydd yn cael eu hystyried drwy lens diogelu. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn faes cymhleth a bod y cwestiwn yn codi materion ehangach o ran canllawiau cenedlaethol. Mynegwyd parodrwydd i fynd yn ôl i edrych yn fanylach ar y trefniadau gyda chydweithwyr ar draws adrannau.

Holwyd ynglŷn â'r awdit a wnaed o gyfnod o ddwy flynedd i adnabod unrhyw bryderon ynghylch unigolion mewn swyddi ymddiriedaeth, gan holi a oedd y cyfnod yn ddigonol, ac i ba raddau y gellid bod yn sicr nad oedd unigolion yn gweithio gyda phlant na ddylent fod. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr archwiliad wedi canolbwyntio ar atgyfeiriadau a ddaeth i law dros y cyfnod penodol, a bod pob atgyfeiriad o fewn y cyfnod hwnnw wedi'i groesgyfeirio yn erbyn cofnodion hanesyddol er mwyn gweld a oedd pryderon blaenorol yn bodoli, hyd at ba mor bell yn ôl ag y caniataodd y cofnodion.

- Bod y gwaith felly wedi edrych ymhell y tu hwnt i ddwy flynedd o ran hanes unigolion lle'r oedd atgyfeiriad wedi digwydd, er bod y sampl wedi'i seilio ar y cyfnod o atgyfeiriadau a ddewiswyd.
- Bod modd ymestyn yr awdit yn ôl ymhellach o ran atgyfeiriadau pe bai'r Pwyllgor yn argymell, ond y byddai hynny'n golygu gwaith ychwanegol.
- Bod y gwaith wedi ymateb i'r her ymarferol yn yr adroddiad ynghylch yr angen i ystyried atgyfeiriadau lluosog gyda'i gilydd wrth wneud penderfyniadau.

Nodwyd sylw bod angen cadw cydbwysedd priodol gan gofio bod athrawon yn bobl a gyda bywydau y tu allan i'r gwaith. Nodwyd pryder penodol am ddiwylliant mewn ysgol lle y gall bwlio, iaith 'misogynistic' neu iaith amhroffesiynol barhau heb gael ei herio. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyfforddiant i staff i alw ymddygiad annerbyniol allan.

Cwestiynwyd a oedd hierarchaeth a theitlau swyddi yn gallu arwain at wahaniaethau yn y modd y delid â phryderon. Mewn ymateb, nodwyd bod y mater o hierarchaeth a phŵer yn thema a amlygwyd yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a bod diwylliant a strwythurau pŵer yn gallu hwyluso gallu unigolion cryf i reoli ac amddiffyn eu safle, gan nodi bod angen i brosesau, hyfforddiant a pholisïau, ynghyd â newid diwylliant, weithio gyda'i gilydd i atal hynny.

Pwysleisiwyd bod y weithdrefn adnoddau dynol yr un fath i athrawon, cynorthwywyr, staff swyddfa a gofalwyr. Nodwyd bod gwahaniaeth ymarferol yn codi yn achos penaethiaid gan mai cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol yw eu rheolwr llinell. Nodwyd bod hynny'n gyfrifoldeb mawr, a mynegwyd pryder nad yw pob cadeirydd llywodraethwyr, wrth gamu i'r rôl, o bosibl, yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau ehangach, gan gynnwys materion disgyblu, cefnogi'r pennaeth, a delio ag absenoldeb salwch. Nodwyd bod cymryd rôl wirfoddol i ymgymryd â chyfrifoldebau mor gymhleth yn her sylweddol. Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried canllawiau llywodraethu ysgolion gyda'r bwriad y byddai'r gefnogaeth yn gryfach yn y dyfodol.

Nodwyd pryder ynghylch torri cod ymddygiad gan lywodraethwyr yn Ysgol Friars, a holwyd a oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd yn sgil hynny, gan nodi ei bod yn anodd bod â hyder mewn trefniadau llywodraethu os nad oes canlyniadau. Mewn ymateb, nodwyd bod Ysgol Friars bellach mewn sefyllfa wahanol iawn i'r hyn oedd hi ddwy flynedd yn ôl, gyda chorff llywodraethu newydd, cadeirydd newydd, newidiadau sylweddol i'r Uwch Dîm Rheoli, a diwylliant gwahanol. Nodwyd cydnabyddiaeth o'r gwaith caled a wnaed yn ddiweddar, gan gynnwys rôl y pennaeth dros dro.

Holwyd am y trefniadau gyda'r heddlu, gan nodi bod cwynion wedi'u gwneud ond nad oedd hynny'n amlwg yn arwain at gamau ar y pryd. Mynegwyd barn y dylai Heddlu Gogledd Cymru adolygu eu trefniadau yn yr un modd â'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd bod cydweithio gyda'r heddlu wedi bod yn rhagorol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda phryderon yn cael sylw'n gyflym, a nodwyd bod y cydweithio yn parhau. Nodwyd bod argymhellion Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn berthnasol i nifer o gyrff, a nodwyd y disgwyliad y byddai'r heddlu

yn ystyried yr adroddiad yn yr un modd â'r Cyngor. Cadarnhawyd bod trafodaethau eisoes wedi digwydd gyda swyddogion perthnasol.

Pwysleisiwyd bod angen i sawl corff cyhoeddus adolygu eu trefniadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru, y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd. Mewn ymateb, nodwyd bod argymhellion penodol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gyda dealltwriaeth bod gwaith ar y gweill i'w gweithredu a bod y Bwrdd Rhanbarthol yn monitro cynnydd.

Pwysleisiwyd mai un o'r gwersi mwyaf oedd yr angen i feddwl yr annirnadwy, a pheidio â chredu na allai hyn ddigwydd yn lleol, gan nodi'n eglur bod hyn wedi digwydd a bod y gwaith presennol yn anelu i sicrhau na fyddai'n digwydd eto. Pryderwyd ynghylch rôl pŵer a dylanwad o fewn strwythurau ysgol, gan nodi bod staff yn tueddu i ddilyn protocolau ond bod pryderon yn gallu taro mur. Nodwyd pwysigrwydd i weithwyr proffesiynol wybod pryd i uwchgyfeirio neu fynd â phryderon ymhellach os ydynt yn cael eu rhwystro.

Nodwyd bod adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion ar y gweill a bod hynny'n cael ei groesawu. Nodwyd bod gwaith ar y gweill i adolygu rôl byrddau diogelu rhanbarthol ac y byddai hynny'n debygol o ystyried y berthynas rhwng y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a'r heddlu. Nodwyd bod y ddau adolygiad i fod i adrodd yn y gwanwyn, a nodwyd pwysigrwydd i gynrychiolwyr etholedig lobïo'r llywodraeth nesaf i roi'r materion hyn ar frig yr agenda, gan nodi, er nad ydynt o bosibl yn atyniadol yn wleidyddol, eu bod yn hanfodol. Ymhelaethwyd bod llawer o'r argymhellion yn ymwneud â newidiadau cenedlaethol, a bod angen sicrhau bod pwysau ariannol ac adnoddau staffio yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y caiff awdurdodau lleol eu hariannu.

<u>Ffrwd Gwaith 3: Hyfforddiant a Pholisïau</u>

Holwyd pa fath o hyfforddiant y byddai swyddog dynodedig diogelu plant wedi'i dderbyn yn y cyfnod pan oedd y materion dan sylw yn digwydd, a holwyd a fyddai hynny'n gyson â hyfforddiant swyddogion cyfatebol ar draws y wlad. Mewn ymateb, nodwyd bod rhwydwaith o swyddogion dynodedig ar draws y wlad, gyda threfniadau cysylltu a chyfleoedd hyfforddi cenedlaethol, a nodwyd y byddai cyfleoedd hyfforddi perthnasol wedi bod ar gael. Pwysleisiwyd bod disgwyl i unrhyw unigolyn a benodir i rôl fod yn gymwys ac yn fedrus i'w chyflawni.

Nodwyd bod ansawdd cofnodi pryderon a chofnodion yn allweddol er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Holwyd a oedd gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod cofnodion diogelu yn cael eu cynnal i safon, a phwy oedd yn monitro hynny. Holwyd ymhellach pwy fyddai'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ar gadw cofnodion, a faint o amser y caiff cofnodion eu cadw. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod trefniadau monitro a sicrhau ansawdd cofnodion eisoes yn bodoli, a bod gwaith pellach yn cael ei wneud yn sgil yr adolygiad ymarfer plant i gryfhau a chrynhoi'r trefniadau hynny.
- Bod y gwaith yn cynnwys datblygu un polisi clir o fewn gwasanaethau plant sy'n nodi'n benodol beth yw'r prosesau monitro a sicrwydd ansawdd, gyda'r bwriad o gyflwyno drafft i'r Bwrdd Ymateb yn fuan.
- Bod cytundeb wedi'i lofnodi i beilota system 'Magic Notes', gyda'r bwriad o'i integreiddio i'r systemau a'i defnyddio ar draws gwasanaethau plant ac oedolion.
- Bod hyfforddiant pellach i holl weithwyr cymdeithasol ar gadw cofnodion i'w ddarparu er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd, ynghyd â gwaith i egluro beth ddylid ei gofnodi a beth yw'r canllawiau cenedlaethol.
- Bod bwriad i ddarparu hyfforddiant mandadol penodol ar gofnodi honiadau, ond bod her ymarferol yn codi gan mai Gofal Cymdeithasol Cymru yw perchennog y platfform e-ddysgu. Roedd trafodaethau ar y gweill ynghylch ychwanegu cynnwys neu ddatblygu cynnwys lleol.
- Bod cofnodion honiadau Rhan 5 a ffeiliau achosion plant mewn cyd-destun materion amddiffyn plant yn cael eu cadw am 75 mlynedd.

Awgrymwyd y dylid neilltuo rôl i swyddog dynodedig i wirio ac i fonitro ansawdd cofnodion sy'n ymwneud â diogelu plant. Mynegwyd pryder ynghylch achosion lle na chofnodwyd yn briodol yn y gorffennol, a holwyd i ba raddau y gwneir yn glir y gallai methu cofnodi'n briodol mewn sefyllfaoedd diogelu arwain at ganlyniadau disgyblu difrifol. Mewn ymateb, nodwyd bod y sylw am bennu cyfrifoldeb clir yn cael ei dderbyn, a nodwyd bod bid ariannol eisoes yn bodoli i benodi rôl a fyddai'n ymateb yn rhannol i'r pryder, gyda pharodrwydd i fynd yn ôl i gynnwys y swyddogaeth benodol honno'n fwy eglur o fewn y bid. Nodwyd bod disgwyliadau proffesiynol yn glir o ran cofnodi i safon o fewn rolau gwasanaethau cymdeithasol. Eglurwyd bod y safonau perthnasol yn cael eu gosod gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Holwyd ynghylch hyfforddiant ar 'grooming', gan nodi bod patrymau yn cael eu hamlygu yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder a'i bod yn anodd deall pam na chafodd y rhain eu hadnabod ar y pryd. Holwyd sut y byddai hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynnwys ar gyfer staff ysgolion, staff y Cyngor ac aelodau etholedig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gwaith wedi dechrau i adnabod beth sydd ar gael eisoes o ran hyfforddiant, gan nodi nad oedd hyfforddiant penodol ar 'grooming' ar gael yn gyson ar gyfer ysgolion a'r gweithlu addysg hyd yma.
- Bod gwaith yn digwydd ar y cyd â gwasanaethau plant i bennu hyfforddiant priodol ac amserlen i'w gyflwyno cyn gynted â phosibl.
- Bod her ymarferol mewn ysgolion o ran amser a chapasiti i gwblhau'r nifer cynyddol o sesiynau hyfforddi mandadol.
- Bod ymateb wedi'i gyflwyno i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar hyfforddiant mewn swydd, gyda'r awgrym y dylai o leiaf un diwrnod hyfforddiant mewn swydd ganolbwyntio ar faterion diogelu. Nodwyd y byddai hyfforddiant ar arwyddion 'grooming' yn rhan annatod o hynny.
- Bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif, a bod bwriad i symud yn gyflym i sicrhau'r hyfforddiant.

- Nid oedd arwydd clir hyd yma y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn hyfforddi cenedlaethol penodol ar hyn ar gyfer ysgolion.

Pwysleisiwyd bod angen i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â phlant allu adnabod arwyddion cynnar a'r fflagiau coch o ran 'grooming'. Mewn ymateb, cytunwyd yn llwyr, gan nodi bod gwybodaeth am 'grooming' eisoes wedi'i gynnwys yn y modiwlau diogelu ar gyfer staff fel cam cychwynnol. Ymhelaethwyd na fyddai hyn yn ymarfer unwaith yn unig ond yn waith tymor hir i newid diwylliant a meddylfryd.

Holwyd a ellid gwneud rhywbeth i helpu teuluoedd i adnabod arwyddion bod plant o bosibl yn cael eu 'groomio'. Awgrymwyd y gellid defnyddio adnoddau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ymysg teuluoedd, a dylid ystyried fel pwnc posibl i'w drafod ar y Podlediad Mam, Dad a Magu. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r awgrym yn cael ei ystyried ymhellach.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod y drafodaeth wedi amlygu bod lle mae pwerau'n eistedd o ran mynnu hyfforddiant yn fater allweddol. Pwysleisiwyd bod gallu'r awdurdod addysg i fynnu hyfforddiant penodol yn gyfyngedig o dan y trefniadau presennol, ac y byddai'n haws a chliriach pe bai gan awdurdod addysg fwy o rym i osod gofynion ac amserlenni, a gallu monitro hynny.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod cyrff llywodraethu yn herio'n briodol, gan nodi mai eu rôl yw bod yn ffrind beirniadol, a bod angen herio'n briodol pan fo pryder ynghylch dull arweinyddiaeth neu ddiwylliant pŵer lle nad yw penderfyniadau'n cael eu cwestiynu.

Cwestiynwyd sut y gellid cynnwys, drwy hyfforddiant, yr hyder a'r gallu i herio. Nodwyd bod dau risg yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, sef y risg o niwed i blant, a'r risg bod gweithwyr proffesiynol o amgylch yn methu adnabod beth sy'n digwydd neu'n bwrw pryderon yn ôl. Nodwyd bod angen arfogi pobl i godi pryderon nid yn unig am unigolion a allai niweidio, ond hefyd am weithwyr proffesiynol neu gydweithwyr nad ydynt yn ymateb fel y dylent, gan gydnabod ei bod yn anodd weithiau herio cydweithwyr neu unigolion uwch yn y gadwyn gyflogaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd magu diwylliant lle mae pobl mewn sefyllfaoedd o rym yn croesawu cael eu herio.

Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn thema ganolog yn yr adroddiad ac yn faes cymhleth, heb un ateb pendant. Nodwyd y byddai'n datblygu dros amser drwy gyfuniad o hyfforddiant a newid diwylliant, gyda phwyslais ar arweinyddiaeth, trefniadau chwythu'r chwiban, a sicrhau bod pryderon ac atgyfeiriadau yn cael eu trin yn briodol er mwyn meithrin hyder yn y broses. Cadarnhawyd bod y drafodaeth am ddiogelu bellach yn digwydd yn ddyddiol ar draws adrannau, gyda lefel uwch o ymwybyddiaeth.

Diolchwyd i'r Adran Addysg am y gwaith ar y Cynllun Ymateb ac am y gwaith parhaus. Cwestiynwyd a ellid cael mynediad at bolisïau addysg mewn un man canolog ar y we er budd craffu ac er mwyn i staff allu eu darganfod yn haws. Mewn ymateb, nodwyd bod adrannau penodol eisoes ar y wefan ar gyfer polisïau. Nodwyd bod tudalennau gwe newydd wedi'u creu ar gyfer y Cynllun

Ymateb, gyda'r bwriad o gynnwys dogfennau perthnasol yno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Ymateb. Ymhelaethwyd bod pecyn o bolisïau enghreifftiol yn cael ei ddarparu bob blwyddyn i gyrff llywodraethu ysgolion, ond mai'r ysgol unigol sy'n eu mabwysiadu. Pwysleisiwyd y gall llywodraethwyr annog ysgolion i roi polisïau allweddol ar-lein.

Holwyd sut y byddai effeithiolrwydd y polisïau a'r hyfforddiant yn cael eu profi dros amser, a sut y byddai hynny'n cael ei fesur. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn faes heriol, gan nodi bod y ffocws hyd yma ar osod y trefniadau ar waith, a bod y cam nesaf yn ymwneud â datblygu mesurau i ddangos pa wahaniaeth a wnaed dros amser. Nodwyd bod mesurau meintiol yn haws, megis nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant penodol, ond bod mesur effaith ansoddol ar ddiwylliant ac ar brofiad plant yn fwy anodd. Nodwyd bod gwaith pellach i'w wneud ar hynny, gyda mewnbwn sylweddol gan Gadeirydd y Bwrdd Ymateb. Eglurwyd y cynhelir gweithdai pellach i ystyried mesurau addas.

Holwyd a oedd enghreifftiau o achosion lle roedd hyfforddiant neu'r trefniadau newydd wedi arwain at herio penderfyniad neu at bobl yn teimlo'n fwy hyderus i herio. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod lefel uwch o ymwybyddiaeth ynglŷn â diogelu, a bod trafodaethau a herio ynghylch diogelu yn digwydd yn rheolaidd ar draws y Cyngor.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bryder ynghylch cynaladwyedd yr ymwybyddiaeth dros gyfnod hirach. Awgrymwyd y gallai fod rôl i'r Pwyllgorau Craffu i fonitro cynnydd mewn blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal ymchwiliad craffu neu grŵp tasg a gorffen i edrych ar sut y mae'r trefniadau'n gwreiddio dros amser. Mynegwyd gobaith y byddai Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn cael dylanwad cenedlaethol. Pwysleisiwyd bod angen monitro gweithrediad argymhellion cenedlaethol dros amser.

<u>Ffrwd Gwaith 4: Llywodraethiant Ysgolion</u>

Nodwyd bod rôl llywodraethwyr yn un anodd a bod y gwaith yn wirfoddol, gyda phryder am brinder llywodraethwyr. Nodwyd y gallai dealltwriaeth lawn o gyfrifoldebau arwain at lai o bobl yn fodlon ymgymryd â'r rôl, gan nodi bod gofynion ar gyrff llywodraethu yn enfawr. Nodwyd bod hyn yn cysylltu â'r ddadl am adnoddau, gan nodi bod cadw rhywfaint o adnoddau yn ganolog yn galluogi'r Adran Addysg i gefnogi llywodraethwyr. Pwysleisiwyd bod y baich ar lywodraethwyr wedi cynyddu dros ddegawdau wrth i fwy o gyfrifoldebau symud i ysgolion a chyrff llywodraethu oddi wrth awdurdodau lleol ac adrannau addysg. Nodwyd bod angen mwy o hyfforddiant a dealltwriaeth os yw'r grym i aros gyda chyrff llywodraethu, a nodwyd mai mater ehangach na Gwynedd yn unig oedd hyn.

Mewn ymateb, diolchwyd i lywodraethwyr ar draws y sir am eu gwaith, a nodwyd y byddai hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol yn cael eu cynnig heb aros am newidiadau cenedlaethol. Pwysleisiwyd bod gwaith pellach i'w wneud i gryfhau llywodraethiant mewn ysgolion. Nodwyd bod clercio effeithiol yn hanfodol i lywodraethu, a bod rhai ysgolion yn ei chael yn anodd recriwtio

clercod, ond bod gwaith yn mynd rhagddo i unioni'r sefyllfa. Nodwyd bod angen adolygu a chryfhau hyfforddiant cadeiryddion, a bod bwriad i gryfhau'r gefnogaeth i lywodraethwyr a chadeiryddion drwy ehangu'r tîm sy'n eu cefnogi i ddau swyddog er mwyn gallu ymateb yn gyflymach pan fo angen cyngor a chymorth.

Holwyd pa sicrwydd oedd bod cyrff llywodraethu yn herio'n effeithiol yn ystod cyfarfodydd yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn unig, a sut y gellid mesur hynny. Mewn ymateb, nodwyd pwysigrwydd rôl llywodraethwyr i ddarparu lefel briodol o her ar raglenni gwaith ac ar waith penaethiaid, gan bwysleisio'r egwyddor o fod yn gyfaill beirniadol a'r angen i daro'r cydbwysedd cywir. Nodwyd bod ansawdd clercio a chysondeb cofnodion yn rhan o'r modd y gellir adnabod ac amlygu elfennau o her a thrafodaeth o fewn cyfarfodydd.

Cwestiynwyd sut byddai'r drefn llywodraethu bresennol wedi ymateb yn wahanol i achos Friars. Mewn ymateb, nodwyd bod gweithdrefnau a pholisïau ar y cyfan wedi'u cryfhau. Nodwyd bod Tîm Diogelu Addysg yn mynd i ysgolion i wirio cynnwys polisïau a gweithdrefnau ysgolion, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ar draws ysgolion y sir. Nodwyd bod ymweliadau gwirio ansawdd yn cael eu cynnal er mwyn profi dealltwriaeth plant, pobl ifanc a staff o'r polisïau, ac er mwyn i'r adran fod yn fwy ymwybodol o'r diwylliant o fewn yr ysgol yn gyffredinol.

Awgrymodd yr Aelod Cabinet Addysg fod angen i arolygiadau Estyn graffu ar waith cyrff llywodraethu ysgolion yn fwy manwl, a'i fod yn fater y dylai Llywodraeth Cymru edrych i mewn iddo ymhellach. Pwysleisiwyd yr angen i edrych ymhellach i mewn i rôl llywodraethwyr ac i ystyried a oedd gormod o faich arnynt, ac a ddylai'r rôl fod yn wirfoddol.

Cwestiynwyd sut mae trefniadau llywodraethu ysgolion yn adnabod patrymau risg dros amser ac ar draws achosion. Mewn ymateb, nodwyd y gall aelodau'r corff llywodraethu newid o flwyddyn i flwyddyn ac felly bod cadw cofnodion yn hollbwysig i adnabod patrymau hirdymor. Pwysleisiwyd bod yr awdurdod yn cadw copi o gofnodion unrhyw honiadau ac felly bod hyn yn bwydo i mewn i'r broses lywodraethu. Nodwyd, er nad oedd trefn benodol i edrych ar unigolion dros gyfnod o amser o fewn ysgolion, bod trefniadau diogelu plant a threfniadau adnoddau dynol yn bodoli, a bod disgwyl i'r ysgol a'r corff llywodraethu fod â pholisïau a gweithdrefnau cytunedig i'w cefnogi, ac i sicrhau bod y trefniadau yn gwbl briodol.

Gofynnwyd am farn broffesiynol y Pennaeth Addysg, o ran cael trefn benodol i gyrff llywodraethu adnabod patrymau risg ymysg staff ysgolion dros amser. Mewn ymateb, mynegwyd barn na ddylai trefn o'r fath fodoli o fewn y gyfundrefn bresennol gan mai lleygwyr yw llywodraethwyr, ac felly byddai'n gofyn gormod ganddynt. Mynegwyd barn y dylai rhyw fath o drefn fodoli, ond y byddai angen disgwyl canlyniadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drefniadau Llywodraethu Ysgolion cyn rhoi barn bellach.

Nodwyd y byddai mwy o wybodaeth gyffredinol yn cael ei ddarparu i gyrff llywodraethu yn y dyfodol, gan ei fod yn argymhelliad o fewn yr adroddiad

adolygiad ymarfer plant, i'w galluogi i wneud penderfyniadau a chael trafodaethau mwy ystyrlon o ran gwaharddiadau a phresenoldeb. Mynegwyd ansicrwydd a fyddai'r wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â cyfeiriadau gan fod llawer o ysgolion y sir yn gymharol fychan, byddai'n bosib adnabod plant o'r data.

Cadarnhawyd y byddai'r drefn ynglŷn â phryderon nad ydynt yn cyrraedd y trothwy o gymorth yn y dyfodol yn cyfrannu at adnabod patrymau risg. Pwysleisiwyd bod cyfyngiadau o ran yr hyn y gall yr awdurdod ei wneud o dan y gyfundrefn bresennol hyd nes y bydd newid cenedlaethol yn digwydd. Mynegwyd gobaith y byddai'r adolygiad cenedlaethol i mewn i drefniadau llywodraethiant ysgolion yn gyfle i'r Llywodraeth ddefnyddio canfyddiadau adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder i wneud newidiadau cenedlaethol.

Nodwyd bod y Cyngor wedi edrych i greu polisi pryderon lefel isel ond y byddai cyflawni hyn yn heriol iawn gan ei fod yn gwrthdaro â chanllawiau diogelu cenedlaethol. Pwysleisiwyd yr angen i bolisi pryderon lefel isel o'r fath gael ei greu'n genedlaethol.

Cwestiynwyd a oedd modd sicrhau bod pob llywodraethwr o fewn ysgolion y sir wedi derbyn hyfforddiant priodol cyn dechrau yn y rôl. Mewn ymateb, nodwyd bod pob Llywodraethwr Dynodedig Diogelu yn derbyn hyfforddiant priodol bob dwy flynedd, a'i fod yn ofyniad i bob corff llywodraethu i ddarparu lefel sylfaenol o hyfforddiant diogelu i'r corff yn ei gyfanrwydd.

Mynegwyd barn nad oedd lefel yr hyfforddiant diogelu sydd ar gael i gadeiryddion cyrff llywodraethu yn ddigonol, ac y dylai fod yn uwch. Nodwyd bod llywodraethwyr wedi derbyn cais i gwblhau hyfforddiant 'Atal' (Prevent). Mewn ymateb, nodwyd bod yr hyfforddiant yn fandadol ac ar wahân i'r cwrs sylfaenol diogelu sy'n ofynnol i lywodraethwyr. Pwysleisiwyd bod lefel yr hyfforddiant a ddarperir yn cael ei bennu'n genedlaethol. Derbyniwyd y sylw ynglŷn â lefel hyfforddiant diogelu cadeiryddion, gan nodi ei fod yn debygol y byddai hyfforddiant uwch o fudd. Pwysleisiwyd mai nid yr Adran Addysg sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ac nad oedd gan yr adran y grym i'w newid.

<u>Ffrwd Gwaith 5: Grym Rhesymol</u>

Holwyd sut mae'r Cyngor yn diffinio'n glir pryd mae defnyddio grym rhesymol yn briodol er mwyn atal plentyn rhag gwneud rhywbeth sy'n peri risg. Mewn ymateb, nodwyd bod polisi enghreifftiol ar ddefnydd o rym rhesymol yn cael ei ddarparu i ysgolion, a mai cyfrifoldeb pob corff llywodraethu yw ystyried y polisi'n ofalus. Nodwyd bod y polisi enghreifftiol yn cynnwys pwyntiau penodol ynghylch pryd y gellir cyfiawnhau defnyddio grym rhesymol, ond nodwyd mai'r term rhesymol sy'n peri'r prif her gan fod dehongliad yn gallu amrywio rhwng unigolion. Nodwyd bod cwmni allanol wedi'i gomisiynu i adolygu'r polisi a'r canllawiau er mwyn asesu a ydynt mor gadarn â phosibl ac i edrych yn benodol ar eglurder y defnydd o'r term rhesymol, gyda'r bwriad o weithredu unrhyw argymhellion yn syth. Ymhelaethwyd bod ysgolion fel arfer yn mabwysiadu'r hyn a ddarperir, ond bod gan ysgolion yr hawl i ddiwygio'r polisi os dymunant.

Cwestiynwyd sut mae'r cynllun yn sicrhau bod staff yn hyderus ac yn barod i ymyrryd pan fo angen defnyddio grym rhesymol i ddiogelu plentyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hyfforddiant ar ddefnydd o rym rhesymol yn cael ei dargedu at staff y bernir sydd ei angen, yn hytrach na'i ddarparu i bawb.
- Bod achosion yn cael eu cyfeirio at fforwm penodol i ystyried a oes angen hyfforddiant ar aelod o staff, yn aml mewn cyd-destun cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu ymddygiad heriol.
- Bod peidio â darparu hyfforddiant i bawb yn fwriadol gan y bernir y gallai hynny gynyddu'r risg o gamddehongli pryd a sut i ymyrryd.
- Bod y term rhesymol yn parhau i greu elfen o ansicrwydd, a bod hynny'n rhan o'r gwaith sy'n cael ei adolygu.

Nodwyd bod angen bod yn dryloyw am wendid hanesyddol, gan nodi bod dulliau hyfforddi ar ddefnydd o rym rhesymol wedi bod yn wahanol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a bod hynny wedi bod yn heriol. Nodwyd bod y gwahaniaethau hyn yn cael eu hadnabod, a bod gwaith ar y gweill i ddeall pa system sydd fwyaf priodol ac i symud tuag at un system hyfforddi yn y dyfodol.

Nodwyd pryder am gyfyngiadau trefniadol, gan bwysleisio bod y Cyngor yn gallu darparu polisi i ysgol ond mai'r ysgol sy'n penderfynu a fydd yn ei fabwysiadu neu'n ei newid. Pwysleisiwyd yr angen i wthio'r mater ymlaen ar lefel genedlaethol gyda'r awgrym o gryfhau'r disgwyliadau statudol ar y maes hwn.

Mewn ymateb, nodwyd bod gan yr awdurdod rôl i oruchwylio a monitro'r defnydd o rym rhesymol mewn ysgolion. Nodwyd bod disgwyl i ysgolion hysbysu'r awdurdod bob tro y defnyddir grym rhesymol, a bod y wybodaeth yn cael ei dadansoddi gyda'r tîm iechyd a diogelwch i ystyried a yw'r dulliau'n briodol, a yw'r trefniadau adrodd yn cael eu dilyn, a pha sylw sy'n cael ei roi i lais y plentyn. Cadarnhawyd bod rhieni yn cael eu hysbysu am ddigwyddiadau o'r fath. Cadarnhawyd bod trefn wirio ansawdd ar waith, gyda'r trefniadau yn gwirio a fu defnydd o rym rhesymol ym mhob achos o fewn ysgolion y sir ac, os felly, a ddilynwyd y system yn gywir; ac os na welwyd cofnod drwy'r system, nodwyd na ellid ystyried bod y drefn wedi'i dilyn yn briodol, gan arwain at gamau dilynol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Cwestiynwyd a oedd yn ofynnol i ysgolion hysbysu'r Adran Addysg os ydynt yn diwygio polisïau. Mewn ymateb, nodwyd bod y dull wedi dod yn fwy cadarn nag yn y gorffennol, gyda'r neges i ysgolion beidio â newid y polisi, ac, os byddai newid yn digwydd, i hysbysu'r awdurdod. Nodwyd bod polisïau yn cael eu gwirio, er na fyddai'n ymarferol gwirio pob gair ym mhob polisi ym mhob ysgol bob blwyddyn. Nodwyd, fodd bynnag, bod y gwaith yn canolbwyntio ar wirio polisïau allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r arweiniad a ddarperir.

Mynegwyd barn y dylai ysgolion fabwysiadu'r polisïau enghreifftiol yn llawn, neu, os byddai unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud, y dylent dynnu sylw'r

awdurdod at hynny fel y gellid ystyried a chytuno ar y newidiadau. Holwyd a ellid anfon neges at gynghorwyr ynghylch pwysigrwydd rôl llywodraethwyr wrth sicrhau bod ysgolion yn glynu wrth y polisïau a ddarperir gan yr awdurdod. Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai neges yn cael ei rannu gyda chyngorwyr.

Holwyd pa gymorth oedd ar gael i aelodau staff ar ôl defnyddio grym rhesymol, gan nodi y gall hynny beri pryder i staff ynghylch a ydynt wedi croesi ffin mewn sefyllfa dan bwysau. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd trefniant penodol wedi'i sefydlu i gynnig y math hwnnw o gymorth, ond bod modd i ysgolion gael cyngor gan staff arbenigol sy'n cefnogi plant ag anghenion penodol, ac mai hynny yn aml sy'n sbarduno hyfforddiant. Nodwyd, pan fo digwyddiad yn cynnwys athro, y byddai'r pennaeth yn debygol o gynnig cefnogaeth ac arweiniad, ac, pan fo'n ymwneud â'r pennaeth, y gallai gael ei gyfeirio i gadeirydd y llywodraethwyr, gan adleisio'r pryder ynghylch a oes gan gadeiryddion y sgiliau i gefnogi mewn amgylchiadau cymhleth. Nodwyd y gallai swyddogion iechyd a diogelwch ymwneud â'r mater pan fo'n briodol, ac y byddai cyswllt yn cael ei wneud â'r ysgol pe bai'n amlwg bod y digwyddiad wedi bod yn arbennig o anodd. Nodwyd bod y pwynt yn un da a rhoddir ystyriaeth pellach iddo er mwyn cwestiynu a oedd y trefniadau presennol yn rhoi digon o gefnogaeth i staff sy'n gorfod gweithredu mewn sefyllfaoedd anodd, yn enwedig mewn ysgolion arbennig lle gallai'r sefyllfa godi'n amlach.

Ffrwd Gwaith 6: Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng

Holwyd sut yr oedd trefniadau cynllunio argyfwng wedi'u diweddaru ar sail y gwersi a ddysgwyd o achos Ysgol Friars. Mewn ymateb, nodwyd bod gwaith ar y gweill i roi cynllun argyfwng newydd ar waith, a bod deall yn llawn beth ddigwyddodd yn Ysgol Friars yn elfen greiddiol o'r gwaith hwnnw. Nodwyd nad oedd hyn yn seiliedig ar ddarllen adroddiadau yn unig, ond bod trafodaethau wedi digwydd gyda swyddogion o'r heddlu i ddeall eu profiad, a nodwyd y byddai trafodaethau'n digwydd gyda staff sy'n parhau yn yr ysgol er mwyn deall eu profiadau ar y diwrnod.

Holwyd pa dystiolaeth oedd bod yr ymateb i argyfwng bellach yn gyflymach ac yn fwy penderfynol. Mewn ymateb, nodwyd bod ymwybyddiaeth wedi codi ar draws y sir, ond bod y gwaith o roi'r trefniadau newydd ar waith yn parhau ar hyn o bryd. Nodwyd mai'r her fyddai gosod mesurau priodol a fyddai'n dangos beth fyddai'n wahanol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymateb cyflym a chlir mewn argyfwng, gan nodi bod oedi yn achos Friars wedi ychwanegu at y trawma. Mynegwyd barn y dylai'r trefniadau fod yn gadarn o ran atal dros dro tra bod ymchwiliad yn mynd rhagddo, er y cydnabuwyd y gallai hynny greu heriau ymarferol o ran staffio.

Holwyd i ba raddau y byddai'r gwaith yn cynnwys cerdded staff drwy sefyllfaoedd posibl er mwyn deall y llwybr gweithredu pan fo datgeliad neu bryder yn codi, pwy sy'n cysylltu â phwy a phryd, a'r eglurder ynghylch cyfrifoldebau. Mewn ymateb, nodwyd mai dyna'n union fyddai natur y gwaith unwaith y byddai cynllun cadarn wedi'i lunio a'i gyflwyno i'r byrddau perthnasol i'w gymeradwyo. Nodwyd bod angen sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd

pawb yn yr ysgol, nid arweinwyr yn unig, a bod gwaith yn mynd rhagddo i fapio'r trefniadau a chynnwys senarios o'r fath yn y cynllun a'r hyfforddiant cysylltiedig.

Nodwyd bod rhai negeseuon ymarferol eisoes wedi'u rhoi i staff mewn perthynas â gweithredu'n brydlon, a bod gwelliannau mewn trefniadau wedi dechrau. Nodwyd bod y ffrwd gwaith yma yn debygol o ddatblygu dros amser. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyfforddiant yn y maes hwn er mwyn i staff allu ymarfer a mynd drwy'r gwahanol senarios.

Holwyd pam y byddai angen hyfforddiant i ffonio 999 pan fo plentyn mewn perygl, gan nodi y dylai'r egwyddor fod yr un fath ag mewn unrhyw sefyllfa arall. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod hynny'n eglur, ond nodwyd bod ymateb i argyfwng diogelu yn cynnwys camau ychwanegol y tu hwnt i'r alwad argyfwng, gan gynnwys gofalu am y plentyn, diogelu tystiolaeth, ac ystyried trefniadau ar y safle. Nodwyd bod hyfforddiant ymarferol, drwy senarios a thrafodaeth, yn rhan hanfodol o sicrhau bod pobl yn gallu gweithredu'n briodol dan bwysau.

Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod staff a'r gymuned ysgol yn gallu siarad am eu profiadau ar ôl digwyddiad er mwyn adeiladu darlun llawn a chefnogi adferiad. Mynegwyd pryder am sefyllfaoedd lle teimlwyd na ellid trafod pryderon yn agored.

<u>Ffrwd Gwaith 7: Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars</u>

Holwyd am fater pensiwn yr unigolyn a gyflawnodd y troseddau, gan fynegi pryder ynghylch y posibilrwydd ei fod yn parhau i dderbyn pensiwn, a holwyd pwy oedd yn gyfrifol am hynny. Mynegwyd barn bod y ffaith bod yr unigolyn hwn yn dal i dderbyn ei bensiwn yn annerbyniol ac yn anfoesol, ond cadarnhawyd nad oedd gan Gyngor Gwynedd y pŵer i atal pensiwn athro o dan y trefniadau perthnasol. Nodwyd bod y mater wedi'i godi ar lefel genedlaethol gan yr Aelod Seneddol, Liz Saville Roberts. Nodwyd bod y mater wedi'i dynnu at sylw'r adran berthnasol, a mynegwyd gobaith y byddai'r achos yn cael ei ystyried fel rhan o waith ehangach ar achosion tebyg.

Nodwyd sylw ynghylch cyhoeddusrwydd trefniadau diogelu, gan nodi bod gwefan Ysgol Friars yn cynnwys pennawd amlwg ar ddiogelu ar y dudalen flaen, tra nad oedd hynny'n gyson ar wefannau ysgolion eraill. Awgrymwyd y dylid annog ysgolion eraill i wneud yr un fath. Mewn ymateb, nodwyd y gellir annog ysgolion i wneud hyn, ond mai'r corff llywodraethu a'r ysgol sy'n gyfrifol am weithredu'n ymarferol. Nodwyd ymhellach y dylai llywodraethwyr ddefnyddio eu dylanwad i sicrhau bod gwybodaeth diogelu yn hawdd ei ganfod. Nodwyd y dylid sicrhau bod rhestr glir ar wefan y Cyngor o'r manylion diogelu perthnasol ar gyfer pob ysgol.

Cwestiynwyd beth oedd yn cael ei wneud i helpu plant i adnabod a deall pan fo 'grooming' yn digwydd iddynt. Holwyd sut y gellid addasu'r ddarpariaeth addysgol, yn benodol yn Ysgol Friars, gan gynnwys addysg perthnasoedd a rhywioldeb, er mwyn sicrhau bod pob plentyn, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cyflwyno fel rhai sydd angen cymorth, yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau i

adnabod arwyddion a chodi pryderon yn gynnar. Mewn ymateb, nodwyd bod argymhelliad cenedlaethol yn bodoli i gryfhau'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm, a nodwyd y byddai'r Cyngor yn bwriadu symud yn gyflymach a pheidio aros am newidiadau cenedlaethol. Nodwyd bod Ysgol Friars yn datblygu'r cwricwlwm bugeiliol, a bod gwaith ar y gweill i gryfhau'r sylfeini, gan gynnwys datblygu cynhaliaeth bugeiliol a mannau cymorth o fewn yr ysgol. Pwysleisiwyd bod gwaith ar y gweill i adnabod darparwyr a rhaglenni addas i'w hargymell i ysgolion, gyda'r bwriad o adeiladu darpariaeth sy'n datblygu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddechrau'n gynnar mewn modd sy'n briodol i oedran, fel bod plant yn datblygu'r sgiliau i adnabod ymddygiad niweidiol ac i ddatgelu pryderon. Pwysleisiwyd y dylai'r ddarpariaeth fod yn gynaliadwy ac nid yn ymyrraeth untro.

Mynegodd aelod farn y dylid darparu addysg ar 'grooming' i blant o oedran iau, gan ddechrau yn dair oed.

Cwestiynwyd a ddylai unigolion a fethodd â gweithredu'n briodol, neu a fethodd â rhannu gwybodaeth yn achos Ysgol Friars, gael eu cyfeirio at Gyngor y Gweithlu Addysg. Mewn ymateb, nodwyd bod trafodaethau eisoes wedi digwydd gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Prif Weithredwr i drafod yr adroddiad yr wythnos ganlynol.

Holwyd sut oedd y gefnogaeth i Ysgol Friars yn cyfrannu at sefydlogrwydd tymor hir yn hytrach na datrysiad dros dro. Mewn ymateb, nodwyd bod y dull wedi canolbwyntio ar osod sylfeini cadarn, gan ddechrau gyda'r corff llywodraethu ac yna arweinyddiaeth yr ysgol. Nodwyd nad oedd pennaeth parhaol wedi'i benodi eto, ond bod y swydd yn cael ei hysbysebu. Nodwyd bod trafodaethau gyda'r llywodraethwyr a'r uwch dîm rheoli yn adeiladol ac yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond y byddai'n cymryd amser. Nodwyd yn benodol bod staff Ysgol Friars wedi bod drwy gyfnod eithriadol o anodd, a bod angen cydnabod eu profiad, gan nodi eu bod wedi parhau i ddarparu addysg o ansawdd i ddisgyblion drwy'r cyfan, heb lithro o ran safonau, a'u bod yn haeddu clod am hynny. Nodwyd bod y gefnogaeth yn barhaus, gyda chysylltiad rheolaidd, trafodaethau gyda chynrychiolwyr undebau, a bwriad i ymweld â'r ysgol er mwyn rhoi cyfle i bobl rannu eu barn. Nodwyd bod staff yn codi materion yn gynnar, a bod y berthynas rhwng yr awdurdod a'r ysgol yn gryf, gyda pharodrwydd i gefnogi ac ymateb i geisiadau.

Holwyd pa dystiolaeth oedd bod diogelwch a lles disgyblion wedi gwella yn fesuradwy yn Ysgol Friars. Mewn ymateb, nodwyd bod y galw am gefnogaeth wedi cynyddu a bod nifer y cyfeiriadau wedi codi, gan nodi bod hynny'n adlewyrchu lefel uwch o ymwybyddiaeth ac effaith y drafodaeth barhaus ymhlith staff a disgyblion. Nodwyd bod yr ysgol wedi penodi aelod ychwanegol i'r tîm diogelu er mwyn cynyddu capasiti, gan alluogi'r dirprwy bennaeth i ganolbwyntio ar ddiogelu ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill, gan gydnabod bod diogelu a chynhwysiant yn aml yn rhoi pwysau sylweddol ar rôl dirprwy benaethiaid mewn ysgolion. Pwysleisiwyd bod gwaith sylweddol o hyd i'w wneud i sicrhau newid diwylliant ar draws corff mawr o staff, disgyblion a'r gymuned, a bod hyn yn daith hirdymor.

Holwyd i ba raddau yr oedd modd bod yn hyderus nad oedd mwy o staff yn ymwybodol o ymddygiad amhriodol a ddigwyddodd yn Ysgol Friars ond wedi'u hanwybyddu. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y math hwn o ddamcaniaethu yn debygol o arwain at ateb pendant, gan bwysleisio bod yr achos wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ac adolygiad ymarfer plant, a bod trefniadau cyfreithiol a gweithdrefnol ar gael i ymateb i unrhyw gamymddwyn neu dystiolaeth newydd. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn dilyn y trefniadau perthnasol. Cadarnhawyd bod ymchwiliadau pellach gan yr heddlu yn parhau, ond nad oedd modd rhoi manylion am eu cwmpas na'u canlyniadau.

Holwyd am ethos yr ysgol ar hyn o bryd, ac i ba raddau y mae disgyblion yn hapus. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn gwestiwn heriol iawn, ond nodwyd, ar sail profiadau ymweliadau a thrafodaethau gyda'r corff llywodraethu a'r tîm rheoli, fod disgyblion yn ymddangos yn gwrtais, yn hyderus ac yn gadarnhaol. Ymhelaethwyd bod newid arweinyddiaeth ac arddull arwain yn anorfod ar ôl ymadawiad unigolyn o'r fath, a bod hynny'n her i'r gymuned ysgol, y llywodraethwyr a'r staff, gan gynnwys sicrhau cefnogaeth i staff i ymateb i ymddygiad heriol. Serch hynny, mynegwyd barn fod yr ysgol yn parhau i ffynnu'n academaidd ac bod y disgyblion, ar y cyfan, yn hapus er gwaethaf yr hyn a ddigwyddodd, a chydnabuwyd gwaith y staff a'r llywodraethwyr.

Cwestiynau Cyffredinol

Codwyd pryder nad oedd cydnabyddiaeth yn y Cynllun Ymateb ynghylch diffygion adroddiad Estyn i adran addysg y Cyngor, gan nodi bod yr adroddiad wedi camarwain y Pwyllgor wrth roi'r argraff bod trefniadau diogelu'r awdurdod yn gadarn pan nad oeddent. Awgrymwyd y dylid cyflwyno sylwadau i Estyn ar y mater er mwyn derbyn ymateb ffurfiol ganddynt, gan bwysleisio dibyniaeth pwyllgorau ar sicrwydd gan gyrff allanol. Mewn ymateb, cadarnhawyd y bwriad i gysylltu ag Estyn i ofyn am sylwadau ffurfiol.

Holwyd pwy benderfynodd beidio â chynnwys yr adroddiad bargyfreithiwr a gomisiynwyd gan y Cyngor ymysg yr atodiadau gerbron y Pwyllgor hwn, ar ba sail gyfreithiol. Gofynnwyd a ellid darparu'r ddogfen neu grynodeb. Mewn ymateb, nodwyd bod cyngor cyfreithiol allanol wedi'i dderbyn bod y ddogfen yn gysylltiedig â phrosesau adnoddau dynol ac, fel cyflogwr, nad oedd yn briodol ei rhannu ar hyn o bryd. Nodwyd bod yr argymhellion wedi'u rhannu, a bod cynnwys tebyg i'r hyn a drafodwyd yn cael ei adlewyrchu drwy'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant, ond bod cyhoeddi'r ddogfen lawn neu grynodeb ar hyn o bryd yn gam rhy bell. Nodwyd y byddai'r safbwynt yn cael ei adolygu wrth i bethau symud ymlaen, yn ddibynnol ar gyngor cyfreithiol.

Holwyd a oedd un uwch swyddog gyda trosolwg o'r Cynllun Ymateb, a phwy oedd y pwynt cyswllt clir i'r cyhoedd, rhieni, staff, aelodau neu'r wasg i gynnig mewnbwn neu geisio derbyn diweddariad ar gynnydd. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd hynny wedi'i nodi'n eglur yn y Cynllun Ymateb, a diolchwyd am godi'r pwynt. Nodwyd bod y Prif Weithredwr â chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol, ond bod maint y Cynllun a nifer y camau gweithredu yn gwneud goruchwyliaeth gan un person yn heriol, ac y byddai goruchwyliaeth ychwanegol yn bwysig.

Nodwyd bod y Bwrdd Ymateb yn rhan o'r trefniadau, a bod y Cadeirydd yn adrodd i'r Cabinet yn rheolaidd drwy adroddiadau cyhoeddus, gyda disgwyliad y byddai'r Cadeirydd yn tynnu sylw'n glir pe bai cynnydd yn annigonol.

Pwysleisiwyd yr angen am atebolrwydd a goruchwyliaeth glir i sicrhau bod trefniadau diogelu'r sir yn gadarn.

Nodwyd bod oedi o tua blwyddyn a mis cyn dechrau ymchwiliadau mewnol annibynnol yn dilyn arestio Neil Foden. Holwyd pa wersi oedd wedi'u dysgu o'r cyfnod hwnnw ac a fyddai'r un penderfyniad i oedi yn cael ei wneud eto. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yn debygol bod popeth wedi'i wneud yn berffaith mewn sefyllfa ddigynsail, gyda sawl peth yn digwydd ar yr un pryd, ac ymchwiliad yr heddlu yn parhau. Nodwyd bod neges glir ar y pryd i osgoi camau a allai danseilio'r broses droseddol. Nodwyd roedd disgwyliad i'r adolygiad ymarfer plant gael ei gyhoeddi o fewn chwe mis, ond bod y broses honno wedi llithro.

Cwestiynwyd pa mor sicr y gellid bod nad oedd plentyn wedi dod i niwed yn ystod y cyfnod o flwyddyn a mis cyn i wirio annibynnol gael ei gynnal o brosesau diogelu'r sir. Mewn ymateb, nodwyd bod darn o waith ynghylch cyfeiriadau yn ystod y cyfnod hwnnw wedi dod i gasgliadau ar hynny.

Cwestiynwyd sut a pryd byddai'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yma a'r rhai sydd ar waith yn cael eu cyfathrebu gyda rhieni. Mewn ymateb, nodwyd bod cyfathrebu'r gwaith yn heriol, a bod gwaith ar y gweill i symleiddio a chrynhoi'r Cynllun Ymateb gan ei fod yn rhy gymhleth i'w gyfathrebu'n effeithiol i'r cyhoedd heb golli'r manylder angenrheidiol. Nodwyd bod fersiwn hawdd i'w ddarllen o adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder wedi bod yn ddefnyddiol ac yn cael ei ddarllen yn eang, ac y byddai fersiwn hygyrch o'r Cynllun Ymateb hefyd yn gam ymarferol i wella tryloywder a dealltwriaeth.

Mynegwyd pryder ynghylch pryd y byddai mwy o wybodaeth ar gael am gasgliadau'r bargyfreithiwr a'r trefniadau mewnol, gan nodi bod oedi yn peri pryder, yn tanseilio hyder, ac yn gallu cynyddu'r gost i'r pwrs cyhoeddus. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd modd rhoi amserlen ar hyn o bryd oherwydd cymhlethdod prosesau parhaus, ac na ddylid rhoi dyddiadau nad oedd modd eu gwarantu. Nodwyd, er hynny, fod gwaith dysgu a newid eisoes yn digwydd drwy'r Cynllun Ymateb manwl, ond cydnabuwyd bod rhwystredigaeth yn parhau hyd nes y bydd modd cau'r prosesau'n ffurfiol a rhannu mwy o wybodaeth.

Codwyd pryder cyffredinol ynghylch pwysau'r gwaith ar swyddogion ac aelodau'r Cabinet, gan awgrymu y gallai gwaith ymateb mor helaeth olygu bod meysydd eraill yn llithro, gan gynnwys meysydd diogelu eraill. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y gwaith yn rhoi pwysau ar unigolion. Nodwyd bod unigolion yn dewis canolbwyntio ar y gwaith gan ei fod yn flaenoriaeth allweddol, a bod asesiadau risg yn cael eu cadw'n gyfredol i sicrhau blaenoriaethu priodol. Nodwyd y gallai hynny olygu bod rhai pethau eraill yn symud ar gyflymder arafach dros dro, gan nodi mai dyna oedd realiti'r sefyllfa.

Nododd y Cadeirydd sylwadau cyn cloi'r drafodaeth gan bwysleisio bod y Cynllun Ymateb yn dangos yn glir bod Cyngor Gwynedd wedi dysgu iaith yr Adolygiad Ymarfer Plant, ond mai'r her allweddol bellach yw sicrhau bod y dysgu yn cael ei wreiddio drwy atebolrwydd clir, her weithredol a dysgu parhaus er mwyn sicrhau newid gwirioneddol mewn ymarfer a diwylliant, nid ar bapur yn unig. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud penderfyniadau'n wahanol pan fo risg yn anodd, sicrhau disgwyliad pendant i staff a Chynghorwyr herio pryderon, a sicrhau bod hynny'n cael ei gefnogi yn weithredol gan arweinwyr ar bob lefel. Nodwyd bod angen system sy'n gwneud atebolrwydd yn weladwy, sy'n croesawu her broffesiynol ac annibynnol, ac sy'n trin methiannau fel cyfleoedd i ddysgu a gwella yn hytrach na'u cuddio. Pwysleisiwyd bod atgyfnerthu a mesur yr ymddygiadau hyn dros amser yn hanfodol er mwyn dangos bod gwersi'r Adolygiad Ymarfer Plant wedi'u mewnoli yn wirioneddol, gan arwain at well darpariaeth i ddiogelu plant a newid parhaol yn niwylliant a phenderfyniadau'r sefydliad o ddydd i ddydd.

PENDERFYNWYD

1. **Derbyn a nodi'r adroddiad a'r rhaglen waith gan ofyn am ddiweddariad mewn 6 mis.**
2. **Argymell i'r Cabinet:**

<u>Ffrwd Gwaith 1: Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr</u>

- **Dylid sefydlu trefniadau mesuradwy sy'n dangos yn glir sut mae llais y plentyn a phrofiad dioddefwyr yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau a chanlyniadau;**
- **Bod angen sicrhau cefnogaeth hirdymor i ddioddefwyr heb beri rhagor o drawma;**
- **Bod angen rhoi sylw priodol i blant sy'n wynebu heriau ac osgoi rhagfarn ddiarwybod;**
- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hawdd i'w ddarllen ac yn hygyrch i blant.**

<u>Ffrwd Gwaith 2: Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant</u>

- **Dylai'r trefniadau ar gyfer rheoli honiadau a phryderon sicrhau bod unrhyw amheuaeth am addasrwydd oedolion i weithio gyda phlant ac oedolion bregus yn cael ei hasesu'n gynnar, ei uwch gyfeirio yn briodol, a'i herio'n annibynnol, beth bynnag yw statws ymarferydd;**
- **Bod angen trefniadau diogelu clir ar gyfer unigolion sy'n codi pryderon;**
- **Bod angen edrych ar ddigwyddiadau sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol efo plant;**
- **Dylid casglu tystiolaeth i ddangos fod newid yn digwydd ac i alluogi craffu yn y dyfodol;**
- **Dylid ystyried ymestyn cyfnod amser yr awdit o honiadau Rhan 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ymhellach na dwy flynedd;**
- **Dylid gwirio bod mecanwaith mewn lle i sicrhau, os oes angen, y symudir o brosesau adnoddau dynol i weithdrefnau Rhan 5.**

<u>Ffrwd Gwaith 3: Hyfforddiant a Pholisïau</u>

- **Dylai polisïau a hyfforddiant fod yn drylwyr a chael eu hadolygu i gefnogi barn broffesiynol a her;**
- **Bod angen tystiolaethu bod hyfforddiant yn newid ymddygiad a phenderfyniadau yn ymarferol, nid mater o bresenoldeb yn unig;**
- **Dylai cofnodion diogelu cael eu hadolygu a'u goruchwylio'n rheolaidd gan swyddog penodol er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r gofynion;**
- **Dylai '*grooming*' gael ei adnabod yn benodol yn nhrefniadau hyfforddiant a chael sylw amserol.**

<u>Ffrwd Gwaith 4: Llywodraethiant Ysgolion</u>

- **Dylai trefniadau llywodraethu ysgolion gael eu cryfhau i adnabod patrymau risg dros amser, sicrhau llwybrau uwch gyfeirio clir, a chynnwys elfen o her neu sicrwydd annibynnol;**
- **Dylid cynnig cefnogaeth addas i arfogi llywodraethwyr i herio'n briodol ac adnabod patrymau;**
- **Bod angen ystyried yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Cadeiryddion a Llywodraethwyr Dynodedig Diogelu.**

<u>Ffrwd Gwaith 5: Grym Rhesymol</u>

- **Dylid sicrhau bod staff yn deall pryd mae defnyddio grym rhesymol yn briodol, a'u bod yn teimlo'n hyderus ac wedi'u cefnogi i weithredu i ddiogelu plant;**
- **Dylid sicrhau bod adolygiadau'n canolbwyntio ar ddysgu gwersi yn hytrach na beio.**

<u>Ffrwd Gwaith 6: Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Diogelu</u>

- **Dylai cynllunio ac ymateb i argyfwng gael ei drin fel proses fyw sy'n rhan o'r broses ddiogelu a dylid ei brofi yn rheolaidd;**
- **Bod angen eglurder o ran rolau;**
- **Dylid sicrhau cyfathrebu effeithiol efo staff;**
- **Bod angen adolygu trefniadau yn barhaus er mwyn sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o Ysgol Friars yn parhau'n weithredol dros amser.**

<u>Ffrwd Gwaith 7: Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars</u>

- **Dylai cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars gael ei ddefnyddio fel sail i ddysgu ar lefel system gyfan, gan brofi bod sefydlogrwydd wedi arwain at welliant cynaliadwy mewn diogelu a newid diwylliannol ar draws ysgolion;**
- **Dylid gofyn i ysgolion:**
  - **gynnwys gwybodaeth am eu trefniadau diogelu yn amlwg ar eu gwefannau;**
  - **ystyried addasu cynnwys eu cwricwlwm addysg cyd-berthynas i adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd yn Ysgol Friars.**

<u>Cyffredinol</u>

- **Bod angen sicrhau bod trosolwg o'r ffrydiau gwaith yn eu cyfanrwydd;**

- **Ystyried rhoi trefniadau mewn lle i sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn ddiymdroi ac yn gwirio ei systemau pan mae pryder sylweddol a all fod yn systemig ei natur yn dod i law;**
- **Bod angen rhoi sylw i drefniadau cyfathrebu gwybodaeth efo rhieni a theuluoedd er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol;**
- **Dylid ystyried rhyddhau cymaint o wybodaeth a phosib er mwyn sicrhau tryloywder;**
- **Ni ddylid dyfynnu na chyfeirio at Adroddiad Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor yn 2023 yn y Cynllun Ymateb.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 3:10 yp

_____

Cadeirydd

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
12/02/26

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, Geraint Parry, John Pughe Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gwynfor Owen a Sian Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau Uchelgais Gogledd Cymru), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf, Uchelgais Gogledd Cymru) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 - Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant) a Sian Jones (Rheolwr Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts a Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

5. BUDD Y CYNLLUN TWF I WYNEDD

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad gan nodi, yn dilyn pryderon a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin wrth graffu ar adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, y bwriedid rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o waith y Cynllun Twf a'r budd a ddeilliai ohono i Wynedd. Eglurwyd bod y Cynllun Twf yn

fuddsoddiad rhanbarthol sylweddol a luniwyd er mwyn cryfhau economi Gogledd Cymru, creu swyddi, datblygu sgiliau a chefnogi busnesau.

Nodwyd bod y rhaglen yn cynnwys nifer o brosiectau ar draws meysydd megis arloesi, ynni, digidol, twristiaeth a datblygu'r gweithlu. Ymhelaethwyd bod yr adroddiad gerbron yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gyda'r prosiectau perthnasol ynghyd ag uchafbwyntiau chwarter dau, sef y cyfnod rhwng Mehefin a Medi 2025. Cadarnhawyd y byddai diweddariad yn cael ei roi ynghylch y cynlluniau ar gyfer datblygu safle Trawsfynydd.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y cyfarfod hwn yn amserol gan fod y Cabinet wedi cefnogi cynllun busnes amlinellol ar gyfer sefydlu parc gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd a datblygu canolfan arloesedd, sgiliau a busnes yno. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried yr wybodaeth, craffu ar y cynnydd a'r trefniadau a chynnig sylwadau neu argymhellion er mwyn helpu i sicrhau bod y Cynllun Twf yn cyflawni'r manteision mwyaf posibl i gymunedau a phobl Gwynedd.

Trosglwyddwyd i Bennaeth Gweithrediadau Uchelgais Gogledd Cymru, gan ddiolch am y cyfle i gyflwyno gwaith y Cynllun Twf. Rhoddwyd cyflwyniad ar brif uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhai o'r datblygiadau diweddaraf ers rhannu adroddiad chwarter dau.

Nodwyd mai nod Uchelgais Gogledd Cymru yw datblygu economi'r rhanbarth mewn modd cynaliadwy er mwyn creu cyfleoedd i bobl, cymunedau a busnesau. Eglurwyd mai rhaglen fuddsoddi ranbarthol yw'r Cynllun Twf, gyda £240 miliwn o gyllid gan y Llywodraeth a tharged o gyflawni dros £1 biliwn o fuddsoddiad yn y rhanbarth erbyn 2036 ynghyd â chreu hyd at 4,200 o swyddi newydd. Nodwyd bod y Cynllun Twf yn cael ei weithredu ar draws pum rhaglen, sef arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel, cysylltedd digidol, bwyd-amaeth a thwristiaeth, tir ac eiddo ac ynni carbon isel.

Rhoddwyd trosolwg o'r prif uchafbwyntiau hyd yma, sef:

- Trosglwyddwyd y Cynllun Twf a'r tîm rheoli portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 1 Ebrill 2025.
- Bod rhestr wrth gefn wedi ei chreu ar gyfer 17 o brosiectau newydd ym mis Mai, ac bod y Gronfa Ynni Glân wedi ei lansio ym mis Gorffennaf.
- Bod Cytundeb Cyd-fenter Parc Bryn Cegin gyda Llywodraeth Cymru wedi ei gwblhau ym mis Awst.
- Bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd wedi cymeradwyo achosion busnes ar gyfer Prosiect Prince, Prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu Busnes Cymdeithas 5.0, Safleoedd Gogledd Môn a Phorthladd Rhydd yng nghyfarfod mis Hydref.
- Ym mis Tachwedd, adeilad CanfodAu wedi ei agor yn swyddogol ynghyd â lansio'r prosiect Academi Croeso.
- Bod yr Is-bwyllgor wedi cymeradwyo achosion busnes ar gyfer Porthladd Mostyn, Ysgol Fusnes Albert Gubay a Phrosiect Gwella Rheilffyrdd Padeswood yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
- Bod dau Ymgynghorydd Anweithredol wedi eu penodi i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mis Ionawr.

Nodwyd bod cynnydd da wedi ei wneud dros y flwyddyn hyd yma. Cyfeiriwyd at y sefyllfa ddiweddaraf ar ddiwedd chwarter tri, gan nodi fod adroddiad chwarter tri newydd gael ei gymeradwyo gan yr is-bwyllgor. Eglurwyd bod chwe phrosiect bellach yn weithredol, deg arall wedi eu cymeradwyo ond ddim eto yn weithredol, a saith yn datblygu achosion busnes, gyda chwech o'r rhain eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol gan yr is-bwyllgor. Nodwyd bod un prosiect yn parhau dan adolygiad, sef yr

hwb hydrogen yng Nghaergybi, a bod pymtheg prosiect ar y rhestr wrth gefn yn cystadlu am oddeutu £62 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu hyd yma.

O ran y buddion a welwyd hyd yma, nodwyd bod 49 o swyddi newydd wedi eu creu ynghyd â 49 o swyddi adeiladu ychwanegol. Cydnabuwyd bod y niferoedd hyn yn isel, ond eglurwyd bod y Cynllun Twf wedi wynebu oedi a heriau sylweddol ar ei ddechrau, gan gynnwys Covid, cynnydd mewn costau, problemau cynllunio a newidiadau ym mholisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a oedd wedi cael effaith ar y portffolio gwreiddiol. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod cynnydd sylweddol wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y prosiectau a gymeradwywyd, a byddai hynny dros y blynyddoedd nesaf yn trosi i gynnydd yn nifer y swyddi a grëir. Nodwyd ymhellach, erbyn diwedd chwarter tri, y byddai ychydig dros £29 miliwn wedi ei fuddsoddi yn y rhanbarth, gyda £26 miliwn o hynny yn fuddsoddiad uniongyrchol y Cynllun Twf.

Gan ymateb i ddiddordeb penodol y Pwyllgor mewn buddion lleol i Wynedd, eglurwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried pob prosiect o fewn y Cynllun Twf fel prosiect rhanbarthol sy'n cyfrannu at y weledigaeth ranbarthol a'r targedau cyffredinol. Cydnabuwyd, fodd bynnag, ddealltwriaeth lawn o ddiddordeb yr Aelodau mewn buddion lleol. Nodwyd bod prosiectau'r Cynllun Twf yn creu buddion lleol mewn pedair prif ffordd, sef drwy fuddsoddiad uniongyrchol, drwy greu swyddi lleol a rhanbarthol, drwy gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, a thrwy fuddion cymdeithasol a buddion cymunedol a sicrheir drwy'r prosiectau ac yn arbennig drwy'r broses gaffael.

Rhoddwyd trosolwg o'r 7 prosiect yng Ngwynedd a oedd naill ai wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol neu gymeradwyaeth derfynol. Nodwyd bod y rhain yn cynnwys:

- Canolfan Prosesu Signalau Digidol (£3 miliwn) a'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (£2 miliwn) ym Mhrifysgol Bangor,
- Prosiect Ysgol Fusnes Albert Gubay (£7.3 miliwn),
- Prosiect Anturiaethau Cyfrifol (£5.6 miliwn),
- Academi Croeso Cymru (£2 filiwn),
- Hwb Economi Wledig Glynllifon (£11.8 miliwn) gyda Grŵp Llandrillo Menai, a
- Prosiect Parc Bryn Cegin (£5.9 miliwn).

Eglurwyd bod y prosiectau hyn yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £38.5 miliwn o arian y Cynllun Twf yng Ngwynedd, gyda chyfanswm buddsoddiad o bron i £72 miliwn wrth gynnwys ffynonellau cyllidol eraill. Nodwyd bod £5.5 miliwn o'r arian hwnnw eisoes wedi ei fuddsoddi yn y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol, y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol ac ym Mhortmeirion drwy brosiect Academi Croeso Cymru. Nodwyd bod y prosiectau hyn yn ceisio creu 700 o swyddi dros y deng mlynedd nesaf yn y rhanbarth, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn debygol o fod yng Ngwynedd.

Eglurwyd bod pedwar prosiect neu gronfa ranbarthol arall yn y meysydd ynni a digidol, naill ai'n fyw erbyn hyn neu ar fin mynd yn fyw, yn ceisio buddsoddi dros £51 miliwn ar draws y rhanbarth, ac y byddid yn gweithio gyda busnesau a chymunedau yng Ngwynedd er mwyn ceisio sicrhau buddsoddiad fel rhan o'r cronfeydd yma.

Nodwyd bod pedwar prosiect o fewn Gwynedd ar y rhestr wrth gefn yn cystadlu am y cyllid sydd heb ei glustnodi hyd yma, sef gwedd dau Prosiect Parc Bryn Cegin gyda Llywodraeth Cymru, Canolfan Arloesedd, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd, Hwb Iechyd Bangor a phrosiect 'Quarry Battery'.

Cadarnhawyd y gallai rhai o'r prosiectau ar y rhestr wrth gefn, megis cynllun Trawsfynydd, fod yn destun adroddiad ar wahân i'w graffu'n fanylach maes o law wrth i'r manylion aeddfedu a symud drwy brosesau Uchelgais Gogledd Cymru.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd ynghylch y trefniadau ar gyfer blaenoriaethu prosiectau a pha broses oedd mewn lle i benderfynu pa brosiectau oedd yn cael blaenoriaeth dros eraill. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod nifer o brosesau wedi eu cynnal dros y blynyddoedd i benodi prosiectau ar gyfer y Cynllun Twf, gan gynnwys proses yn gynharach yn y flwyddyn i benodi prosiectau ar y rhestr wrth gefn.
- Bod proses drylwyr o ddadansoddi gwybodaeth am brosiectau yn cael ei chynnal.
- Bod y tri phrif ffactor oedd yn sail i'r penderfyniadau yn cynnwys cyfraniad y prosiectau tuag at y targedau o ran creu swyddi a sicrhau buddsoddiad i'r rhanbarth, y buddion ehangach y gallai'r prosiectau eu cynnig i'r rhanbarth, a lefel aeddfedrwydd a pharodrwydd y prosiectau i symud ymlaen i gyflawni.
- Bod y ffactor olaf hwn yn arbennig o bwysig o ystyried yr oedi a fu yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Twf a'r heriau a wynebwyd gyda rhai prosiectau.
- Mai 15 mlynedd oedd y cyfnod gweithredu yn wreiddiol, ond mai 10 mlynedd oedd ar gael bellach i gyflawni'r prosiectau a sicrhau buddion y Cynllun Twf.

Cwestiynwyd am weledigaeth hirdymor y Cynllun Twf. Mewn ymateb, nodwyd bod gweledigaeth glir i dyfu'r economi mewn modd cynaliadwy a chreu cyfleoedd ar draws y rhanbarth a'r sectorau. Pwysleisiwyd mai un ffynhonnell ariannu yn unig oedd y Cynllun Twf o fewn system ariannu fwy cymhleth erbyn hyn, ac y byddai'n bwysig sicrhau bod ffrydiau ariannu amrywiol yn cydweithio yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd. Pwysleisiwyd bod cyfle sylweddol yn bodoli yng Ngogledd Cymru dros y blynyddoedd nesaf i fanteisio ar y Cynllun Twf, y prosiect Porthladd Rhydd, y Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam, y Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial, a datblygiadau posibl yn Wylfa. Nodwyd mai rôl bwysig Uchelgais Gogledd Cymru fel corff rhanbarthol oedd sicrhau bod y buddsoddiadau hyn yn ychwanegu gwerth at ei gilydd ac yn cyflawni ar draws y rhanbarth.

Cwestiynwyd faint o arian a gyfrannwyd gan y Cyngor tuag at wireddu'r Cynllun Twf. Mewn ymateb, nododd Pennaeth Economi a Chymuned nad oedd ffigyrau penodol wrth law, ond y gellid eu darparu yn dilyn y cyfarfod. Eglurwyd bod pob cyngor a phartner o fewn Uchelgais Gogledd Cymru, gan gynnwys y prifysgolion a'r colegau, yn cyfrannu'n flynyddol at gostau rhedeg y rhaglen, sef yr adnoddau a'r staff o fewn Uchelgais Gogledd Cymru sy'n gweithio ar y Cynllun Twf. Ymhelaethwyd bod partneriaid hefyd yn cyfrannu tuag at gostau benthyca yn y dyfodol, gan y byddai angen benthyca yn y tymor byr er mwyn galluogi prosiectau i symud ymlaen cyn i gyllid y ddwy Lywodraeth lifo i mewn dros y cyfnod.

Nododd Arweinydd y Cyngor fod tanwariant wedi ei nodi mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mynegwyd siom ynghylch hynny, yn enwedig ar adeg pan oedd cynghorau ac adrannau eraill yn wynebu gorwariant a phwysau sylweddol ar gyllidebau llywodraeth leol. Mynegwyd siom bersonol, ac ar ran Cynghorwyr Gwynedd ac aelodau'r Pwyllgor, fod cynllun Trawsfynydd wedi llithro i'r rhestr wrth gefn. Mynegwyd y farn y dylai'r prosiect hwnnw fod yn flaenoriaeth i Wynedd, yn benodol i Dde Meirionnydd.

Mewn ymateb, nodwyd mai dim ond cyllid cyfalaf oedd ar gael drwy'r Cynllun Twf, ac nad oedd unrhyw arian ar gael ar gyfer gweithredu a rhedeg y cynlluniau. Ymhelaethwyd mai dyna pam yr oedd angen i'r partneriaid fuddsoddi i sefydlu'r swyddfa rhaglen yn y lle cyntaf er mwyn gallu datblygu'r cynlluniau. Cadarnhawyd y byddai manylion pellach yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor maes o law ynglŷn a Trawsfynydd.

Cyflwynwyd sylwadau gan aelod yn seiliedig ar brofiad o fod yn rhan o'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, gan nodi mai partneriaeth rhwng y chwe sir, y colegau a'r sector preifat oedd y Bwrdd, a'i fod wedi ei sefydlu flynyddoedd yn ôl i fanteisio ar gynllun Llywodraeth y DU gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru wedi hynny. Nodwyd bod taith hir a heriol wedi bod i'r Cynllun Twf, a bod cynnal partneriaethau o'r fath yn her sylweddol, yn enwedig o gofio'r angen i gynnal partneriaeth rhwng y ddwy Lywodraeth.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y ddwy Lywodraeth wedi cyflwyno cynlluniau oedd yn croesdorri â chynlluniau'r Bwrdd Uchelgais, megis y Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam a'r datblygiadau yn Wylfa, nad oeddent yn bodoli ar ddechrau'r daith. Mynegwyd y farn fod hyn yn drysu'r darlun ac yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd sefydlu ei hun fel corff sydd yn gallu gweithredu er lles pob sir yng Ngogledd Cymru.

Nodwyd mai mater i Gynghorwyr a gwleidyddion oedd ystyried y weledigaeth i'r dyfodol, yn enwedig o ystyried etholiadau'r Senedd. Cyfeiriwyd at drafodaethau ynghylch creu corff datblygu economaidd tebyg i'r cyn Awdurdod Datblygu Cymru ar draws Gogledd Cymru a'r posibilrwydd o sefydlu rhyw fath o gorff i hybu'r economi wledig. Mynegwyd y farn ei bod yn bwysig ystyried pa negeseuon y dylid eu cyfleu i Lywodraeth newydd yng Nghaerdydd, pwy bynnag fyddai mewn grym.

Nodwyd bod yr ymyriadau allanol hyn yn peri'r her fwyaf i waith y Bwrdd Uchelgais, a bod tensiwn naturiol yn bodoli gan fod pawb yn ceisio cael y gorau i'w sir eu hunain. Mynegwyd y farn fod rhai siroedd, oherwydd yr ymyriadau allanol, wedi cael cyfran dda o'r buddion hyd yma, ac y byddai angen i Wynedd fod yn barod i sicrhau'r gorau o'r bartneriaeth. Nodwyd mai partneriaeth bwysig oedd hon, a mynegwyd y farn y dylai partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru fod â chyllideb gan y ddwy Lywodraeth heb unrhyw ffrwyn arni, fel y gallai wneud penderfyniadau ei hun dros y rhanbarth gan ddatganoli grym i'r rhanbarth.

Mynegwyd siom gan aelod ynghylch yr amser hir a gymerwyd i'r prosiectau ddod yn weithredol a dwyn ffrwyth. Cyfeiriwyd yn benodol at gynlluniau ar gyfer Gwynedd, gan nodi nad oedd dim o gwbl i dde Gwynedd. Gofynnwyd am roi sylw teilwng i Drawsfynydd. Nodwyd siom fod y cynllun ar y rhestr wrth gefn a phwysleisiwyd ei bwysigrwydd i sicrhau buddion i dde Gwynedd. Holwyd ynghylch y nifer isel iawn o swyddi a grëwyd hyd yma, gan ofyn faint o'r rheini oedd wedi eu creu o fewn Uchelgais Gogledd Cymru a'r tîm rheoli ei hun. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y siom ynghylch cyflymder datblygu rhai prosiectau yn cael ei chydnabod.
- Bod teimlad fod y sefyllfa wedi troi cornel yn ystod y 12 mis diwethaf ac y gobeithir y byddai'r darlun yn fwy cadarnhaol y tro nesaf y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno.
- O ran y 49 swydd a grëwyd, dim ond saith o'r rheini oedd yn swyddi o fewn Uchelgais Gogledd Cymru, gan mai dim ond swyddi parhaol a oedd yn cael eu cynnwys yn y ffigyrau swyddogol.

- Bod mwy o swyddi o fewn Uchelgais Gogledd Cymru, ond bod nifer o'r rheini yn swyddi dros dro gan nad oedd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyllideb ganolog gan Lywodraeth Cymru.

Nododd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi codi materion yn ymwneud â swyddi yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a'i fod wedi derbyn sylw. Mynegwyd y farn bod angen mireinio'r ffigwr swyddi ymhellach, gan ofyn a oeddent yn swyddi llawn amser, yn swyddi parhaol, ac ar ba lefel cyflog yr oeddent. Nodwyd, o ran Trawsfynydd, fod cefnogaeth i'r gwaith yno yn werthfawr iawn, a mynegwyd bod penderfyniad y Cabinet yn gam cadarnhaol. Mynegwyd y farn fod buddsoddiad y Cyngor yn y fan honno yn arloesol ac yn gyfle i Wynedd gymryd y camau i'w dwylo ei hun yn hytrach nag aros i Lywodraeth y DU benderfynu ar faterion dros y rhanbarth. Nodwyd bod cefnogaeth y Pwyllgor yn gymorth i dynnu'r ffocws oddi ar goridor yr A55 ac i sicrhau buddion i dde Gwynedd.

Mynegwyd gwerthfawrogiad am y sylwadau a wnaed gan Arweinydd y Cyngor ynghylch ymdrechion i ymladd dros Wynedd, ond nodwyd anfodlonrwydd gyda'r ymatebion a roddwyd ynghylch blaenoriaethu, gan bwysleisio nad bai personol oedd hyn ond yn hytrach yn adlewyrchiad o'r cylch gorchwyl yr oedd y Llywodraeth wedi ei osod. Tynnwyd sylw at y ffaith fod blaenoriaethu prosiectau ar sail creu swyddi yn golygu bod prosiectau yn ne'r sir o dan anfantais, gan na fyddai byth yn realistig iddynt greu cannoedd neu filoedd o swyddi.

Mynegwyd y farn y gallai 10 neu 15 swydd yn wardiau gwledig fel Harlech, Llanbedr neu ardaloedd eraill fod yr un mor werthfawr i'r economi leol ac yn gymesur a miloedd o swyddi yn Wrecsam. Nodwyd felly ei bod yn anodd gweld budd uniongyrchol i'r ardaloedd hynny o glywed am fuddsoddiadau mawr ar hyd coridor yr A55 neu yn Sir y Fflint a Wrecsam. Cyfeiriwyd at fuddsoddiadau sylweddol eraill gan Lywodraeth Cymru mewn system drafnidiaeth well yn y dwyrain, a mynegwyd y farn y byddai'r un math o ystyriaeth yn ddyledus i linellau trafnidiaeth rhwng Wrecsam, Harlech a Thywyn.

Mynegwyd siom fod Trawsfynydd bellach ar y rhestr wrth gefn. Nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at fuddsoddiad ym Meirionnydd heblaw Trawsfynydd, a chrybwyllwyd maes awyr Llanbedr fel safle allweddol i fuddsoddi yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at y buddsoddiadau sylweddol a wnaed eisoes gan y Llywodraeth yn Llanbedr, a nodwyd tristwch nad oedd Uchelgais Gogledd Cymru wedi amlygu pwysigrwydd ffordd osgoi Llanbedr i economi'r rhanbarth.

Mynegwyd y farn fod y rhanbarth mor fawr fel nad oedd yr ymadrodd "beth sydd orau i'r rhanbarth" yn golygu llawer i ardaloedd fel de Meirionnydd, gan mai'r ardal honno oedd yn colli pobl ifanc mewn cannoedd i chwilio am waith mewn mannau eraill. Nodwyd bod hyn yn arwain at fewnlifiad pobl hŷn a phwysau cynyddol ar wasanaethau, a phwysleisiwyd felly bod buddsoddiad yn Ne Meirionnydd ac ardaloedd gwledig Gwynedd yn hollbwysig. Mynegwyd y farn mai swyddi yn y dwyrain neu ym Mangor oedd yn gwasanaethu ardaloedd lle'r oedd poblogaeth eisoes yn byw, ond mai'r angen mwyaf oedd am swyddi yn ardaloedd gwledig y rhanbarth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod heriau sylweddol wedi bod wrth ddod â phrosiectau ymlaen mewn ardaloedd mwy gwledig o gymharu ag ardaloedd mwy diwydiannol, yn enwedig o ran cyrraedd targedau ynghylch creu swyddi a maint y buddsoddiad.
- Bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r ddwy Lywodraeth er mwyn gweld a oedd modd sicrhau mwy o hyblygrwydd o fewn y rhanbarth i fuddsoddi mewn prosiectau oedd yn edrych ar dwf cynhwysol.

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn edrych fewn i i gomisiynu darn o waith i greu tystiolaeth i danlinellu'r union bwynt a wnaed am werth creu llai o swyddi mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol a diwydiannol.
- Bod un ffordd o geisio symleiddio'r broses a'i wneud yn haws i gymunedau a busnesau ledled Gogledd Cymru elwa o arian y Cynllun Twf drwy'r cronfeydd digidol ac ynni, heb orfod cyrraedd yr un lefel o dargedau o ran buddsoddiad a swyddi.

Ynghylch Trawsfynydd, eglurwyd bod newid sylweddol wedi bod o ran yr hyn oedd yn cael ei gynnig yno ers sefydlu'r Cynllun Twf yn y lle cyntaf, a mai hynny oedd y prif reswm dros yr oedi. Pwysleisiwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gefnogol iawn i'r cynnig a ddatblygwyd gan Wynedd ar gyfer y ganolfan yn Nhrawsfynydd, a bod y safle'n un strategol o bwys nid yn unig i Wynedd ond i Ogledd Cymru gyfan. Nodwyd bod safle Trawsfynydd yn gyfle i newid y naratif o fod yn safle oedd yn dadgomisiynu ac yn cau i fod yn safle twf, gyda'r potensial i ddenu nifer o fuddsoddiadau i'r dyfodol.

Croesawyd y ffaith fod Cabinet Gwynedd wedi cymeradwyo achos busnes Trawsfynydd. Nodwyd bod proses bellach i'w dilyn i asesu a oedd yr achos busnes yn sefyll i fyny, ac os felly y câi ei gyflwyno i'r is-bwyllgor am benderfyniad. O ran materion trafnidiaeth a ffordd osgoi Llanbedr, nodwyd bod swyddogion yn edrych ar y materion hyn ac yn trafod gyda'r Llywodraeth. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig fod y pwyntiau hyn yn cael eu codi'n rheolaidd gan Arweinydd y Cyngor yng nghyfarfodydd y pwyllgorau a gyda swyddogion y Llywodraeth.

Ynglŷn â thrafnidiaeth, cyfeiriwyd at y ffaith fod y Cynllun Twf wedi cyfrannu at gynllun trafnidiaeth yn ardal Sir y Fflint. Gofynnwyd a ellid rhoi pwysau ar y Cynllun Twf i gyfrannu at ffordd osgoi Llanbedr. Nodwyd bod Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, wedi nodi y byddai'r ffordd osgoi yn costio tua £55 miliwn ac ei fod yn disgwyl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrannu'r swm hwnnw. Mynegwyd y farn y byddai hynny'n anodd iawn, ond y gallai denu cyllid o wahanol ffynonellau helpu i gyrraedd y cyfanswm, a byddai cyfraniad o'r Cynllun Twf yn gymorth sylweddol.

Mewn ymateb, nododd Arweinydd y Cyngor bod y pwyntiau hynny'n cael eu gwneud yn gyson yng nghyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais. Tynnwyd sylw at y ffaith fod llinell Reilffordd y Cambrian, yn ogystal â'r brif reilffordd ar hyd yr arfordir, yn hanfodol i'r ardal ac i ogledd Cymru. Mynegwyd cefnogaeth i'r pwyntiau ynghylch Llanbedr, a nodwyd ei bod eisoes wedi gwahodd y pum arweinydd cyngor arall i ymweld â Llanbedr. Pwysleisiwyd nad oedd dim yn gwneud yr achos yn gryfach na gweld y sefyllfa yn lleol, a'r gwahaniaeth economaidd y gallai'r cynllun ei wneud. Cadarnhawyd bod gwahoddiad eisoes wedi ei ymestyn i'r Bwrdd Uchelgais a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ymweld â Llanbedr.

Cwestiynwyd faint o arian byddai Gwynedd yn ei dderbyn o holl gyllid Gogledd Cymru. Cwestiynwyd ymhellach faint o sylw a roddid i'r ardaloedd tlotach, megis Blaenau Ffestiniog, wrth wneud penderfyniadau. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr ardal honno ymhlith y tair ardal dlotaf yng Ngogledd Cymru, a gofynnwyd pa fath o fuddsoddiad oedd yn cael ei roi i'r ardal a pham nad oedd mwy o ystyriaeth wedi ei rhoi i'r sefyllfa yno.

Mynegwyd y farn fod Blaenau Ffestiniog ac ardaloedd eraill yng Ngwynedd yn cael eu taro'n galed gan ddiffyg buddsoddiad, a bod diffyg gwaith yn golygu bod pobl ifanc yn gadael ac felly bod yr iaith Gymraeg yn dirywio yn sgil hynny. Mynegwyd y farn, os oedd targedau'r Cynllun Twf yn ymwneud â gwella'r economi i bobl, y dylid rhoi mwy o

bwyslais i'r ardaloedd tlotaf. Pwysleisiwyd bod diffyg tegwch o fewn blaenoriaethau presennol y Cynllun Twf. Nodwyd ymhellach nad oedd amserlen glir yn y rhaglen, ond yn hytrach cyfeiriadau at chwarteri yn unig. Mynegwyd y farn bod angen cynllun llawn er mwyn rheoli prosiectau yn gywir ac osgoi i brosiectau oedi fel y gwelwyd nawr. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Cytunwyd bod buddsoddi mewn ardaloedd tlotach a mwy difreintiedig yn hollbwysig.
- Bod y ffaith fod prosiect yn dod o ardal fwy difreintiedig neu yn agos i ardal o'r fath yn un o'r ffactorau ehangach a fyddai'n cael eu hystyried wrth asesu budd ac effaith y prosiect.
- Bod rôl Uchelgais Gogledd Cymru yn ymwneud ag ariannu prosiectau nid datblygu prosiectau o'r cychwyn.
- Bod y drws bob amser yn agored i unrhyw brosiectau o unrhyw ardal o Ogledd Cymru, a byddai Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio i weld a ellid eu hariannu drwy'r Cynllun Twf neu, os na ellid, helpu i ddarganfod ffynonellau ariannu eraill oedd ar gael.
- Bod heriau i ardaloedd o'r fath ddod â phrosiectau ymlaen a fyddai'n ffitio o fewn y fframwaith a osodwyd ar gyfer y Cynllun Twf.
- Bod rhaid i'r is-bwyllgor a'r swyddogion weithredu o fewn y fframwaith a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan mai eu cyllid hwy sy'n cael ei fuddsoddi.

Cyfeiriwyd at Hwb Economi Wledig Glynllifon a'r cynllun llaeth defaid, gan ofyn a oedd hwnnw bellach wedi ei gwblhau ac, os felly, a fyddai modd cael diweddariad ar ei fudd i'r gymuned mewn cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Codwyd hefyd gwestiwn ynghylch perfformiad carbon isel. Cyfeiriwyd at gyfarfod agored diweddar gyda'r Athro Prysor Williams o Brifysgol Bangor, a mynegwyd y farn y gallai Gwynedd fod wedi colli cyfle drwy beidio ag edrych yn ehangach ar y maes hwn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr elfen llaethdy defaid wedi ei chymeradwyo o fewn prosiect Glynllifon.
- Bod elfennau pellach yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys llaethdy gwartheg.
- Bod cwmni o Ogledd Cymru, OBR, wedi ei benodi i wneud y gwaith llaethdy defaid.
- Bod digwyddiad cychwynnol i lansio'r gwaith wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol.
- Bod modd teilwra adroddiad i'r Pwyllgor maes o law i roi diweddariad llawn ar y llaethdy a'r hyn y byddai hynny'n ei olygu i'r diwydiant.
- Bod hwn yn ddatblygiad cyffrous i Ogledd Cymru, ac yn rhywbeth newydd i'r sector amaethyddol.
- Bod y nod yn cynnwys rhannu gwybodaeth gyda ffermwyr yng Ngogledd Cymru am syniadau amrywiol i arallgyfeirio, gan ddarparu opsiynau newydd iddynt ar gyfer ffynonellau incwm amgen mewn cyfnod heriol.

Cwestiynwyd a oedd data neu ffigyrau ar gael ynghylch sefyllfa Gwynedd ynglŷn â'r buddion mae'r Cynllun Twf yn eu dod i'r ardal, ac os oedd targedau i'w gwella er mwyn gwireddu'r uchelgais i'r sir. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd targedau wedi eu gosod ar gyfer cynghorau unigol gan fod targedau'r Cynllun Twf ar sail ranbarthol. Pwysleisiwyd mai rhaglen fuddsoddi ranbarthol oedd y Cynllun Twf, a dyna oedd yn cael ei hadrodd yn ôl i'r is-bwyllgor a'r ddwy Lywodraeth.

Ymhelaethwyd bod 24 o'r 49 swydd a grëwyd hyd yma wedi eu creu yng Ngwynedd, gan fod y ddau brosiect cyntaf i gael eu gweithredu o fewn y sir. Eglurwyd bod lefel y dadansoddiad oedd ar gael i'w rannu ar hyn o bryd yn gyfyngedig oherwydd lle'r oedd

y prosiectau arni yn eu datblygiad. Nodwyd bod chwe phrosiect erbyn hyn yn cael eu gweithredu, gyda'r mwyafrif ohonynt wrthi'n adeiladu'r cyfleusterau, ac y byddent yn dechrau creu swyddi unwaith y byddent yn weithredol. Pwysleisiwyd y byddai'r data a'r wybodaeth ar gael dros y blynyddoedd nesaf yn cynyddu ac yn caniatáu dadansoddiad mwy manwl, rhywbeth yr oedd sylw parhaus yn cael ei roi iddo ar lefel yr is-bwyllgor.

Cydnabuwyd gan Arweinydd y Cyngor fod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio o fewn fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gyda'r targedau'n cael eu gosod ar lefel ranbarthol. Serch hynny, pwysleisiwyd nad arian y llywodraethau oedd hwn mewn gwirionedd ond arian cyhoeddus, ac felly bod yn rhaid sicrhau bod y buddion yn lledaenu ar draws Gwynedd gyfan. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gwybodaeth chwarterol yn cael ei rhyddhau ar sail yr allbynnau.
- Bod modd rhannu'r wybodaeth honno fel y gallai aelodau'r Pwyllgor weld sut yr oedd y data'n newid dros amser.
- Bod modd gofyn i'r tîm ddarparu gwybodaeth fwy penodol, er enghraifft faint o'r swyddi hynny oedd yng Ngwynedd, fel bod y wybodaeth ar gael i'r aelodau.
- Bod rhaglenni ar gael i gefnogi busnesau i edrych ar drosi carbon ac y gellid rhannu'r manylion.

Cwestiynwyd pa wahaniaeth y byddai'r etholiad yng Nghymru yn ei wneud i Uchelgais Gogledd Cymru. Cwestiynwyd ymhellach a oedd unrhyw gydweithio rhwng gogledd a chanolbarth Cymru, gan nodi bod trigolion Meirionnydd yn aml yn teimlo eu bod yn nes at Ganolbarth Cymru na Gogledd Cymru, ac felly nad oeddent yn cael unrhyw fudd o'r bartneriaeth ogleddol. Mynegwyd rhwystredigaeth fod popeth yn ymddangos i fynd tua'r A55 a Chaernarfon, a gofynnwyd a oedd unrhyw gydweithrediad rhwng de a chanolbarth yn y Cynllun Twf. Codwyd bryderon am allfudo pobl ifanc o Wynedd, am y gostyngiad yn niferoedd disgyblion mewn ysgolion a'r bygythiad i'r Gymraeg o ganlyniad. Pwysleisiwyd na fyddai modd cynnal y Gymraeg heb sicrhau gwaith i bobl ifanc y sir.

Mynegwyd pryder ynghylch yr agenda sero net, gan fynegi barn ei fod yn gwneud mwy o niwed na lles i fusnesau. Mynegwyd y farn bod digon o dyrbinau gwynt yn yr ardal eisoes ac nad oedd eisiau gweld rhagor rhag i'r ardal gael ei diwydiannu yn ormodol. Mynegwyd y farn nad oedd adrannau cynllunio ac economi yn gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd, gydag economi yn cefnogi rhywbeth ac yna cynllunio yn gwrthwynebu'r un datblygiad.

Nododd Arweinydd y Cyngor ei bod yn codi pwyntiau ynglŷn a de Gwynedd yn gyson. Eglurwyd bod y darlun o ecosystem economaidd lle mae ffyniant yn ardaloedd y dwyrain yn dod â buddion i ardaloedd y gorllewin drwy swyddi y gellir eu cyrraedd trwy rwydwaith cludiant cyhoeddus yn annheg ac yn anymarferol i ardaloedd fel Pen Llŷn a Meirionnydd. Pwysleisiwyd bod angen bod yn bragmatig a cheisio cael y gorau allan o'r Cynllun Twf presennol. Cyfeiriwyd at gynllun Arfor gan Lywodraeth Cymru, gan fynegi'r farn y gallai'r fframwaith hwnnw gyd-fynd yn well ag ardaloedd gwledig a Chymraeg eu hiaith. Nodwyd y byddai'r cynllun hwnnw'n debygol o gael mwy o sylw yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn barod i weithio gydag unrhyw Lywodraeth newydd.
- Bod dim newid i'r Cynllun Twf a gytunwyd yn 2020, er gwaethaf y newidiadau a fu eisoes yn Llywodraeth y DU ers hynny.

- Bod Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda Chynllun Twf Canolbarth Cymru, a bod llawer o'r heriau a wynebwyd ganddynt yn debyg i'r rhai a wynebwyd yng ardaloedd gwledig gogledd Cymru.
- Bod cydweithio wedi digwydd rhwng y ddau gorff er mwyn sicrhau cyllid 'Innovate UK' ar gyfer prosiect 'Launchpad'.
- Bod cyfleoedd o fewn yr agenda sero net i greu sgiliau a swyddi gwerth uchel a allai gadw pobl ifanc yn y rhanbarth.
- Bod gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid megis Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, nid yn unig i greu swyddi ond hefyd i hyfforddi pobl ifanc ac i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn economi'r rhanbarth.
- Bod pobl ifanc yn debygol o adael i gael profiadau newydd, boed dramor neu dros y ffin, ond bod eu denu'n ôl yn bwysig.

Ynglŷn â phrosiect 'Launchpad', nodwyd bod y prosiect yn waith ar y cyd gyda Tyfu Canolbarth Cymru, Prifysgol Aberystwyth ac M-SParc. Eglurwyd mai'r nod oedd meithrin arloesedd o fewn y clwstwr amaeth-bwyd a thechnoleg yn y gogledd a'r canolbarth, a galluogi cwmnïau bach yn y ddau ranbarth i ddatblygu, meithrin syniadau a chryfhau er mwyn eu galluogi nhw i ddenu mwy o arian gan ffynonellau cyllid gan gyrff megis *UK Research and Innovation* (UKRI). Cadarnhawyd bod y prosiect wedi bod yn rhedeg ers dros flwyddyn ac yn parhau'n gryf, gyda digwyddiad wedi ei drefnu yn Aberystwyth ar ddechrau mis Mawrth.

Pwysleisiwyd y dylai'r prosiect Trawsfynydd symud oddi ar y rhestr wrth gefn. Gofynnwyd am esboniad pellach ynglŷn â'r ffigyrau swyddi newydd o fewn yr adroddiad a swyddi sydd wedi eu diogelu. Holwyd a oedd modd cynnwys sylwadau gan arolwg allanol gan y ddwy Lywodraeth yn yr adroddiadau chwarterol. Cwestiynwyd ymhellach a oedd modd cynnwys data cymharol ynghylch nifer y swyddi a grëwyd mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru er mwyn gosod y sefyllfa mewn cyd-destun. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Dim ond swyddi parhaol oedd yn cael eu cyfrif o fewn targedau'r Llywodraeth, sef 49 swydd.
- Bod y swyddi adeiladu yn ychwanegol at y swyddi parhaol a nodwyd, a'u bod yn swyddi pwysig ond nad oeddent yn rhan o'r targedau swyddogol.
- Bod swyddi a ddiogelwyd hefyd yn faes o ddiddordeb ond nad oedd hynny'n rhan o dargedau'r Llywodraeth.
- Bod diffiniad tynn iawn gan Lywodraeth y DU o beth yn union oedd 'swyddi a ddiogelwyd', sef y byddai'n rhaid i swydd fod mewn perygl o ddiflannu o fewn 12 mis er mwyn cael ei chyfrif.
- Bod rhesymau technegol yn ei gwneud yn anodd i fusnesau neu gyrff megis prifysgolion gadarnhau hynny'n ffurfiol.
- Bod yn ofynnol cynnal proses wirio fanwl hyd yn oed pe byddai prosiect yn adrodd fod swyddi wedi eu diogelu, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â diffiniad Llywodraeth y DU.
- Bod pedwar cynllun twf yng Nghymru, a'u bod oll yn adrodd yn rheolaidd i'w byrddau eu hunain, gyda'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus ar eu gwefannau.
- Bod modd rhannu dolenni i'r gwefannau hynny, ond nodwyd na fyddai'n briodol i Uchelgais Gogledd Cymru ailadrodd na dehongli'r data hwnnw yn ei hadroddiadau ei hun.

Cyfeiriwyd at anghysondeb o fewn yr adroddiad sy'n ymwneud â'r prosiect 'Anturiaethau Cyfrifol', gan ofyn am gadarnhad a yw'r elfen e-fws yn parhau i fod yn

elfen o'r prosiect. Mewn ymateb, cadarnhawyd nad yw'r elfen e-fws bellach yn rhan o'r cynllun ac y byddai'r dogfennau yn cael eu cywiro i ddangos hyn maes o law.

Cwestiynwyd, o safbwynt ymrwymiad i swyddi o ansawdd uchel, faint o'r swyddi fyddai ar gontractau oriau sero o fewn y prosiect 'Anturiaethau Cyfrifol'. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bydd y wybodaeth yn cael ei mireinio'n fanylach unwaith y byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.
- Bod trosolwg manwl o natur y swyddi, gan gynnwys y trefniadau contractio, yn cael ei geisio bryd hynny.
- Bod hynny'n sail i'r is-bwyllgor benderfynu a ddylai'r buddsoddiad fynd rhagddo.
- Bod bwriad y prosiect yn cynnwys ymestyn y tymor twristiaeth a chreu mwy o swyddi drwy gydol y flwyddyn.
- Bod 'Zip World' wedi ymrwymo i brosiect Academi Croeso Cymru, a fyddai'n creu rhagor o gyfleoedd prentisiaethau.
- Bod gwaith wedi mynd rhagddo gyda chymunedau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd drwy rannu cyflogaeth, academi bellach a chydweithio ag ysgolion lleol.
- Byddai'r manylion yma i gyd yn cael eu cynnwys yn yr achosion busnes er mwyn asesu ansawdd y swyddi a gaiff eu creu.

Nodwyd gan yr aelod ei bod yn deall bod canran y contractau sero oriau efallai mor uchel ag 80%. Mewn ymateb, nodwyd bod gwybodaeth sy'n deillio o'r achos busnes amlinellol yn awgrymu bod o gwmpas 50% o'r swyddi a grëwyd yn debygol o fod yn swyddi contract sero oriau.

PENDERFYNWYD

1. **Derbyn yr adroddiad a nodi'r amrywiaeth eang o sylwadau a wnaethpwyd, gan fynegi anhapusrwydd bod rhai o'r cynlluniau yn araf i aeddfedu ac ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng buddsoddiad gwledig a threfol.**
2. **Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar brosiectau Canolfan Gwyddoniaeth Trawsfynydd a Hwb Economi Gwledig Glynllifon cyn gynted â phosibl.**
3. **Gofyn am amlinelliad o gost y Cynllun Twf i Gyngor Gwynedd a'r deilliannau i Wynedd o ran swyddi o ansawdd ac yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig.**
4. **Gofyn bod adroddiadau cynnydd i'r dyfodol yn cynnwys mwy o fanylder o ran y swyddi sydd wedi eu creu yn benodol yng Ngwynedd gan gynnwys y math o gontractau.**

6. ARDOLL YMWELWYR

Cyflwynodd Aelod Cabinet Economi a Chymuned yr adroddiad gan nodi bod twristiaeth a'r economi ymweld yn ddiwydiant pwysig iawn yng Ngwynedd. Eglurwyd, fel cyd-destun, fod nifer o fodelau a rhagdybiaethau yn cael eu defnyddio i fesur yr economi ymweld, ond bod sicrhau data dibynadwy ar lefel Gwynedd wedi bod yn hynod heriol gan nad oedd y data hwnnw'n bodoli yn y modd y byddid yn ei ddymuno.

Nodwyd bod y model STEAM, sef Scarborough Tourism Economic Activity Monitor, a ddefnyddir yn aml, yn amlygu'r ystadegau diweddar a ganlyn ar gyfer Gwynedd: effaith economaidd o £1.78 biliwn; 7.75 miliwn o ymwelwyr; 24.9 miliwn o ddyddiau ymweld; cyfanswm cyflogaeth o 17,600; bron i 4 miliwn o ymwelwyr dros nos; a bron i 20 miliwn o ddiwrnodau aros. Pwysleisiwyd bod hyn yn gyfraniad sylweddol iawn i'r economi,

ond cydnabuwyd hefyd fod ymwelwyr yn creu heriau mewn rhai rhannau o'r sir, gan arwain at bwysau ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor, yr amgylchedd, yr iaith a'r diwylliant, a'r cymunedau.

Eglurwyd mai dyna oedd y rheswm dros fabwysiadu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn sicrhau bod yr economi ymweld yn gynaliadwy yn yr ardal. Nodwyd bod data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ac o'r Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, sydd wedi eu seilio ar sampl lai o bobl na STEAM, yn dangos gwerth llawer is i'r sector ymwelwyr na'r hyn a ddangosir gan STEAM.

Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ers nifer o flynyddoedd, gyda gwaith ymchwil ar elwa twristiaeth wedi ei gwblhau yn 2018 yn amlygu'r ardoll fel ffynhonnell a allai gynhyrchu incwm sylweddol i'w ail-fuddsoddi yn yr economi ymweld. Nodwyd bod y Cabinet yn y gorffennol wedi mynegi cefnogaeth i gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu ardoll ymwelwyr yng Nghymru. Pwysleisiwyd yn glir, fodd bynnag, nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud hyd yma ynghylch cyflwyno ardoll yng Ngwynedd, a bod y drafodaeth gerbron yn cynrychioli'r cam cyntaf yn y broses yn unig.

Nodwyd bod y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda Chonwy ac Ynys Môn ar y gwaith ymchwil i'r asesiadau effaith ac wrth ystyried cyflwyno ardoll. Eglurwyd bod yr asesiad effaith economaidd yn amlygu y gallai'r effaith ar swyddi, yn y sefyllfa waethaf, olygu colli 50 swydd, neu, yn y sefyllfa orau, greu 21 swydd. Nodwyd ymhellach y gallai sefydlu ardoll gynhyrchu rhwng £2.4 miliwn a £2.8 miliwn o refeniw blynyddol i Wynedd. Ymhelaethwyd, pe defnyddid data STEAM yn hytrach, y byddai'r ffigyrau oddeutu pedair gwaith yn uwch, gyda mwy o effaith ar swyddi a photensial i godi hyd at £12 miliwn drwy'r ardoll. Mynegwyd y farn bod y swm a godid yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr ceidwadol o £2.5 miliwn a nodwyd.

Eglurwyd, pe byddai cefnogaeth gan y Cyngor Llawn i symud ymlaen i ymgynghoriad, y byddai'r weithdrefn a osodir yn y Ddeddf yn glir, ac y byddai'n rhaid dilyn egwyddorion ymgynghori cyhoeddus. Nodwyd y byddai'r dystiolaeth a gesglir yn llywio'r asesiadau effaith terfynol a gyflwynir i'r Cyngor Llawn.

Nodwyd bod y Ddeddf yn amlinellu'n glir y meysydd y gallai incwm yr ardoll gael ei fuddsoddi ynddynt, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer arwain ar hynny. Eglurwyd y byddai angen sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll ar lefel awdurdod lleol, a bod y cynnig drafft yn awgrymu y dylid buddsoddi'r incwm mewn prosiectau a gweithgareddau a fyddai'n gyson ag egwyddorion economi ymweld gynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Cyfeiriwyd at enghreifftiau posibl o fuddsoddiadau, gan gynnwys defnydd diwylliannol, y Gymraeg, gwarchod a hyrwyddo'r amgylchedd, isadeiledd a chyfleusterau lleol, cefnogaeth i fusnesau a chymunedau, ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu. Nodwyd mai'r meysydd hyn oedd enghreifftiau o'r math o fuddsoddiad a allai ddeillio o'r ardoll, ond mai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll fyddai'n argymell blaenoriaethau i'w hystyried wedyn gan y Cabinet.

Pwysleisiwyd mai dechrau'r daith oedd y drafodaeth bresennol o ran yr ardoll ymwelwyr. O ystyried yr hinsawdd economaidd, y toriadau di-ben-draw, a phwysigrwydd sicrhau economi ymweld gynaliadwy, nodwyd bod angen ystyried hyn fel un opsiwn posibl ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mynegwyd pryder nad oedd y term ‘ardoll ymwelwyr’ yn gwbl briodol, gan y byddai trigolion Gwynedd eu hunain yn debygol o gael eu heffeithio pe byddent yn dewis mynd ar wyliau neu wersylla o fewn y sir. Tynnwyd sylw at yr angen i osgoi anfon neges negyddol at ymwelwyr a allai eu hannog i fynd i ardaloedd eraill. Holwyd sut y byddai’r cynllun yn cael ei reoli’n ymarferol, pwy fyddai’n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth lawn gan fusnesau, a sut y gellid mesur gwir gost a cholled gudd gosod treth ychwanegol ar y sector twristiaeth. Cyfeiriwyd yn benodol at y posibilrwydd y gallai mwy o bobl droi at wersylla gwyllt neu aros mewn faniau yn hytrach na defnyddio llety cofrestredig. Pryderwyd y gallai’r ardoll arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn penderfynu aros am y dydd yn hytrach nag aros dros nos, ac felly gael effaith negyddol ar y sector. Cwestiynwyd ymhellach am gostau gweinyddol y trefniadau i fusnesau bychain. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y trefniadau gweinyddol cenedlaethol yn gyfrifoldeb i Awdurdod Cyllid Cymru, ac y byddai’n gweinyddu’r drefn gofrestru statudol ar gyfer darparwyr llety ledled Cymru.
- Bod pob busnes llety yn gorfod cofrestru o fis Medi ymlaen, os oes ardoll ai peidio, a bod dirwyon i’r rhai na fyddent yn cofrestru.
- Bod Awdurdod Cyllid Cymru eisoes wedi dechrau gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau am y gofrestr newydd.
- Bod rhai busnesau yng Ngwynedd eisoes yn treialu’r system gofrestru ar ran Awdurdod Cyllid Cymru, gyda’r nod o fireinio’r drefn cyn ei gweithredu’n ffurfiol.
- Bod risg wirioneddol y gallai rhai ymwelwyr droi at wersylla gwyllt, dewis aros mewn ardaloedd cyfagos neu ddewis ymweliadau dydd yn hytrach nag aros dros nos, a bod angen bod yn agored i fonitro’r sefyllfa honno pe bai’r ardoll yn cael ei chyflwyno.
- Bod cynlluniau fel Arosfan eisoes yn rhan o’r ymateb i bwysau cartrefi modur mewn rhai lleoliadau.
- Bod y drefn reoleiddio a gorfodi mewn perthynas â gwersylla gwyllt eisoes yn digwydd drwy’r Adran Amgylchedd.
- Bod Awdurdod Cyllid Cymru yn ceisio gwneud y drefn mor syml â phosibl i fusnesau, gan gynnwys cydweithio â llwyfannau megis Airbnb a Booking.com er mwyn integreiddio’r system a lleihau’r baich gweinyddol.
- Bod modd i fusnesau adrodd i Awdurdod Cyllid Cymru naill ai’n chwarterol neu’n flynyddol.
- Bod Gwynedd yn cydweithio â Chonwy ac Ynys Môn er mwyn ceisio sicrhau trefn gyson i fusnesau yn y tair sir.

Cwestiynwyd ynghylch ymarferoldeb plismona safleoedd gwersylla a charafanau. Mynegwyd ansicrwydd ynghylch sut y gellid sicrhau cydymffurfiaeth lawn mewn marchnad fwy gwasgaredig.

Holwyd pa warchodaeth oedd mewn lle i sicrhau na fyddai’r un anawsterau gweithdrefnol a gododd mewn perthynas ag Erthygl 4 yn codi eto. Cwestiynwyd pa siroedd eraill yng Nghymru oedd eisoes ar y blaen neu’n bwriadu symud ymlaen gyda’r ardoll. Cwestiynwyd ymhellach a oedd modd eithrio neu wahaniaethu rhwng categorïau o fusnesau, gan godi pryder penodol am fusnesau bach iawn a allai wynebu baich gweinyddol anghymesur o gymharu â safleoedd mawr. Pwysleisiwyd egwyddor ac amcan yr ardoll i sicrhau bod unrhyw incwm yn cael ei ddefnyddio i fynd i’r afael â sgil-effeithiau twristiaeth yn hytrach na’i ddefnyddio i ehangu’r broblem. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chonwy ac Ynys Môn, ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanwl wrth baratoi'r gwaith hwn.
- Bod gwaith asesu effaith economaidd eisoes wedi'i gomisiynu er mwyn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth mor gadarn â phosibl cyn symud ymlaen.
- Bod Cyngor Caerdydd eisoes wedi penderfynu symud ymlaen i'r cam ymgynghori ac felly mai hi oedd y sir gyntaf yng Nghymru i wneud hynny.
- Bod Gwynedd yn yr ail wedd gyda Chonwy ac Ynys Môn, ac yn gobeithio cyflwyno adroddiadau i'w cynghorau llawn er mwyn ceisio caniatâd i ymgynghori.
- Bod rhai siroedd eraill wedi nodi nad oeddent yn bwriadu bwrw ymlaen am y tro, tra bod eraill yn aros i ddysgu gwersi o'r hyn a fydd yn digwydd yn y siroedd cyntaf.
- Bod trafodaethau rheolaidd yn digwydd gyda swyddogion siroedd eraill yng Nghymru sy'n ystyried y mater.
- Bod y Ddeddf ei hun yn diffinio'n glir pa fathau o lety ac arosiadau sy'n dod o fewn cwmpas yr ardoll, ac nad oedd llawer o le i greu eithriadau lleol ychwanegol yn seiliedig ar faint busnes.
- Bod pob arhosiad taledig mewn llety ymwelwyr yn dod o fewn y drefn oni bai ei fod yn un o'r eithriadau penodol a nodir yn y ddeddfwriaeth.
- Bod Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn ymgynghori â busnesau mawr a bach er mwyn ceisio sicrhau system mor syml â phosibl.
- Bod gweithdai eisoes wedi'u cynnal, gan gynnwys sesiwn yn Llandudno cyn y Nadolig, er mwyn rhoi eglurhad pellach i fusnesau.
- Bod pecyn cymorth a chanllawiau pellach ar fin cael eu cyhoeddi i gefnogi busnesau.
- Bod unrhyw newid o'r math hwn yn creu gwaith ychwanegol i fusnesau yn y cyfnod pontio a bod angen i'r Cyngor, pe bai'n dymuno symud ymlaen yn y dyfodol, ystyried sut y gellid cynorthwyo busnesau lleol i ddeall y trefniadau a gwneud y defnydd gorau o'r systemau newydd.

Cwestiynwyd pryd ac ym mha ffordd y byddai polisi clir ar ddefnyddio'r incwm yn cael ei lunio. Cwestiynwyd a fyddai manylion pellach ar flaenoriaethau gwario ar gael cyn neu ar ôl gweithredu unrhyw ardoll. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynnu bod adroddiad yn cael ei lunio cyn mynd allan i ymgynghori, ac y byddai'n rhaid i'r adroddiad hwnnw amlinellu cynnig cychwynnol ar gyfer defnydd yr incwm.
- Bod drafft cychwynnol o'r cynnig hwnnw eisoes wedi'i baratoi a'i rannu fel sail i'r drafodaeth.
- Bod y drafft hwnnw'n debygol o newid a datblygu dros amser yn sgil ymgysylltu pellach a chanlyniadau'r ymgynghoriad.
- Bod angen sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno, ac y byddai'n gyfrifol am argymell blaenoriaethau gwario i'r Cabinet.
- Bod yn rhaid neilltuo'r incwm i'r meysydd a ganiateir gan y Ddeddf, sef rheoli a gwella cyrchfannau, gan gynnwys lliniaru effaith ymwelwyr, hybu'r Gymraeg, cefnogi twf economaidd cynaliadwy, a darparu neu wella seilwaith a gwasanaethau perthnasol.
- Bod gwaith pellach i bennu'r blaenoriaethau mwy penodol yn rhan o'r ymgynghoriad a'r camau nesaf.

Cwestiynwyd a fyddai Aelodau'r Cyngor yn cael digon o wybodaeth am ddeddfwriaeth a'i goblygiadau cyn i'r mater gyrraedd y Cyngor Llawn, gan dynnu sylw at y ffaith fod Treth ar Werth (TAW) yn gymwys ar yr ardoll a bod pwerau yn y ddeddfwriaeth i Lywodraeth Cymru newid cyfraddau'r ardoll a chaniatáu i awdurdodau lleol godi premiwm ar yr ardoll. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod bwriad i drefnu sesiwn friffio i'r Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn er mwyn egluro cefndir a goblygiadau'r Ddeddf.
- Bod trafodaethau wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Llywodraeth y DU ynghylch TAW, gyda dadl glir gan Lywodraeth Cymru na ddylai'r ardoll fod yn destun TAW.
- Bod safbwynt presennol y Trysorlys yn glir, sef bod y taliad yn ddarostyngedig i TAW.
- Bod trafodaethau pellach yn dal i fynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Trysorlys ar y mater hwn.
- Bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu gosod premiwm lleol, ond fod y drefn bellach wedi newid fel na ellir gweithredu hynny heb ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Codwyd pryderon am garafanau modur yn aros mewn lleoedd amhriodol, gan gyfeirio'n benodol at sefyllfaoedd lleol lle bu cerbydau'n aros o flaen tai ac ar draethau megis Morfa Bychan. Holwyd a oedd y goblygiadau hyn wedi cael eu hystyried, ac a oedd unrhyw waith yn mynd rhagddo i gryfhau'r pwerau neu'r trefniadau rheoli yn y maes hwn. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn enghraifft glir o'r math o bwysau lleol y gellid ystyried ei flaenoriaethau a'i hariannu drwy incwm yr ardoll. Pwysleisiwyd nad oes modd ymateb yn ddigonol i nifer o'r problemau hyn o fewn adnoddau presennol y Cyngor, ac y byddai cael ffynhonnell incwm benodol yn rhoi cyfle i dargedu'r tensiynau sy'n codi mewn cymunedau a'r meysydd lle mae twristiaeth yn creu pwysau ychwanegol. Nodwyd ymhellach y byddai'r arfordir yn debygol o fod ymhlith y prif feysydd a fyddai angen sylw pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno.

Pwysleisiwyd yr angen i gael y ffeithiau'n glir cyn symud ymlaen at ymgynghoriad cyhoeddus, yn benodol ynglŷn â faint o incwm y byddai'r ardoll yn ei gynhyrchu, pwy yn union fyddai'n gorfod talu, a sut y byddai modd sicrhau eglurder ynghylch effaith y cynllun. Codwyd pryder penodol ynghylch llety Airbnb, gan ofyn pwy fyddai'n cadw golwg arnynt a sut y byddai modd gwirio cydymffurfiaeth. Tynnwyd sylw at wersylla gwyllt a chartrefi modur, gan nodi fod y problemau hyn yn arbennig o amlwg mewn rhai mannau, yn enwedig ger llynnoedd. Mynegwyd pryder ynghylch faniau'n aros dros nos mewn cilfannau, a holwyd pwy fyddai'n gyfrifol am reoli a gorfodi yn y sefyllfaoedd hyn. Holwyd faint fyddai cost gweinyddu'r ardoll i fusnesau, a faint o'r incwm a fyddai wedyn yn cael ei ddychwelyd er budd y sector twristiaeth. Mynegwyd y farn y dylai unrhyw incwm gael ei glustnodi ar gyfer twristiaeth yn unig, er mwyn gwella cyfleusterau i ymwelwyr ac er mwyn hysbysebu twristiaeth yn yr ardal. Mynegwyd gwrthwynebiad i'r angen i dalu TAW ar yr ardoll. Codwyd pryder ynglŷn â'r posibilrwydd na fyddai Powys yn codi ardoll, ac y gallai ymwelwyr ddewis aros yno ac yna ymweld â de Meirionnydd fel ymwelwyr dydd, gan adael Gwynedd yn wynebu'r un pwysau ond heb yr incwm cyfatebol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr asesiad effaith economaidd yn cynrychioli'r data gorau oedd ar gael ar hyn o bryd, er y cydnabuwyd ei bod yn anodd iawn cael data cadarn ar lefel Gwynedd.
- Bod y broses ymgynghori yn debygol o helpu i gryfhau'r dystiolaeth ymhellach, gan y byddai arolwg yn cael ei gynnal ymysg trigolion, busnesau ac ymwelwyr i Wynedd.
- Bod y Ddeddf yn glir ynghylch pwy sydd yn gorfod talu a phwy sydd wedi'u heithrio, a bod nifer yr eithriadau yn gymharol fach.
- Bod y bwriad yn genedlaethol i wneud y drefn mor syml â phosibl fel na fyddai'n rhaid i fusnesau herio unigolion na gofyn am dystiolaeth wrth i bobl gyrraedd i aros.

- Bod plant dan 18 oed wedi'u heithrio os ydynt yn aros mewn hosteli neu ar safleoedd wersylla, ond y byddent yn gorfod talu mewn gwestai.
- Bod y system gofrestru genedlaethol yn mynd i'w gwneud yn orfodol i bob darparwr llety ymwelwyr gofrestru, a bod hynny'n cynnwys Airbnb.
- Bod y trefniant hwnnw'n ymgais i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth presennol ynghylch lleoliad a nifer yr Airbnbs yng Ngwynedd ac yng Nghymru.
- Bod disgwyl felly y byddai'n haws gwybod ble y mae'r Airbnbs ac a ydynt wedi cofrestru, ac y byddent wedyn yn gweinyddu'r ardoll drwy ap neu wefan Airbnb pe bai'r ardoll yn dod i rym.
- Bod risg y gallai rhai ymwelwyr ddewis aros ym Mhowys yn hytrach nag yng Ngwynedd er mwyn osgoi'r ardoll, ond yn bersonol nad yw ardoll yn ffactor sydd yn anghymell rhag aros mewn ardal. Nodwyd y byddai angen monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn.

Nodwyd bod y pwynt ynghylch gwersylla gwyllt a defnydd o gilfannau yn un teg, ac y byddai angen monitro'r maes hwnnw'n ofalus pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno yng Ngwynedd. Cyfeiriwyd at gynllun peilot Arosfan sydd eisoes yn llwyddo i helpu i daclo'r broblem yma. Awgrymwyd y gellid trafod ymhellach gyda'r Adran Amgylchedd er mwyn cael mwy o ffigyrau am ddefnydd cilfannau a nifer yr achosion gorfodaeth sydd wedi bod o fewn cilfannau'r sir.

Cwestiynwyd, o safbwynt Parc Cenedlaethol Eryri, pwy fyddai'n derbyn yr ardoll os byddai rhywun yn aros o fewn ardal y Parc, a sut y byddai modd sicrhau bod y Parc yn cael cyfran deg o'r incwm. Pwysleisiwyd mai'r Parc Cenedlaethol oedd yr ardal lle'r oedd llawer iawn o'r pwysau o ganlyniad i twristiaeth yn digwydd, a gofynnwyd sut y gellid sicrhau y byddai'n derbyn yr hyn oedd yn briodol. Mewn ymateb, nodwyd mai Cyngor Gwynedd fyddai'r awdurdod cyfrifol yn yr achos hwn, ac felly mai'r Cyngor fyddai'n derbyn yr incwm. Eglurwyd y byddai blaenoriaethu'r defnydd o'r incwm yn fater i'r Fforwm Partneriaeth Ardoll, a byddai hynny'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Parc. Cadarnhawyd felly y byddai ganddo lais o amgylch y bwrdd, ac y byddai'r Fforwm Partneriaeth Ardoll yn ceisio adnabod y prif heriau ar gyfer Gwynedd ac Eryri ac yn ceisio gweithio i flaenoriaethu'r meysydd hynny. Nodwyd ei bod yn debygol y byddai cyfran sylweddol o'r incwm yn gorfod cael ei wario mewn ardaloedd o fewn y Parc ac ar hyd yr arfordir.

Mynegwyd cefnogaeth i egwyddor yr ardoll, gan nodi ei bod yn gyffredin mewn rhannau eraill o Ewrop ac nad oedd yn ymddangos yn ormodol o ystyried cost gwyliau yn gyffredinol. Nodwyd bod 'loopholes' yn bodoli o fewn pob cynllun ac bod angen canolbwyntio ar egwyddor yr ardoll. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio'r incwm i wella bywyd trigolion Gwynedd, cryfhau'r Gymraeg, a rheoli effeithiau twristiaeth yn well. Pwysleisiwyd bod yr ardoll yn gam cadarnhaol ymlaen i sicrhau bod y diwydiant twristiaeth o fudd i Wynedd a'i thrigolion. Holwyd a oedd modd symud amserlen yr ymgynghoriad cyhoeddus gan fod cyfnod yr haf yn gyfnod prysuraf y diwydiant lletygarwch.

Mewn ymateb, nodwyd bod yn rhaid dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru o ran hyd ac egwyddorion yr ymgynghoriad. Eglurwyd mai'r bwriad oedd cynnal cymaint â phosibl o sesiynau wyneb yn wyneb cyn dechrau gwyliau'r haf, er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau yn eu cyfnod prysuraf. Nodwyd y byddai holiadur ar-lein ac amrywiaeth o ddulliau eraill o ymgysylltu yn rhan o'r broses, ond bod y Cyngor yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd amseru'r gwaith yn sensitif.

Cwestiynwyd ynghylch comisiynu cwmni Quod, sef cwmni allanol o du allan i Gymru, i gynnal asesiadau cydraddoldeb ac iaith. Mynegwyd siom na ddefnyddiwyd cwmni lleol

neu Gymreig yn hytrach. Cwestiynwyd pa dystiolaeth oedd ar gael o effaith cynlluniau tebyg mewn mannau eraill. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gwaith wedi'i gomisiynu drwy drefniant partneriaeth gyda Chonwy ac Ynys Môn a bod proses gaffael Ynys Môn wedi'i defnyddio yn yr achos yma er mwyn symud ymlaen yn amserol gyda'r asesiadau.
- Bod y cwmni Quod wedi'i ddefnyddio ar sail y trefniant hwnnw, ond nad hwy oedd yn cynnal yr asesiad penodol ar y Gymraeg.
- Bod yr elfennau Cymraeg wedi'u llunio drwy gydweithio gyda swyddogion iaith Cyngor Gwynedd, gan dynnu ar waith mewnol a gwaith ardrawiad iaith gan Lywodraeth Cymru.
- Bod arolwg trigolion wedi'i gynnal ar-lein fis Hydref diwethaf, gyda bron i 1,000 o ymatebion.
- Bod yr arolwg hwnnw wedi cynnwys cwestiynau am effaith twristiaeth yn lleol, cynlluniau megis Arosfan, a safbwyntiau ar yr ardoll.
- Bod arolwg busnesau hefyd wedi'i gynnal yn ddiweddar.
- Bod gweithdai blaenoriaethu gyda phartneriaid Gwynedd ac Eryri wedi cyfrannu at lunio'r darlun lleol.
- Byddai'r wybodaeth yma i gyd yn ychwanegu at y data a geir drwy unrhyw ymgynghoriad ffurfiol yn y dyfodol.
- Bod ymchwil gan Brifysgol Bangor wedi edrych ar weithrediad ardollau mewn saith ardal ryngwladol, gan gynnwys y Balearics, Catalwnia, Gunnison, Gwlad yr Iâ, Jackson Hole, Orange County ac yn yr Eidal.
- Bod yr ymchwil hwnnw'n edrych ar sut y codir yr incwm, ar beth y caiff ei wario, a'i effaith.
- Nad oes ardoll ffurfiol eto mewn unrhyw ran arall o'r DU, ond y bydd Caeredin yn cyflwyno un eleni, ac y bydd hynny'n brofiad pwysig i'w fonitro.
- Bod trefniadau Manceinion a Lerpwl yn debyg o ran egwyddor ond yn seiliedig ar ffi ardaloedd gwella busnes yn hytrach nag ar ardoll ffurfiol.

Pwysleisiwyd yr angen i flaenoriaethu cwmnïau lleol yn y broses gaffael, os yw'n broses mewn partneriaeth â sir arall neu beidio.

Holwyd ynghylch sut y byddai'r eithriadau a'r ad-daliadau yn gweithredu'n ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â phobl anabl neu unigolion sy'n ffoi rhag trais yn y cartref. Mynegwyd pryder penodol am y wybodaeth sensitif y byddai'n rhaid ei rhannu mewn rhai achosion, a holwyd a oedd hyder bod y systemau diogelu a'r mecanweithiau cyfathrebu yn ddigon cadarn. Mewn ymateb, nodwyd bod y meini prawf ar gyfer eithrio ac ad-dalu wedi'u gosod yn genedlaethol drwy'r Ddeddf gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru. Eglurwyd mai Awdurdod Cyllid Cymru fyddai'n gweinyddu'r trefniadau ad-dalu, ac y byddai'n rhaid codi'r cwestiwn penodol ynghylch unigolion sy'n ffoi rhag trais yn y cartref ond nad ydynt yn cael eu lletya drwy elusen neu awdurdod lleol. Cydnabuwyd yn glir fod y wybodaeth mewn sefyllfaoedd felly yn hynod sensitif, a phwysleisiwyd y byddai angen trefniadau diogel iawn pe bai'r ardoll yn cael ei chyflwyno. Nodwyd y byddai'r Cyngor yn gorfod gweithio'n agos gydag Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfathrebu ac ar sicrhau bod y negeseuon am eithriadau ac ad-daliadau yn cyrraedd y grwpiau perthnasol.

Awgrymwyd y dylid rhoi diweddariadau rheolaidd i Aelodau er mwyn eu cadw'n ymwybodol o ddatblygiadau. Cwestiynwyd a oedd costau rhedeg a gweinyddu'r cynllun wedi'u cynnwys eisoes yn yr amcangyfrifon ariannol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod modd rhannu diweddariadau rheolaidd drwy fwletin i'r Aelodau.

- Bod tudalen benodol eisoes wedi'i chreu ar wefan y Cyngor dan yr adran fusnes i roi gwybodaeth am yr ardoll.
- Bod busnesau eisoes yn derbyn diweddariadau drwy'r bwletin busnes.
- Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb ar gyfer sefydlu systemau, cyfathrebu, marchnata a gweinyddu.
- Bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau na fydd costau gweinyddu'r system yn fwy na 10% o'r incwm a gesglir mewn unrhyw ardal.

Cwestiynwyd a oedd modd codi'r ardoll yn ystod rhai tymhorau yn unig, gan gyfeirio at enghreifftiau tramor lle mae gwahaniaeth rhwng tymor brig a thymor tawel. Mewn ymateb, nodwyd nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu gwahaniaethu tymhorol. Eglurwyd pe bai awdurdod lleol yn mabwysiadu'r ardoll, y byddai'n rhaid ei weithredu drwy gydol y flwyddyn. Cadarnhawyd fod modd rhoi 12 mis o rybudd i ddiddymu'r ardoll pe bai awdurdod lleol yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Argymell i'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned:**
    - **Sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r holl gymhlethdodau sydd ynghlwm â dod â'r ardoll hwn i fodolaeth o'r newydd.**
    - **Os yw'r Cyngor yn penderfynu cyflwyno Ardoll Ymwelwyr:**
        - **Bod ymrwymiad pendant ar sut y bydd yr arian a godir yn cael ei wario gan roi blaenoriaeth i feysydd twristiaeth a chymunedol.**
        - **Bod ymgynghori trylwyr yn digwydd ar draws y sir a gyda phartneriaid perthnasol i ddarganfod blaenoriaethau cymunedol.**
        - **Bod angen bod yn dryloyw efo'r sawl sy'n talu'r dreth ynglŷn â sut gaiff yr arian ei wario.**
        - **Bod cyfathrebu ynglŷn ag eithriadau yn effeithiol a sensitif pan bod angen gwneud hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 2:35 yp

_____

Cadeirydd

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	18 Mehefin 2026
TEITL	Polisi a Gweithdrefn Canu'r Gloch i Aelodau
AWDURON	Catrin Thomas - Cyfarwyddwr Corfforaethol Iwan Evans - Swyddog Monitro
AELOD CABINET	Cyng. Llio Owen

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn sicrhau bod y Polisi a Gweithdrefn Canu'r Gloch ar gyfer Aelodau Etholedig yn cael ei ystyried yn drylwyr a'i osod ar sylfaen gadarn cyn ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cyngor fel ychwanegiad i'r cyfansoddiad.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Polisi a Gweithdrefn Canu'r Gloch i Aelodau

3. Cefndir / Cyd-destun cyflwyno'r Polisi a Gweithdrefn newydd

3.1 Ar yr 20fed o Ionawr 2026 bu i'r Cabinet fabwysiadu Polisi Canu'r Gloch newydd ar gyfer staff . Adroddwyd ar y Polisi drwy addasiad Cyfansoddiad i'r Cyngor Llawn ar 5ed o Fawrth 2026. Mae'r polisi hwnnw yn benodol ar gyfer staff cyflogedig y Cyngor ac eraill mewn sefyllfa gyflogaeth/ gwirfoddoli ac yn deillio o'r *Public Interest Disclosure Act 1998* ac felly nid yw'n berthnasol ar gyfer Aelodau Etholedig.

3.2 Felly, cydnabuwyd ar y pryd fod angen ystyried polisi fyddai yn galluogi i Aelodau Etholedig hefyd gyflwyno yn gyfrinachol pryderon o'r un natur a'r hyn a gynhwysir mewn Polisi Canu'r Gloch arferol h.y. materion allai fod yn droseddol, yn gamymarfer sylweddol neu'n ymddygiad amhriodol difrifol, boed hynny gan Aelod neu swyddog. Fodd bynnag rhaid hefyd amlygu fod y drefn Canu'r Gloch ar gyfer staff yn seiliedig ar ddeddfwriaeth cyflogaeth. Mae'n creu fframwaith o hawliau, gwarchodaeth a chanlyniadau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y gyd berthynas rhwng aelodau etholedig a'r Cyngor.

3.3 Wrth lunio Polisi o'r math yma mae'n rhaid cydnabod fod aelodau yn dod i gyswllt a'r Cyngor am sawl rheswm. Gall hyn fod yn codi pryder ar ran etholwyr, cwyno am drefniadau Adran neu wasanaeth neu ddatgan anfodlonrwydd am ansawdd gwaith tîm penodol . Mae hyn yn ran o waith beunyddiol y Cyngor ac ymdrinnir a hwy dan ystod o drefniadau a Protocolau. Mae'r rhain yn faterion na fyddai yn rhan arferol o ymwneud staff a'i cyflogwr neu gontractwyr. Ymdrinnir a hwy drwy drefniadau arferol y Cyngor . Nid dyna sydd dan sylw yma ond codi materion sydd o bryder fwy dwys a difrifol .

3.4 Mae angen hefyd amlinellu yr hyn sydd yn y Cod Ymddygiad Aelodau a'r gofynion sydd ar aelodau i adrodd ar faterion penodol . Felly, mae'n ofyn dan y Cod i aelodau adrodd i'r Swyddog Monitro os ydynt o'r farn fod aelod wedi torri y Cod Ymddygiad. Nid yw hyn yn ddewisol a gall fod gofyn i aelod gyfeirio y mater i'r Ombwdsman. Yn ogystal mae darpariaeth bellach o fewn y Cod Ymddygiad sydd gosod gofyn cyfreithiol ar aelodau sydd yn canfod ymddygiad troseddol yng ngwaith y Cyngor adrodd unai i'r Cyngor drwy drefn adrodd cyfrinachol neu'r asiantaeth gorfodi berthnasol. Pwysleisir hefyd fod ymddygiad troseddol sydd o fewn cwmpawd hyn yn gallu cynnwys ystod o faterion all fod yn droseddol. Er enghraifft, troseddau anonestrwydd, iechyd a diogelwch a materion megis ymosodiadau. Eithrir materion Diogelu oherwydd fod cyfundrefn benodol ar gyfer adrodd ar faterion o'r fath fyddai yn cyfarch y dyletswydd dan y Cod.

Fodd bynnag, tu hwnt i hyn mae achosion lle mae yn briodol i Aelodau dderbyn sicrwydd o gyfrinachedd wrth amlygu camymddwyn difrifol penodol.

3.5 Mae mabwysiadu'r polisi hwn yn gam hollbwysig i gryfhau diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd, ac mae wedi'i nodi'n gyson fel blaenoriaeth uchel yn dilyn cyhoeddi yr Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant: Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder. Mae cefnogaeth gan y Bwrdd Ymateb hefyd i'w fabwysiadu, gan adlewyrchu consensws cryf ar draws y sefydliad ynghylch a'i bwrpas a'i werth.

4. Trefniadau eraill ar gyfer gwahanol fathau o bryderon

4.1 Yn ogystal â'r Polisi a Gweithdrefn Datgelu Pryderon (Canu'r Gloch) hwn, mae nifer o lwybrau clir eraill yn bodoli eisoes gan y Cyngor ar gyfer adrodd pryderon o wahanol fathau (e.e. diogelu, twyll, neu faterion Côd Ymddygiad Aelodau a Swyddogion). Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae'n hanfodol gallu gwarchod cyfrinachedd y sawl sy'n gwneud yr honiad, yn enwedig er mwyn annog hyder i godi pryderon, a sicrhau bod gwybodaeth sensitif yn cael ei drin yn briodol.

4.2 Er mwyn cefnogi Aelodau ac i sicrhau cysondeb, mae Atodiad 2 yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r gwahanol lwybrau ar gyfer ymholiadau, cwynion neu ddatgelu pryderon. Mae'r trosolwg cryno hwn yn ymgais i grisialu'r gwahanol lwybrau mewn un lle defnyddiol i Aelodau a bydd yn cael ei gynnwys yn y Llawlyfr Aelodau yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sail i hyfforddiant anwytho Aelodau newydd yn dilyn Etholiad Llywodraeth leol 2027.

4.3 Gweler isod hefyd linc i ddogfen lawn pob un o'r prosesau a amlygir ar y trosolwg yn Atodiad 2:

Math o 'Bryder / Ymholiad'	**Dogfen berthnasol:**
Datgelu Ymddygiad / Pryderon Difrifol	Y Cyfansoddiad (i'w adolygu ar ôl cyfarfod y Cyngor 02/07/2026)

Diogelu	Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf
Cwyn am ymddygiad Aelod arall	Adran-18---Cod-ymddygiad-aelodau.pdf
Twyll	Strategaeth Gwrth-dwyll: Atodiad 1 - Strategaeth.pdf
Cwyn am Swyddog / Prif Swyddog	Protocol ar gysylltiadau Aelodau / Swyddogion Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf
Cwyn am Wasanaeth ar ran etholwyr	Polisi Cwynion: Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd
Cais am wasanaeth ar ran etholwyr	Protocol ar gysylltiadau Aelodau / Swyddogion Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf
Ymholiad cyffredinol / cais am wybodaeth am wasanaethau'r cyngor	Galw Gwynedd neu gysylltu yn uniongyrchol â'r gwasanaeth neu wybodaeth ar y wefan Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf

5. Ymgysylltu

5.1 Wrth lunio'r polisi, cafwyd trafodaethau a mewnbwn gan y Grŵp Tasg Ymholiadau Aelodau oedd eisoes wedi trafod y drefn hon wrth edrych ar gyswllt cyffredinol Aelodau a Swyddogion. Ymgysylltwyd hefyd gyda'r holl Aelodau a cafwyd un ymateb oedd yn nodi ei fod "eglur a hunan esboniadwy".

5.2 Yn ogystal, ymgynghorwyd hefyd gyda Sefydliad *Protect* sydd yn gorff elusennol sydd yn arbenigo mewn materion canu'r gloch dan y Deddf i adnabod cyfleon i fanteisio ar eu cefnogaeth. Derbyniwyd adborth cadarnhaol o'r Polisi ar y cyfan ond gyda awgrymiadau ar gyfer addasu a chryfhau ambell agwedd. Mae'r newidiadau yma wedi eu nodi ac wedi eu tanlinellu yn yr atodiad. Yr unig agwedd ble ystyriwyd nad oedd cyfiawnhad addasu oedd o amgylch darparu y rhestr o ffynnhonell posib ymddygiadau fyddai yn berthnasol i'r Polisi . Mae'r rhestr yma wedi ei chynnwys yn rhannol oherwydd gofynion penodol y Cod Ymddygiad ac hefyd i roi cyd destun. Fodd bynnag mabwysiadwyd yr awgrym i ymestyn y rhestr i gynnwys ymddygiadau gan y cyhoedd a busnesau fel tarddiad

pryderon yn y drafft 5.3. Yn ogystal mae'r geiriad wedi ei ddiwygio i ddarparu gwell eglurdeb ynglŷn a amcan yn rhestr.

Ceisiwyd barn Pwyllgor Safonau ar yr 8fed o Fehefin ble datganwyd eu cefnogaeth i'r Polisi .

6. Camau Nesaf

Yn dilyn derbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu bydd cais i'r Cyngor Llawn gefnogi ychwanegu'r Polisi i Gyfansoddiad y Cyngor, a hynny ar 2il o Orffennaf 2026.

Gwybodaeth Cefndir

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 19 Ionawr 2026 Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Dydd Llun, 19eg Ionawr, 2026, 10.30 y.b.

Cabinet 20 Ionawr 2026 Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 20fed Ionawr, 2026, 1.00 y.h.

Cyngor Llawn 5 Chwefror 2026 Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 5ed Chwefror, 2026, 1.30 y.h.

Cyngor Llawn 5 Mawrth 2026 Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 5ed Mawrth, 2026, 1.30 y.h.

Pwyllgor Safonau 8 Mehefin 2026 Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Safonau ar Dydd Llun, 8fed Mehefin, 2026, 10.30 y.b.

Atodiadau

Atodiad 1 – Polisi Adrodd Cyfrinachol (Canu'r Gloch) Aelodau (drafft)

Atodiad 2 – Trosolwg Llwybrau Adrodd ar bryderon i Aelodau

Polisi Adrodd Cyfrinachol (“Canu’r Gloch”) Aelodau

1 Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Gwynedd fel sefydliad, yr Aelodau a’r Swyddogion sy’n gwasanaethu’r Cyngor, wedi ymrwymo i’r safonau uchaf o onestrwydd, priodoldeb ac atebolrwydd ym mhob agwedd o swyddogaethau y Cyngor.

1.2 Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad Aelodau a Chod Ymddygiad Staff ac wedi ymrwymo i gynnal yr ymddygiadau hyn ym mhob agwedd o’i waith. (Yn y ddogfen hon mae cyfeiriad at “Aelod” neu “Aelodau” yn golygu unrhyw un sydd ymrwymedig I'r Cod Ymddygiad Aelodau neu unigolion eraill sydd wedi eu cyfethol gan y Cyngor i unrhyw bwyllgor neu gorff arall)

1.3 Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Canu’r Gloch i staff yn unol â darpariaeth y Public Interest Disclosures Act 1998.

1.4 Mae’r ddogfen hon yn adeiladu ar hynny gyda gweithdrefn adrodd gyfrinachol y Cyngor er mwyn rhoi llwybr clir i Aelodau allu adrodd ar faterion allai fod yn droseddol, yn gamymarfer sylweddol neu’n ymddygiad amhriodol difrifol. Mae wedi ei gynllunio i ddarparu arweiniad eglur i unrhyw aelod all fod a pryderon . Mae Chwythu’r Chwiban yn cynorthwyo i amddiffyn gwasanaethau ac rydym am glywed am urnhwy bryderon sydd gennych fel bod modd gweithredu i’w datrys

1.5 Mae pharagraff 18.3.6 (B) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau yn nodi fod rhaid iddynt:-

> " adrodd pa un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw, at ddibenion y paragraff hwn, yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellid eu cosbi trwy gosb benodedig)."

1.6 Pwrpas y weithdrefn hon yw darparu’r weithdrefn adrodd gyfrinachol y cyfeirir ato uchod a rhoi eglurder i Aelodau ar y broses ar gyfer codi pryderon o'r fath o fewn y Cyngor.

2 Cwmpas y weithdrefn hon

2.1 Mae’r weithdrefn hon yn berthnasol i bob Aelod

2.2 “Mae’r weithdrefn hon yn berthnasol i bryderon yn ymwneud ag ymddygiad (rhestr ddim yn gynhwysfawr):-

(i) Staff Cyngor;

(ii) Swyddogion y Cyngor;
(iii) Gweithwyr asiantaeth, ymgynghorwyr a chontractwyr sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor;
(iv) Gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yn y broses o ddarparu gwasanaethau gan y Cyngor.
(v) Aelodau o'r cyhoedd a busnesau yn eu cysywllt a'r Cyngor.

2.3 Mae gan y Cyngor sawl proses llwybr arall sy'n galluogi i Aelodau gyflwyno pryderon dydd i ddydd am berfformiad, polisi, penderfyniadau ayb ac nid pwrpas y Weithdrefn hon yw disodli y prosesau hyn. Er mwyn osgoi unrhyw amryfusedd mae'r Weithdrefn benodol hon yn berthnasol ar gyfer:

(i) Materion allai fod o natur troseddol
(ii) Camymarfer sylweddol
(iii) Ymddygiadau amhriodol difrifol
(iv) Ymddygiadau anghyfreithlon

3 Materion nad yw'r Weithdrefn hon yn gymwys iddynt

Ni fydd y weithdrefn hon yn gyffredinol yn berthnasol yn yr achosion canlynol gan eu bod neu wedi u hymchwilio neu fod cyfundrefnau eraill ar gyfer codi pryderon a dylid dilyn y trefniadau yma:-

(i)Materion sy'n destun ymchwiliad cyfredol neu gaeedig ; (naill ai'n fewnol neu'n allanol);
(ii)Cwynion sy'n deillio o dorri'r Protocol ar Gysylltiadau Aelod/Swyddogion;
(iii) Honiadau fod aelod wedi tramgwyddo Cod Ymddygiad Aelodau.
(iii)Pryderon am ddiogelwch a / neu les person (plentyn neu oedolyn) y dylid eu cyfeirio yn unol a'r Polisi Diogelu Corfforaethol ;

4 Cyfrinachedd

4.1 Mae adroddiadau neu atgyfeiriadau a wneir o dan y weithdrefn hon yn cael eu trin gan y Cyngor fel rhai a wneir yn gyfrinachol ac yn gyffredinol ni fyddant yn cael eu gwneud yn gyhoeddus (nac yn cael eu cyfathrebu i Aelodau neu swyddogion eraill) oni bai: ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith, yn ofynnol oherwydd gweithdrefnau ymdrin ac ymchwilio honiadau neu, mewn amgylchiadau lle mae hyn yn angenrheidiol, megis darparu tystiolaeth neu wneud cwyn i'r awdurdod ymchwilio priodol. Trafodir hyn gyda'r Aelod ar bob achlysur,

4.2 Bydd disgwyl i Aelod sy'n gwneud adroddiad o dan y weithdrefn hon gadw ei adroddiad yn gyfrinachol a bydd yn sicrhau nad yw unrhyw ymchwiliad yn cael ei rwystro gan ddatgelu'r adroddiad neu'r gŵyn y maent wedi'i wneud.

5 Adrodd Pryderon

5.1 Dylid rhoi gwybod am weithgarwch y mae'r weithdrefn hon yn berthnasol iddo i Swyddog Monitro'r Cyngor a fydd yn penderfynu sut i fynd â'r mater ymhellach ac yn dod i gasgliad os yw'r mater dan sylw yn briodol ar gyfer y weithdrefn hon neu ar gyfer proses neu weithdrefn gydnabyddedig arall.

5.2 Os yw'r pryder yn ymwneud a thwyll neu lygredd yna bydd y Swyddog Monitro yn cyfeirio y mater i'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn y lle cyntaf

5.3 Gellir gwneud adroddiadau ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rhaid marcio adroddiadau ysgrifenedig yn glir yn GYFRINACHOL. Gellir defnyddio e-bost y Cyngor neu e-bost personol i godi pryder.

5.4 Petai gwrthdrawiad buddiannau gan y Swyddog Monitro dylid cyfeirio y mater at y Prif Weithredwr

5.5 Os oes gwrthdrawiad buddiannau gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, yna dylid cyfeirio'r mater at y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

5.6 Mewn achos eithriadol lle bod buddiant gan y Swyddog Monitro, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth gwasanaethau Corfforaethol, gellir cyfeirio'r mater i sylw Swyddfa Archwilio Cymru yn y lle cyntaf.

5.7 Yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos dan sylw, bydd modd i'r Swyddog Monitro (neu yn achos 5.4,5.5 a 5.6 y swyddog perthnasol) drefnu i ymchwiliad ddigwydd yn fewnol neu gyfeirio y mater i gorff neu ymchwilydd annibynnol yn ôl y gofynion priodoldeb arferol. Gall hefyd gynghori Aelod mewn achosion perthnasol i gyfeirio y mater yn allanol e.e. i sylw yr Heddlu neu yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.8 Cydnabyddir y gall codi pryderon ynghylch camymddwyn difrifol fod yn gam anodd i Aelodau, a bydd unrhyw un sy'n defnyddio'r polisi hwn fod â mynediad at gymorth a chyngor annibynnol drwy wasanaethau Medra a Protect, cyn, yn ystod, neu ar ôl gwneud datgeliad.

6 Camau gweithredu yn dilyn derbyn adroddiad gan aelod

6.1 Unwaith y bydd y Swyddog Monitro neu swyddog arall wedi derbyn adroddiad gan Aelod o dan y weithdrefn hon, bydd yn ystyried y mater ac yn penderfynu pa gamau pellach sydd eu hangen, os o gwbl. Gall hyn gynnwys ymchwiliad gan swyddog priodol fel Tîm Archwilio'r Cyngor neu Dîm Iechyd a Diogelwch. Byddent yn cydnabod derbyn ac yn gwneud cyswllt cychwynnol gyda'r Aelod dim hwyrach na 7 diwnrod gwaith o ddyddiad y cyfeiriad.

6.2 Fel arall, bydd y Swyddog Monitro yn dod i benderfyniad os yw'r mater yn gofyn am gyfeiriad Heddlu neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu gorff arall, rheoleiddiwr neu asiantaeth gorfodi. Gall drefnu cyfeiriad ffurfiol neu gyfarwyddo'r aelod i gyfeirio'r mater.

6.3 Ble yn briodol bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Aelod sy'n adrodd am ganlyniad unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos. Yn dibynnu ar natur y mater sy'n achosi'r pryder, efallai y bydd angen i unrhyw fanylion pellach o'r ymchwiliad aros yn gyfrinachol ac felly bydd yn cael ei atal rhag roi gwybod i'r Aelod sy'n adrodd . Neu gall fod yn nwylo corff gorfodi neu reoleiddiwr allanol . Esbonnir hyn i'r Aelod hyd y gellir yn briodol gwneud.

7. Erledigaeth

7.1 Petai unrhyw Aelod yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wael gan aelod o staff oherwydd gwneud datgeliad, rhowch wybod i'r Swyddog Monitro neu unrhyw un arall o'r swyddogion rhestredig. Gall hyn gynnwys triniaeth negyddol fel sylwadau negyddol, anwybyddu neu ddileu gwaith, a gwrthod cydweithredu ag Aelod oherwydd eu bod wedi codi pryder. Nid yw ymddygiad o'r fath yn dderbyniol ac er nad yw'r amddiffyniadau statudol yn berthnasol i Aelodau, mae'n bwysig bod ymddygiad o'r fath yn cael ei ddwyn i'r amlwg a'i datrys.

Cysylltiadau

Swyddogaeth	Enw	e-bost	Ffôn
Swyddog Monitro	Iwan Evans	iwangdevans@gwynedd.llyw.cymru	07435741322
Prif Weithredwr	Dafydd Gibbard	dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru	01286 632001
Pennaeth Gwasnaethau Corfforaethol	Ian Jones	ianjones@gwynedd.llyw.cymru	07795823944
Rheolwr Archwiio	Luned Fon Jones	lunedfonjones@gwynedd.llyw.cymru	01286 634687

I'W GWBLHAU

Archwilio Cymru

**Medra*

Angen cadarnhau sut i gael mynediad

***Protect*

Gwefan lawr ar hyn o bryd

"Mae Protect yn rhedeg llinell gyngor cyfreithiol am ddim, cyfrinachol i'r rhai sydd â phryderon chwythu'r chwiban."

Atodiad 2: Trosolwg Llwybrau Ymholi ac Adrodd i Aelodau

Math o 'Bryder / Ymholiad'	**e.e.**	**Trefn adrodd**
Datgelu Ymddygiad / Pryderon Difrifol neu Droseddol	Datgeliad ymddygiad troseddol yn unol a'r gofyn yn y Còd Ymddygiad; fyddai yn cynnwys llygredd, twyll a troseddau megis iechyd a diogelwch	Trefn newydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2026 Y Cyfansoddiad (i'w adolygu ar ôl cyfarfod y Cyngor 02/07/2026) Yn unol â'r Polisi Canu'r Gloch Aelodau (NEWYDD) Adrodd i sylw y Swyddog Monitro neu yn unol a rhan 5.4-5.7 o'r Weithdrefn
Diogelu	Camdriniaeth corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol Esgeuluso corfforol, rhywiol, seicolegol, teimladol neu ariannol	Yn unol â'r Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf Sef Cysylltu â'r Heddlu (999) os oes plentyn neu oedolyn mewn perygl Gysylltu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd Polisi-Diogelu-Ionawr-2025-Cymraeg.pdf
Cwyn am ymddygiad Aelod arall	Dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod, amharch, defnyddio swydd yn amhriodol, camddefnyddio adnoddau'r Awdurdod, torri cyfrinachedd, peidio tynnu sylw at achos o dorri'r côd.	Yn unol ag : Adran-18---Cod-ymddygiad-aelodau.pdf Adrodd i sylw y Swyddog Monitro
Twyll	Cynrychiolaeth ffug; methu datgelu gwybodaeth yn fwriadol neu dwyll dry gamddefnyddio swydd	Yn unol â'r Cod Ymddygiad a'r Strategaeth Gwrth-dwyll: Atodiad 1 - Strategaeth.pdf Adrodd i sylw y Rheolwr Archwilio

Cwyn am Swyddog / Prif Swyddog	Bod yn amharchus at aelod, anwybyddu gohebiaeth, torri cyfrinachedd neu weithredu yn groes i'r Protocol Aelodau a Swyddogion	Yn unol ag Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf Adrodd i reolwr llinell y swyddog; trefniadau uchafu i'r Pennaeth Adran / Cyfarwyddwr os nad yw'n cael ei ddatrys.
Cwyn am y Prif Weithredwr / Swyddog Monitro	Ymddygiad sydd yn groes i'r Protocol Aelodau a Swyddogion, neu'n dorri o'r Cod Ymddygiad i Swyddogion.	Yn unol ag Adran-21---Protocol-ar-gyfer-cysylltiadau-aelodau-a-swyddogion.pdf
Cwyn am Wasanaeth ar ran etholwyr	Casgliadau gwastraff yn cael eu methu yn rheolaidd mewn ardal, oedi mewn	Yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd Datrysiad Anffurfiol drwy adrodd i'r Rheolwr / Pennaeth Adran Perthnasol Cyflwyno Cwyn Ffurfiol drwy'r pwynt cyswllt cwynion canolog – Galw Gwynedd, gwefan neu ebost cwynion.
Cais am wasanaeth ar ran etholwyr	Cais am fin newydd, cais am newid lamp stryd, adrodd ar dwll mewn lôn	Cais drwy unrhyw gyfrwng sy'n ddewisol i'r aelod ee E-bostio / ffonio'r gwasanaeth yn uniongyrchol, drwy Galw Gwynedd; drwy'r wefan gyhoeddus ; drwy Hunanwasanaeth aelodau.
Ymholiad cyffredinol / cais am wybodaeth am wasanaethau'r cyngor	Holi ar pa ddiwrnod mae'r bin yn cael ei gasglu, cyngor ar gais cynllunio, ceisiadau treth Cyngor	Cysylltu drwy Galw Gwynedd neu gysylltu yn uniongyrchol â'r gwasanaeth neu wybodaeth ar y wefan

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	18 Mehefin 2026
TEITL	Ymgynghoriad Polisi Cludiant Addysg Drafft
RHESWM DROS GRAFFU	Mae Polisi Cludiant Addysg wedi ei adnabod yn y gweithdy blynyddol ar gyfer ei graffu yn 2026-27.
AWDUR	Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg)
AELOD CABINET	Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg)

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, rydym yn cyflwyno drafft o Bolisi Cludiant Addysg yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori ar gynigion i ddiwygio cynnwys y polisi presennol. Gweler copi o'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn Atodiad 1.

1.2 Bydd arweiniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y cynigion i ddiwygio'r polisi, ynghyd ag ymateb y pwyllgor i'r sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai yn ein galluogi i ystyried y cynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg ymhellach, cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ganlyniad yr ymgynghoriad, gan ofyn iddynt fabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg yn derfynol.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Mae cyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg drafft yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori yn rhoi cyfle i'r pwyllgor ystyried y cynigion ar gyfer diwygio'r polisi, ynghyd ag ystyried y sylwadau sydd wedi eu derbyn gan ymgynghorai i'r cynigion hynny. Cyflwynir hefyd fersiwn wedi ei ddiweddaru yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad o'r Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd Gymdeithasol.

2.2 Gofynnir am sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y cynigion canlynol:
- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

2.3 Gofynnir hefyd am sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau rheiny.

2.4 Gwahoddir sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar gynnwys yr Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd Gymdeithasol.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Mae'r prif gynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn y meysydd canlynol:
- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

3.2 Yn Atodiad 3 a 4, cyflwynir crynodeb llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd gan ymgynghorai ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r ymatebion rheiny.

3.3 Yn Atodiad 5 ceir Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd Gymdeithasol wedi ei ddiweddaru ar ôl ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

3.4 Gwahoddir sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y cynigon a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd a'r Asesiadau Effaith er ystyriaeth bellach gan yr Adran Addysg, a'r Cabinet maes o law.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Mabwysiadwyd y Polisi Cludiant Addysg presennol yn 2009, ac er nad oes newid i'r gofynion statudol ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr, mae'n amserol adolygu'r polisi oherwydd yr angen i:

- Sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol:
  - Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu gyfan o'r elfennau dewisol o'r polisi
- Sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd:
  - Mae anghysondeb yng nghynnwys y polisi ar draws yr holl feysydd, ac mae'n anghyson hefyd o ystyried polisïau cludiant rhai siroedd eraill.
- Sicrhau bod y Polisi'n addas i bwrpas o ran rhesymoldeb gweithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael:
  - Mae'r Polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono mwyach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol;
  - Mae'r Polisi yn amwys sy'n llesteirio gallu'r Awdurdod i wneud penderfyniadau clir a chytbwys gan ein gadael yn agored i her a chwynion.

4.2 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol' (Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.

4.3 Mae'r Mesur yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol: -

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal ei hawdurdod;
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir o'r ysgol addas agosaf;
- Asesu a diwallu anghenion plant 'sy'n derbyn gofal' yn ardal eu hawdurdod;
- Hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg ac ysgolion ffydd;
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

4.4 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â gofynion y Mesur. Ar yr un pryd, o fewn y Mesur, gall yr Awdurdod Lleol wneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur, ac ar sail dewis a disgresiwn yr Awdurdod.

4.5 Yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu polisïau i ddarparu cludiant dewisol o fewn eu Polisi Cludiant Addysg, ac os bydd Awdurdod yn gwneud defnydd o bwerau Rhan 6 i ddarparu cludiant dewisol, mae gan yr Awdurdod hefyd yr hawl i ddiddymu'r ddarpariaeth yn ddiweddarach. Er mwyn gwneud hynny, o dan ganllawiau statudol 2014, mae'n ofynnol:

- Cynnal ymgynghoriad cyn dileu neu addasu darpariaeth ddewisol; a
- Cyhoeddi trefniadau erbyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol.

4.6 Mae'r prif newidiadau a gynigir i'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) i bwrpas ymgynghori yn ymwneud â darpariaeth cludiant dewisol yr Awdurdod yn y meysydd canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

4.7 <u>Cynllun Seddi Gweigion</u>

4.8 Ar hyn o bryd, cynigir sedd wag i ddysgwyr nad oes ganddynt hawl i gludiant di-dâl os bydd argaeledd sedd ar gludiant a chodir tâl am y sedd honno. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:

- Bod seddi gwag ar gael;
- Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol;
- Dim costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd;
- Talu'r ffi gyfredol am sedd wag.

4.9 Nid yw'r cynllun ar gael ar gytundebau cludiant cyhoeddus, ac nid oes sicrwydd y bydd y sedd wag ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd. Ceisir rhoi o leiaf wythnos o rybudd petai'r trefniant yn gorfod dod i ben.

4.10 Yn sgil y gofynion statudol i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid cyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol, nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion fel y bwriadwyd heb ymrwymo i gynnig sedd wag drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn mynd yn

groes i hanfod y cynllun o drefniant hyblyg i allu cynnig sedd wag heb ymrwymo i ddarparu'r sedd am gyfnod penodol, gan y gallai hynny arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod. O ganlyniad, mae'r Cynllun Seddi Gweigion fel pennawd wedi'i ddiddymu fel cynnig o'r Polisi Cludiant Addysg Drafft.

4.11 Ysgolion Ffydd

4.12 Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y Polisi Cludiant Addysg er y darperir cludiant i ddysgwyr sy'n dewis mynychu'r ysgolion ffydd ar hyn o bryd yn unol â'r gofyn statudol. Mae gan Wynedd ddwy ysgol ffydd (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), a'r ysgolion eu hunain yw'r awdurdodau mynediad yn hytrach na'r Cyngor, ac felly nid oes ffiniau dalgylch penodol ar eu cyfer fel gyda gweddill ysgolion y sir.

4.13 Mae gofyn i'r awdurdod hyrwyddo mynediad i ysgolion ffydd, felly mae cludiant i ysgolion ffydd fel cynnig wedi ei ychwanegu i'r Polisi Cludiant Addysg Drafft. Mae'r cynnig yn nodi'r bwriad i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr yn unol â'r gofyn statudol, ac i ddysgwyr sy'n byw ddim mwy na phum milltir o'r ysgol (ffydd) addas agosaf, gan adlewyrchu'r ffaith fod ysgol ffydd yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch arferol ysgol, gan gynnig eglurder o fewn y polisi ar yr hawl i gludiant.

4.14 Preswyliad Deuol

4.15 Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswylio mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant ar wahân, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r preswylfeydd hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif breswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa.

4.16 Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn cynnig rhagor o eglurder, sef y darperir cludiant yn unol â'r gofyn statudol, ond na ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na 5 milltir o'r ysgol addas agosaf.

4.17 Cludiant Ôl-16

4.18 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant dewisol i ddysgwyr ôl-16 llawn amser i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- Ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13.
- Ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13 & 14 Grŵp
- Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon.

4.19 Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn cynnig bod yr awdurdod yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol neu'r coleg ôl-16 addas agosaf sy'n darparu'r cwrs.

4.20 Mae'r cynnig i ddarparu cludiant ôl-16 i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd ag i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yn:

- gyson gyda gweddill y Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol.
- golygu bod y ddarpariaeth cludiant yn cefnogi darpariaeth ôl-16 ar draws y sir, ac yn cyfrannu at sicrhau hyfywedd y darpariaethau ledled y sir, yn Arfon, Dwyfor a Meirion wrth gludo dysgwyr i'r safleoedd agosaf sy'n darparu'r cwrs.
- golygu na fydd myfyrwyr Prifysgol Bangor yn gymwys am gludiant ôl-16 gan fod y cynnig yn ymwneud â chludiant i ysgolion uwchradd neu safleoedd Grŵp Llandrillo Menai yn unig
- golygu cyfyngder oedran o fod yn llai nag 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd y dilynwyd y cwrs. Mae hyn yn gyson gyda pholisi cludiant siroedd eraill.

4.21 Nodir fod gan ddysgwyr yr hawl i ddewis unrhyw leoliad ar gyfer eu haddysg ôl-16, ond os na fydd dysgwr yn dewis yr ysgol/ safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yna byddent yn colli eu hawl i gludiant am ddim, yn yr un modd â'r Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol.

4.22 <u>Eglurder Pellach</u>

4.23 Ceir yna hefyd feysydd eraill o fewn y Polisi Cludiant Addysg ble rydym wedi ychwanegu manylder ac eglurder i'r polisi, ond nid yw'r ychwanegiadau hynny'n arwain at unrhyw newid i'r ymrwymiad i ddarparu cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant presennol. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys:

- Mesur Pellter Teithio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Ad-drefnu Ysgolion
- Disgwyliadau ar rieni/gwarchodwyr - Taliadau cludiant

5. Ymgynghori

5.1 Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet ar 20 Ionawr 2026 yn gofyn caniatâd i gynnal ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn derbyn caniatâd y Cabinet, cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 6 wythnos rhwng 9 Chwefror a 20 Mawrth 2026.

5.2 Cyhoeddwyd pecyn ymgynghori ar-lein ynghyd â ffurflen ymateb pwrpasol, a derbyniwyd cyfanswm o 31 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad drwy gyfrwng y dull hwn. Ceir copi o'r ffurflen ymateb yn Atodiad 2. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd.

5.3 Mae'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad 3) yn cynnwys crynodeb llawn o'r holl faterion a godwyd gan yr ymgynghorai drwy'r ffurflen ymateb ar-lein, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Rhestrir isod y prif themâu a godwyd gan yr ymgynghorai, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Atodiad 3.

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd

- Preswyliad Deuol
- Darpariaeth ôl-16
- ADY a Theithio Annibynnol
- Teithio Llesol
- Cyffredinol
- Safonau'r Gymraeg

5.4 Er mwyn sicrhau llais plant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori penodol gydag oddeutu 104 o fyfyrwyr yn y lleoliadau canlynol:

- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Coleg Menai, Bangor
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Pencraig, Llangefni
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Dolgellau
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Pwllheli
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Glynllifon

At hyn, cynhaliwyd sesiwn penodol ar gynigion y Polisi Cludiant Addysg Drafft gyda'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc.

5.5 Rhestrir isod y prif themâu a godwyd gan y bobl ifanc yn y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori. (Atodiad 4).

- Lleoliad y Cwrs
- Costau Cludiant
- Cyfyngder Oedran
- Dysgwyr gydag ADY
- Cludiant Cyhoeddus
- Amserlenni Cludiant
- Cyfrifo Pellter Teithio

5.6 <u>Penaethiaid Ysgolion</u>

5.7 Rhoddwyd cyflwyniad ar gynnwys y Polisi Cludiant Addysg Drafft gerbron penaethiaid uwchradd ar 11 Chwefror a'r penaethiaid cynradd ar 25 Chwefror 2026. Amlinellwyd y prif newidiadau ynddo a chodwyd ymwybyddiaeth o'r holiadur ar-lein, gan eu gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y sesiwn yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn raddol, ynghyd ag addasrwydd a safon yr hyfforddiant a ddarperir i'r rheiny sy'n darparu cludiant addysg ar ran y Cyngor.

5.8 <u>Fforwm Llywodraethwyr</u>

5.9 Rhoddwyd cyflwyniad hefyd i'r Fforwm Llywodraethwyr ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft ar 26 Chwefror 2026, ble amlygwyd y prif gynigion i'r polisi a chodi ymwybyddiaeth o'r holiadur ar-lein, gan roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau neu i gynnig sylwadau yn ystod y sesiwn. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y sesiwn yn ymwneud â'r Cynllun Seddi

Gweigion o safbwynt y posibilrwydd i'w ddiddymu'n raddol, ac effaith posib ei ddiddymu ar gymunedau ac ysgolion bach gwledig.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion i addasu'r Polisi Cludiant Addysg ar Gydraddoldeb, Y Gymraeg, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a'r ystyriaethau perthnasol yng nghyd-destun y Ddeddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol 9Cymru) 2015, ac fe gyhoeddwyd yr asesiad fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg. Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe adolygwyd yr asesiad. Gellir gweld yr Asesiad llawn yn Atodiad 4.

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1 Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion i addasu'r Polisi Cludiant Addysg ar Gydraddoldeb, Y Gymraeg, a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ac fe gyhoeddwyd yr asesiad fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg. Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe adolygwyd yr asesiad. Gellir gweld yr Asesiad llawn yn Atodiad 4.

7.2 <u>Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)</u>

Cadarnheir fod yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg wedi ei gynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88-93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89, 90 rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92, a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ac mae'r asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg.

8. Camau Nesaf

8.1 Yn dilyn ystyried sylwadau aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, mae bwriad cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn gofyn iddynt fabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig. Bydd y Polisi Cludiant Addysg terfynol wedi cymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Bydd angen i'r polisi gael ei fabwysiadu cyn 1 Hydref 2026 er mwyn dod yn weithredol o 1 Medi 2027 ymlaen.

9. Atodiadau

Atodiad 1	Polisi Cludiant Addysg Drafft
Atodiad 2	Ffurflen Ymateb
Atodiad 3	Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus
Atodiad 4	Adroddiad Ymgynghoriad Dysgwyr
Atodiad 5	Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd-Gymdeithasol
Atodiad 6	Diweddariad ar y Rhaglen Waith a'r Sefyllfa Gyllidol.
Atodiad 7	Astudiaeth Achos

POLISI CLUDIANT ADDYSG

CYNGOR GWYNEDD



POLISI DRAFFT
(Ionawr 2026)

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i ddarparu cludiant i'r ysgol yn unol â *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* a Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014. Mae'r Polisi Cludiant i Ddysgwyr yma'n amlinellu sut mae'r Awdurdod yn darparu cludiant i ddysgwyr ysgol a dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai sy'n preswylio yng Ngwynedd, a'r meini prawf cymhwyster.

1.2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried y canlynol wrth wneud trefniadau i ddysgwyr sy'n preswylio yng Ngwynedd:

- Oedran y dysgwr
- Y pellter o'r cartref i'r ysgol
- Natur y llwybr o'r cartref i'r ysgol
- Ceisiadau am addysg ffydd
- Anghenion dysgwyr gydag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol
- Anghenion dysgwyr sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol
- Anghenion dysgwyr gyda phreswyliad deuol.

1.3 Mae'r Mesur yn caniatáu'r Awdurdod Lleol i ddefnyddio disgresiwn mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir o dan rai amgylchiadau. Amlinellir yr elfennau dewisol hyn yn Rhan 3 o'r polisi hwn.

1.4 Darperir cludiant i ddysgwyr ôl-16 o dan y polisi fel trefniant dewisol. Gweler Rhan 3.3.

1.5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol o dan rai amgylchiadau. Amlinellir y rhain yn Rhan 2. Mae'r ddyletswydd i ddarparu'r cludiant hwnnw ond yn berthnasol os ydy plentyn yn preswylio yn ardal yr Awdurdod.

1.6 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu cludiant diogel, priodol, effeithlon a chost effeithiol i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys o dan y polisi hwn.

1.7 Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys rhwng eu cyfeiriadau cartref neu fan casglu dynodedig a'r ysgol addas agosaf lle mae'n nhw wedi cofrestru ynddi. Ni ddarperir cludiant am ddim i gyfeiriadau neu o gyfeiriadau aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, cyfeiriadau gwaith y rhieni, neu gyfleusterau gofal plant o unrhyw fath.

1.8 Daw'r Polisi i rym o 1 Medi 2027 ymlaen. Bydd trefniadau cludiant a aseswyd ac a ddarparwyd o dan bolisi blaenorol yr Awdurdod Lleol yn parhau oni fod newid materol mewn amgylchiadau a fyddai'n gofyn am wneud cais newydd, e.e. symud cartref neu ysgol / ysgol neu goleg ôl-16.

DRAFT

2. CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

2.1 Ysgolion sy'n gymwys

2.1.1 Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n diwallu'r meini prawf am gludiant a osodir yn y polisi hwn. Cyfeiria'r polisi at gludiant i ysgolion sy'n gymwys ac oddi wrthynt yn y categorïau canlynol:

- Ysgol gymunedol, sylfaen, a reolir neu wirfoddol a gynorthwyir
- Ysgol arbennig nas cynhelir
- Uned cyfeirio i ddisgyblion
- Ysgol annibynnol a enwir mewn Cynllun Datblygu Unigol.

2.2 Meini Prawf Pellter

2.2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn amodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr oed ysgol gorfodol yn unig, os ydi'r pellter o'r cartref i'w hysgol addas agosaf o leiaf:

a) 2 filltir i ddysgwyr Ysgolion Cynradd
b) 3 milltir i ddysgwyr Ysgolion Uwchradd

2.3 Yr Ysgol ddalgylch/addas agosaf

2.3.1 Diffinnir ysgol ddalgylch dysgwr gan ddalgylchoedd penodol ac yn seiliedig ar leoliad cartref y dysgwr. Yr ysgol addas agosaf at ddibenion cludiant fydd yr ysgol dan ofal Cyngor Gwynedd sydd agosaf at gartref y dysgwr. Ceir gwybodaeth bellach am yr ysgol ddalgylch/addas agosaf trwy ymweld â'r ddolen 'Lle dwi'n byw' ar wefan Cyngor Gwynedd: Chwilio am gyfeiriad

2.3.2 Os yw'r ysgol ddalgylch / addas agosaf yn llawn, asesir argaeledd yr ysgol addas agosaf nesaf sydd ar gael i dderbyn y dysgwr. Bydd yr un meini prawf pellter yn berthnasol.

2.3.3 Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys rhwng eu cyfeiriadau cartref neu fan casglu dynodedig a'r ysgol addas agosaf lle maent wedi cofrestru ynddi. Ni ddarperir cludiant am ddim i gyfeiriadau neu o gyfeiriadau aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, cyfeiriadau gwaith y rhieni, neu gyfleusterau gofal plant o unrhyw fath.

2.4 Mesur Pellter Teithio

2.4.1 Ar gyfer asesiadau o dan y meini prawf pellter yn Rhan 2.2 , bydd y gwaith o gyfrifo pellter o'r cartref i'r ysgol yn glynu wrth yr arweiniad a ddarparwyd yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*.

DRAFT

2.4.2 Lle disgwylir yn rhesymol i ddysgwyr gerdded i'r ysgol, caiff y pellter ei fesur yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael y gallai plentyn, boed yn annibynnol neu gyda hebryngwr, gerdded, yn rhesymol o ddiogel arno; o ystyried oedran ac anghenion y plentyn.

2.4.3 Asesir addasrwydd y llwybr teithio o ran diogelwch y dysgwr wrth gerdded arno, a gwneir asesiadau risg trylwyr gan swyddogion yr Uned Gludiant Integredig (Cyngor Gwynedd) ar amseroedd tebygol o'r dydd y byddai'r dysgwr yn ei ddefnyddio.

2.4.4 Wedi cynnal asesiad risg o lwybr teithio'r dysgwr (boed hynny'n cerdded yn annibynnol neu gydag oedolyn cyfrifol), os bernir bod llwybr teithio o'r cartref i'r ysgol yn beryglus, yna ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol, er bod y pellter o'r cartref i'r ysgol yn llai na'r pellter statudol a nodir yn 2.2 uchod. Yn yr amgylchiadau yma, mae gan y dysgwr hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim.

2.4.5 Y diffiniad o ffordd beryglus yw lle mae natur y ffordd, sydd yn cynnwys llwybrau troed cyhoeddus, yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr gerdded yn gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd yr Awdurdod yn asesu'r peryglon y gallai dysgwr eu hwynebu; gall y rhain gynnwys afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd, data damweiniau o'r gorffennol, coed a changhennau, ynghyd â nodweddion eraill all rwystro gyrrwr cerbyd allu gweld cerddwyr ar y ffordd.

2.4.6 Ar gyfer asesiadau dros y meini prawf pellter a nodir yn 2.2, caiff pellter y llwybr i'r ysgol ei fesur o ffin y cartref i'r fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol, a gallai gynnwys llwybrau troed cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau eraill, yn ogystal â ffyrdd wedi'u mabwysiadu. Nid oes rhaid iddo gynrychioli'r pellter byrraf ar y ffordd. Caiff y pellter ei fesur gan system fapio ddigidol (GIS).

SYLWER:**Dylai Rhieni / Gwarchodwyr gyfeirio hefyd at Ran 5.5 am wybodaeth am ddulliau teithio cynaliadwy i'r ysgol.**

2.5 Cludiant Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

2.5.1 Bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf yn unol â meini prawf y polisi hwn ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Gallai darpariaeth ddewisol fod yn berthnasol hefyd, yn rhinwedd y meini prawf a ddengys yn Rhan 3.

2.6 Dewis Ysgol y Rhieni / Gwarchodwyr

2.6.1 Mae gan rieni / gwarchodwyr yr hawl i ddewis unrhyw ysgol ar gyfer mynediad i'w plentyn yn amodol ar argaeledd llefydd. Os derbynnir y cais, bydd y rhiant / gofalwr yn colli eu hawl i gludiant am ddim os nad dyma yw eu hysgol ddalgylch / ysgol addas

agosaf, neu os nad honno yw'r ysgol Uwchradd ddynodedig ar gyfer yr ysgol fwydo gynradd a fynychwyd ganddynt.

2.6.2 Mae hyn yn gyson ac yn cwrdd â'r gofynion a amlinellir yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol (Mehefin 2014)*.

PWYSIG: Cynghorir rhieni / gofalwyr i ystyried goblygiadau cludiant ysgol cyn datgan eu dewis am le mewn ysgol. Gweler Rhan 2.3 ar yr ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd a Rhan 4.4 ar effaith cludiant.

2.7 Mynediad i Ysgol

2.7.1 Os bydd rhieni / gofalwyr yn methu sicrhau lle i'w plentyn yn eu hysgol dalgylch/addas agosaf, neu os ydy eu hysgol Uwchradd ddynodedig (o'r ysgol gynradd fwydo briodol) yn llawn, yna bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'w hysgol addas agosaf nesaf, ar yr amod y bodlonir y meini prawf pellter yn Rhan 2.2.

2.8 Safleoedd Casglu a Gollwng

2.8.1 Ar gyfer dysgwyr sydd yn gymwys ar gyfer cludiant, bydd disgwyliad eu bod yn cychwyn o fan casglu wedi'i benderfynu ymlaen llaw, oni nodir fel arall pan brosesir y cais. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i leoli mannau casglu sy'n rhesymol agos i gartrefi dysgwyr, ac nad yw'n fwy na'r pellteroedd statudol a amlinellir yn Rhan 2.2. Bydd unrhyw bellter a fesurir yn dilyn yr egwyddorion a amlinellir yn Rhan 2.4. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried llwybrau peryglus, gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn Rhan 2.8.

2.8.2 Cyfrifoldeb y rhiant / gwarchodwr yw sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd y man casglu mewn modd amserol a'i fod yn mynd ar y cerbyd yn ddiogel. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod yno oedolyn cyfrifol i gyfarfod y plentyn ar y siwrnai'n ôl, os yw oedran neu anghenion y plentyn yn gofyn am ddarparu hebryngwr.

2.8.3 Os nad oes oedolyn cyfrifol yno i gyfarfod plentyn sydd o ran oedran neu anghenion yn gofyn am ddarparu hebryngwr, yna bydd costau ychwanegol yn daladwy gan y rhiant/gwarchodwr, oherwydd gallai fod angen i Swyddogion geisio arweiniad gan y Gwasanaethau Plant ac, os bydd angen, trefnu i fynd â'r plentyn i fan diogel gan Gyngor Gwynedd.

2.8.4 Nid oes unrhyw beth yn y Polisi hwn yn creu'r disgwyliad y dylai pob plentyn gerdded i'r mannau casglu, gan y byddai hyn yn anaddas mewn rhai achosion. Mae'r Awdurdod yn cadw cofrestr o lwybrau peryglus hysbys, ac mae hyn yn ffurfio rhan o'r ystyriaeth a roddir wrth asesu ceisiadau am gludiant. Fodd bynnag, os cred rhiant / gwarchodwr nad yw defnydd o fan casglu'n addas i'w plentyn, dylent fynegi eu pryderon er sylw'r

Awdurdod, a fydd yn ymchwilio i'r amgylchiadau i benderfynu a oes angen trefniadau cludiant ychwanegol neu amgen eu hangen i'r plentyn hwnnw; er mwyn sicrhau bod gofynion y *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn cael eu bodloni. Er hyn, disgwylir y bydd rhieni / gwarchodwyr yn gwneud trefniadau ar gyfer y ddwy filltir gyntaf i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan yr Awdurdod.

2.8.5 Mae gan yr Awdurdod yr hawl i adolygu'r mannau casglu i sicrhau y cynhelir llwybr diogel yn barhaus ac yn amodol ar sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf cost effeithiol ar waith.

2.8.6 Unwaith bydd cymhwysedd am gludiant ysgol wedi'i gadarnhau, bydd yr Uned Gludiant Integredig yn hysbysu'r ysgol gyda chais i'r ysgol rannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r rhieni / gofalwyr.

2.8.7 Ble defnyddir cludiant i gludo dysgwyr i fannau casglu, rhaid i'r dysgwyr aros gyda'r tacsi hyd nes i'r cerbyd i'w cludo ymlaen gyrraedd. Mae disgwyl i yrwyr adrodd i'r Uned Gludiant Integredig am unrhyw ddysgwyr nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r disgwyliad yma.

2.8.8 Mae contractwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi'u cyfarwyddo i aros gyda dysgwyr i sicrhau eu bod yn mynd ar y cerbyd sy'n eu cludo ymlaen. Anogir rhieni / gwarchodwyr hefyd i adrodd i'r Uned Gludiant Integredig am unrhyw achosion lle nad yw gyrwyr yn gwneud hyn.

2.9 Llwybrau Peryglus

2.9.1 I ddysgwyr sy'n byw o dan y pellter cymhwyso statudol a ddengys yn Rhan 2.2, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol os ystyrir fod y llwybr yn beryglus. Asesir llwybrau peryglus gan Yr Uned Gludiant Integredig gan dilyn y canllawiau a ddarparwyd yn *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014*.

2.9.2 Lle defnyddir mannau casglu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried hefyd a oes llwybrau peryglus allai atal dysgwyr yn rhesymol rhag cerdded i'r lleoliadau hyn, gyda chwmni hebryngwr fel y bo angen. Yn yr achosion hynny, bydd yr Awdurdod Lleol, ar ôl asesu, yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r man casglu, neu'n cyfeirio at yr ysgol (pa bynnag un sydd fwyaf effeithlon).

SYLWER: Lle mae rhieni / gofalwyr wedi defnyddio'u hawl i ddewis ysgol yn ôl eu dymuniad (gweler Rhan 2.6), yna cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw trefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol.

2.9.3 Os cred rhiant / gwarchodwr fod llwybr penodol yn beryglus, dylent fynegi eu pryderon i sylw'r Awdurdod, a fydd yn ymchwilio i gadarnhau a oes angen unrhyw drefniadau cludiant ychwanegol neu amgen.

2.10 ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) A CHYFLYRAU MEDDYGOL

2.10.1 Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyflwr meddygol, anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwr wrth asesu anghenion teithio dysgwyr yn yr ardal. Os oes gan ddysgwr Gynllun Datblygu Unigol (CDU), bydd cludiant i'r dysgwr yn cael ei ddarparu yn unol â'r CDU – gall hyn gynnwys plant cyn-ysgol hefyd. Os caiff y CDU ei adolygu a'r elfen cludiant yn cael ei ddiwygio, bydd unrhyw drefniadau cludiant yn adlewyrchu'r CDU diwygiedig.

2.10.2 Gall yr Awdurdod ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oed ysgol orfodol, os nad oes ganddynt CDU, pan ofynnir am gludiant am resymau meddygol, anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol dysgwr (ADY). Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hystyried pan fydd ffurflen gais am gludiant ar sail feddygol yn cael ei chwblhau ynghyd â thystiolaeth gan ymgynghorydd neu berson o statws tebyg (nid Meddyg Teulu, Nyrs neu Ymarferydd). Bydd cludiant i ddysgwyr gydag anhawster meddygol/ADY yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau unigol a'r llwybr y mae'n ofynnol i'r dysgwr ei deithio. Caiff y trefniadau cludiant yma eu hadolygu'n flynyddol.

2.10.3 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr i deithio'n annibynnol ble fo hynny'n ymarferol bosibl. Bydd yr adolygiad blynyddol o'r trefniadau teithio yn ystyried y math o gludiant a ddarperir i'r dysgwr ac, os darperir cynorthwyydd teithwyr personol, p'un a oes angen parhau gyda'r trefniant hwnnw ai peidio. Gall Cyngor Gwynedd wneud newidiadau i drefniadau cludiant yn dilyn yr adolygiad.

2.11 Plant sy'n Derbyn Gofal

2.11.1 Plant sy'n derbyn gofal yw'r term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio plant sydd o dan 18 oed sy'n derbyn gofal a llety gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyngor Gwynedd, yn aml gyda gofalwyr maeth.

2.11.2 Mae gan blant sy'n derbyn gofal (yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989) yr un hawl i dderbyn cludiant a phlant nad ydynt yn derbyn gofal; fodd bynnag, nid oes gofynion iddynt fynychu'r ysgol addas agosaf at eu cartref neu gyfeiriad y lleoliad.

2.11.3 Os yw'r plentyn sy'n derbyn gofal yn mynychu ysgol agosach na'r pellter gofynnol a ddengys yn Rhan 2.2, ni fydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu. Gallai eithriadau yn rhinwedd y meini prawf a ddengys yn Rhan 3 fod yn berthnasol hefyd.

DRAFT

2.12 Preswyliad Deuol

2.12.1 Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswylio mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwyr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r preswylfeydd hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif breswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa. Ni ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na phum milltir o'r ysgol addas agosaf.

2.12.2 Rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth os ydynt yn credu fod yr amser rhwng y ddau gyfeiriad yn hafal ac yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

SYLWER: Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cadw'r hawl i brofi rhesymoldeb y cludiant y gofynnwyd amdano o dan yr amod hwn, o ystyried pellter, llwybrau diogel a hygyrch, hyd y daith, cost, ynghyd ag agosrwydd i sefydliadau addysg addas eraill.

3. CLUDIANT YSGOL DEWISOL

3.1 O fewn *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*, gellir gwneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur. Mewn rhai achosion, gellir codi ffi am gost y trefniadau hynny i'r rhiant / gwarchodwr cyfrifol.

3.2 Ysgolion Ffydd

3.2.1 Ar gyfer ysgolion ffydd, bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol ffydd agosaf ar sail ddewisol os dyma yw dewis y rhieni/ gwarchodwr i ddysgwyr sy'n byw hyd at 5 milltir o'r ysgol (ffydd) addas agosaf. Defnyddir y meini prawf pellter statudol yn Rhan 2.2 er mwyn gwirio bod y dysgwr yn gymwys, ond gydag ysgolion ffydd, adolygir y cais yn erbyn meini prawf mynediad yr ysgol ffydd hefyd. Gall tystiolaeth o brawf gynnwys enghreifftiau megis tystysgrif bedydd, tystysgrif prawf o ffydd neu lythyr gan arweinydd ffydd. Os na fydd dysgwr yn cwrdd â'r gofynion ffydd, yna adolygir y cais mewn perthynas â gofynion yr ysgol agosaf neu ddalgylch agosaf.

3.3 Cludiant Ôl-16

3.3.1 Mae rhan 2 o *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr sydd o dan 19 oed, (mae'n

rhaid i ddysgwr fod yn astudio cwrs llawn amser a bod o dan 19 oed ar y 1af o Fedi y flwyddyn academaidd y dilynir y cwrs).

3.3.2 Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol i ddysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol Uwchradd ddalgylch / addas agosaf a ddynodwyd gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y dysgwyr yn unig, neu yn achos cyrsiau llawn amser Grŵp Llandrillo Menai, i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs. Bydd cludiant am ddim ar gael i ddysgwyr sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol neu'r safle coleg addas agosaf. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r pellter a fesurwyd ganddynt o'r cartref i'r ysgol neu goleg cymwys ar y system (GIS) er mwyn cadarnhau gwir bellter.

3.3.3 Bydd dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu manteisio ar gynllun cludiant ôl-16 oed yr Awdurdod am gyfnod o hyd at 4 blynedd o ddechrau eu tymor cyntaf.

3.3.4 Mae'r polisi'n berthnasol ar gyfer teithio i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- Ysgolion Uwchradd a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13.
- Ysgolion arbennig a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13 & 14.
- Grŵp Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon, Gellir gweld y cyrsiau sydd ar gael ym mhob un o'r sefydliadau hyn yn eu prosbectai, sydd ar gael gan y sefydliadau yn uniongyrchol.

3.3.5 Os yw lleoliad cwrs neu ddysgwr yn trosglwyddo sefydliad addysgol arall yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd y meini prawf ar gyfer cludiant ôl-16 yn Rhan 3.3.2 yn parhau'n berthnasol.

3.3.6 Darperir cludiant rhwng sefydliadau dysgu sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd gan y partneriaid hynny.

3.3.7 Ceir rhagor o wybodaeth am gludiant ôl-16 yn Atodiad 1.

3.4 Ad-drefnu Ysgolion

3.4.1 Mewn achosion ble mae ysgolion wedi eu had-drefnu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y dewisiadau mwyaf priodol ar gyfer cludiant ysgol. Gallai hyn gynnwys darparu cludiant am ddim am gyfnod penodol o amser yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd y fath drefniadau'n cael eu darparu ar sail ddewisol ac yn cael eu dogfennu yn y broses ad-drefnu; felly bydd ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni / gwarchodwyr perthnasol ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill i gyd yn ymwybodol o delerau'r trefniant.

3.5 Adolygu Dalgylchoedd

3.5.1 Mewn achosion ble mae'r Awdurdod yn adolygu ffiniau dalgylchoedd (y tu allan i'r broses ad-drefnu ysgolion), bydd y meini prawf cludiant yn Rhan 2.2 yn berthnasol.

3.6 Symud Cartref

3.6.1 Mewn achosion lle mae dysgwr, sydd wedi bod yn derbyn cludiant ysgol am ddim, yn symud cartref rhan o'r ffordd trwy'r flwyddyn academaidd, bydd darpariaeth cludiant yn dod i ben os nad ydynt mwyach yn mynychu eu hysgol ddalgylch/addas agosaf.

3.6.2 Os yw dysgwr ran o'r ffordd trwy flwyddyn TGAU (blynyddoedd ysgol 10 ac 11), bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu cludiant dewisol hyd nes i'r blynyddoedd academaidd gael eu cwblhau, h.y. tan ddiwedd blwyddyn 11.

3.6.3 Mae'r ymrwymiad hwn yn dibynnu ar y dysgwr yn byw yn ardal yr Awdurdod Lleol.

SYLWER: Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cadw'r hawl i brofi rhesymoldeb y cludiant y gofynnwyd amdano o dan yr amod hwn, o ystyried pellter, amser y daith, a'r agosrwydd i sefydliadau addysg addas eraill.

3.6.4 Bydd pob ail-asesiad cymhwysedd arall yn dilyn yr un meini prawf a nodir yn Rhan 2. Ni fydd y rhan hon yn berthnasol lle mae rhieni / gwarchodwyr wedi defnyddio eu dewis yn flaenorol fel y manylir yn 2.6.

3.7 Trosglwyddiadau Ysgol a Reolir

3.7.1 Lle cefnogir trosglwyddiadau ysgol a reolir gan bennaeth ysgol y gyrchfan newydd a'r Adran Addysg, bydd rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o'r weithred hon ac yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn ar lefel ysgol. Gallai cludiant ysgol o dan yr amgylchiadau hyn gael eu cefnogi ar sail ddewisol lle ffurfia ran o'r weithred a chytundeb pob parti i fynd ar drywydd newid ysgol er lles y dysgwr.

3.7.2 Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn gyda'r Awdurdod a'r ysgol wrth fynd ar drywydd trosglwyddiad a reolir. Mae angen gwirio'r materion hyn ac mae tystiolaeth ar gael. Mae hyn yn galluogi'r Adran Addysg i wneud penderfyniad deallus ar sail y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais am gludiant.

3.7.3 Lle nad oes tystiolaeth ar gael ac/neu lle mae rhiant/gwarchodwr yn gwrthod ymwneud â'r broses gyda'r ysgol a'r Adran Addysg, bydd y cais am gludiant yn cael ei

wrthod. Bydd hyn yn seiliedig ar y diffyg tystiolaeth sydd ar gael i wneud penderfyniad deallus.

3.8 Cyflyrau Meddygol

3.8.1 Rhoddir ystyriaeth i'r angen i ddarparu cludiant i'r dysgwyr rheiny sydd angen cludiant i'r ysgol dros dro oherwydd bod natur eu cyflwr meddygol yn effeithio'n ddifrifol ar eu symudedd (e.e. torri coes). Bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i bob achos yn unigol, nid yn unig i'r rheiny sy'n gymwys am gludiant ar sail pellter. Ymhob achos darperir cludiant i'r safle a fynychir gan y dysgwr yn unig.

4. GWYBODAETH ARALL

4.1 Addysg Feithrin

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cludiant i blant sy'n mynychu ysgol feithrin neu ddosbarthiadau meithrin yn 3 neu 4 oed. Darperir cludiant i blant cymwys o ddechrau'r flwyddyn ysgol lle mae'r plentyn yn cyrraedd 5 oed ac yn dechrau addysg amser llawn, fel rheol yn y dosbarth derbyn.

4.2 Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol

Ni fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i glybiau ar ôl ysgol neu oddi wrthynt (h.y. clwb brecwast, clybiau ar ôl ysgol ayyb) neu weithgareddau allgyrsiol sy'n disgyn y tu allan i'r cwricwlwm statudol. Cyfrifoldeb y rhiant / gwarchodwr yw sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar waith os manteisir ar y darpariaethau hyn.

4.3 Newidiadau i'r Polisi

Os bydd angen diwygio'r polisi hwn, rhaid i'r Awdurdod ddilyn y gofynion statudol a osodwyd yn *Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009*. Mae hyn yn gofyn i'r Awdurdod ymgynghori, cytuno a chyhoeddi newidiadau i'r polisi cyn 1af Hydref yn y flwyddyn sy'n rhagflaenu'r flwyddyn academaidd y daw'r newidiadau i rym.

4.4 Effaith Cludiant

Dylai rheini / gwarchodwyr ystyried goblygiadau eu dewis ysgol ar y defnydd o geir preifat a'r effaith y gallai hynny ei gael ar draffig ac allyriadau carbon y tu allan i'w hysgol ddethol. Mae'r Awdurdod yn annog rhieni / gwarchodwyr i ystyried cludiant a theithio llesol a chynaliadwy i'r ysgol o'u dewis.

4.5 Dulliau Teithio Cynaliadwy

Dylai rhieni / gofalwyr ystyried dewisiadau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol. Mae gwybodaeth i'w gael am Deithio Llesol yng Ngwynedd ar wefan y Cyngor ynghyd â gwefan *Walk Wheel Cycle Trust* o safbwynt llwybrau beicio ar hyd a lled y sir.

5. DARPARU CLUDIANT

5.1 Darpariaeth Cyngor Gwynedd

5.1.1 Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu'r dull cludiant mwyaf addas a phriodol i bob dysgwr cymwys sy'n ddiogel ac sy'n darparu'r dull cludiant mwyaf cost effeithiol. Efallai y bydd hyn ar fws, coets, bws mini, neu gytundebau tacsi, neu ar gludiant cyhoeddus sy'n bodoli eisoes. Trefnir a rheolir y gwasanaethau hyn a'r cytundebau cysylltiedig gan yr Uned Gludiant Integredig.

5.2 Taliadau Cludiant

5.2.1 Er mwyn cwrdd â'r gofynion statudol, mewn amgylchiadau eithriadol gall y Cyngor gynnig cyllideb bersonol i rieni gludo eu plant i'r ysgol/coleg os bydd hynny'n rhatach na darparu cludiant a drefnir gan yr Awdurdod, neu ble nad oes trefniadau cludiant eisoes mewn lle.

5.2.2 Gwneir taliadau misol i gyfrif banc rhiant ar ôl derbyn ffurflen hawlio tâl C1 gan yr Uned Gludiant Integredig. Caiff y ffurflen gais ei gwirio gyda gwybodaeth am bresenoldeb y dysgwr o fewn yr ysgol/coleg a fynychir. Cyfrifir y tâl yn seiliedig ar bellter teithio'r rhiant o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio meddalwedd mapiau digidol (GIS) y Cyngor. Cyfrifir y gost yn ôl pellter y siwrne o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl ddwywaith. Nid oes rhwymedigaeth ar rieni / gwarchodwyr i dderbyn y cynnig ad-daliad, fodd bynnag, hwyrach yr ystyrir mai dyma'r dull cludiant mwyaf rhesymol.

5.3 Trefniadau Tywydd Garw

5.3.1 Mewn amgylchiadau o dywydd garw, cyfrifoldeb y Pennaeth yw penderfynu a ddylid cau'r ysgol ai peidio. Caiff yr Adran Addysg eu hysbysu o unrhyw benderfyniad i gau ysgol. Bydd y penderfyniad yn ddibynnol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys y rhagolygon tywydd, y sefyllfa yn ardal yr ysgol, sefyllfa aelodau staff mewn perthynas â theithio, a.y.y.b.

5.3.2 Os nad ydi'r darparwr yn gallu darparu bws neu dacsi yn y bore, oherwydd tywydd garw, yna ni fydd y cludiant hynny ar gael yn y prynhawn. Dylid hysbysu unrhyw rieni sydd

wedi penderfynu cludo eu plant i'r ysgol dan amgylchiadau o'r fath bod angen iddynt drefnu i gludo'r plant adref yn y prynhawn gan na fydd y cludiant ysgol arferol ar gael.

5.3.3 Os bydd darparwyr cludiant yn hysbysu'r ysgol eu bod yn awyddus i gludo rhai dysgwyr adref yn fuan, bydd rhaid i'r ysgolion gytuno i'r cais gan mai cyfrifoldeb y darparwr ydi cludo'r dysgwyr adref yn ddiogel. Wrth wneud cais o'r fath fe fydd y darparwr yn ymateb i rybuddion tywydd neu dystiolaeth uniongyrchol fod y sefyllfa mewn perthynas â'r tywydd yn gwaethygu. Ni ddylai cais o'r fath o reidrwydd arwain at benderfyniad i anfon pob dysgwr adref yn fuan.

5.3.4 Os penderfynir cau ysgol, bydd y Pennaeth yn cysylltu â darparwyr cludiant i'w hysbysu. Dylid hefyd gadarnhau â'r darparwyr y trefniadau ar gyfer y dyddiau dilynol cyn gynted ag y gwneir unrhyw benderfyniad perthnasol. Os methir â chysylltu â'r darparwyr dylid hysbysu'r Uned Cludiant Integredig ar 01766 771 000. Pan gymerir penderfyniad i gau ysgol, dylai'r Pennaeth hysbysu'r Adran Addysg drwy ddefnyddio'r system "Ysgol ar Gau" ar y wefan yr Awdurdod: www.gwynedd.gov.uk/cau

5.4 Monitro Gwasanaethau

5.4.1 Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i archwilio gwasanaethau Cludiant Addysg ar hap er mwyn sicrhau bod pawb sy'n teithio'n gymwys.

5.5 Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

5.5.1 Mae'r Uned Gludiant Integredig (Cyngor Gwynedd) yn rheoli ac yn trefnu'r holl gytundebau cludiant addysg angenrhreidiol gyda'r darparwyr gwasnaeth priodol. Mae hyn yn cynnwys derbyn tystiolaeth a chadw cofnod o archwiliadau'r Gwasnaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob gyrrwr a hebryngwr teithio gan y darparwyr.

SYLWER: Cyflogir hebryngwr teithio ar wasanaethau cludiant ysgolion cynradd yn unig lle ystyrir bod hynny'n briodol, neu os bydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y plentyn yn gwneud hynny'n briodol.

5.6 Y Cod Ymddygiad

5.6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r "Cod Ymddygiad Wrth Deithio" a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cod yn gosod disgwyliadau ar y dysgwr unigol, cyd-deithwyr a'r darparwyr cludiant. Gellir gweld y Cod ar Wefan y Cyngor Cod Ymddygiad, ac yn yr atodiad i'r Polisi yma.

5.6.2 Wrth i ddysgwyr gyflwyno cais am gludiant addysg bydd yn rhaid iddynt, neu riant / gwarchodwr, ddatgan ar y ffurflen gais eu bod wedi deall ac yn ymrwymo i gadw at y Cod Ymddygiad a'u bod yn ymwybodol o'r canlyniadau posib wrth dorri'r Cod.

5.6.3 Gall gweithrediad annerbyniol sy'n groes i'r Cod gan ddysgwr arwain at:

- adennill costau difrod pwrpasol gan ddysgwyr a / neu eu rhieni / gwarchodwr,
- dileu'r trefniadau teithio a gytunwyd i ddysgwr am gyfnod penodol neu amhenodol. Cyfrifoldeb y dysgwyr fydd gwneud eu trefniadau cludiant i fynychu'r ysgol/coleg eu hunain o dan yr amgylchiadau hyn,
- camau disgyblu gan yr ysgol neu goleg perthnasol,
- cyflwyno adroddiad am y digwyddiad i'r Heddlu.

6. GWELLA GWASANAETH

6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i dderbyn adborth a sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth allai arwain at wella gwasanaethau. Dylid cyflwyno unrhyw adborth neu sylwadau ynglŷn â'r Polisi hwn drwy'r drefn Cwynion ac Adborth Cwyn ffurfiol / Canmoliaeth

7. GWYBODAETH YCHWANEGOL

7.1 Mae'r canlynol ar gael ar wefan y Cyngor : www.gwynedd.llyw.cymru

A. Amserlenni a mapiau o'r Rhwydwaith i'r sefydliadau perthnasol
B. Y Cod Ymddygiad
C. Ffurflenni cais.
Ch. Cwynion a Sylwadau

DRAFT

Polisi Cludiant Addysg Drafft

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar Bolisi Cludiant Addysg Drafft.

Cefndir

Mae'r Polisi Cludiant Addysg sydd yn weithredol ar hyn o bryd yn dyddio'n ôl i 2009, ac er nad oes newid i'r gofynion statudol ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr, mae angen adolygu'r polisi er mwyn:

Sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru:
Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu pob elfen dewisol o'r polisi

Sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant pobl ifanc a'u teuluoedd:
Mae yna anghysondeb o ystyried cynnwys holl feysydd y polisi presennol

Sicrhau bod y polisi'n addas i bwrpas ac yn eglur a hawdd i'w weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael:
Mae'r polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono bellach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'r polisi yn amwys sy'n ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod wneud penderfyniadau clir a chytbwys am gludiant addysg.

Mae'r prif newidiadau a gynigir i'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn y meysydd canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion ffydd
- Preswyliad Deuol
- Cludiant ôl-16

Dogfennau perthnasol

- Polisi Cludiant Addysg Drafft
- Asesiad effaith

Datganiad preifatrwydd

Byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a gyflwynir wrth ymateb i bwrpas dadansoddi'r holiadur yn unig. Bydd yr ymatebion yn cael eu cadw am 5 mlynedd ar ôl dyddiad cau'r holiadur.
Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn cydymffurfio ag erthygl 6(e) o'r UK GDPR, gan ein bod yn gofyn eich barn am wasanaeth statudol.

Dyddiad cau: 20 Mawrth, 2026

Adran A:

A1.

Rydw i'n cwblhau'r holiadur hwn fel:

- [ ] Rhiant / gwarchodwr
- [ ] Llywodraethwr
- [ ] Aelod o Staff Ysgol
- [ ] Dysgwr o dan 16
- [ ] Dysgwr ôl-16
- [ ] Aelod o'r cyhoedd
- [ ] Aelod etholedig
- [ ] Arall

Arall

Adran B: Cynllun Seddi Gweigion

Beth sydd yn y polisi presennol?
Os bydd sedd wag ar gael i ddysgwr ar fws ysgol neu dacsi ysgol, gall dysgwr wneud cais am hawl i brynu sedd bob tymor.

Rhaid dilyn y meini prawf yma:
- Bod seddi gwag ar gael;
- Nad oes angen i'r cerbyd newid llwybr ei daith arferol;
- Nad oes costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd;
- Rhaid talu'r ffi gyfredol am sedd wag.

Bydd y dysgwyr yma yn cael y cynnig cyntaf:

- Dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU);
- Dysgwyr sy'n byw bellaf o'r ysgol neu safle ysgol.

Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?
Fydd y Cynllun Seddi Gweigion ddim yn bodoli yn y Polisi Cludiant Addysg newydd.

B1. Beth yw eich barn am beidio cynnwys y Cynllun Seddi Gweigion yn y polisi newydd er mwyn sicrhau bod digon o seddi ar gael i blant deithio am ddim i'r ysgol?

Cytuno'n gryf ☐
Cytuno ☐
Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
Anghytuno ☐
Anghytuno'n gryf ☐
Dim barn ☐

B2. Sylwadau

Adran C: Ysgolion Ffydd

Beth sydd yn y polisi presennol?
Nid oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y polisi presennol ond dyma'r sefyllfa:

Mae gan Wynedd ddwy ysgol ffydd, sef Ysgol Ein Harglwyddes ac Ysgol Santes Helen. Yr ysgolion eu hunain yw'r awdurdodau mynediad yn hytrach na'r Cyngor, ac felly nid oes ffiniau dalgylch penodol ar eu cyfer, er bod yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt yn seiliedig ar ardaloedd plwyfi Eglwysig hanesyddol mae'n debyg. Ar hyn o bryd, darperir cludiant i ddysgwyr ar sail yr ardaloedd hyn.

Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?
Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol:

- sy'n mynd i'r ysgol ffydd agosaf o ddewis y rhieni / gwarchodwr
- os ydynt yn byw o leiaf 2 filltir ond dim pellach na 5 milltir o'r ysgol ffydd addas agosaf
- lle mae eu rhieni / gwarchodwyr yn cyflwyno tystiolaeth o brawf ffydd

C1. Beth yw eich barn am roi cludiant am ddim i ddysgwyr mewn dalgylch ysgol ffydd sy'n byw o leiaf 2 filltir ond dim pellach na 5 milltir o'r ysgol ffydd addas agosaf?

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

C2. Sylwadau

Adran D: Preswyliad Deuol

Beth sydd yn y polisi presennol?

Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswylio mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant ar wahân, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r cartrefi hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif preswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa.

Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i ddysgwyr a allai fod yn preswylio mewn mwy nag un cartref oherwydd eu hamgylchiadau teuluol o'r prif gyfeiriad yn unig, gydag o leiaf un o'r cartrefi hynny yng Ngwynedd. Ni ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na 5 milltir o'r ysgol addas agosaf.

D1.

Beth yw eich barn am ddarparu cludiant am ddim o'r prif gyfeiriad yn unig?

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

D2. **Beth yw eich barn am beidio darparu cludiant am ddim os yw y ddau gartref dros 5 milltir o'r ysgol addas agosaf?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

D3. Sylwadau

Adran E: Cludiant Ôl-16

Beth sydd yn y polisi presennol?

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 llawn amser i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- Ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13.
- Ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13 & 14.
- Grŵp Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon.

Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd:

- yn byw 3 milltir neu bellach o'r ysgol neu'r coleg ôl-16 addas agosaf sy'n darparu'r cwrs.
- yn astudio'n llawn amser ac o dan 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd y dilynwyd y cwrs.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol uwchradd ddalgylch / addas agosaf a ddynodwyd gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y dysgwyr yn unig, neu yn achos cyrsiau llawn amser Grŵp Llandrillo Menai, i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yn unig.

E1. Beth yw eich barn am barhau i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16?

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

E2.

Beth yw eich barn am ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ddalgylch / addas agosaf sydd yn gwneud y cwrs yn unig?

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno ☐

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐

Anghytuno ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Dim barn ☐

E3. **Beth yw eich barn am ddarparu cludiant am ddim i'r coleg agosaf sydd yn gwneud y cwrs yn unig?**

Cytuno'n gryf ☐

Cytuno ☐

Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐

Anghytuno ☐

Anghytuno'n gryf ☐

Dim barn ☐

E4. **Sylwadau**

Adran F: Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol

Beth sydd yn y polisi presennol?

Byddwn yn rhoi cludiant am ddim i ddysgwyr sydd gyda Chynllun Datblygu Unigol, ac weithiau dysgwyr sydd efo cyflwr meddygol neu anabledd.

Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?

Byddwn yn parhau i roi cludiant am ddim i ddysgwyr sydd gyda Chynllun Datblygu Unigol, ac weithiau dysgwyr sydd efo cyflwr meddygol neu anabledd, ond yn:

- adolygu ceisiadau ADY bob blwyddyn a gweld os oes modd teithio'n annibynnol wrth dyfu a datblygu
- hybu a gweithio tuag at deithio'n annibynnol ymysg yr holl ddysgwyr ADY

F1.

Beth yw eich barn am adolygu ceisiadau ADY bob blwyddyn a gweld os gall y dysgwyr deithio yn annibynnol wrth dyfu a datblygu?

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

F2.

Beth yw eich barn am hybu a gweithio tuag at deithio'n annibynnol ymysg yr holl ddysgwyr?

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

F3. Sylwadau

Adran G: Dulliau Teithio Cynaliadwy

Beth sydd yn y polisi presennol?

Nid oes cyfeiriad at ddulliau teithio cynaliadwy yn y polisi presennol.

Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?

Bydd y cyngor yn hybu teithio llesol i'r ysgol a choleg, drwy gerdded a beicio a ffyrdd cynaliadwy eraill. Bydd hyn yn gwella iechyd, ffitrwydd ac yn lleihau niwed i'r amgylchedd ac yn ddull gwyrdd o deithio.

G1.

Beth yw eich barn am hybu a gweithio tuag at arferion o deithio gwyrdd a iach ymysg yr holl ddysgwyr?

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

G2. Sylwadau

Adran H: Sylwadau pellach

H1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newidiadau i Bolisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd?

Adran I: Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg.

I1.

Yn eich barn chi, pa effeithiau y byddai'r polisi hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

I2.

Yn eich barn chi, sut fyddai modd llunio neu addasu'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I3.

Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Adran J: Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol

J1.

Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y polisi hwn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu tlodi o bob math - tlodi ariannol, tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau ayyb.

Adran K: Amdanoch chi

Bydd ateb y cwestiynau canlynol yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod wedi casglu barn amrywiaeth o bobl ac yn rhoi cyfle i bawb o bob cefndir gymryd rhan.

Nid oes rhaid i chi eu hateb. Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd yn bosib i ni eich adnabod.

Dim ond i bwrpas dadansoddi ystadegau y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio.

Os nad ydych chi eisiau llenwi'r cwestiynau pellach, dyma ddiwedd yr holiadur.

K1. Rhyw

- ☐ Dyn / Gwryw
- ☐ Dynes / Benyw
- ☐ Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

K2. Nodwch eich grŵp oedran

- ☐ 15 oed neu'n iau
- ☐ 16 - 24 oed
- ☐ 25 - 34 oed
- ☐ 35 - 44 oed
- ☐ 45 - 54 oed
- ☐ 55 - 64 oed
- ☐ 65 - 74 oed
- ☐ 75 - 84 oed
- ☐ 85 + oed
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

K3.

Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?

- ☐ Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl
- ☐ Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn
- ☐ Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu
- ☐ Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu
- ☐ Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall

Arall

K4. Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?

- ☐ Cymreig
- ☐ Seisnig
- ☐ Albanaidd
- ☐ Gwyddelig o Ogledd Iwerddon
- ☐ Prydeinig
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall

Arall

K5. Beth yw eich hil?

- ☐ Gwyn
- ☐ Du / Affricanaidd / Caribiaidd
- ☐ Asiaidd
- ☐ Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig
- ☐ Cymysg / sawl grŵp ethnig
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall

Arall

K6. Beth yw eich crefydd?

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristion
- ☐ Mwslim
- ☐ Bwdhaidd
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddewig
- ☐ Sîc
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall

Arall

K7.

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

- ☐ Heterorywiol / Strêt
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Dynes hoyw / lesbiaidd
- ☐ Deurywiol (Bisexual)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall

Arall

K8.

Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)

(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

- ☐ Ydi
- ☐ Nac ydi
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

K9.

Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a

b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Diolch am eich ymateb.

YMATEB I'R SYLWADAU YN DEILLIO O'R HOLIADUR AR-LEIN

1. Thema: Cynllun Seddi Gweigion

CYF	**SYLWADAU**	**YMATEB Y CYNGOR**
1.1	"Gwastraff arian cael seddi gweigion."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
1.2	"Dylai plant dderbyn sedd dim ond os ydyn nhw'n byw i ffwrdd o'r ysgol ond dylai fod yn rhad."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i'r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a'r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i'r Cyngor. Pe byddai'r penderfyniad i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i'r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Llesiant, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.3	"Mae rhai rhieni fel fi, sydd wedi dod yn analluog i yrru, angen mynd â'u plant i'r ysgol pan maent yn byw ymhellach i ffwrdd."	Mae'r Cyngor yn nodi sylwad. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a'r meini prawf perthnasol.

1.4	“Mae ein plentyn ni yn elwa o'r cynllun seddi gwag yn enfawr. Mae'n dysgu cyfrifoldeb ac yn rhoi annibyniaeth i'n mab. Fel rhieni, mae'n caniatáu i ni barhau i weithio ac yn osgoi costau gofal neu cholli gwaith i ddanfon a casglu i'r ysgol. Mae hefyd yn lleihau'r orfodaeth o ddibynnu ar taid/nain yn fwy na goruchwyliaeth yn unig.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu’r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a’r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i’r Cyngor. Pe byddai’r penderfyniad i ddiddymu’r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i’r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Er hyn, mae’r cyngor yn cydnabod bod rhai effeithiau a rhwystrau ynghlwm a dod ar cynllun i ben. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Llesiant, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.5	“Fy merch, er enghraifft, yn mynd i ysgol gerllaw (y mae pob plentyn o'r pentref yn mynd iddi), ac mae'n rhaid iddi dalu am sedd wag, ar fws sy'n pasio'r tŷ. Mae'n gwbl annerbyniol ac anghyfiawn.”	
1.6	“Os ydym yn cael gwared arno byddwn yn gefnogol o broses araf o'i waredu fel bod disgyblion sydd wedi arfer derbyn yr gwasanaeth ddim yn colli o dros nos.”	
1.7	“Fel rhiant sydd yn byw ar ffîn y Sir (yn Sir Ddinbych) ac wedi bod yn talu i’m mhlant gael lle ar dacsi i’w hysgol, rwy’n siomedig iawn gyda’r penderfyniad. Er bod ysgol gynradd agosach yn Sir Ddinbych, yr ysgol mae’r plant yn fynychu yw’r ysgol dalgylch i’r pentref a’n cymdogion (sydd ochr arall i’r ffîn). Bu i ysgol y pentref gael eu chau gan y cyngor felly mae plant y pentref erbyn hyn yn mynd i’r ysgol agosaf yng Ngwynedd.”	
1.8	“Mae llawer o'n plant/teuluoedd wedi elwa o'r cynllun seddi gwag ond maent bob amser wedi ildio'r sedd honno pan oedd teithio am ddim yn angenrheidiol i blant sydd o fewn y pellter a roddwyd. Felly, dydyn ni ddim yn llwyr cytuno â thynnu hyn o'r polisi.”	
1.9	“Yn ddryslyd iawn ac nid wyf yn deall beth sydd wedi'i fynnu gan hyn; dylai plant sy'n byw y tu allan i'r ardal dderbyn y tacsi am ddim oherwydd gwahanol agweddau a oedd yn bodloni'r meini prawf.”	

1.10	“Rydym ni yn talu am y cynllun seddi gwag. Mae ein cartref ni yn 2.7 milltir or ysgol uwchradd agosaf, ond nid yw'r ffordd yn addas i gerdded bob bore a nos.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â’r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu’r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a’r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i’r Cyngor. Pe byddai’r penderfyniad i ddiddymu’r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i’r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Byddai modd cysylltu gyda’r Adran Addysg i drafod amgylchiadau unigryw, neu i gael eglurder ar gymhwysedd i gludiant. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod rhai effeithiau a rhwystrau ynghlwm a dod ar cynllun i ben. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Llesiant, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.11	“Diffyg eglurder dros y newid ac ystyriaeth am sut bydd yn effeithio disgyblion a theuluoedd. os ydi sedd ar gael, yna onid ydi hi'n od fod dim modd ei ddefnyddio?”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu’r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth
1.12	“Dydy o ddim yn gwneud synnwyr i beidio ceisio llenwi y seddi gwag sydd ar y tacsi a lleihau'r angen i rieni ddefnyddio cerbydau yn ddi-angen o safbwynt yr effaith ar yr amgylchedd.”	

1.13	“Pam ddim llenwi'r seddi gwag? Mae hyn yn newid twp neu ai rhywbeth alla i fod wedi'i golli?”	cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a’r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i’r Cyngor. Mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai diddymu’r Cynllun Seddi Gweigion yn sgil y gofynion i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym olygu y bydd posibilrwydd o seddi gwag ar gludiant addysg, ond ni fydd modd i’r Cyngor eu cynnig am ffi i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys am gludiant am ddim yn unol â’r meini prawf perthnasol. Pe byddai’r penderfyniad i ddiddymu’r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i’r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Er hyn, mae’r Cyngor yn cydnabod bod rhai effeithiau a rhwystrau ynghlwm a dod ar cynllun i ben. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.14	“Pam hybu mwy o ddefnydd o geir ar y ffordd yn ddiangen?”	
1.15	“Nid wyf yn cytuno gyda talu am seddi gwag, os yw` r bws yn pasio, yn hanner gwag yna dylai gael ei lenwi - rwyf yn talu am 3 sedd wag yma ac y bws yn pasio beth bynnag - dim yn gwneud synnwyr.”	
1.16	“Gall hyn effeithio ar niferoedd ysgolion gwledig yn enwedig lle nad ydi rhieni gyda car i ddod a disgyblion meithrin i'r ysgol.”	Mae’r cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch effeithiau posib ar niferoedd ysgolion gwledig y sir. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu’r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym.

		Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a'r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i'r Cyngor. Pe byddai'r penderfyniad i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i'r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.17	"Mae'r Awdurdod Addysg yn colli refeniw trwy beidio a gadael i rieni 'prynu' seddi gweigion yn bysys/tacsis. Mae'r cynnig seddi gweigion yn gallu helpu rheini heb geir sydd yn byw bron ar y ffin i hepgor talu."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a'r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i'r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a'r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i'r Cyngor. At hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd lleihad bychan mewn incwm refeniw yn sgil dod a'r Cynllun Seddi Gweigion i ben. Pe byddai'r penderfyniad i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i'r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen.

		Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.18	"Ddim yn gwybod fod hyn yn bosib eni we."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.
1.19	"Pam hybu mwy o ddefnydd o geir ar y ffordd yn ddiangen?"	Mae'r Cyngor yn nodi sylw. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a'r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i'r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a'r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai diddymu'r Cynllun Seddi Gweigion arwain at gynnydd yn nifer y cerbydau fydd yn cludo dysgwyr i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r niferoedd sydd yn manteisio ar y Cynllun Seddi Gweigion yn uchel, felly ni ragwelir effaith sylweddol ar nifer y cerbydau fydd yn teithio i'r ysgol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.20	"Nid wyf yn cytuno gyda talu am seddi gwag, os yw` r bws yn pasio, yn hanner gwag yna dylai gael ei lenwi - rwyf yn	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.

	talu am 3 sedd wag yma ac y bws yn pasio beth bynnag - dim yn gwneud synnwyr.”	Nid oes modd gweithredu’r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a’r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i’r Cyngor. Mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai diddymu’r Cynllun Seddi Gweigion yn sgil y gofynion i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i’r newid ddod i rym olygu y bydd posibilrwydd o seddi gwag ar gludiant addysg, ond ni fydd modd i’r Cyngor eu cynnig am ffi i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys am gludiant am ddim yn unol â’r meini prawf perthnasol. Pe byddai’r penderfyniad i ddiddymu’r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i’r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Golyga hyn y byddai teuluoedd yn cael 11 mis o rybudd i alluogi teuluoedd i wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i’r ysgol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.21	“Ni welaf reswm dros ddileu'r Cynllun Seddi Gwag gan mai penderfyniad parhaus yw hwn bob amser ac nid oes unrhyw gost i'r cyngor ac nid yw'n fanteisiol ar blant sy'n gymwys i deithio ar bws ysgol am ddim (gan eu bod bob amser yn cael flaenoriaeth o unrhyw ffordd). Mae'n cefnogi plant a allai fod y tu allan i'r ardal ddethol (yn achos fy nheulu i, rydym 1.5 km y tu allan i'r ardal ddethol). Wrth gwrs, mae'n bwysig gosod rheolau i bwy all ddefnyddio hyn	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch effeithiau posib ar niferoedd ysgolion gwledig y sir. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Nid oes modd gweithredu’r Cynllun Seddi Gweigion ar ei ffurf bresennol, gan fod gofyn ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth

	ac i osgoi unrhyw gamddefnydd - gan sicrhau nad oes unrhyw deithio cerbyd ychwanegol i fynd i'r a o byth ger bysiau er enghraifft. Ond mae teuluoedd sy'n defnyddio hyn i osgoi teithio diangen i mewn i'r ardal sydd yn llawn traffig o amgylch yr ysgolion yn Y Bangor, a dyna beth sy'n digwydd gyda'm teulu i. Ar hyn o bryd rwy'n gallu gollwng fy merch wrth y safle bws tra rwy'n gollwng fy mab yn ei ysgol gynradd sydd yn union wrth wynebu'r ysgol ac yn debyg ar gyfer codi ef - felly nid oes unrhyw ddefnyddio cerbyd ychwanegol ac rwy'n osgoi gormod o ddefnyddio'r car o fewn Dinas Bangor. Mewn gwirionedd weithiau rydym yn gallu beicio i ysgol gynradd fy mhlentyn, os bydd y tywydd yn caniatáu. Rwyf hefyd yn hapus i dalu'r £190 y flwyddyn am hyn. Rwyf bob amser wedi deall bod hyn yn wirfoddol - ond os oes seddi gwag ar y bws, sicr yw bod defnyddio'r seddi hyn yn llai gwastraffus ac yn fwy cydnaws â pholisïau amgylcheddol a thrafnidiaeth wyrdd y Cyngor. Mae'r gostyngiad hwn mewn defnydd ceir hefyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd ei chydymffurfio â hi - mae'n lleihau teithio car diangen, yn hybu defnydd cludiant cyhoeddus, yn gwella ansawdd yr aer o amgylch ysgolion Bangor. Nid oes unrhyw synnwyr yn colli'r incwm ychwanegol hwn i'r Cyngor neu leihau opsiynau teithio gwyrdd tra hefyd yn gwaethygu ansawdd yr aer, diogelwch y ffyrdd a thagfeydd ym Mangor os oes seddau gwag ar gael, mae'n bwysig eu defnyddio."	cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i'r newid ddod i rym. Golyga hynny fod y Cyngor yn ymrwymo i ddarparu sedd wag am gyfnod estynedig, heb yr hyblygrwydd i ddod a'r trefniant i ben os cyfyd sefyllfa ble na fyddai sedd wag bellach ar gael, gan arwain at gostau uwch i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai diddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn sgil y gofynion i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i'r newid ddod i rym olygu y bydd posibilrwydd o seddi gwag ar gludiant addysg, ond ni fydd modd i'r Cyngor eu cynnig am ffi i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys am gludiant am ddim yn unol â'r meini prawf perthnasol. Er hynny, yr angen i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid i ddarpariaeth cludiant addysg cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn i'r newid ddod i rym olygu y bydd posibilrwydd o seddi gwag ar gludiant addysg, ond ni fydd modd i'r Cyngor eu cynnig am ffi i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys am gludiant am ddim yn unol â'r meini prawf perthnasol. Pe byddai'r penderfyniad i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei weithredu, byddai gofyn i deuluoedd wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i'r ysgol o 1 Medi 2027 ymlaen. Golyga hyn y byddai teuluoedd yn cael 11 mis o rybudd i alluogi teuluoedd i wneud trefniadau amgen i gludo eu plant i'r ysgol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.22	"Nid cynnwys cynllun seddi gwag yw pryder, gan y gallai hynny gyfyngu ymhellach ar fynediad dysgwyr at addysg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae llawer o ddysgwyr yn Ngwynedd yn ddibynnol iawn ar drafnidiaeth drefnus oherwydd opsiynau cyhoeddus cyfyngedig. Gall dileu hyblygrwydd mewn trefniadau trafnidiaeth risg, mynediad	

	lleiaf at ganolfannau ffafriol neu addas, teithiau mwy cymhleth ac hirach, effaith negyddol ar bresenoldeb, lles, ac ymgynghori. Gall cynllun seddi gwag helpu i: Defnyddio capasiti presennol yn effeithiol Darparu mynediad ymarferol i ddysgwyr a fyddai fel arall wedi cael eu heithrio Cynorthwyo mynediad teg at addysg waeth beth fo'r lleoliad Gall peidio â chynnwys cynllun o'r fath gyfyngu ar gyfleoedd yn annisgwyl, yn enwedig i ddysgwyr gwledig a'r rhai sydd angen hyblygrwydd i gael mynediad at y ddarpariaeth fwyaf addas. Mae diffyg cynllun seddi gwag yn risgio lleihau hygyrchedd a chynyddu anghydraddoldeb mewn mynediad at addysg bellach, a dylid ei ystyried eto fel rhan o ddull cludiant mwy hyblyg."	

2. YSGOLION FFYDD

CYF	SYLWADAU	YMATEB Y CYNGOR
2.1	"Dim pellach na 5 milltir yn gwneud hi'n heriol iawn dybiwn i?"	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Cydnabyddir bod ysgolion ffydd yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch arferol ysgol, ac mae darparu cludiant o hyd at 5 milltir i ddysgwyr sydd yn mynychu ysgolion ffydd yn adlewyrchu hynny, o gymharu gyda'r gofynion statudol i ddarparu cludiant o hyd at 2 filltir ar
2.2	"..Dim ond os yw'n gyson â'r holl ysgolion eraill. Ni ddylai ffydd roi mantais nac anfantais."	
2.3	"Nid wyf yn cytuno gydag ysgolion ffydd yn ein hamserau di-grefydd ni. Felly, ni ddylai'r Catholigion gael eu trin yn wahanol i unrhyw grefydd neu anffyddwyr arall."	
2.4	"Os fydd y polisi newydd yn newid i leiaf 2 filltir a mwyaf o 5 milltir, yna mae gennym yn bosibl 4 o blant (efallai mwy) sy'n byw yn Bethesda ac efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer y	

	cludiant am ddim hwn sydd ganddynt ar hyn o bryd. Credaf ein bod na'r Ysgol Gatholig agosaf i Bethesda."	gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd yn gyffredinol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
2.5	"Rwy'n cytuno y dylid rhoi trafnidiaeth am ddim i blant i fynd i ysgol grefyddol. Nid oes llawer o ysgolion ar gael yng Ngwynedd sydd yn darparu ysgol grefyddol ac mae'n bwysig cadw hynny'n fyw gan y bydd yr hyn sy'n digwydd fel arall yw y bydd plant yn colli eu ffydd a'u gwerthoedd crefyddol. Nawr, yr hyn nad wyf yn cytuno ag ef yw y dylai pob plentyn gael y hawl p'un a ydynt yn fwy na 5 milltir i ffwrdd o'r ysgol grefyddol agosaf iddynt, a efallai y dylid cynyddu pellter i deithio i blant sydd yn byw'n agosach fel 2 filltir, gan fod pobl sy'n byw ym Mangor, er enghraifft, yn gallu cael eu gweld yn mynd i Ysgol Ein Harglwyddes heb i'r cyngor ddarparu bysiau am ddim, ond dylid caniatáu i bobl sy'n byw ym maes Bethesda, er enghraifft, deithio pellach gael bws hefyd."	
2.6	"Fel ysgol Gatholig byddai Llywodraethwyr ac Esgobaeth yn poeni'n fawr am y rheol 5 milltir gan ein bod ni a Caernarfon yn ysgolion ffydd Gatholig agosaf yng Ngwynedd. Y ysgol Gatholig nesaf yw yn Llandudno. Mae'r rheol 2 filltir yn deg ac yn gweithio ar hyn o bryd. Gwn pe bai'r tacsi yn cael ei dynnu oddi wrth fy mhlentyn ni allai barhau i fynd i'w ysgol bresennol gan ei bod yn rhy bell i ffwrdd oddi wrthyf a fy ngwaith fel na allwn ei ddod a'i gasglu mewn pryd gan arwain at golli ei ffydd yn ystod yr wythnos a chyfoethogi ffydd fy mhlentyn. Byddai'n rhaid imi wneud y dewis o symud ef i ysgol arall neu leihau fy oriau gwaith fel rhiant unigol gan ddibynnu fwy ar fudd-daliadau nad wyf am eu gwneud gan fy mod yn gweithio llawn amser ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer fy mhlant; byddai hyn yn rhoi straen arnom yn ariannol ac yn ein rhoi ymhellach mewn tlodi ac yn achosi mwy o bobl i hawlio mwy o fudd-daliadau, felly yn y pen draw ni fyddai unrhyw arbedion i'r llywodraeth; ie,	

	byddant yn arbed y taliad tacsi sydd yn cael ei wario ond fydd angen hawlio mwy o fudd-daliadau.”	
2.7	“Mae dysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ddibynnol iawn ar drafnidiaeth drefnus; gall polisïau traffig cyfyngol gyfyngu ar fynediad i ddarpariaeth addas, cynyddu cymhlethdod teithiau ac effeithio'n negyddol ar gyfranogiad a chyfranogi. Mae darparu trafnidiaeth am ddim yn ystod pellteroedd wedi'u diffinio (2–5 milltir) ar gyfer ysgolion crefyddol yn rhesymol yn yr egwyddor, gan ei bod yn cefnogi dewis rhieni a dysgwyr ac yn helpu i sicrhau mynediad teg i leoliadau addysg a ddewisir, fodd bynnag, dylid ei gymhwyso yn gyson ochr yn ochr â pholisïau traffig ehangach ac nid dylid gwneud niwed i ddysgwyr eraill (e.e. dysgwyr TG neu'r rhai mewn ardaloedd gwledig sy'n cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol). Mae'r egwyddor yn cefnogi mynediad teg a dewis, ond mae'n rhaid iddi fod yn gytbwys i sicrhau tegwch ar draws pob grŵp a lleoliad dysgwr.”	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch cymhwysedd teithio i’r ysgol. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Cydnabyddir bod ysgolion ffydd yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch arferol ysgol, ac mae darparu cludiant o hyd at 5 milltir i ddysgwyr sydd yn mynychu ysgolion ffydd yn adlewyrchu hynny, o gymharu gyda’r gofynion statudol i ddarparu cludiant o hyd at 2 filltir ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd yn gyffredinol. Ystyrir cymhwysedd i gludiant drwy banel ar gyfer dysgwyr sy’n cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol megis Ysgol Arbennig, Uned ADY, neu Uned Gyfeirio. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.

3. <u>PRESWYLIAID DEUOL</u>

CYF	SYLWADAU	YMATEB Y CYNGOR
3.1	“Mae gymaint o ysgolion uwchradd yn bellach na 5 milltir o'r ysgol. Hefyd, mae rhai dysgwyr yn rhannu eu hamser yn eithaf hafal rhwng y rhieni - mae dewis prif gyfeiriad yn annheg.”	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch patrymau dysgwyr a rhaniad eu hamser rhwng dwy aelwyd.

	Yn ychwanegol, byddai'r polisi'n elwa o eglurder mwy o ran hyblygrwydd a threfniadau disgresiwn ac ystyriaeth o amgylchiadau teulu cymhleth (e.e. preswylio ddwywaith). Sicrhau bod mentrau fel teithio annibynnol a theithio gwyrdd wedi eu hariannu'n briodol ac yn realistig.	Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Cydnabyddir bod y cynnig i ddarparu cludiant o hyd at 5 milltir mewn sefyllfaoedd o breswyliad deuol yn adlewyrchu awydd y Cyngor i hwyluso cludiant i ddysgwyr sy'n rhannu eu hamser rhwng aelwydydd gan fod y cynnig yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr cymwys o hyd at 2 filltir ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd yn gyffredinol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
3.2	"Unwaith eto, ni ddylai unrhyw fantais ormodol gael ei rhoi i'r plant / rhieni hynny dros eraill."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.
3.3	"Er bod darparu cludiant o brif gyfeiriad yn cynnig eglurder gweinyddol, nid yw'n adlewyrchu gwbl realiti trefniadau teuluol modern. Mae gan lawer o deuluoedd sefyllfaoedd byw cymhleth, annormal, lle mae pobl ifanc yn byw'n rheolaidd ar draws dwy aelwyd. Mae hyn yn arbennig o gyffredin mewn trefniadau rhiant cyfunol, ac mae'r ddwy aelwyd yn rhan bwysig ac amlwg o fywyd y dysgwr. Gall cyfyngu cludiant i'r prif gyfeiriad yn unig: Creu rhwystrau ymarferol i bresenoldeb ar ddyddiau pan fydd y dysgwr yn aros yn ei ail gartref Arwain at deithiau hwy neu fwy cymhleth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig Cynyddu effaith negyddol ar bresenoldeb, prydlondeb a lles	Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch patrymau dysgwyr a rhaniad eu hamser rhwng dwy aelwyd. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Cydnabyddir bod y cynnig i ddarparu cludiant o hyd at 5 milltir mewn sefyllfaoedd o breswyliad deuol yn adlewyrchu awydd y Cyngor i hwyluso cludiant i ddysgwyr sy'n rhannu eu hamser rhwng aelwydydd gan fod y cynnig yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr cymwys o hyd at 2 filltir ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd yn gyffredinol. Er bod darpariaeth cludiant yn gallu hwyluso presenoldeb dysgwyr yn yr ysgol, cyfrifoldeb rhiant yw sicrhau presenoldeb eu plant yn yr ysgol.

	O ystyried pwysigrwydd sicrhau mynediad teg i addysg, mae'n hanfodol bod y polisi yn cydnabod ac yn addasu i'r amgylchiadau teuluol amrywiol hyn. Yn gyffredinol, er bod y dull yn symleiddio gweinyddu, dylid ystyried hyblygrwydd mwy i gefnogi dysgwyr o gartrefi dwy-bleidiol ac i osgoi anfantais anfwriadol.”	Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.

4. DARPARIAETH ÔL-16

CYF	SYLWADAU	YMATEB Y CYNGOR
4.1	“Mae rhyddid i ddewis yn bwysig i bawb.”	Mae’r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae’r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i’r ysgol neu goleg agosaf sy’n darparu’r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda’r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd hyn yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn ystyried sylwadau yr ymgynghorai, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
4.2	“Gan nad yw bob ysgol a safle yn gallu cynnig cyrsiau neu pynciau mae'n bwysig galluogi y disgyblion gael mynediad at y cwrs/pwnc hwnnw. Mae angen sicrhau fod y disgyblion yma yn cael yr un cyfleon a phawb arall yng Nghymru a thu hwnt.”	
4.3	“Ni ddylai pellter fod yn rhwystr rhag dilyn y cwrs o ddewis y myfyriwr.”	
4.4	“Er bod y bwriad i symleiddio a thargedu darpariaeth trafnidiaeth yn cael ei ddeall, mae’r awgrymiadau hyn yn peryglu creu rhwystrau annisgwyl i ddysgwyr. Dylai mynediad i addysg ôl-16 fod yn seiliedig nid yn unig ar agosrwydd, ond hefyd ar addasrwydd y cwrs, ansawdd y darpariaeth, a anghenion unigol y dysgwr. Nid yw dull llym o “dim ond y darparwr agosaf” yn adlewyrchu realiti teithio mewn ardaloedd gwledig, lle gall teithiau fod yn hirach, yn llai uniongyrchol, ac yn fwy	

	cymhleth. Gall hefyd gyfyngu ar ddewis y dysgwr, cyfyngu ar gyfleoedd cynnydd, ac effeithio ar presenoldeb a lles. I sicrhau mynediad teg a chynhwysol i addysg, dylai polisi trafnidiaeth gadw rhywfaint o hyblygrwydd, gan alluogi dysgwyr i fynychu'r ddarpariaeth fwyaf addas yn hytrach na bod yn gyfyngedig i bellter yn unig."	
4.5	Un pryder allweddol yw'r effaith ar ddysgwyr yn 19 oed a throsodd, na fyddai mwyach yn gymwys am drafnidiaeth a gefnogir. I lawer, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig, mae mynediad at drafnidiaeth ddibynadwy yn hanfodol i gymryd rhan mewn addysg bellach. Mae tynnu'r cymorth hwn yn peryglu gwahardd dysgwyr rhag addysg, cynyddu diffyg ymrwymiad, ac effeithio'n negyddol ar gyfleoedd gwaith yn y dyfodol. Yn ehangach, nid yw cyfyngu cludiant i'r darparwr agosaf yn unig yn adlewyrchu realiti teithio yng Ngwynedd. Mewn practis, nid yw'r darparwr agosaf bob tro yn fwy hygyrch nac yn briodol, a gall arwain at: Teithiau hwy a mwy cymhleth Cynnydd yn yr ymddiriedaeth ar nifer o gysylltiadau trafnidiaeth. Effaith negyddol ar bresenoldeb ac iechyd meddwl. Mae hefyd yn risg y gall y polisi gyfyngu ar ddewis dysgwyr ac mynediad i'r ddarpariaeth fwyaf priodol, yn enwedig lle mae cyrsiau, cymorth, neu arbenigeddau yn amrywio ar draws campysau. Mae'n debygol y bydd dysgwyr mewn cymunedau gwledig yn cael eu hwynebu'n anghymesur, gan eu bod yn dibynnu'n fwy ar gludiant wedi'i drefnu ac yn meddu ar lai o ddewisiadau arall.	

5. ADY A THEITHIO ANNIBYNOL

CYF	SYLWADAU	YMATEB Y CYNGOR
5.1	“Hybu annibyniaeth yn grêt ond ddim ar draul lles a diogelwch a ddylai y polisi newydd ddim bwyso yn ormodol ar bobl ifanc i deithio ar eu pen eu hunain pan nad ydynt yn gallu gwneud hynny'n saff.”	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diogelwch teithio yn ddiogel ac yn annibynnol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd hyn yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn ystyried sylwadau yr ymgynghorai, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
5.2	“Dwi ddim isio neb defnyddio 'ail asesu' fel cyfle i orffen gwasanaeth i plant. Dwi’n meddwl yn gryf bod rhaid gwrando i llais y rhiant ag y plant yma.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw ynglŷn â phwysigrwydd gwrando ar lais y rhiant a'r plentyn. Rhoddwyd cyfle i rieni ymateb i’r Polisi Cludiant Addysg Drafft trwy gyfrwng holiadur ar-lein, a chynhaliwyd amryw o sesiynau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc er mwyn annog llais y plentyn. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd hyn yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn ystyried sylwadau yr ymgynghorai, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
5.3	“Nid arbed arian sydd wrth wraidd hyn gobeithio ? Er yn hoffi gweld anogaeth i deithio'n annibynnol, ni ddylai fod unrhyw gorfodaeth yn hyn - mae'n gam mawr iawn i unrhyw un efo ADY.”	Mae’r Cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai. Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth briodol i hwyluso a galluogi dysgwyr addas i deithio’n annibynnol. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd hyn yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn ystyried sylwadau yr ymgynghorai, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
5.4	“Yn dibynnu ar ba gyflwr sydd gan y plentyn a'r risgiau sydd ynghlwm ac pwy fydd disgwyl iddynt wneud hyn, mae'n	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.

	debyg y rhieni sydd angen gweithio yn cael pwysau ychwanegol ar deuluoedd dosbarth gweithiol.”	
5.5	“Mae'r ddau ddull yn cael eu cefnogi'n gryf gan eu bod yn hyrwyddo annibyniaeth, datblygiad personol, a gwell canlyniadau tymor hwy ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei gefnogi gan ariannu priodol, cynllunio, a chefnogaeth arbenigol i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn gyflawn adwy i bob unigolyn. Dylai teithio'n annibynnol fod yn drosiant gyda cefnogaeth, nid yn ddisgwyliad a osodir rhy gyflym. Gallai dysgwyr ag ALN yn arbennig fod angen rhaglenni wedi'u teilwra, hyfforddiant teithio, a chefnogaeth barhaus i adeiladu hyder a gallu dros amser. Heb fuddsoddiad digonol, mae risg y gellir disgwyl i ddysgwyr deithio'n annibynnol cyn iddynt fod yn barod, a allai effeithio ar eu diogelwch, lles, a gallu i gymryd rhan mewn addysg. Felly mae dull cytbwys yn hanfodol, un sy'n hyrwyddo annibyniaeth tra'n sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn trwy'r broses.”	Mae’r cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau diogelwch teithio yn ddiogel ac yn annibynnol. Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth briodol i hwyluso a galluogi dysgwyr addas i deithio’n annibynnol. Rhoddwyd cyfle i rieni ymateb i’r Polisi Cludiant Addysg Drafft trwy gyfrwng holiadur ar-lein, a chynhaliwyd amryw o sesiynau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc er mwyn annog llais y plentyn. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd hyn yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn ystyried sylwadau yr ymgynghorai, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
5.6	“Mae gormod ohonynt yn cael CPD - a oes angen yr gofal ychwanegol hwn gan y Cyngor ar bob un o'r rhain?”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw.

6. TEITHIO LLESOL

CYF	SYLWADAU	YMATEB Y CYNGOR
6.1	“Yn aml iawn mae angen cludo offer a ffeiliau mawr yn ôl ac ymlaen, hefyd mae ardal Gogledd Cymru yn eang iawn ac nid yn ymarferol o ran tywydd a pellter i fod yn disgwyl i bobl ddefnyddio beic/cerdded. Pwynt arall yw fod trafnidiaeth cyhoeddus ddim bob amser yn ddibynadwy.”	Mae’r Cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai am ddibynadwyedd cludiant cyhoeddus a phryderon am natur ddaearyddol a thywydd yr ardal wledig . Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai’n rhaid cynnal asesiad o’r ddarpariaeth cludiant addysg a chludiant chyhoeddus er sicrhau fod yr amserlenni cludiant yn addas er mwyn galluogi dysgwyr i gyrraedd y lleoliad yn y bore, a dychwelyd yn y prynhawn.
6.2	“Ni ddylid mabwysiadu polisi cyffredinol. Mae rhai ffyrdd yn anniogel i gerdded/rhoi beic arnynt.”	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai am ddiogelwch rhai ffyrdd mewn perthynas â cherdded a beicio. Mae’r Cyngor yn asesu diogelwch ac addasrwydd llwybrau teithio, ac os ystyrir nad yw llwybr yn addas ar gyfer cerdded i’r ysgol, yna darperir cludiant.
6.3	“Angen sicrhau fod y ffyrdd yn saff i alluogi hyn yn aml iawn yng nghefn gwlad Gwynedd prin mae un car yn gallu teithio yn saff heb sôn am annog cerddwyr a beicwyr.”	
6.4	“Os ydych chi'n gofyn i blant gerdded neu feicio llawer o filltiroedd yn y gaeaf ac ar rannau afreolus o'r ffyrdd nid yw hynny'n iawn. Mae plant yn gallu dod yn iach mewn llawer o ffyrdd eraill ac mae'n dibynnu ar rieni.”	
6.5	“Annelwig”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw.
6.6	“cytuno'n llwyr â'r cynllun yma. Mae gormod o blant yn rhy ddibynnol ar geir i ddod i'r ysgol yn lle cerdded.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw.
6.7	“Rwy'n llawer mwy â diddordeb mewn trafnidiaeth sy'n effeithlon o ran cost ac yn gwbl heb ddiddordeb mewn cynaliadwy (oni bai ei fod yn rhataf). Nid yw'r Cyngor wedi'i	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Llesiant, a oedd hyn yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg

	wneud o arian a dylai ganolbwyntio ar y ffordd rhataf bosibl yn hytrach na chwrdd â syniadau gwyrdd ffantasiol.”	drafft. Yn dilyn ystyried sylwadau yr ymgynghorai, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.

6. SYLWADAU CYFFREDINOL

CYF	SYLWADAU	YMATEB Y CYNGOR
6.1	“Ni ddylai yr un plentyn deithio ar gludiant cyhoeddus ar gyfer teithio i’r ysgol ac adref ar ddiwedd y dydd. Dylai pob plentyn gael teithio yn saff heb orfod sefyll Ni ddylai unrhyw blentyn orfod aros am drafnidiaeth cyhoeddus sydd ddim yn ei cludo at/o’r ysgol. Beth am orfod cario offer coginio neu gyfarpar addysg gorfforol Ni ddylai unrhyw deulu orfod sicrhau trafnidiaeth saff i’w plant - beth am effaith hyn (sawl car yn gorfod teithio i’r ysgol yn hytrach na un bws - beth yw effaith hyn ar ein hamgylchedd) Beth am deuluoedd sydd heb geir?”	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch dysgwyr yn teithio ar gludiant gyhoeddus i’w lleoliad addysgol, ac ar effeithiau hyn ar yr amgylchedd. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Darperir cludiant unai ar ffurf bws cyhoeddus, bws ysgol dynodedig, tacsi neu mewn rhai achosion cynigir lwfans teithio i rieni/warchodwyr i ddarparu’r cludiant. Er hyn, mae’r cyngor yn cydnabod bod rhai heriau a rhwystrau ynghlwm a dysgwyr yn teithio ar gludiant cyhoeddus i gael mynediad i addysg. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Llesiant, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
6.2	“Ddylai fod gan pob plentyn yr hawl i deithio yn saff i’r ysgol ac adref ar drafnidiaeth sy’n bwrpasol ar gyfer plant ysgol - dim cyhoedd.”	
6.3	“Mewn ardaloedd gwledig yn Ngwynedd nid yw'r trafnidiaeth cyhoeddus yn ddibynadwy nac yn cyrraedd yn ymyl-rhesymol. Mae cludiant ddiffwdan yn holl bwysig i ofalu am bresenoldeb a phrydlondeb plant a phobl ifanc mewn addysg. Canlyniad o blant a phobl ifanc methu a chyrraedd	Mae’r Cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai, ac yn nodi’r pryderon ynghylch dibynadwyedd cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol.

	yn hawdd i leoliadau addysg yw diffyg sgiliau, lefelau îs o addysg, llai o siawns o lwyddo mewn swyddi a chael swyddi da yn y dyfodol. Rhaid bod yn ymwybodol fod rhai rhieni yn enwedig mewn ardaloedd di-freintiedig, ddim yn medru gyrru ei hunain ac yn rhoi ei plant dan anfantais yn syth, os nad yw'r trefniadau teithio ar gael.”	Gwneir pob ymdrech i geisio darparu cludiant addysg addas, gyda chysylltiadau pwrpasol er mwyn cael mynediad i amrywiaeth o safleoedd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
6.4	“Dylai pob dysgwr gael trafnidiaeth am ddim i'r cyfleustra addysgol o'u dewis. Os yw cyngor Gwynedd eisiau i bobl ifanc barhau mewn addysg yna mae angen iddynt gynorthwyo'r dysgwyr hynny i gyrraedd y cyfleusterau gan ystyried bod llawer o ddysgwyr yn byw mewn cymunedau gwledig ac nad ydynt yn gallu ariannu trafnidiaeth eu hunain.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai, ac yn nodi’r pryderon ynghylch dibynadwyedd cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol a’r meini prawf perthnasol. Gwneir pob ymdrech i geisio darparu cludiant addysg addas, gyda chysylltiadau pwrpasol er mwyn cael mynediad i amrywiaeth o safleoedd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
6.5	“Mae'r llywodraeth eisiau i rieni weithio a darparu ar gyfer eu teulu tra'n ceisio codi teulu; ni all rhieni weithio a thynnu plant yn ôl ac ymlaen gan nad yw rhai swyddi yn cynnwys y horiau teuluol hyn ac mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn gwneud yn amhosibl i blant gwblhau'r cyrsiau hyn neu fynychu ysgol. Pe tynnid eu gwasanaethau, byddai hynny'n cynyddu mwy o rieni i fynd ar fudd-daliadau gan eu bod yn dymuno rhoi eu plant yn gyntaf a byddai'n effeithio ar rieni sengl sy'n dymuno gweithio a chyfrannu at incwm y byd. Fel rhiant sengl heb y tacsi, ni allwn barhau i weithio gymaint, gan arwain at i mi leihau fy oriau gwaith ac ymddiried ymhellach ar fudd-daliadau, sydd ddim yn beth dymunaf ond byddwn heb ddewis.”	
6.6	“Mae cludo plant ir ysgolion yn ddrud. Petai modd ail edrych ar ddalgylchoedd ysgolion bob 5 mlynedd a gweld a os oes modd newid arian trwy newid ffiniau dalgylch petai stad newydd o dai yn gwneud hyn yn fanteisiol.”	Mae’r cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau cludiant ac adolygu ffiniau dalgylchoedd ysgolion.

		Mae'r cyngor yn nodi'r sylwad am y cysylltiad rhwng trefniadau dalgylch ysgolion a'r Cod Mynediad Ysgolion, gan awgrymu bod angen dull mwy deinamig o gynllunio darpariaeth addysg. Yn benodol, mae'r ymateb yn nodi y gallai adolygu ffiniau dalgylchoedd yn rheolaidd (e.e. bob 5 mlynedd) mewn ymateb i newidiadau demograffig megis datblygiadau tai newydd helpu i sicrhau bod capasiti ysgolion a chostau cludiant yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol. O safbwynt y Cod Mynediad Ysgolion, mae hyn yn codi ystyriaethau am degwch a mynediad rhesymol i ysgolion lleol, gan fod ffiniau dalgylch yn gallu dylanwadu ar bwy sy'n cael mynediad blaenoriaethol at leoedd ysgol Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
6.7	"Dylid darparu ysgolion o'r fath ni waeth pa mor bell yw'r pellter dros 5 milltir os yw plentyn yn gorfod teithio rhagor oherwydd diffyg yr ysgolion hyn. Os na, bydd plant yn colli allan neu dylai ddarparu'r mathau hyn o ysgolion ym mhob ardal i atal plant rhag methu â chael y cymorth cywir, felly dylid darparu mwy o ysgolion wedyn."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.
6.8	"Sicrhewch fod y cyngor yn unol â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol bob amser."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd , mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.

6.9	“Rydyn ni'n cydnabod y bydd angen i Gyngor Gwynedd adolygu ei Bolisi Trafnidiaeth Addysg i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithlon ac yn gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r newidiadau arfaethedig yn codi nifer o bryderon sylweddol ynghylch mynediad, cyfartaledd, a chyfranogiad dysgwyr.	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch rhai o’r newidiadau dan sylw yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb , a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
6.10	I grynhoi, er bod y bwriad i greu system drafnidiaeth fwy effeithlon a tharged adwy yn cael ei ddeall, mae'r cynigion yn peryglu creu rhwystrau i addysg, lleihau dewis, a rhoi anfanteision i ddysgwyr gwledig ac agored i niwed. Mae angen dull mwy hyblyg a chynhwysol i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad realistig at addysg priodol ôl-16.”	

SAFONAU’R GYMRAEG

7. Yn eich barn chi, pa effeithiau y byddai’r polisi hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

Sylwadau	Ymateb Y Cyngor
“Schools in wales should by all means encourage children to speak welsh it is only natural, but i would also encourage children to learn how to read and write in English as well.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai.
“Annhebygol o wneud llawer o wahaniaeth.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai.
“Transport has no effect on language.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai.

“You would be taking away transport facilities of both English speaking and Welsh speaking students. Neither would be discriminated against in this new policy as ALL learners would be discriminated against.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
“Ni ddylai'r Gymraeg fod yn fater yn hynny o beth os ydi pob ysgol yn gweithredu polisi iaith gadarn.”	
“No significant impact either way.”	
“It would have a massive impact.”	
“I am sick to death of Welsh language bully ideas. Schools should be about giving the students the best preparation possible for the modern world and that is education in English. English is a world language. Welsh is a ghetto language that restricts involvement in the real world.”	
“While the policy is not intended to disadvantage the Welsh language, it may do so in practice unless sufficient flexibility is built in. It is important that transport arrangements continue to support equal access to Welsh-medium education and do not unintentionally treat the Welsh language less favourably than.”	

8. Yn eich barn chi, sut fyddai modd llunio neu addasu’r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Sylwadau	Ymateb Y Cyngor

“Use a method that helps schools to understand that all pupils may not be able to speak welsh depending on the pupils background attending the schools.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb , a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
“It can’t….”	
“Transporting students to an educational facility is going to have zero impact on the Welsh language.”	
“Where parents want to choose a faith school, this will be of more significance to them rather than the language.”	
“By making sure the Welsh government keep up to date with the English.”	
“I am sick to death of Welsh language bully ideas. Schools should be about giving the students the best preparation possible for the mdoern world and that is education in English. English is a world language. Welsh is a ghetto language that restricts involvement in the real world.”	
“A more flexible approach that takes account of language preference as well as proximity will help ensure that learners can access Welsh-medium education and that the Welsh language is actively supported rather than inadvertently disadvantaged.”	

9. Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu’r polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu’n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

Sylwadau	Ymateb Y Cyngor
“Dim sylw - nid wyf yn gweld pa effaith mae sicrhau trafnidiaeth saff ac addas i ddisgyblion mewn addysg yng Ngwynedd yn ei gael ar yr iaith Gymraeg.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai.
“It would have a massive detrimental affect on ALL students having access to further education putting an already poorly funded education system decades behind it's fellow contemporaries in other UK countries.”	
“Gwneud yn saff bod pob gyrrwr tacsi yn siarad Cymraeg gyda'r teithwyr.”	Mae’r Cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai ynghylch sgiliau iaith gyrwyr cludiant addysg.
“I am sick to death of Welsh language bully ideas. Schools should be about giving the students the best preparation possible for the mdoern world and that is education in English. English is a world language. Welsh is a ghetto language that restricts involvement in the real world.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb , a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
“Yes, it would be possible to formulate or adapt the policy to reduce or avoid adverse effects on the Welsh language. This could be achieved by introducing greater flexibility within the policy, ensuring that language preference is considered alongside distance when determining transport eligibility. In particular, learners should be able to access Welsh-medium or bilingual provision, even where this is not available at the nearest provider. The policy could also: Include clear discretionary arrangements to support access to Welsh-medium education	

Recognise the importance of continuity in Welsh-language learning and peer groups Take into account the realities of rural travel, where accessing Welsh-medium provision may require travelling further Without these considerations, there is a risk that a strict "nearest provider only" approach could unintentionally disadvantage Welsh compared to English."	

10. Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y polisi hwn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol? Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu tlodi o bob math - tlodi ariannol, tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau ayyb.

Sylwadau	Ymateb Y Cyngor
"Updating policies and providing help needs to be acknowledged to help everyone understand if anyone is struggling."	Mae'r cyngor yn nodi sylwadau'r ymgynghorai. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb , a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
"Mae lleihau trafnidiaeth ar gyfer disgyblion sydd mewn addysg yng Nhwynedd yn bendant yn rhoi straen ariannol ar ein cymdeithas beth bynnag yw eu cefndiroedd."	
"Buasai peidio darparu trafnidiaeth yn effeithio ar y dysgwyr sydd heb fynediad ar gar yn y cartref, a'i rhoi dan anfantais gan gymryd ei addysg i ystyriaeth."	
"Those who would not be able to self fund would not be able to attend educational facilities meaning less opportunities	

for those individuals. This would be very discriminatory to poorer students."	
"Ni fyddai rhai teuluoedd yn gallu fforddio anfon disgyblion i'r ysgol ac felly byddai hyn yn effeithio ar addysg y disgyblion."	
"Mae'n dibynnu ar allu'r teuluoedd hyn i fforddio talu - ac, a oes cymorth ar gael i rai sydd yn wir methu a thalu?"	
"Those children attending from Bethesda would be at a disadvantage and casue financial challenges for families."	
"It would definitely impact me as a single parent working full time I would have to decrease my working hours and reply on benefits more causing more poverty to myself and the government."	
"The proposed policy is likely to have a disproportionate negative impact on people facing socio-economic disadvantage, particularly those living in rural communities. Learners experiencing financial hardship are more reliant on free or supported transport to access education. Restricting transport to the nearest provider, or removing eligibility (e.g. for those aged 19+), may: Increase out-of-pocket travel costs Limit access to suitable courses or campuses Create additional barriers for those already facing financial pressure. For learners in rural areas, where public transport is limited, the impact is greater. They may face: Longer, more complex journeys Increased travel costs where free transport is not available Reduced ability to participate fully in education This could lead to:	

Lower attendance and engagement Reduced progression opportunities Increased risk of learners becoming disengaged from education or training Overall, the policy risks widening existing inequalities, particularly for those experiencing financial hardship or geographic disadvantage. Without sufficient flexibility and support, it may create additional barriers to accessing education for the most vulnerable learners.”	
“Dim llawer.”	Mae’r cyngor yn nodi sylwadau’r ymgynghorai
“Dim effaith mawr.”	
“No idea and I doubt many would. Try and focus on the main isue which is how this policy will work for the vast majority.”	

SYLWADAU AC YMATEBION YN DILYN SESIYNAU YMGYNGHORI DYSGWYR AR Y POLISI CLUDIANT ADDYSG DRAFFT

Addysg Ôl-16 - Grŵp Llandrillo Menai

a) Sylwadau Dysgwyr Safle Parc Menai, Bangor.

1. Thema: Lleoliad y cwrs

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
1.1a	"Er bod y safle sydd agosaf i mi yn darparu'r pwnc, nid yw yn darparu lefel 1 yn y pwnc honno – sut bydd y coleg yn delio gyda hyn gan fod pob cwrs gyda gofynion mynediad a bydd modd astudio ar y cwrs sydd yn addas i lwyddiant fy nghymwysterau?"	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.
1.2a	"Mae myfyrwyr o Ddolgellau yn hapus i deithio i Fangor am hyd at 2 awr bob dydd oherwydd eu bod wir eisiau astudio cwrs yno oherwydd cyfleusterau ac adnoddau, ac wedi ymrwymo ac yn ymroddedig i gwblhau'r cwrs – mae'n bwysig iawn gallu cwblhau'r cwrs o'ch dewis, o ran pwnc a lleoliad. "	

2. Thema: Costau Cludiant

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
2.1a	"I fyfyrwyr dros 19 oed, mae llawer o fyfyrwyr ESOL yn y coleg dros 19 oed, a byddent yn cael hi yn anodd talu am gludiant coleg os oes angen"	Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau cludiant. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol.
2.2a	"Mae costau byw yn cynyddu ac yn gwneud pethau'n anoddach i fyfyrwyr dros 19 oed, ac mae hi hefyd yn anoddach dod o hyd i waith i helpu dalu am costau cludiant."	

2.3a	"..i rai myfyrwyr sy'n teithio yma, byddai'n cymeryd mwy o amser a sawl blwyddyn iddynt gyflawni eu cymwysterau Lefel 1,2 a 3. Mae hyn yn anheg ar y rhai sydd o bosib yn am gymeryd mwy o amser i gyrraedd eu potensial."	Er hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
2.4a	"Gall cost cludiant cyhoeddus fod yn ddrud os oes rhaid talu am deithio a dychwelyd pob dydd, gall teithio fod yn £7 bob ffordd, byddai hyn yn gwneud hi'n anodd i rhai myfyrwyr allu mynychu."	
2.5a	"Faint fydd y costau wedyn? Fydd o yr un peth a chostau gwasanaeth bysus cyhoeddus?	
2.6a	"Gall EMA helpu tuag at gost teithio ond nid yw'n gadael llawer o arian ar ôl tuag at gostau eraill."	Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau teithio, yng nghyd-destun dysgwyr sy'n manteisio ar Lwfans Cynhaliaeth Addysg fel cymorth. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.

3. <u>Thema: Oedran</u>

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
3.1a	"I fyfyrwyr dros 19 oed, mae llawer o fyfyrwyr ESOL yn y coleg dros 19 oed, a byddent yn cael hi yn anodd talu am gludiant coleg os oes angen"	Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft.

3.2a	“Mae costau byw yn cynyddu ac yn gwneud pethau’n anoddach i fyfyrwyr dros 19 oed, ac mae hi hefyd yn anoddach dod o hyd i waith i helpu dalu am costau cludiant.”	Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â’r meini prawf perthnasol. Er hyn, mae’r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.
3.3a	“..i rai myfyrwyr sy’n teithio yma, byddai’n cymeryd mwy o amser a sawl blwyddyn iddynt gyflawni eu cymwysterau Lefel 1,2 a 3. Mae hyn yn anheg ar y rhai sydd o bosib yn am gymeryd mwy o amser i gyrraedd eu potensial.”	
3.4a	“Mae myfyrwyr coleg yn mynd yn hynach ac felly byddai canran uwch o fyfyrwyr ddim yn gymwys i gludiant.”	Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant, darperir cludiant yn unol â’r meini prawf perthnasol. Er hyn, mae’r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.

b) Sylwadau Dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor Safle Dolgellau

1. Thema: Lleoliad y cwrs

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
1.1b	"..yn astudio adeiladwaith ar y funud ac ym byw yn ardal Ffestiniog ac yn mwynhau y cwrs. Cynigir yr un cwrs yn safle Llandrillo Yn Rhos hefyd sydd yn agosach i'm cartref....ond hoffwn aros yn Nolgellau i astudio."	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, gan barhau gyda'i astudiaethau yn Nolgellau. Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf yng Ngwynedd a Môn sy'n darparu'r cwrs.
1.2b	"wedi gadael yr ysgol uwchradd leol oherwydd ddiffyg perthynas gyda staff a dim ffrindiau ac yn mynychu'r coleg yn lle hynny, ac felly gan fod y bws yn rhedeg beth bynnag, ni ddylwn edrych ar dalu am y cludiant gan mai'r coleg sydd yn addas i mi bellach.."	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.3b	"bu'n rhaid i mi astudio lefel A yn y coleg yn lle'r ysgol agosaf gan bod o leiaf dau o'r cyrsiau a gynhigiwyd yn yr ysgol yn cael eu cyflwyno yn uniaith Saesneg, felly ddim yn addas i'm anghenion ieithyddol."	
1.4b	"Tydi darpariaeth neu ddewis o bynciau a cholofnau yn yr ysgol leol ddim bob amser yn addas...ac y bydd yr amserlen a dewisiadau yn y coleg yn amlygu'n fwy addas, ac felly sut byddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth cludiant?"	
1.5b	"oes modd ystyried radiws o gwmpas y cyfeiriad er mwyn cyfleu opsiwn 1, 2 a 3 ar gyfer dewisiadau cyrsiau?"	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu ystyried dewisiadau o ran cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac ar ffurf opsiynau yng nghyd-destun cymhwysedd cludiant. Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac

		mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol, os yw darpariaeth cludiant yn debygol o hwyluso dewisiadau'r dysgwyr.

2. Thema: Dysgwyr gydag ADY

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
2.1b	"Dysgwyr sydd wedi ein cyrraedd o Ysgol Arbennig Hafod Lon yn teimlo sicrwydd wrth barhau i fewn i Addysg Bellach gyda'u cyd-ddysgwyr, yn gam mawr ac anodd."	Mae'r cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol ac yn derbyn bod prosesau mewn lle i hwyluso'r broses o gefnogi dysgwyr gydag ADY wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Arbennig i goleg addysg bellach.
2.2b	"Bydd rhai myfyrwyr o Benrhyn Llyn yn gorfod teithio i safle Glynllifon ac nid yw dewisiadau cwrs yno pob tro yn ffafrio addysg arbennig"	Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau'r ymgynghorai ynglŷn ag addasrwydd pob cwrs yn safle Glynllifon i ddysgwyr gydag ADY.

3. Thema: Newid Cyfeiriad

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
3.1b	"Wedi symud cyfeiriad gartref yn ystod y flwyddyn – sut fydd hyn yn amharu ar fy astudiaethau?	Byddai'r polisi newydd yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau newid cyfeiriad er mwyn hwyluso gallu dysgwyr sydd eisoes wedi cychwyn cwrs ac yn symud tŷ yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol i barhau i dderbyn cludiant tan diwedd y flwyddyn honno.

c) Sylwadau Dysgwyr Coleg Meirion Dwyfor Safle Glynllifon

1. Thema: Lleoliad y cwrs

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
1.1c	“Oherwydd rhesymau personol yn sgil bwlio yn fy ysgol, wedi gorfod mynychu coleg pellach i ffwrdd, nid yr un agosaf, gan fod yr un criw a oedd yn bwlio yn mynychu’r coleg agosaf hefyd ac yn sgil hyn, wedi gwneud cwrs pellach mewn safle arall. Sut byddwch yn delio ac ystyriaethau or fath gyda’r polisi cludiant newydd?	Mae’r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae’r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i’r ysgol neu goleg agosaf sy’n darparu’r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda’r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Byddai modd cysylltu gyda’r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol.
1.2c	“mae ansawdd y cyfleusterau a’r profiadau a gynigir yn y coleg yma yn werthfawr iawn i mi, er ei fod yn bellach i ffwrdd nag un tebyg, ac o bosib yn rhoi gwell cyfleoedd gwaith i mi ar ôl cwblhau’r cwrs, a ydych yn ystyried hyn?”	Mae’r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae’r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i’r ysgol neu goleg agosaf sy’n darparu’r cwrs, (yng Ngwynedd a Môn). Mae hyn yn gyson gyda’r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.

		Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
1.3c	"ar ba adeg o'r flwyddyn y byddai penderfyniadau ynghylch a yw dysgwyr yn gymwys a'i peidio yn digwydd – gall arwain ar ddewis myfyrwyr o gwrs a choleg addas."	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu ystyried dewisiadau o ran cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac yng nghyd-destun cymhwysedd cludiant. Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol, os yw darpariaeth cludiant yn debygol o hwyluso neu gadarnhau dewisiadau'r dysgwyr.

2. Thema: Costau Cludiant

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
2.1c	"petai cyflwyno taliad tymhorol am docyn, yna ni fedrai fynychu y cwrs coleg wedyn, gan na fyddai yn medru fforddio unrhyw daliad, ac o bosib yn golygu na fyddai sawl dysgwr yn medru mynychu'r coleg wedyn gan golli allan ar addysg bellach."	Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau teithio, Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd.

		Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr gyda chostau megis cludiant i addysg ôl-16. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.
2.2c	"os fyddai'n rhaid i ddysgwyr dalu, ac eisiau dal bws coleg, sut fyddent yn talu gan nad oes modd talu yn ddyddiol ar fws coleg fel sy'n bosib ar fws cyhoeddus?"	Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch dulliau talu a fws coleg. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu codi ffi ar rai elfennau o gludiant addysg ôl-16, byddai'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol mewn lle mewn ymateb i hynny gyda'r gweithredwyr cludiant.

3. Thema: Oedran

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
3.1c	"mae dysgwyr heddiw efallai yn hwyrach yn mynd i'r coleg ac yn hynach na 19oed ac felly byddai unrhyw cap oedran yn golygu llai o fyfyrwyr i'r dyfodol, ac i'r coleg."	Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol. Er hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr. Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.

4. Thema: Cludiant Cyhoeddus

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
4.1c	"..os bydd yn rhaid talu am y cludiant, a fyddai hyn yn golygu fod bysiau yn rhedeg yn fwy aml ac ar amseroedd sydd yn siwtio amserlen y cwrs yn well?	Mae'r Cyngor yn nodi sylw'r ymgynghorai ynghylch rhagor o ddarpariaeth cludiant petai'n rhaid talu am gludiant addysg. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid cynnal asesiad o'r ddarpariaeth cludiant addysg a chludiant chyhoeddus er sicrhau fod yr amserlenni cludiant yn addas er mwyn galluogi dysgwyr i gyrraedd y lleoliad yn y bore, a dychwelyd yn y prynhawn.
4.2c	" mae'r bws cyhoeddus yr ydw i yn ei ddefnyddio i fynychu'r coleg ond derbyn fy nhocyn ar amseroedd penodol a dim hyblygrwydd pan mae'r angen i fynd adref yn fuan neu'n sal neu gyda apwyntiad. Fydd hyn yn newid gyda'r polisi newydd?	
4.3c	"mae'r bws cyhoeddus yr ydym ni yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn llawn ac yn aml byddwn yn gorfod sefyll am gyfnodau hir. A fyddwch yn ail edrych ar y trefniadau yn sgil dyfodiad y polisi newydd fel bod myfyrwyr Glynllifon yn medru defnyddio'r bws coleg yn unig?"	

d) Sylwadau Dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor Safle Pwllheli

1. Thema: Lleoliad y cwrs

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
1.1d	"Nid yw'r dewisiadau a chyfleoedd ar gael ym mhob safle coleg ac felly tra bydd rhai safleoedd yn gyfleus, nid yw pob amser yn cynnig pob pwnc addas"	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, (yng Ngwynedd a Môn). Mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.
1.2d	"bydd cylchoedd o ffrindiau yn cael eu gwahanu os byddent yn gorfod mynd i safleoedd colegau gwahanol....beth am llesiant oherwydd hyn?	

		Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.

2. Thema: Amserlenni Cludiant

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
2.2d	"mae rhai myfyrwyr yn gorfod cychwyn am y coleg yn fuan iawn ac yn cyrraedd yn hwyr iawn... tybed a oes modd addasu amserlenni i gyfarch cysylltiadau gwell?"	Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau'r ymgynghorai am amserlenni bysiau coleg a chludiant cyhoeddus. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid cynnal asesiad o'r ddarpariaeth cludiant addysg a chludiant chyhoeddus er sicrhau fod yr amserlenni cludiant yn addas er mwyn galluogi dysgwyr i gyrraedd y lleoliad yn y bore, a dychwelyd yn y prynhawn.

e) Sylwadau Dysgwyr Safle Llangefni

1. Thema: Lleoliad y cwrs

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
1.2e	"Nid yw'n deg gorfodi dysgwyr, gan y gall cyfyngu dewis golygu nad ydynt yn gallu astudio cwrs/lleoliad ac amharu ar eu dyfodol."	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, (yng Ngwynedd a Môn). Mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.
1.3e	"Bydd hyn yn ein gorfodi i astudio Lefel A mewn lleoliad agosach ac yn effeithio ein dewisiadau pynciol all effeithio ein dewis o yrfa yn y dyfodol."	

		Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru.

2. Thema: Cyfrifo pellter

CYF	SYLW	YMATEB Y CYNGOR
2.1e	"Sut byddwch chi yn gwahaniaethu os ydwyf yn byw union 50% o'r amser gyda Mam, sydd yn agosach i un safle a 50% gyda Dad, sydd yn agosach i safle arall, beth fyddai'r sefyllfa?"	Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis teithio rhwng dau gyfeiriad rhiant. Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn gwneud cynigion penodol yng nghyd-destun preswyliad deuol sydd yn cynnig eglurder yn y maes yma. Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol, os yw darpariaeth cludiant yn debygol o hwyluso neu gadarnhau dewisiadau'r dysgwyr.

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

DRAFT

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
    - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Awdur: Robert John Jones, Rheolwr Cludiant Addysg

Dyddiad: 18/05/2026

Fersiwn: Fersiwn 3 - Mai 2026

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)
- Polisi Cludiant Addysg Drafft

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Yn sgil sefyllfa gyllidol cludiant addysg, mae'r maes yn destun adolygiad strategol, a chredir o ailedrych ar gynnwys y Polisi Cludiant presennol, bod cyfle i gyfrannu rhywfaint at resymoli'r costau ynghlwm a chludiant addysg ynghyd â chwrdd â gofynion statudol.

Credir bod angen diweddaru a diwygio'r Polisi Cludiant presennol am y rhesymau canlynol:

- Lluniwyd y polisi cludiant presennol yn 2009 ac nid yw wedi ei ddiweddaru ers hynny ar wahân i'r rhan am addysg ol-16, a hynny yn dilyn ail-strwythuro a diddymu'r ffioedd a oedd yn bodoli ar y pryd.

- Mae amwysedd ac aneglurder y polisi presennol mewn mannau'n gwanhau gallu'r Adran Addysg i wneud penderfyniadau cadarn bob amser am ddilysrwydd ceisiadau am gludiant, sy'n arwain at gostau cludiant uwch i'r Cyngor.

DRAFT

- Byddai ychwanegu eglurder i'r Polisi Cludiant Addysg o gymorth i rieni a defnyddwyr wybod i sicrwydd a ydynt yn gymwys i gludiant addysg ai peidio, a'r rhesymeg pam cyn mynd ati i gyflwyno cais, gan leihau'r galw ar y gwasanaeth i ymateb i geisiadau sy'n annilys.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad:

- Ysgolion
- Cyrff Llywodraethol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes. Gwnaed ymdrech gadarn a chymesur i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu, ac mae digon o wybodaeth berthnasol wedi'i chasglu i alluogi'r Cyngor i symud ymlaen.

Cynhaliwyd holiadur ymgynghori ar y Polisi Cludiant Drafft, a rennir yn eang gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector addysg, gan gynnwys plant a phobl ifanc, cyrff llywodraethu, a grwpiau cynllunio strategol. Derbyniwyd 31 ymateb, gan ddarparu mewnbwn ansoddol gwerthfawr gan randdeiliaid.

DRAFT

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud.

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Cwynion ac ymholiadau	Medi 2024-Medi 2025	Yn dilyn craffu manwl ar ymholiadau a chwynion yn ymwneud yn benodol â chludiant addysg, daw'n amlwg fod ein polisi cludiant presennol yn wan o ran cynnig arweiniad a'r manylder berthnasol wrth ymdrin a'r materion yma.
Ymgynghori gyda'r Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig	Chwefror 2026	Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
Ymgynghori gyda'r Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd	Chwefror 2026	Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
Cyfarfod ymgysylltu gyda Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd	Chwefror 2026	Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
Cyfarfod ymgysylltu gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc Sirol	Mawrth 2026	Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
5 x sesiwn ymgynghori gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai – yn safleoedd, Llangefni, Bangor, Pwllheli, Dolgellau, Glynllifon	Mawrth 2026	Cyflwyno Polisi Drafft ac amlygu'r prif newidiadau ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	18 Mehefin 2026	Cyflwyno Polisi Drafft

DRAFT

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae gan yr Adran Addysg, yr uned gludiant integredig a holl ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol, sydd yn ymestyn allan i'r trefniadau cludiant i'r ysgol ac adref ar gyfer yr ysgol benodol honno. Ni ragwelir felly y byddai'r polisi cludiant arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd yma.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Anabledd	Yn deillio o sylwadau'r ymgynghorai, deuir i'r casgliad fod rhai pryderon am effaith y polisi cludiant drafft newydd ar ddysgwyr anabl neu anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig o safbwynt diogelwch, addasrwydd a mynediad teg at addysg. Nododd ymatebwyr nad yw pob dysgwr yn gallu teithio'n annibynnol, ac y gall rhoi pwysau ar bobl ifanc i wneud hynny cyn eu bod yn barod. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rhai ag anghenion cymhleth neu gyflyrau penodol, lle gall teithio heb gymorth priodol greu rhwystrau uniongyrchol i fynediad ac ymgysylltiad ag addysg. Yn ehangach, mae'r sylwadau'n nodi bod anghenion dysgwyr anabl yn amrywiol iawn, ac felly bod dull	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos rhywfaint o gydnabyddiaeth o effeithiau cadarnhaol posibl i ddysgwyr anabl neu anghenion ychwanegol, yn enwedig o ran hyrwyddo annibyniaeth a datblygiad personol. Nodir gan rai ymatebwyr fod teithio annibynnol, pan gaiff ei weithredu'n briodol, yn gallu adeiladu hyder a sgiliau bywyd ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn cael eu gweld yn amodol ar ddarpariaeth briodol o hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau, gan bwysleisio nad yw annibyniaeth yn briodol nac yn bosibl i bob unigolyn. Er hynny, mae rhai sylwadau'n tynnu sylw at risgiau negyddol ar sail anabledd. Mynegir pryder y gallai'r polisi roi pwysau

DRAFT

	safonol o ddarparu cludiant yn debygol o fod yn annigonol ac yn arwain at ganlyniadau annheg. Codir pryderon hefyd y gallai newidiadau i'r polisi neu brosesau asesu arwain at leihau neu dynnu gwasanaethau cludiant arbenigol, gan effeithio'n anghymesur ar y grŵp hwn o'i gymharu â dysgwyr eraill. At hynny, mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i'r dysgwr unigol, gyda sylwadau'n tynnu sylw at bwysau ychwanegol ar deuluoedd wrth geisio sicrhau cludiant addas. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod risg glir o effaith negyddol ar sail anabledd oni bai bod y ddarpariaeth yn parhau'n hyblyg, wedi'i theilwra ac yn darparu cefnogaeth ddigonol er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais o dan Ddeddf Cydraddoldeb.	ar ddysgwyr ag ADY i deithio'n annibynnol cyn eu bod yn barod, gan greu risg uniongyrchol i'w diogelwch a'u lles. Mae'r sylwadau'n dangos bod unrhyw leihad mewn cefnogaeth neu hyblygrwydd yn debygol o gael effaith anghymesur ar ddysgwyr anabl o gymharu â'u cyfoedion.
Rhyw	Ni ragwelir y byddai'r polisi cludiant arfaethedig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu ar y ddogfen dan sylw yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Oedran	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos yn gyson bod y polisi arfaethedig yn cael ei ystyried fel un a allai effeithio'n anghymesur ar wahanol grwpiau oedran, yn unol â nodwedd warchodedig "oedran" o fewn Deddf Cydraddoldeb. Yn benodol, mynegir pryder bod dysgwyr hŷn, yn enwedig y rhai ôl-16 a thros 19 oed, yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau o ran mynediad at addysg, gan gynnwys llai o ddewis cyrsiau,	Mae effaith negyddol posib ar grŵp bychan o ddysgwyr 19 oed a hŷn sydd ar hyn o bryd yn manteisio ar y Tocyn Teithio Ôl-16. Mae bwriad i ymgynghori ar y newid hwn a byddwn yn ystyried yr adborth a dderbynnir o'r ymgynghoriad, yn addasu a newid y Polisi drafft fel y gwelir orau, cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu'n derfynol. Mae'r sylwadau yn awgrymu ystod o effeithiau posibl ar sail oedran, gyda rhai elfennau cadarnhaol ond yn bennaf

DRAFT

	dibyniaeth ar y darparwr agosaf yn unig, a theithiau hirach neu fwy cymhleth, a allai effeithio'n negyddol ar bresenoldeb, ymgysylltiad a dilyniant addysgol. Ar yr un pryd, mae'r sylwadau'n tynnu sylw at wendidau posibl i blant iau, sy'n cael eu hystyried yn fwy dibynnol ar drefniadau cludiant diogel ac addas, ac yn llai abl i deithio'n annibynnol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu lle mae llwybrau'n anniogel. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch risgiau diogelwch a hygyrchedd, ac yn awgrymu y gallai dull sy'n seiliedig ar bellter neu feini prawf safonol fod yn anaddas i anghenion plant ifanc. Yn ehangach, mae'r dystiolaeth yn nodi diffyg hyblygrwydd yn y dull, gyda sawl sylw yn awgrymu bod polisi "un maint i bawb" yn methu cydnabod gwahaniaethau datblygiadol a gofynion ymarferol rhwng gwahanol gamau addysg. Mae hyn yn gallu arwain at anghysondebau rhwng dysgwyr o wahanol oedrannau – gan gynnwys o fewn yr un teulu – ac yn cynyddu'r risg o ganlyniadau annheg neu anfwriadol. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n awgrymu bod angen dull mwy graddol a hyblyg sy'n adlewyrchu anghenion penodol pob grŵp oedran er mwyn osgoi effaith anghymesur ac i fod yn gydnaws ag egwyddorion cydraddoldeb.	bryderon am effeithiau negyddol anghymesur ar wahanol grwpiau oedran. O ran effeithiau cadarnhaol, mae rhai ymatebwyr yn nodi y gall trefniadau cludiant presennol neu hyblyg (e.e. seddi gwag) gefnogi datblygiad pobl ifanc drwy feithrin annibyniaeth a chyfrifoldeb, yn ogystal â galluogi mynediad parhaus at addysg a chyfleoedd i deuluoedd weithio. Yn yr un modd, gall darpariaeth sy'n defnyddio capasiti presennol yn effeithiol gynorthwyo dysgwyr sydd ychydig y tu allan i feini prawf cymhwysedd, gan ehangu mynediad i addysg i rai grwpiau oedran. Mae dysgwyr hŷn (ôl-16 a thros 19) yn cael eu nodi fel grŵp mewn mwy o berygl o gael eu heithrio o gyfleoedd addysgol oherwydd cyfyngiadau ar gludiant, dibyniaeth ar y darparwr agosaf, neu ddiddymu cymorth, a allai gyfyngu ar ddewis cyrsiau, cynyddu teithiau cymhleth a lleihau presenoldeb a dilyniant. Ar yr un pryd, mae plant iau yn cael eu hystyried yn fwy agored i risgiau diogelwch ac yn fwy dibynnol ar drefniadau cludiant trefnus, gyda phryderon ynghylch addasrwydd cerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol.

DRAFT

Crefydd a Chred	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Mae gan bob ysgol eu polisïau gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion." Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos bod mynediad at ysgolion ffydd yn fater allweddol o safbwynt crefydd a chred, gyda nifer o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd gallu teuluoedd i ddewis addysg sy'n adlewyrchu eu credoau crefyddol. Nodir yn glir bod nifer cyfyngedig o ysgolion ffydd ar gael yn lleol, ac felly bod angen teithio pellteroedd mwy mewn llawer o achosion; o ganlyniad, gallai unrhyw gyfyngiadau ar gludiant neu feini prawf pellter olygu bod rhai dysgwyr yn methu mynychu'r ysgol ffydd agosaf neu fwyaf addas iddynt. Mae hyn yn codi pryder y gallai'r polisi roi dysgwyr crefyddol dan anfantais	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn adlewyrchu cymysgedd o effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol ar sail crefydd a chred. O ran effeithiau cadarnhaol, mae rhai ymatebwyr yn cydnabod y gall darpariaeth cludiant sy'n cefnogi teithio i ysgolion ffydd hwyluso hawl teuluoedd i ddewis addysg sy'n adlewyrchu eu credoau crefyddol, yn enwedig lle nad oes llawer o ysgolion ffydd ar gael yn lleol. Yn yr ystyr hwn, gall trefniadau sy'n galluogi teithio pellach, neu sy'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, helpu i gynnal mynediad at addysg grefyddol a chefnogi amrywiaeth o ddewisiadau addysgol. Fodd bynnag, mae'r sylwadau hefyd yn tynnu sylw at risgiau negyddol posibl. Mynegir pryder y gallai cyfyngiadau pellter neu gymhwysedd atal rhai dysgwyr rhag mynychu ysgol ffydd briodol, gan eu rhoi dan anfantais o'i gymharu â dysgwyr eraill. Ar yr un pryd, mae safbwyntiau cryf yn pwysleisio na ddylai crefydd roi mantais nac anfantais, a bod angen trin pob dysgwr yn gyson waeth beth yw eu credoau, gan godi pryder y gall darpariaeth arbennig ar gyfer ysgolion ffydd beri anghydraddoldeb.

DRAFT

	anfwriadol o gymharu â'r rhai sy'n mynychu ysgolion nad ydynt yn seiliedig ar ffydd. Ar yr un pryd, mae llinyn cryf arall o sylwadau'n pwysleisio'r angen am degwch a chysondeb, gyda rhai ymatebwyr yn nodi na ddylai crefydd roi mantais nac anfantais i unrhyw garfan o ddysgwyr, ac y dylai'r polisi drin pob disgybl yn gyfartal waeth beth yw eu cefndir crefyddol. Mae hyn yn amlygu tensiwn clir rhwng cefnogi hawl unigolion i ddewis addysg ar sail cred, a chynnal egwyddorion cydraddoldeb ar draws y system gyfan. Mae'r sylwadau'n dangos bod angen cydbwysedd gofalus er mwyn sicrhau nad yw unrhyw grŵp crefyddol yn cael ei drin yn fwy ffafriol nac yn llai ffafriol, fel bod mynediad at addysg yn parhau'n deg ac yn gynhwysol i bob dysgwr, yn unol ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb.	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma

DRAFT

	dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Ni ragwelir y byddai'r polisi ar ei newydd wedd yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol.	
Ail-bennu rhywedd	Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion Gwynedd fod yr ysgolion yn "...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion." Ni ragwelir y byddai'r polisi ar ei newydd wedd yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywiol.	Nid ydym wedi adnabod effaith posib ar y nodwedd yma
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos nad yw effaith ar sail priodas a phartneriaeth sifil yn cael ei chodi'n uniongyrchol, ond bod nifer o faterion ehangach yn berthnasol yn anuniongyrchol drwy drefniadau teuluol a chyfrifoldebau gofal. Yn benodol, mae ymatebwyr yn tynnu sylw at yr effaith y gall trefniadau cludiant ei chael ar allu rhieni i gydlynu gwaith a gofal plant, gyda rhai sylwadau'n awgrymu y gallai newidiadau i ddarpariaeth greu pwysau ychwanegol ar un rhiant neu bartner i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn . Gall hyn effeithio ar drefniadau o fewn perthnasoedd priodasol neu bartneriaeth sifil, yn enwedig lle mae'r ddau bartner yn gweithio.	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys dim ond cyfeiriadau anuniongyrchol iawn at effaith ar sail priodas a phartneriaethau sifil, ac nid oes tystiolaeth uniongyrchol sy'n trafod y nodwedd warchodedig hon yn benodol. O ran effeithiau cadarnhaol posibl, mae sylwadau'n awgrymu y gall darpariaeth cludiant effeithiol helpu teuluoedd i gydlynu gwaith a gofal plant, gan gefnogi sefydlogrwydd trefniadau dyddiol ac, o bosibl, lleihau pwysau ar berthnasau teuluol. Fodd bynnag, mae'r sylwadau'n tynnu sylw at effeithiau negyddol posibl, yn enwedig lle mae trefniadau cludiant yn llai hyblyg neu'n cael eu lleihau. Gall hyn greu straen ychwanegol ar rieni. Mae pryderon hefyd ynghylch trefniadau byw cymhleth, megis rhannu gofal rhwng dau gartref, sy'n

DRAFT

	Yn gyffredinol, er nad yw'r effaith ar briodas a phartneriaethau sifil yn amlwg nac yn benodol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod risg o effeithiau anuniongyrchol lle gall newidiadau i'r polisi gynyddu pwysau ar drefniadau teuluol neu greu anghydbwysedd mewn cyfrifoldebau rhwng partneriaid, gan bwysleisio'r angen am hyblygrwydd er mwyn osgoi canlyniadau annheg.	gallu cael eu gwneud yn anoddach gan feini prawf llym neu ddiffyg hyblygrwydd yn y polisi. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw effaith ar sail priodas a phartneriaethau sifil yn uniongyrchol amlwg.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys cyfeiriadau anuniongyrchol at effaith ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod rhai effeithiau cadarnhaol posibl ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, yn bennaf lle mae darpariaeth cludiant addas ac hyblyg yn galluogi rhieni – gan gynnwys mamau – i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofal. Nodir bod mynediad dibynadwy at gludiant yn gallu lleihau'r angen am drefniadau gofal ychwanegol, cefnogi parhad mewn cyflogaeth, a hwyluso trefniadau dyddiol teuluol, gan gynnwys ar gyfer plant ifanc. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod effaith y polisi ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn debygol o fod yn anuniongyrchol, gydag elfen gadarnhaol pan fo darpariaeth yn cefnogi teuluoedd, ond risg glir o effeithiau negyddol lle mae hyblygrwydd neu ddarpariaeth yn cael ei lleihau.
Iaith Gymraeg	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod effaith y polisi ar y Gymraeg yn gymysg, ond yn codi rhai pryderon o safbwynt cydraddoldeb ieithyddol. Mae nifer o ymatebwyr yn nodi nad yw cludiant	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu bod effaith y polisi ar y Gymraeg yn cael ei weld yn gymysg, gyda rhai ymatebwyr yn nodi effaith gyfyngedig neu ddim effaith

DRAFT

	ynddo'i hun o reidrwydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddefnydd iaith, gan awgrymu effaith gyfyngedig mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae eraill yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai trefniadau cludiant, yn enwedig lle mae'r polisi yn cyfyngu mynediad i'r darparwr agosaf yn unig, effeithio ar allu dysgwyr i gyrchu addysg Gymraeg neu ddwyieithog briodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle nad yw darpariaeth Gymraeg ar gael yn lleol, gan olygu bod teithio pellach yn angenrheidiol. Yn ehangach, mae'r sylwadau'n amlygu y gall diffyg hyblygrwydd yn y polisi arwain at sefyllfa lle nad yw dewisiadau iaith yn cael eu hystyried ochr yn ochr â pellter, gan arwain at bosibilrwydd o drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn ymarfer. Ar yr un pryd, mae rhai ymatebwyr yn awgrymu bod sicrhau mynediad cyfartal i bob dysgwr, beth bynnag fo'u hiaith, yn golygu na ddylai'r polisi wahaniaethu ar sail iaith o gwbl. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos gwahaniaeth barn rhwng dull niwtral o ran iaith a'r angen i sicrhau bod darpariaeth cludiant yn galluogi, yn hytrach na chyfyngu, mynediad at addysg Gymraeg, gan bwysleisio'r angen i osgoi unrhyw effaith negyddol a allai danseilio egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.	uniongyrchol, tra bod eraill yn tynnu sylw at botensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. O ran effeithiau cadarnhaol posibl, mae rhai sylwadau'n awgrymu y gall trefniadau cludiant effeithiol sy'n cynnal mynediad at ystod eang o ysgolion helpu i gynnal dewis addysgol, gan gynnwys mynediad at ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog lle bo hynny'n berthnasol. Mae hefyd awgrymiadau y gall hyblygrwydd yn y polisi, megis ystyried dewisiadau addysg yn ogystal â lleoliad daearyddol, helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, mae nifer o sylwadau'n tynnu sylw at risgiau negyddol posibl, yn enwedig os yw'r polisi'n cyfyngu mynediad i ysgolion neu ddarparwyr nad ydynt y rhai agosaf yn unig. Nodir y gallai dull o'r fath gyfyngu ar allu dysgwyr i fynychu darpariaeth Gymraeg benodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r ddarpariaeth yn wasgaredig, gan arwain at sefyllfa lle gallai'r Gymraeg gael ei hanfanteision anfwriadol. Ar yr un pryd, mae rhai ymatebwyr yn nodi nad yw cludiant ei hun yn ffactor sy'n effeithio ar ddefnydd iaith, gan awgrymu nad yw'r effaith yn negyddol ym mhob achos. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos ansicrwydd a safbwyntiau cymysg, ond mae'n tynnu sylw at risg y gallai diffyg hyblygrwydd mewn trefniadau cludiant arwain at effaith anghymesur ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod y polisi'n cefnogi

DRAFT

		mynediad teg at ddarpariaeth Gymraeg ac nad yw'n peryglu trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb ieithyddol.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Fel awdurdod ac ar nodyn bositif iawn, darperir cludiant rhad ac am ddim i fyfyrwyr addysg bellach fynychu cyrsiau addysg amrywiol yn ein ysgolion chweched dosbarth a sawl campws coleg – nid yw hyn yn statudol ac yn gweithredu ar ddisgresiwn y cyngor. Yn yr hinsawdd ariannol, mae hyn yn gostus i'r awdurdod ond ar y llaw arall yn hybu mynediad i bob dysgwr fedru astudio mewn addysg bellach, heb fod yn gost i'r dysgwyr a'i rhieni/warchodwyr. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos yn glir bod effaith bosibl ar sail ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, gyda phryderon bod y polisi'n gallu effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm isel neu'r rhai heb fynediad at drafnidiaeth breifat. Mynegir yn benodol y gallai lleihad mewn darpariaeth cludiant neu gyfyngu cymhwysedd arwain at gostau ychwanegol i rieni, gan greu rhwystrau i fynediad at addysg i ddysgwyr nad ydynt mewn sefyllfa i hunan-ariannu teithio . Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig lle mae opsiynau cludiant cyhoeddus cyfyngedig, gan olygu bod rhai teuluoedd yn dibynnu'n helaeth ar drefniadau cludiant addysg. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu risg o effaith negyddol anghymesur ar grwpiau economaidd -gymdeithasol difreintiedig, oni bai bod y polisi'n cynnwys digon o hyblygrwydd a chymorth i liniaru'r rhwystrau hyn ac i sicrhau mynediad teg at addysg.	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn dangos cymysgedd o effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar y naill law, mae rhai ymatebwyr yn cydnabod bod trefniadau cludiant hygyrch ac opsiynau fel defnyddio seddi gwag yn gallu cefnogi teuluoedd drwy leihau costau a galluogi rhieni i barhau mewn gwaith, gan wella sefydlogrwydd economaidd a mynediad parhaus i addysg. Gall hyn, mewn rhai achosion, gyfrannu at well cyfleoedd i ddysgwyr nad oes ganddynt adnoddau i drefnu cludiant annibynnol. Mynegir pryder y gallai lleihau darpariaeth cludiant neu gyfyngu cymhwysedd arwain at gostau ychwanegol, gan greu rhwystrau uniongyrchol i fynediad at addysg i rai dysgwyr . Mae hyn yn amlwg mewn ardaloedd gwledig lle mae dewisiadau cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig, a gallai arwain at deithiau mwy cymhleth, llai o bresenoldeb neu hyd yn oed dynnu dysgwyr allan o rai cyfleoedd addysgol. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai risgiau o effeithiau negyddol ar deuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, er bod rhai manteision posibl lle mae darpariaeth yn hyblyg ac yn hygyrch. Mae'r polisi drafft newydd yn cynnwys mesurau lliniaru a hyblygrwydd er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr o gefndiroedd

DRAFT

		llai breintiedig yn cael eu rhoi dan anfantais, ac i gynnal mynediad teg at addysg i bob plentyn .
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Ni ragwelir y byddai'r polisi arfaethedig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd a'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol neu goleg mae nhw'n mynychu. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys dim ond cyfeiriadau anuniongyrchol iawn at effaith ar bobl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, ac nid oes tystiolaeth benodol neu uniongyrchol yn enwi'r grŵp hwn. Fodd bynnag, mae nifer o sylwadau yn codi materion ehangach sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau, yn enwedig o ran symudedd, trefniadau byw cymhleth a dibyniaeth ar gludiant hyblyg. Er enghraifft, mae pryderon am deuluoedd sy'n rhannu cyfeiriadau neu sydd â phatrymau byw anghyson, a allai arwain at anawsterau gyda meini prawf llym fel "prif gyfeiriad", yn dangos bod polisi llai hyblyg yn gallu creu rhwystrau i sicrhau mynediad cyson at addysg . Yn ehangach, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod unrhyw leihad mewn hyblygrwydd neu ddarpariaeth cludiant yn debygol o effeithio'n anghymesur ar deuluoedd sydd â sefyllfaoedd byw llai sefydlog neu fwy cymhleth, a all gynnwys rhai teuluoedd milwrol.	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys dim ond cyfeiriadau cyfyngedig ac anuniongyrchol at effaith ar bobl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, ond gellir tynnu rhai casgliadau ehangach yn seiliedig ar bryderon amgylchiadau teuluol a symudedd. O ran effeithiau cadarnhaol posibl, mae sylwadau'n awgrymu y gall darpariaeth cludiant hyblyg a hygyrch gefnogi teuluoedd sydd â phatrymau bywyd cymhleth, gan gynnwys y rhai sy'n symud yn aml neu sydd â threfniadau byw amrywiol, drwy gynorthwyo mynediad cyson at addysg a lleihau'r baich trefnu cludiant. Gall hyn fod yn berthnasol i deuluoedd milwrol lle mae sefydlogrwydd addysg yn ffactor pwysig. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod y polisi'n ddigon hyblyg i osgoi creu rhwystrau anfwriadol i grwpiau â phatrymau byw anghonfensiynol, yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb.
Hawliau Dynol	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu nifer o faterion sy'n berthnasol i hawliau dynol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad teg at addysg, diogelwch, a hawl i fywyd teuluol. Mae ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pob dysgwr yn gallu	Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn awgrymu ystod o effeithiau posibl cadarnhaol a negyddol ar sail hawliau dynol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad at addysg, diogelwch a bywyd teuluol.

DRAFT

	cyrraedd addysg yn ddiogel ac yn ddibynadwy, gan nodi pryderon ynghylch teithio ar gludiant cyhoeddus, llwybrau anniogel, a'r effaith ar les corfforol ac emosiynol . Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â hawliau sylfaenol i ddiogelwch a mynediad at addysg heb rwystrau diangen.	O ran effeithiau cadarnhaol, mae rhai ymatebwyr yn nodi bod darpariaeth cludiant effeithiol ac hyblyg yn gallu cefnogi hawl dysgwyr i gyrchu addysg yn gyson ac yn ddiogel, tra hefyd yn galluogi teuluoedd i gynnal trefniadau gwaith a gofal plant, gan leihau pwysau ymarferol ar rieni . Gall hyn gyfrannu at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg mewn modd sefydlog, sy'n elfen graidd o hawliau dynol. Fodd bynnag, mae'r sylwadau'n tynnu sylw'n gryf at effeithiau negyddol posibl, yn enwedig os yw'r polisi yn arwain at lai o fynediad at gludiant addysg.

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Yn dilyn arweiniad y Cabinet, rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth benodol i'r budd-ddeiliaid canlynol wrth gynnal yr ymgynghoriad:

- Ysgolion
- Cyrff Llywodraethol
- Grŵp Llandrillo Menai
- Rhieni
- Plant a Phobl Ifanc
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i gasglu data a gwybodaeth bellach ar gyfer cynnwys y Polisi Cludiant Addysg ynghyd â'r Asesiad Effaith.

DRAFT

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Ni ragwelir y bydd effaith gronnus o gyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg drafft.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gan roi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy asesu'r effaith bosibl ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y cynnig yn dilyn y gofynion statudol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal o fewn y sefydliadau a dilynir polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb.

Wrth hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, mae'r polisi'n ceisio sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad teg at addysg drwy ddarparu trefniadau cludiant sy'n gyson, yn dryloyw ac yn ystyried anghenion unigol, gan gynnwys dysgwyr anabl a dysgwyr gyda anghenion dysgu ychwanegol.

Er mwyn helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, mae'r meini prawf cymhwysedd a'r trefniadau gweithredu wedi'u llunio mewn ffordd sy'n deg ac yn seiliedig ar anghenion gwrthrychol, heb drin unrhyw grŵp yn llai ffafriol yn anghyfiawn.

Bydd y polisi'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau nad yw'n arwain at effeithiau andwyol annisgwyl ar unrhyw grŵp gwarchodedig ac i nodi cyfleoedd pellach i hyrwyddo cydraddoldeb.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Bydd y polisi cludiant newydd a gynigir yn sicrhau y rhoddir cyfleoedd i bawb fynychu safleoedd addysg dalgylch/addas agosaf. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn trywydd addysg o'u dewis hwythau, gan ddilyn cwrs o'r amrediad o bynciau a gynigir ar draws holl safleoedd addysg y sir, a safle sydd yn diwallu holl anghenion y dysgwyr. Darperir cludiant addas, trefnus a chyda chysylltiadau arbennig i'r perwyl hwn.

DRAFT

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae Polisi Iaith presennol Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar egwyddor bod y Gymraeg yn iaith naturiol y Cyngor ac mai'r Gymraeg yw'r brif iaith weinyddol a chyhoeddus, gyda phob gwasanaeth, cyfarfod, gohebiaeth ac arwydd yn ddwyieithog ond gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Mae'n sicrhau bod y cyhoedd a staff yn cael gwasanaeth llawn yn Gymraeg, bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob swydd, ac mae disgwyl i gyrff sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor hefyd hyrwyddo'r Gymraeg. O ran addysg, mae'r polisi'n pwysleisio rôl ganolog ysgolion a darparwyr addysg wrth drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf ac atgyfnerthu ei defnydd fel prif iaith dysgu a chymunedol.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y polisi yn cwrdd â'r gofynion isod: Mae'r Polisi Cludiant (drafft) yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Ddeddf mewn sawl ffordd:

- **Cymru lewyrchus** – Rhoddir cyfleoedd drwy mynediad i addysg gyfleoedd i feithrin a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Mae mynediad dibynadwy at addysg yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- **Cymru gydnerth** – Trwy eu hastudiaethau daw dysgwyr yn ymwybodol o werthoedd sydd yn cynnal cydnerth gymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid. Gall defnydd o gludiant mwy cynaliadwy gyfrannu at leihau allyriadau a diogelu'r amgylchedd.
- **Cymru iachach** – Bod yn ran o gymdeithas sydd yn hybi llesiant corfforol a cheisio adlewyrchu ar hunaniaeth bositif, sy'n gysylltiedig â chryfhau iechyd meddwl Pwrpas hyn yw ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn barod i ddysgu gan allu elwa'n llawn ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael, ac yn gallu cael mynediad rhwydd at gefnogaeth i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol. Mae mynediad rheolaidd at addysg yn cefnogi llesiant meddyliol a chorfforol dysgwyr. Gall trefniadau teithio diogel hefyd hyrwyddo iechyd a diogelwch.

DRAFT

- **Cymru fwy cyfartal** – Mae darparu mynediad at addysg gynhwysfawr i bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir yn ceisio sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant o'r ansawdd uchaf posibl sy'n eu galluogi i ffynnu a chyflawni eu potensial. Dyma un o'r cyfraniadau mwyaf uniongyrchol gan y polisi.
- **Cymru o gymunedau** – Rhoddir cyfleoedd i gysylltu pobl a chymunedau trwy darparu cysylltiadau trafnidiaeth hyfyw a diogel. Mae gwasanaethau cludiant dibynadwy yn helpu cysylltu cymunedau gwledig a threfol ag ysgolion.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yw un o'r prif ddulliau i wireddu'r nod hwn.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Mynediad at addysg yn hybu a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein dysgwyr gan obeithio fod hyn yn ymledu at lesiant byd-eang. Gall lleihau defnydd o geir unigol a hyrwyddo trafnidiaeth fwy cynaliadwy gyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae'r polisi cludiant addysg newydd yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gynllunio ar gyfer y tymor hir, atal anghydraddoldebau, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â chymunedau. Mae'n cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant, gyda chyfraniad arbennig o gryf at Gymru sy'n Fwy Cyfartal drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad teg at addysg a'r cyfleoedd sy'n deillio ohoni.

Y Pum Ffordd o Weithio:

1. Hirdymor

- Mae'r polisi'n ystyried anghenion dysgwyr yn y dyfodol drwy greu trefniadau cludiant cynaliadwy ac effeithlon.
- Gall leihau dibyniaeth ar geir preifat a chefnogi nodau amgylcheddol tymor hir.

2. Atal

- Mae darparu cludiant addas yn helpu atal problemau megis absenoldeb, allgáu addysgol ac anghydraddoldebau mynediad at addysg.
- Gall hefyd leihau problemau traffig a llygredd o amgylch ysgolion.

DRAFT

3. Integreiddio

- Mae'r polisi'n cefnogi sawl amcan llesiant ar yr un pryd yn hytrach na chanolbwyntio ar un maes yn unig.

4. Cydweithio

- Datblygwyd y polisi drwy weithio gyda rhanddeiliaid megis ysgolion, rhieni, a dysgwyr.
- Mae cydweithio'n helpu sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion lleol.

5. Cynnwys

- Mae ymgysylltu â dysgwyr, teuluoedd a chymunedau yn sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed.

DRAFT

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd cludiant i ddysgwyr yn cael ei ddarparu drwy brosesau tendr a chytundebau trydydd parti a weinyddir gan yr Uned Gludiant Integredig, Cyngor Gwynedd.

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

Bydd y dogfennaeth tendr yn rhai safonol Cyngor Gwynedd sydd yn nodi'r disgwyliadau o ran cydymffurfio â'r Ddylestwydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:
Rhoddir ystyriaeth i hyn wrth ymgysylltu ar y polisi drafft arfaethedig. Sicrheir fod pawb, gan gynnwys y dysgwyr, yn cael lleisio eu barn ar y cynnig arfaethedig.

Er ei bod yn ddyddiau cynnar, ac nad yw'r asesiad effaith yn derfynol, rhagwelir y bydd y polisi yn debygol o gael effaith bositif ar yr nodweddion cydraddoldeb (gweler cwestiwn 5). Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

Effaith Negyddol Sylweddol:
Gall effeithiau negyddol amlygu wrth gyflwyno rhai newidiadau i'r polisi, yn enwedig wrth ddileu rhai agweddau a gynigir yn bresennol ac o ddisgresiwn y cyngor. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain wrth ymgysylltu ar y polisi drafft arfaethedig, ac wrth lunio'r polisi terfynol.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol bwriadol yn deillio o'r Polisi Cludiant Addysg drafft, er enghraifft:

- Bydd canllawiau llymach ar ddysgwyr sydd yn byw mewn cyfeiriadau deuol er mwyn rheoli costau yn well.
- Bydd disgwyl i ddysgwyr addysg bellach ddilyn cwrs o'u dewis hwythau yn eu coleg agosaf er mwyn hwyluso trefniadau cludiant addysg.
- Rhoddir rhagor o eglurder ac ystyriaethau i ddalgylchoedd ysgolion ffydd gan nad oes cyfeiriad atynt ar hyn o bryd yn y polisi gyfredol.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd. Byddwn yn gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol sydd arnom.

DRAFT

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Er mwyn dangos yn gliriach fod y polisi cludiant addysg yn rhoi sylw dyledus i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gellid ystyried nifer o fesurau ychwanegol sy'n cyfrannu at y tair elfen o'r Ddyletswydd Gyffredinol: hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, a meithrin perthnasau da. Byddai'r camau hyn yn cryfhau'r polisi drwy sicrhau nid yn unig bod mynediad at gludiant addysg yn deg, ond hefyd bod y gwasanaeth yn weithredol yn lleihau anghydraddoldebau, yn atal gwahaniaethu ac yn adeiladu perthnasau cadarnhaol rhwng dysgwyr a chymunedau. Byddai hyn yn darparu tystiolaeth gryfach fod y ddyletswydd gyffredinol o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'i hystyried yn llawn. Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r polisi wedi ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol ar ddysgwyr a theuluoedd. Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rhagwelir na fydd y polisi diwygiedig yn effeithio ar statws yr laith Gymraeg.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

DRAFT

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol
Cyflwyno'r Polisi Ddrafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Mehefin 2026	Mehefin 2026	Pennaeth Addysg
Cyflwyno'r Polisi Ddrafft i'r Cabinet	Gorffennaf 2026	Gorffennaf 2026	Pennaeth Addysg

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amlder	Cyfrifoldeb Arweiniol
Adolygiad o'r Polisi	Blynyddol	Rheolwr Cludiant Addysg

DRAFT

Atodiad 6

Diweddariad Cyffredinol ar y Rhaglen Waith a Sefyllfa Gyllidol Cludiant Addysg

1. Rhaglen Waith Cludiant Addysg

1.1 Yn ogystal ag adrodd ar yr ymgynghoriad Polisi Cludiant Addysg Drafft, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd am ddiweddariad o gynnydd yn erbyn gofynion Rhaglen Waith Cludiant Addysg a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Rhagfyr 2024, ynghyd â diweddariad o'r sefyllfa gyllidol yn sgil gorwariant hanesyddol yn y maes cludiant addysg.

1.2 Mae'r tabl isod yn cyflwyno diweddariad cryno yn erbyn gofynion y rhaglen waith a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Rhagfyr 2024:

Rhaglen Waith Cludiant Addysg	Cynnydd hyd at Rhagfyr 2024	Cynnydd hyd at Mehefin 2026
Diweddaru'r Polisi Cludiant Addysg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Mae drafft cychwynnol o'r Polisi Cludiant Addysg wedi ei lunio. Unwaith bydd y Polisi drafft wedi ei gwblhau, mae bwriad ymgynghori arno. Bydd y polisi hwn yn cyfarch y gofynion statudol yn yr un modd â'r polisi presennol. Ochr yn ochr a hynny, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lunio.	Mae drafft o'r Polisi Cludiant Addysg a'r Asesiadau Effaith cysylltiedig wedi eu llunio, ac ar 26 Ionawr derbyniwyd caniatâd y Cabinet i fynd allan i ymgynghori. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 6 wythnos rhwng 9 Chwefror a 20 Mawrth 2026, ac mae ystyriaeth wedi ei roi i'r holl sylwadau a dderbyniwyd. Mae bwriad mynd yn ôl i Gabinet i adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriad a chyflwyno fersiwn derfynol o'r Polisi Cludiant Addysg cyn 1 Hydref 2026, er mwyn i'r polisi diwygiedig ddod i rym ar 1 Medi 2027.
Adolygu cytundebau cludiant addysg presennol er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd	Mae hwn yn waith parhaus, a cheir enghreifftiau isod o'r hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni	Mae hyn yn waith parhaus, adolygir y cytundebau cludiant oll yn dymhorol. Gyda lleihad mewn niferoedd y dysgwyr i'r dyfodol agos, rhagwelir y gwneir nifer o addasiadau I'r cytundebau, a lleihau capasiti'r llwybrau gan arwain at lleihad yn y costau yn dilyn hynny.
Adnabod cynllun peilot cludiant addysg y byddai modd ei	Cynllun peilot cychwynnol wedi ei weithredu'n rhannol y tymor hwn	Yn sgil blaenoriaethu cynllun peilot Ysgol Hafod Lon, nid ydym wedi gallu gweithredu cynllun peilot arall ar y cyd â Chanolfan Iaith yn ystod y cyfnod.

weithredu ar y cyd â Chanolfan Iaith		Er hynny, mae staff Canolfan Iaith Eifionydd wedi rhoi sesiynau gloywi iaith a gofal cwsmer i'r staff a gyflogir fel rhan o Gynllun Peilot Cludiant Ysgol Hafod Lon.
Adnabod cynllun peilot cludiant addysg y byddai modd ei weithredu ar y cyd ag ysgol arbennig	Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gydag Ysgol Hafod Lon a chyfleoedd posib wedi eu hadnabod, ond gwaith pellach i'w gyflawni gan anelu i gychwyn peilot yn Nhymor y Gwanwyn 2025.	Cynllun peilot gyda bws mini trydan, gyrrwr a hebryngwr yn gyflogedig yn uniongyrchol gan y Cyngor yn weithredol ers Ionawr 2026. Adborth o'r peilot yn gadarnhaol iawn. Anawsterau recriwtio wedi arwain at oedi gallu gweithredu ail gynllun peilot gyda'r ail fws mini yn Ysgol Hafod Lon, ond rydym yn parhau i geisio recriwtio ar hyn o bryd.
Ail-edrych ar drefniadau cludiant dysgwyr ADY	Y broses o ail-edrych ar yr amserlen ar gyfer adnabod anghenion cludiant dysgwyr ADY wedi cychwyn er sicrhau'r amodau gorau ar gyfer tendro'r ddarpariaeth er sicrhau gwerth am arian.	
Ystyried fforddiadwyedd Cludiant Addysg Ôl 16 yn sgil diddymu'r Tocyn Teithio Ôl-16	Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda Grŵp Llandrillo Menai.	• Cludiant Ôl-16 wedi ei gynnwys fel un o'r cynigion wrth ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. • Sgyrsiau wedi eu cynnal gyda Grwp Llandrillo Menai, ond nid oes bwriad gan y coleg i gyfrannu at gostau cludiant ol-16 ar hyn o bryd.
Cerbydau Trydan Adnewyddadwy	Cais grant wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cyngor ar gyfer cymorth ariannol i brynu 2 fws mini trydan, fyddai'n cynnig cyfleoedd posib i allu darparu cludiant addysg mewn ffordd amgen.	Cais grant ar gyfer 2 gerbyd trydan wedi bod yn llwyddiannus, a 2 fws mini trydan bellach ym mherchnogaeth y Cyngor i beilota darparu cludiant addysg mewn ffordd amgen. (Gweler cynllun peilot ysgol arbennig uchod).

2. Sefyllfa Gyllidol Cludiant Addysg

2.1 O safbwynt sefyllfa gyllidol cludiant addysg, dengys y tabl isod y gyllideb ar gyfer cludiant addysg Gwynedd ers 2016/17, ynghyd â'r gwir wariant i gyfarch gofynion cludiant addysg dros yr un cyfnod:

	Tacsis a trennau			Bysus			Cyfanswm		
	Cyllideb	Gwir	Gor/(tan) wariant	Cyllideb	Gwir	Gor/(tan) wariant	Cyllideb	Gwir	Gor/(tan) wariant
2016/17	2,064,210	2,038,424	**-25,786**	2,554,540	2,582,690	**28,150**	**4,618,750**	**4,621,113**	**2,363**
2017/18	2,021,500	2,223,188	**201,688**	2,558,770	2,545,402	**-13,368**	**4,580,270**	**4,768,590**	**188,320**
2018/19	2,335,140	2,471,034	**135,894**	2,609,570	2,805,616	**196,046**	**4,944,710**	**5,276,650**	**331,940**
2019/20	2,342,610	2,516,348	**173,738**	2,821,950	2,884,973	**63,023**	**5,164,560**	**5,401,321**	**236,761**
2020/21*	2,323,850	1,969,468	**-354,382**	2,931,910	2,560,678	**-371,232**	**5,255,760**	**4,530,145**	**-725,615**
2021/22	2,615,480	2,790,864	**175,384**	3,149,730	3,092,720	**-57,010**	**5,765,210**	**5,883,585**	**118,375**
2022/23	2,841,050	3,147,025	**305,975**	3,279,460	3,521,664	**242,204**	**6,120,510**	**6,668,690**	**548,180**
2023/24	2,743,340	3,427,763	**684,423**	3,646,240	4,457,345	**811,105**	**6,389,580**	**7,885,109**	**1,495,529**
2024/25	3,907,460	3,661,661	**-245,799**	4,182,150	4,619,603	**437,453**	**8,089,610**	**8,281,264**	**191,654**
2025/26	3,553,671	3,552,096	**-1,575**	4,223,530	4,709,941	**486,411**	**7,777,201**	**8,262,037**	**484,836**
2026/27 - amcan	3,528,810	3,522,053	**-6,758**	4,886,236	4,886,236	**0**	**8,415,046**	**8,408,289**	**-6,758**

** blwyddyn eithiradol*

2.2 Mae'r gyllideb cludiant addysg a welir yn y tabl uchod wedi cynyddu £3.8m ers 2016/17 yn sgil chwyddiant a cheisiadau bidiau parhaol i'r Cyngor gan yr Adran Addysg er mwyn cyfarch y cynnydd mewn costau i ddarparu cludiant dros y cyfnod.

2.3 Yn 2023/24 bu i'r maes cludiant addysg orwario £1.5m, ar gyllideb o £6.4m. Y prif reswm am hyn oedd gweithredu proses o ail-dendro bysiau ysgolion yn ystod y flwyddyn, effaith yr economi yn gyffredinol, ynghyd â chostau uwch yn gysylltiedig â gofynion hygyrchedd ar ddarparwyr bysiau. Ymhellach mae pwysau cynyddol ar ofyn tacsis yn bennaf yn gysylltiedig â'r maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

2.4 Mewn ymateb i'r gorwariant, darparwyd cyllideb ychwanegol parhaol i'r Adran Addysg gan y Cyngor o £895k, a chyllideb un-tro o £895k ar gyfer 2024/25 yn unig. Ymhellach darparwyd cyllideb un-tro ar gyfer 2025/26 yn unig i ariannu'r gorwariant yn y flwyddyn yno.

2.5 Golyga hyn nad oedd gorwariant yn 2024/25 a 2025/26, gan roi cyfle i'r Adran Addysg adnabod cyfleoedd ar gyfer ceisio rhesymoli'r costau ynghlwm â darparu cludiant addysg. Ar yr un pryd, rhaid cydnabod fod gweithredu addasiadau i gontractau cludiant a newid y modd yr ydym yn darparu cludiant addysg yn fater a gymer peth amser i'w weithredu a gweld ei effaith yn llawn. Penodwyd Rheolwr Cludiant Addysg ym mis Ebrill 2024 er sicrhau adnodd penodol i allu ymateb i'r sefyllfa, ac yn yr un cyfnod mae'r maes cludiant addysg yn destun Adolygiad Strategol ac mae rhaglen waith wedi ei llunio i ganolbwyntio ar greu datrysiadau ymarferol i'r heriau a wynebir yn y maes cludiant addysg.

2.6 Yn seiliedig ar ddata contractau Medi 2025, rhagwelwyd cost o ddarparu cludiant addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 yn £8.4m. Gellir rhannu'r gost i 2 brif categori, sef gwariant ar gontractau bysus o £4.9m a gwariant ar gontractau tacsis o £3.5m. Ar sail y costau hyn, cyflwynwyd fid i ariannu'r gorwariant gontractau bysus cyfwerth a £664,000 ar gyfer 2026/27, sy'n cynnwys costau ychwanegol sydd y tu allan i reolaeth yr Adran, a cyfleon cyfyngedig i weithredu arbedion ar y pennawd. Yn sgil cynlluniau a weithredir i arbed arian, ni gyflwynwyd fid contractau tacsis gan ddisgwyl i'r pennawd gadw oddi fewn ei gyllideb yn 2026/27.

2.7 Bydd ymdrechion yn parhau i adnabod cyfleon arbed arian / cadw costau o fewn rheolaeth lle'n bosib, gan gofio bod pwysau sylweddol yn y maes yn parhau yn unol a'r hyn nodir yn 3.9 uchod.

Astudiaeth Achos	Peilot Cludiant Ysgol Hafod Lon



Cynllunio'r Peilot
Yn 2025, cytunwyd i weithredu prosiect peilot er mwyn darparu cludiant addysg yn fewnol gan yr Adran Addysg i ddarparu cludiant i Ysgol Hafod Lon mewn ymdrech i geisio lleihau costau cludiant i'n hysgolion arbennig, ynghyd â gwella'r profiad teithio i'r dysgwyr a'u teuluoedd. Ar y pryd, roedd costau cludiant i Ysgol Hafod Lon yn costio £1m yn flynyddol, a £500k i Ysgol Pendalar. Ar sail y costau hyn, cytunwyd i flaenoriaethu Ysgol Hafod Lon ar gyfer y peilot.

Prynwyd cerbydau addas, gyda mynediad hawdd ac offer cadeiriau olwyn ar y cefn. Roedd cyfanswm cost y cerbydau yn £72,000 yr un, felly cyfanswm y gost am ddau gerbyd yn £144,000.

Neilltuwyd £79,000 o gronfa ganolog i archebu dau fws mini trydan i'r perwyl yma, a llwyddwyd gyda chais grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y £65,000 arall dan gynllun cerbydau gwyrdd, trydan glân. Buom hefyd yn llwyddiannus wrth dderbyn grant Llywodraeth y DU ar gyfer archebu a gosod pwyntiau gwefru ar y safle.

Archebwyd y cerbydau ym mis Mai 2025 a'u hanfon i gael eu trawsnewid i fysiau mini gan adeiladwr pwrpasol. Dechreuwyd ar y gwaith o osod y pwyntiau gwefru yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2025, y mwyafrif o'r gwaith hwnnw gan dîm mewnol y Cyngor.

Cwblhawyd y gwaith adeiladu ym Medi 2025 a derbyniwyd y cerbydau yn yr Hydref. Yn ystod yr un cyfnod, hysbysebwyd am yrwyr bysiau mini a chymorthyddion teithio. Penodwyd un gyrrwr bws cymwys a dau gymhorthydd teithio.

Yn dilyn y penodiadau, darparwyd hyfforddiant cyfathrebu arbenigol, hyfforddiant yn y defnydd gorau o'r iaith Gymraeg gyda'r dysgwyr, a hyfforddiant arbenigol ar gyfer ymgyfarwyddo â'r offer priodol, sgiliau codi ac estyn ac ymwybyddiaeth o drefniadau cludiant addysg arbenigol.

Adnabuwyd dysgwyr addas ar gyfer y peilot, gan adnabod criw o ddysgwyr oedd yn byw yn eithaf agos i'w gilydd yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, Llan Ffestiniog a Gellilydan.

Rhoddwyd rhybudd digonol i'r gweithredwyr tacsi bod y trefniant yn dod i ben ar ddiwedd tymor yr hydref, a bu'r gweithredwyr rheiny yn ffodus i ennill cytundebau newydd eraill ar gyfer y tymor i ddilyn.

Gweithredu'r peilot

Cychwynnodd y peilot yn Ionawr 2026. Rhoddwyd cefnogaeth i'r peilot yn ystod y 4 wythnos cyntaf, gan gynnwys hyfforddiant, cyfathrebu gyda rhieni, mentora a chysgodi er sicrhau cymorth cyffredinol er sicrhau y byddai'r peilot yn llwyddiannus.

Yn dilyn y 4 wythnos cyntaf, gwelwyd fod y staff yn hyderus, a'r rhieni a'r dysgwyr yn fodlon gyda'r ddarpariaeth a'r holl drefniadau, ac felly mae'r cynllun wedi gweithredu'n rhwydd iawn yn dilyn y cyfnod cychwynnol hwn.

Adnabuwyd yn barod arbediad o oddeutu £55,000 eleni yn sgil gweithredu'r peilot hwn. Yn ychwanegol, mae'r bws mini a'r gyrrwr wedi bod yn rhoi cymorth ganol dydd i Ysgol Hafod Lon drwy ddarparu cludiant i wersi nofio a gweithgareddau allan o'r dosbarth. Mae hyn yn gymorth mawr i'r ysgol ac yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr.

Bwriedir gweithredu'r ail fws-mini ar gychwyn y flwyddyn academaidd nesaf a rhagwelir arbediad sylweddol o £130,000 yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu.

Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan y rhieni'n ddiweddar, a bwriedir anfon holiadur ansawdd allan cyn diwedd y tymor i rieni a staff yr ysgol. Dyma ddetholiad o rai o'r sylwadau rydym wedi eu derbyn eisoes:

"mae'r gwasanaeth yn brydlon bob dydd, y staff yn gwrtais a fy mhlentyn yn edrych ymlaen at deithio bob bore. Gobeithio y bydd yn parhau'r tymor nesaf...."

"bydd hi yn mwynhau teithio ar y cludiant yma - mae cysondeb staff o ran eistedd yn yr un sedd, darparu adnoddau cyfathrebu addas a bod yn gyson gydag amseroedd a llwybr y daith yn sylfaen dda i weddill y diwrnod ar ei chyfer, roedd trafferth ei gael i'r tacsi ambell fore gynt!"

Gwerth Ychwanegol

Yn ychwanegol i'r cludiant arferol sydd eisoes mewn lle, mae cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth cludiant er sicrhau arbedion i ysgolion, drwy gefnogi teithiau yn ystod y diwrnod ysgol e.e. gwersi nofio, cyrsiau coleg, profiad gwaith, diwrnodau cwricwlaidd ayyb, fyddai'n golygu gweithredu diwrnod llawn o gytundebau cludiant addysg yn fewnol

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	18 Mehefin 2026
TEITL	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg
RHESWM DROS GRAFFU	Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol
AWDUR	Cyng. Dewi Jones – Aelod Cabinet Addysg
PENNAETH ADRAN	Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a mesurau perfformiad yr Adran.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Mawrth 2026, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill 2024. Er hynny, mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

2.2.1 Perfformiad Addewidion Prosiectau Cynllun y Cyngor

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mae diweddariadau ar holl brosiectau Cynllun y Cyngor yr Adran Addysg i'w gweld yn **Atodiad 1**. Hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau canlynol:

2.2.2 Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Mae gwaith y Prosiect 'Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu' wedi parhau i wneud cynnydd ar draws nifer o safleoedd yn ystod y cyfnod diwethaf.

Yn Ysgol Ein Harglwyddes, mae'r gwaith adeiladu yn symud ymlaen a disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn ystod tymor yr haf gyda'r ysgol yn agor dechrau tymor yr hydref 2026, gan ddarparu cyfleusterau modern fydd yn cefnogi profiadau dysgu gwell i ddisgyblion a'r gymuned ysgol gyfan.

Ym mhrosiect Ysgol Tryfan, datblygwyd cynlluniau pellach ar gyfer yr ysgol yn ystod haf 2025, gan amlygu'r angen i gynyddu'r gyllideb wreiddiol. Yn dilyn hynny, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynyddu cyllideb y prosiect o £18 miliwn i £23.6 miliwn. Mae'r tîm dylunio yn parhau i ddatblygu cynllun sy'n bodloni gofynion adeiladau sero net, gyda gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol yn ystod tymor yr haf 2026.

2.2.3 Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae gwaith y Prosiect 'Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar' wedi parhau i wneud cynnydd cadarnhaol yn ystod y blwyddyn diwethaf. Fel rhan o'r gwaith i gefnogi datblygiad annibyniaeth plant, mae pecynnau gwybodaeth am doiledu wedi'u dosbarthu i ddarparwyr gofal plant ledled Gwynedd yn ogystal â rhieni. Yn ychwanegol, crëwyd pennod o bodlediad *Mam, Dad a Magu* yn canolbwyntio ar toiledu plant, er mwyn darparu gwybodaeth a chefnogaeth hygyrch i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Mae'r Cynllun Gofal Plant 2 oed yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd drwy roi mynediad i 12.5 awr o ofal plant am ddim, gan helpu i leihau pwysau costau byw. Mae'r Cynllun hefyd wedi parhau i ehangu ar draws y sir. Yn ystod y blwyddyn diwethaf, mae'r cynllun wedi'i ymestyn i Dywyn, Harlech, Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd/Buan, Botwnnog/Tudweiliog, Cricieth, Caernarfon, Llanberis a Phorthmadog Gorllewinol.

2.2.4 Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Yn ystod 2025/26 mae gwaith wedi parhau i hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd wrth anfon plant i'r ysgol. Yn dilyn y gwaith ymgynghori cynhwysfawr yn 2024 a'r adborth gwerthfawr a dderbyniwyd gan rieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid, mae'r canfyddiadau wedi parhau i lywio gwaith ysgolion a'r awdurdod lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae ysgolion wedi defnyddio canlyniadau'r Awdit Ysgol Cost Gyfeillgar i weithredu camau ymarferol i leihau costau i deuluoedd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys adolygu polisïau gwisg ysgol, hyrwyddo cynlluniau ail-law, ystyried cost tripiau ysgol a gweithgareddau ychwanegol, a sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael yn glir i rieni a gofalwyr.

Mae'r gweithgor wedi datblygu Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar ac mae ysgolion wedi dechrau gweithio tuag at gyflawni'r mesuryddion perthnasol er mwyn cael eu hadnabod fel ysgolion

‘Cost Gyfeillgar’. Mae’r gwaith yma wedi annog ysgolion i rannu arferion da ac i roi mwy o ystyriaeth i effaith costau ysgol ar lesiant a chyfranogiad dysgwyr.

Rydym yn dibynnol ar gyd-weithrediad ysgolion er mwyn gyrru'r agenda yma yn ei flaen gan mai ysgolion unigol sy'n gwneud llawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio hyn. Yng ngolau hyn mae gan aelodau sydd hefyd yn lywodraethwyr ysgolion rôl allweddol i'w chwarae wrth ddylanwadu a chraffu ar benderfyniadau ysgolion unigol.

Mae’r prosiect bellach wedi ei weithredu’n llawn, a bydd y gwaith o gefnogi ysgolion i weithredu egwyddorion y Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar, rhannu arferion llwyddiannus ar draws y sir, a sicrhau bod llais teuluoedd a dysgwyr yn parhau i lywio’r ddarpariaeth yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran yn hytrach na pharhau fel prosiect penodol o fewn Cynllun y Cyngor.

3. Perfformiad yr Adran

Mae Gwasanaethau’r Adran yn perfformio’n dda a chadarnhaf fy mod yn fodlon gyda’u perfformiad presennol. Nid yw’r wybodaeth isod yn cyfeirio at bob Gwasanaeth yn yr Adran, gweler isod rhai o’r uchafbwyntiau. Am fanylion llawn ar berfformiad mesurau'r Adran, gweler **Atodiad 2**.

Arlwyo

Mae’r ddarpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i bob dysgwr cynradd yng Ngwynedd wedi parhau i fod yn llwyddiant yn ystod 2025/26, gyda’r gwasanaeth yn parhau i gefnogi llesiant plant a phobl ifanc ar draws y sir. Mae ysgolion a’r gwasanaeth Arlwyo wedi parhau i gydweithio’n agos i sicrhau darpariaeth gyson o brydau maethlon a deniadol i ddysgwyr.

Mae lefelau derbyn y cynnig wedi parhau’n gadarn yn ystod y flwyddyn, ac mae’r Adran wedi parhau i hyrwyddo manteision cinio ysgol ymysg teuluoedd er mwyn annog mwy o blant i fanteisio ar y ddarpariaeth. Yn Mawrth 2026, ar gyfartaledd, darparwyd 6,160 o brydau cinio ysgol am ddim ar unrhyw ddiwrnod.

Yn ogystal â darparu prydau maethlon, mae’r gwasanaeth wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau ehangach y Cyngor drwy hyrwyddo bwyd lleol, lleihau gwastraff bwyd a chodi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o bwysigrwydd bwyta’n iach.

Her Ysgolion Cynaliadwy

Mae cynnydd da wedi parhau ar brosiect Her Ysgolion Cynaliadwy yn ystod 2025/26 gyda’r gwaith o baratoi safle’r hen ysgol ym Montnewydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae’r cydweithio rhwng ysgol Bontnewydd, y gymuned, a phartneriaid y prosiect wedi parhau i fod yn gryf, gyda’r nod o ddatblygu ysgol a chyfleusterau cymunedol eco gyfeillgar sy’n adlewyrchu uchelgeisiau carbon Llywodraeth Cymru. Mae’r prosiect yn parhau i hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol drwy wneud y defnydd gorau o ddeunyddiau wedi’u hailddefnyddio a dulliau adeiladu cynaliadwy.

Mae'r ysgol dros dro wedi parhau i weithredu'n llwyddiannus, gan sicrhau amgylchedd dysgu addas i'r disgyblion tra bod y gwaith cynllunio a pharatoi yn mynd rhagddo.

Mae'r prosiect yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol, gyda'r weledigaeth o greu adeilad modern, cynaliadwy ac arloesol sydd yn diwallu anghenion y gymuned leol am flynyddoedd i ddod.

Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion wedi parhau i ddatblygu yn ystod 2025/26, gyda ffocws ar gryfhau'r gefnogaeth strategol a gweithredol a ddarperir i ysgolion Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu trefniadau sy'n galluogi ysgolion i gael mynediad mwy cydlynol at gymorth ac arweiniad, gan sicrhau bod anghenion ysgolion, penaethiaid a llywodraethwyr yn cael eu diwallu mewn modd mwy effeithiol ac amserol.

Yn ystod y flwyddyn, bu pwyslais ar ddatblygu perthynas agosach rhwng y gwasanaeth ac ysgolion unigol er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir yn adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau gwella ysgolion. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi ysgolion mewn meysydd allweddol megis arweinyddiaeth, cynllunio cwricwlwm, a chynllunio gweithlu.

Ers sefydlu'r gwasanaeth, mae swyddogion wedi llwyddo i ymweld â phob ysgol ar draws yr Awdurdod, gan gyfrannu at ddatblygu perthynas agored a chadarnhaol o gydweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau am swyddi pennaeth, gyda'r her o ddenu unigolion i swyddi arweinyddiaeth ysgolion yn cynyddu. Mewn ymateb i hyn, mae'r Adran Addysg wedi datblygu rhaglen *"Arweinwyr y Dyfodol"* er mwyn darparu cefnogaeth ymarferol a sicrhau llwybr datblygol ac olyniaeth o fewn y system addysg. Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal am yr eildro eleni ar gyfer dwy garfan, gyda 17 o gyfranogwyr o'r sector cynradd a saith o'r sector uwchradd yn cymryd rhan.

Ers Ionawr 2026, mae rhaglen newydd hefyd wedi'i sefydlu i ddarparu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal dros dro. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth mentor a chyfleoedd rhwydweithio er mwyn cefnogi arweinwyr ysgolion yn ystod cyfnodau cynnar eu harweinyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae 22 o benaethiaid wedi ymrwymo i'r rhaglen, ac mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion hefyd yn darparu cymorth a chyngor i Gyrff Llywodraethu ysgolion ledled y sir. Er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth hon ac ymateb i'r galw cynyddol, mae capasiti ychwanegol wedi'i ychwanegu at y tîm yn ddiweddar drwy benodi Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr ychwanegol. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i barhau i ddarparu cefnogaeth amserol ac effeithiol i lywodraethwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Presenoldeb

Mae presenoldeb wedi parhau'n flaenoriaeth yn ystod 2025/26, gyda lefelau presenoldeb yn dangos gwelliant graddol ar draws ysgolion y sir. Er nad yw lefelau presenoldeb wedi dychwelyd yn llawn eto i'r sefyllfa cyn y pandemig, mae'r duedd gyffredinol yn parhau'n gadarnhaol ac yn adlewyrchu effaith gwaith yr Awdurdod a'r ysgolion.

Hyd at Ebrill 2026, roedd presenoldeb cyfartalog yr Awdurdod yn 91.0%, sy'n cyfateb i gyfradd Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Mae data hanesyddol Gwynedd yn dangos cynnydd cyson dros gyfnod o dair blynedd, gyda phresenoldeb wedi cynyddu o 89.7% yn 2022/23, i 90.4% yn 2023/24, ac yna i 90.9% yn 2024/25.

Mae'r cynnydd yma wedi'i gefnogi gan ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar, monitro o batrymau presenoldeb, a chydweithio agos rhwng ysgolion, gwasanaethau'r Awdurdod a theuluoedd. Mae cefnogaeth uniongyrchol drwy Swyddogion Lles Addysg wedi parhau'n elfen allweddol o'r gwaith, gan helpu i leihau rhwystrau i fynychu'r ysgol a chefnogi dysgwyr i ail-ymgysylltu â'u haddysg.

Gwaharddiadau

Mae gwaith y Gwasanaeth Cynhwysiad, ynghyd â datblygiad pellach yr Uned *Camu I'r Copa* yn Felinwnda, wedi galluogi ysgolion i gael mynediad at gymorth mwy amserol, hyblyg a phwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o ddatgysylltu o addysg brif ffrwd. O ganlyniad, mae ysgolion wedi gallu gweithredu ymyriadau cynharach ac yn fwy effeithiol cyn i sefyllfaoedd gynyddu i'r pwynt lle mae gwaharddiad parhaol yn cael ei ystyried.

Mae gweithrediad y Strategaeth Cynhwysiad newydd wedi cryfhau dull gweithredu mwy cyson ar draws yr ysgolion, gyda ffocws clir ar ymyrraeth gynnar, hyrwyddo llesiant emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol, ynghyd â datblygu arferion cynhwysol a dulliau adferol er mwyn cefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol o fewn eu hysgolion prif ffrwd.

Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ymestyn allan wedi parhau i ddatblygu, gan ddarparu cefnogaeth hyblyg ac wedi'i theilwra i anghenion ysgolion a dysgwyr unigol. Er bod heriau'n parhau mewn rhai achosion cymhleth, mae'r cydweithio rhwng ysgolion, y Gwasanaeth Cynhwysiad a'r timau cefnogol wedi cryfhau ymhellach.

Uned Cyfeirio Disgyblion – Camu I'r Copa

Mae'n bleser gennym adrodd bod *Camu I'r Copa*, yr Uned Cyfeirio Disgyblion sydd wedi'i lleoli ar safle cyn Ysgol Felinwnda yn Llanwnda, wedi cwblhau dau dymor lawn o weithredu fel darpariaeth gofrestredig lwyddiannus. Ers agor y ganolfan, mae'r ddarpariaeth wedi datblygu'n adnodd gwerthfawr i bobl ifanc y sir, gan ddarparu cefnogaeth addysgol, emosiynol a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel, meithringar ac ymatebol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2025/26, mae'r Ganolfan wedi cefnogi nifer o ddysgwyr ag anghenion amrywiol, gyda ffocws clir ar feithrin hyder, gwydnwch ac ymgysylltiad positif ag addysg. Trwy ddosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol a chefnogaeth therapiwtig briodol, mae llawer o'r disgyblion wedi dangos cynnydd cadarnhaol yn eu llesiant, eu hymddygiad a'u presenoldeb.

Mae'r tîm ymroddedig yn *Camu I'r Copa* wedi gweithio'n agos gyda theuluoedd, ysgolion a gwasanaethau partner i sicrhau bod pob unigolyn yn cael y gefnogaeth fwyaf addas i'w anghenion. Mae'r cwricwlwm wedi parhau i ddatblygu drwy gynnig cyfuniad o bynciau academaidd, gweithgareddau ymarferol a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau bywyd, gyda phwyslais cryf ar lesiant a datblygiad personol. Mae adborth cadarnhaol gan ddisgyblion, rhieni a phartneriaid wedi adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y mae'r ddarpariaeth yn ei chael ar bobl ifanc lleol.

Mae lleoliad y Ganolfan yn Llanwnda wedi parhau i fod yn elfen allweddol o'i llwyddiant, gan sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol o fewn eu cymuned eu hunain. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus Cyngor Gwynedd i ddarparu addysg gynhwysol, hygyrch ac o safon uchel i bob dysgwr.

Diogelu a Llesiant

Yn ystod 2025/2026, bu'r Tîm Diogelu a Llesiant yn canolbwyntio ar sefydlu a chryfhau'r Gwasanaeth Diogelu a Llesiant newydd o fewn ysgolion Gwynedd. Sefydlwyd y gwasanaeth yn llawn, gyda systemau cysylltu a chofnodi ymholiadau bellach yn weithredol ac yn cael eu defnyddio'n gyson gan ysgolion ar draws y sir.

Datblygwyd a gweithredwyd trefniadau newydd ar gyfer ymateb i honiadau yn erbyn staff ysgolion, ynghyd ag adolygu trefniadau hyfforddi i gyd-fynd â safonau diweddaraf Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae trefniadau ymweliadau ansawdd diogelu a monitro bellach wedi eu sefydlu, gyda phrosesau adrodd ac arfarnu ar waith. Mae gwaith pellach wedi ei gynllunio ar gyfer 2026/27 i werthuso a rhannu arferion da. Bellach mae ein trefniadau ymweliadau monitro ansawdd a gwerthuso blynyddol yn gadarn ac yn cymharu'n ffafriol iawn gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Parhaodd y gwasanaeth i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i ysgolion drwy gydol y flwyddyn, gan gefnogi ymateb effeithiol i anghenion diogelu a llesiant dysgwyr.

Mae defnydd o ddata presenoldeb a monitro Plant Mewn Gofal (PMG) wedi cryfhau, gyda Dashfwrdd Presenoldeb a systemau ategol yn galluogi monitro mwy effeithiol ar lefel ysgolion, dalgylchoedd a sectorau. Sefydlwyd hefyd broses flynyddol ar gyfer monitro Cynlluniau Addysg Personol Plant Mewn Gofal, gyda hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu darparu i ysgolion.

Roedd heriau staffio o ran sicrhau ymweliadau ansawdd diogelu amserol, ond cafodd hyn ei liniaru drwy gynyddu capasiti'r gwasanaeth o dri i bedwar aelod o staff, gan wella gallu'r tîm i ymateb i alw a chynnal cefnogaeth gyson.

Gwasanaeth Ieuenctid

Yn ystod blwyddyn 2025/26, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i ehangu ac atgyfnerthu ei ddarpariaeth gymunedol ar draws Gwynedd, gan sicrhau cyfleoedd eang a hygyrch i bobl ifanc ledled y sir. Mae'r gwasanaeth bellach yn darparu 34 o brosiectau a chlybiau cymunedol wythnosol ar draws Arfon, Meirionnydd a Dwyfor, gan gynnwys clybiau cymunedol sefydlog, darpariaeth symudol a gwasanaethau arbenigol.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd 5 clwb cymunedol newydd mewn ardaloedd blaenoriaeth, sef Trawsfynydd, Bala, Llandwrog, Mynytho a Tywyn. Mae'r datblygiad hwn wedi cryfhau mynediad lleol at weithgareddau ieuenctid ac wedi sicrhau bod mwy o bobl ifanc mewn cymunedau gwledig yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ddiogel a chefnogol o fewn eu hardal.

Mae'r gwaith partneriaeth wedi parhau'n elfen allweddol o lwyddiant y gwasanaeth. Mae'r cydweithio parhaus gyda'r Urdd wedi galluogi cynnal a datblygu aelwydydd a gweithgareddau ar ôl ysgol ar draws y sir, tra bod gwaith agos gydag ysgolion uwchradd wedi sicrhau darpariaeth fwy cydgysylltiedig ac ymatebol i anghenion pobl ifanc.

Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud ym maes cyfranogiad ac ymgysylltu pobl ifanc. Mae fforymau pobl ifanc bellach wedi'u sefydlu ar draws Gwynedd, ac mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu fforwm llais pobl ifanc ar lefel y Cyngor. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd pellach i bobl ifanc gyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau sirol a dylanwadu ar wasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi dechrau paratoi ar gyfer datblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid bum mlynedd newydd Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu helaeth gyda phobl ifanc, partneriaid a gwasanaethau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc Gwynedd wrth wraidd y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi eu cynnal er mwyn ymgysylltu gyda phartneriaid y gwasanaeth yng Nghaernarfon, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli a Bala.

Mae gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar lesiant, hyder a datblygiad personol pobl ifanc ledled Gwynedd. Trwy ddarparu mannau diogel a chefnogol i gyfarfod, cymdeithasu a datblygu sgiliau newydd, mae'r gwasanaeth wedi helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol a lleihau teimladau o unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.

4. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Addysg, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau:

Atodiad 1: Adroddiad ar brosiectau Cynllun y Cyngor 2025-26
Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran Addysg

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3 (2025-26)

Gwynedd Yfory: Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

Adran a Prosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y drydedd flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?
Adran Addysg: **Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**	Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posibl i'w cyfnod mewn addysg.	• Newid Polisi Toiledu i ysgolion Gwynedd Medi 2025 a pharatoi teuluoedd at y newid drwy gydweithio yn draws adrannol a gydag Iechyd. • Ymestyn y cynllun gofal plant 2 oed i fwy o ardaloedd erbyn Medi 2025 sef Tywyn, Harlech Llandderfel & Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd / Buan, Aberdaron/Botwnnog/ Tudweiliog, Cricieth, Waunfawr, Seiont 1 - Caernarfon Llanberis, Arllechwedd a Phorthmadog Gorllewinol gan ddarparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.	Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** • Mae pecynnau toiledu wedi'u dosbarthu i ddarparwyr gofal plant yng Gwynedd, yn ogystal â rhieni. • Crëwyd pennod o bodlediad *Mam, Dad a Magu* yn canolbwyntio ar toiledu, sydd ar gael ar amryw o lwyfannau fel You Tube a Spotify. • Mae'r Cynllun Gofal Plant 2 oed wedi'i ymestyn i'r ardaloedd canlynol: Tywyn, Harlech, Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd / Buan, Botwnnog / Tudweiliog, Cricieth, Seiont 1 – C'fon, Llanberis a Porthmadog Gorllewinol. • Mae 12 darparwr gofal plant newydd wedi arwyddo cytundeb i gynnig y Cynllun. • Mae 121 o blant wedi cofrestru ac yn derbyn eu hawliad am 12.5awr o ofal plant am ddim. • Mae'r gwarchodwraig gyntaf yng Ngwynedd bellach wedi arwyddo cytundeb gyda'r Awdurdod i ddarparu gofal i blant 2 oed. **Effaith ar bobl Gwynedd:** Mae arwyddion cynnar yn dangos ei bod yn debygol y bydd llai o blant yn dechrau yn y dosbarth meithrin heb fedru defnyddio'r toiled yn annibynnol. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ym mis Medi 2026 i adolygu'r sefyllfa, gan nodi dwy flynedd ers i'r newid polisi ddod i rym.

				Mae'r Cynllun Gofal Plant yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd drwy roi mynediad i 12.5 awr o ofal plant am ddim, gan helpu i leihau costau byw. Mae effaith gadarnhaol hefyd ar blant, drwy gael mynediad at ofal o ansawdd a gweithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae darparwyr gofal plant yn elwa o'r Cynllun drwy fuddsoddiad ariannol mewn adnoddau a chymorth proffesiynol gan Athrawes Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a'r tîm gofal plant ehangach.
Adran Addysg: **Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu**	Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir dal i fod yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir ac yn benodol ardal Bangor a Chricieth, a byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.	**Hirael** Cychwyn y gwaith adeiladu ar y safle. **Ein Harglwyddes** Cwblhau'r gwaith adeiladu ac agor yr ysgol newydd yn Pasg 2026. **Tryfan** i) Llunio a chyflwyno achos busnes (Achos Busnes Amlinellol) ii) Cytuno ar ddyluniad amlinellol **Bontnewydd** i) Cyflwyno'r achos busnes llawn (Achos Busnes Llawn) ii) Cwblhau'r gwaith o adeiladu'r ysgol dros dro iii) Dymchwel yr adeilad presennol	Nac ydy Rhannol Ydy Ydy Ydy Ydy Rhannol	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** **Hirael** Gwaith dylunio wedi digwydd yn ystod 2025/26. **Ein Harglwyddes** Mae'r gwaith adeiladu yn symud ymlaen, a disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn ystod tymor yr haf gyda'r ysgol yn agor dechrau tymor yr hydref 2026. **Tryfan** Yn ystod haf 2025, datblygwyd cynlluniau ar gyfer yr ysgol gan nodi'r angen i gynyddu'r cyllideb. Yn dilyn hynny, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo argymhelliad i gynyddu cyllideb y prosiect o £18m i £23.6m. Mae'r tîm dylunio yn parhau i weithio ar ddatblygu cynllun sy'n cyflawni gofynion sero net, gan baratoi ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol yn nhymor yr haf 2026. **Bontnewydd** Cafodd y gwaith o adeiladu'r ysgol dros dro ei gwblhau yn ystod tymor yr haf 2025, ac ers Medi 2025, mae'r ysgol a'r ganolfan gymunedol wedi gweithredu o'r adeilad dros dro. Cyflwynwyd yr achos busnes llawn ym mis Mawrth 2026, yn dilyn proses fanwl o beirianneg gwerth (Value Engineering).

				Effaith ar bobl Gwynedd: • Gwell cyfleusterau addysg – Mwy o blant yn elwa o ysgolion ag amgylcheddau dysgu modern sy'n gwella profiad addysgol dysgwyr Gwynedd. • Cyfleoedd economaidd – Datblygiadau cyfalaf yn creu swyddi a buddion cymunedol ac o ganlyniad yn cryfhau'r economi leol. • Adeiladau sero net – Prosiectau arfaethedig yn rhai cynaliadwy, fydd yn lleihau ôl-troed carbon ein hysgolion. • Gwell defnydd o gyfleusterau – Mwy o blant, grwpiau a mudiadau cymunedol yn elwa yn sgil mynediad at gyfleusterau modern aml-ddefnydd fydd yn agored i'r gymuned ehangach.
Adran Addysg: **Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**	Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, ond gan warchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr mae ein plant yn eu cael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol. Byddwn hefyd yn ymdrin gyda materion llesiant yn cynnwys heriau emosiynol a seicolegol ac yn cefnogi materion ehangach sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, cydraddoldeb, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi.	• Llunio a dosbarthu Awdit 'Y gost o fynychu yr ysgol' i pob ysgol werthuso eu trefniadau presennol. • Dadansoddi canfyddiadau'r Awdit. • Rhannu canfyddiadau gyda'r ysgolion ar ffurf cynllun gweithredu unigol i pob ysgol.	Ydy Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** • Crëwyd ac anfonwyd Awdit "Y Gost o Fynychu'r Ysgol" i bob ysgol yng Ngwynedd. • Dadansoddwyd yr holl ymatebion ac adnabuwyd prif feysydd costau a heriau. • Rhoddwyd cynllun gweithredu unigol i bob ysgol oedd wedi ymateb, wedi'i seilio ar yr ymatebion, i'w drafod gyda'r llywodraethwyr. **Effaith ar bobl Gwynedd:** • Lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd drwy helpu ysgolion i leihau costau diangen a sicrhau blaen rybudd addas ar gyfer cais am arian. • Mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau, waeth beth yw sefyllfa ariannol y teulu. • Ysgolion yn ystyriol o heriau ariannol wrth gynllunio digwyddiadau a gofyn am gyfraniadau. • Darpariaethau a chefnogaeth bwrpasol i lleihau costau yn cael eu cynllunio a'u darparu gan ysgolion.

Adran Addysg a PP YGC **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**	Byddwn yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer Ieuenctid yn gweithio ar draws y sir a pha ddeilliannau y mae'n eu cyflawni i bobl ifanc	• Ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer o glybiau cymunedol ar draws y Sir. • Alinio strategaeth yr awdurdod lleol â chynlluniau pum mlynedd Llywodraeth Cymru. • Adnabod ffyrdd o ymgysylltu'n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc. • Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r ysgolion uwchradd i sicrhau cynllunio, cyflwyno ac adolygu darpariaethau ieuenctid cydlynol o fewn cyd-destun ysgol, gan gyfrannu at les ac ymddygiad cadarnhaol pobl ifanc 11–18 oed.	Ydy Ydy (parhau yn 2026/27) Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu 34 o brosiectau a chlybiau cymunedol yn wythnosol ar draws Gwynedd, gyda 16 wedi'u lleoli yn Arfon, 10 ym Meirionnydd a 8 yn Nwyfor, gan sicrhau lledaeniad daearyddol eang a mynediad teg i bobl ifanc ledled y sir. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys 12 clwb a ariennir gan gynghorau lleol, 3 Chlwb Cyfeillgar mewn partneriaeth â Derwen, 18 o glybiau cymunedol symudol sy'n ymateb yn hyblyg i anghenion lleol, ac 1 clwb Niwro arbenigol. Yn ystod y flwyddyn 2025/26, agorwyd 5 clwb cymunedol newydd mewn ardaloedd blaenoriaeth, yn Nhrawsfynydd, Bala, Llandwrog, Tywyn a Mynytho. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyd-ariannu swydd Gweithiwr Ieuenctid yr Urdd sydd yn cynnal 4 aelwyd ar draws y sir ynghyd a nifer o glybiau ar ôl ysgol. Mae fforymau pobl ifanc wedi'u sefydlu ar draws y sir, gyda chynlluniau i lansio fforwm llais pobl ifanc llawn y Cyngor. Bydd hyn yn galluogi mewnbwn uniongyrchol gan bobl ifanc i arweinyddiaeth y Cyngor, gyda Chydlynydd Ymgysylltu a Chyfathrebu newydd yn cefnogi cyfranogiad, yn enwedig gan y rhai anoddaf i'w cyrraedd. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi datblygu cynlluniau ar y cyd ag ysgolion Uwchradd i sicrhau darpariaeth glir, bwrpasol ac effeithiol. **Effaith ar bobl Gwynedd:** Mae'r ddarpariaeth o glybiau a phrosiectau ar draws y sir yn sicrhau mynediad teg at weithgareddau diogel a chefnogol, gan helpu i wella lles, hyder a sgiliau cymdeithasol pobl ifanc, yn ogystal â lleihau teimladau o unigrwydd mewn cymunedau gwledig. Drwy ehangu'r ddarpariaeth i ardaloedd blaenoriaeth a chynnig modelau hyblyg fel clybiau symudol a

				darpariaeth arbenigol, mae mwy o bobl ifanc yn gallu cael mynediad at wasanaethau perthnasol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r gwaith partneriaeth gyda sefydliadau fel yr Urdd ac ysgolion yn cryfhau'r gefnogaeth o amgylch pobl ifanc, gan sicrhau dull mwy cydlynol o weithio a gwell canlyniadau addysgol a chymdeithasol. Mae datblygu fforymau pobl ifanc a chynlluniau i gryfhau eu llais yn golygu bod pobl ifanc Gwynedd yn cael mwy o ddylanwad ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth a dinasyddiaeth weithgar. Yn y tymor hir, bydd y gwaith o ddatblygu Strategaeth pum mlynedd yn helpu i sicrhau gwasanaeth mwy cynaliadwy, wedi'i gynllunio o amgylch anghenion pobl ifanc y sir.
Adran Addysg **Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd**	Llunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd ar gyfer Gwynedd gan ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ar y blaenoriaethau er sicrhau cyfundrefn addysg wydn, ynghyd â darpariaeth a phrofiadau addysgol o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc y sir	• Ymgysylltu ar y Strategaeth ddrafft. • Cyflwyno'r Strategaeth Addysg gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. • Cyflwyno'r Strategaeth Addysg terfynol gerbron y Cabinet gyda'r Strategaeth yn dod yn weithredol.	Ydy Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** Mae'r Strategaeth Ysgolion yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer addysg yng Ngwynedd dros y 10 mlynedd nesaf. Fe'i datblygwyd drwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys penaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd a'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc, yn ogystal ag arolwg electronig a oedd ar agor am wyth wythnos. Sicrhaodd hyn fod safbwyntiau proffesiynol a lleisiau dysgwyr yn llywio'r Strategaeth. Cyflwynwyd y Strategaeth ddrafft gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 11/12/25. Cyflwynwyd y Strategaeth i'r Cabinet ar 10/02/26 **Effaith ar bobl Gwynedd:** Mae'r Strategaeth Ysgolion newydd yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor ar bobl Gwynedd drwy osod

				cyfeiriad clir ar gyfer datblygu addysg dros y degawd nesaf. I ddysgwyr, mae'n golygu darpariaeth addysg fwy cyson ac o ansawdd uchel, wedi'i llywio gan eu hanghenion. Trwy gynnwys llais pobl ifanc yn y broses, mae'r Strategaeth yn fwy perthnasol ac yn adlewyrchu profiadau go iawn yn yr ysgolion. Nod y Strategaeth yw adeiladu system addysg gynhwysol, deg ac o ansawdd uchel. Bydd yn cefnogi gwell safonau addysg drwy well trefniadaeth ysgolion mewn ymateb i newidiadau demograffig, defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion a datblygiad y gweithlu. Disgwylir i hyn arwain at brofiadau dysgu mwy cyson a gwell cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyrraedd eu potensial. I ysgolion a staff, mae'n darparu eglurder o ran blaenoriaethau a disgwyliadau, gan gefnogi cynllunio gwell a chydweithio ar draws y sir. Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi rhwydwaith ysgolion mwy cynaliadwy i gryfhau ysgolion a chymunedau, ac yn hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gan gyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r broses eang o ymgysylltu wedi cryfhau ymddiriedaeth a pherchnogaeth ymhlith rhanddeiliaid, gan osod sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau addysgol mwy effeithiol yng Ngwynedd yn y blynyddoedd i ddod.
Adran Addysg **Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd.**	Mae angen adolygu a gwella'r ystod darpariaethau cynhwysiad sydd ar gael i ddysgwyr gydag anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol. Mae anghenion y dysgwyr hyn wedi cynyddu,	• Ymgynghori, ailstrwythuro a phenodi staff • Cofrestru'r ddarpariaeth fel Uned Cyfeirio Dysgwyr Portffolio • Ffurfio Pwyllgor Rheoli ar gyfer UCD	Ydy Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** Mae'r gwaith o ailstrwythuro a phenodi staff wedi'i gwblhau, ac mae'r ddarpariaeth bellach wedi'i chofrestru'n swyddogol. Mae Pwyllgor Rheoli hefyd wedi'i sefydlu, gyda'i gyfarfod cyntaf wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2025.

	gydag effaith y pandemig i weld yn glir ac yn hirdymor.	• Anwytho staff a hyfforddi • Lansio Strategaeth Cynhwysiad	Ydy Ydy	Cynhaliwyd sesiynau anwytho i staff, ynghyd â hyfforddiant ar systemau a strategaethau perthnasol er mwyn sicrhau parodrwydd llawn. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion 'Camu I'r Copa', sydd wedi'i lleoli ar safle cyn Ysgol Felinwnda yn Llanwnda, bellach yn weithredol fel darpariaeth gofrestredig ac wedi dechrau cefnogi dysgwyr. Mae'r ganolfan yn adnodd pwysig i bobl ifanc yr ardal sydd angen cymorth addysgol wedi'i deilwra, gan gynnig amgylchedd diogel a chefnogol sy'n ymateb i'w hanghenion unigol. Yn ogystal, cyhoeddwyd y Strategaeth Cynhwysiad yn y Grwpiau Strategol gyda'r penaethiaid ym mis Hydref 2025. **Effaith ar bobl Gwynedd:** Fel Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), mae Canolfan Felinwnda - sy'n cael ei hadnabod fel *Camu i'r Copa* - yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd, o bosibl, yn cael trafferth mewn addysg brif ffrwd. Mae'r Ganolfan yn cynnig dosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol iawn, a chymorth emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol cynhwysfawr. Ein cenhadaeth yw adfer hyder, meithrin gwydnwch, a rhoi'r offer sydd eu hangen ar ddisgyblion i ailintegreiddio i addysg brif ffrwd lle bo'n bosibl, neu i wneud pontio cadarnhaol i addysg bellach neu lwybrau galwedigaethol. Drwy gynnig cwricwlwm eang, cymorth therapiwtig, a thîm ymroddedig o staff, ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial ac yn gwella ei lesiant ochr yn ochr â'i gyrhaeddiad academaidd. Wedi'i lleoli yng nghanol y gymuned yn Felinwnda, mae'r ganolfan hefyd yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i gynhwysiant. Drwy gynnig darpariaeth leol, rydyn ni'n lleihau rhwystrau mynediad ac yn sicrhau nad oes rhaid i bobl ifanc deithio'n bell i gael cymorth arbenigol.

				Mae hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Cyngor Gwynedd ar gyfer moderneiddio addysg.

Gwynedd Gymraeg: Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

Adran a Prosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod yr drydedd flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?
Adran Addysg **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**	Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei ledaenu ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau ble mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad efo'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle	• Sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Paratoi adnoddau a chyflwyniadau newydd i rieni yn amlinellu manteision dwyieithrwydd. • Sefydlu Bwrdd Prosiect CSGA Deilliant 5 i sicrhau cydweithio a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid perthnasol e.e Yr Urdd, CFfI, Menter Iaith Gwynedd, gyda'r bwriad o fapio'r gweithgareddau a gynigir gan bartneriaethau o fewn y Sir a medru eu cyflwyno i rieni a theuluoedd. • Arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen o ran egwyddorion addysg drochi. Cynnal hyfforddiant rheolaidd i staff y Cyfnod Sylfaen i rannu egwyddorion trochi llwyddiannus. Sicrhau bod ganddynt fynediad at adnoddau trochi parod, safonol ar blatfform digidol hylaw.	Ydy Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** Mae'r wefan newydd wedi ei lansio, gyda blogiau wythnosol (gan gynnwys rhai hanesyddol) yn cael eu cynnwys, ac mae adnoddau wedi eu darparu i ysgolion drwy HWB, ynghyd ag adnoddau ychwanegol ar gais. Mae Is-bwyllgor Ieuenctid wedi ei sefydlu a chyfarfodydd wedi eu cynnal, ond nid yw wedi diwallu'r angen i rannu gwybodaeth am Ddeilliant 5; bwriedir mynd i'r afael â hyn drwy Fwrdd Rhaglen y Gymraeg o fis Ebrill 2026. Mae hyfforddiant i ddarpar athrawon ym Mhrifysgol Bangor wedi digwydd fis Hydref 2025, a rhai wedi manteisio ar wahoddiad i'r canolfannau i arsylwi gwaith yr athrawon trochi. Mae staff trochi wedi cyfarfod staff o Awdurdodau Môn, Sir Ddinbych, Conwy, Sir Fflint a Wrecsam i rannu adnoddau. Mae aelod o staff y Gyfundrefn yn cyd-weithio gyda dwy ysgol uwchradd ar gynllun fydd yn diwallu'r angen am adnoddau trochi ar gyfer dysgwyr hŷn. Mae'r adnodd wedi ei drafod gydag Agored Cymru.

	gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.			**Effaith ar bobl Gwynedd:** Mae'r uchod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Gwynedd, yn enwedig plant a phobl ifanc, drwy: • wella mynediad at wybodaeth, adnoddau a deunyddiau dysgu Cymraeg a chryfhau'r ddarpariaeth trochi, gan alluogi dysgwyr – gan gynnwys rhai hŷn – i feithrin hyder a gallu yn y Gymraeg. • datblygu sgiliau ac arbenigedd staff addysg. • manteisio ar gyfleoedd cydweithio rhanbarthol i gryfhau'r darpariaeth er budd dysgwyr Gwynedd. • cynnwys llais pobl ifanc gyda'r bwriad o gryfhau eu rôl ymhellach er mwyn gwella'r broses o rannu gwybodaeth a'u dylanwad
Adran Addysg **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**	Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg, yn cyfrannu at Cymraeg 2050, ac yn adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar yn y maes gan Lywodraeth Cymru	1. Polisi Iaith: • Ymgysylltu ar y Polisi Iaith ddrafft. • Cyflwyno'r Polisi Iaith enghreifftiol gerbron y Cabinet.	Ydy Ydy	**Beth sydd wedi'i gyflawni:** Cyflwynwyd drafft o Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd i'r Cabinet ar 16/12/25, a chytunwyd i'w ddefnyddio ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Ionawr a 25 Chwefror 2026 er mwyn casglu ymatebion i lywio fersiwn ddiwygiedig o'r polisi. Bwriedir adrodd yn ôl i'r Cabinet ym Mehefin 2026 i benderfynu a ddylid mabwysiadu'r polisi. Os caiff ei gymeradwyo, bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ymgynghori â'u cymunedau cyn ei weithredu o fis Medi 2026. **Effaith ar bobl Gwynedd:** Mae'r camau uchod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Gwynedd drwy roi cyfle i rieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach gyfrannu at lunio Polisi Iaith Addysg. Mae'r broses o ymgynghori ac adrodd yn ôl i'r Cabinet yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn

				ffordd agored ac atebol. Bwriad y Polisi yw cefnogi datblygiad y Gymraeg mewn addysg. Drwy ddatblygu a gweithredu polisi iaith clir, disgwylir cryfhau darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr. Bwriad y polisi yw sicrhau cysondeb ar draws ysgolion a chynorthwyo sicrhau dull mwy cyson o weithredu ar draws ysgolion Gwynedd.
		2. Cyfundrefn Drochi:		**Beth sydd wedi'i gyflawni:**
		• Cwblhau'r Adroddiad ar y Gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi gan Brifysgol Bangor (Comisiynwyd Tîm Ymchwil Prifysgol Bangor i werthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd yn 2024/25).	Ydy	• Cyflwynwyd adroddiad gan Prifysgol Bangor ar werthusiad o'r Gyfundrefn Drochi i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16/10/25. • Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor. • Ar hyn o bryd, nid oes modd newid y strwythur presennol heb fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Er bod cyfathrebu rhwng yr Aelod Cabinet Addysg a Llywodraeth Cymru wedi digwydd, nid oes ymateb wedi dod ynghylch cyllid ychwanegol. • Serch hynny, mae nifer o welliannau ac addasiadau eisoes yn cael eu gwneud o fewn y strwythur presennol, yn unol â sylwadau'r Pwyllgor Craffu. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Gyfundrefn a'r rhaglen waith cysylltiedig.
		• Cyflwyno'r Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 16 Hydref 2025.	Ydy	
		• Ymateb i ganfyddiadau Adroddiad Prifysgol Bangor – Gwerthuso Cyfundrefn Drochi Gwynedd drwy adolygu trefniadau ymarferol y cwrs 10 wythnos a grymuso'r ddarpariaeth ôl ofal.	Ydy	**Effaith ar bobl Gwynedd:**
		• Ymateb i ganfyddiadau adroddiad Estyn Mawrth 2025 – parhau i ddarparu adnoddau hygyrch ôl ofal ar lwyfan digidol a grymuso prosesau hunanarfarnu'r Gyfundrefn.	Ydy	Mae gwelliannau ac addasiadau parhaus i'r Gyfundrefn Drochi yn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i dderbyn cefnogaeth effeithiol i ddatblygu eu Cymraeg. Mae ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad a barn rhanddeiliaid hefyd yn helpu i fireinio'r ddarpariaeth er budd plant a phobl ifanc. Er nad oes newidiadau arwyddocaol yn bosib, mae'r gwaith parhaus yn cyfrannu at gynnal a gwella safonau iaith.

Herio Perfformiad Addysg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

81
Mesuryddion

59
Nifer Gwyrdd

72.84%
% Gwyrdd

19
Nifer Amber

23.46%
% Amber

3
Nifer Coch

3.70%
% Coch

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Acronymau

PYD	**Prydau Ysgol am Ddim**
PLASC	**Pupil Level Annual School Census**
PMG	**Plant Mewn Gofal**
CAP	**Cynllun Addysg Personol**
SMART	**Specific, Measurable, Achievable, Realistic, and Time-Bound**
DBS	**Disclosure & Barring Service**
ADY	**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
BAS	**Bwrdd Ansawdd Sirol**
ALl	**Awdurdod Lleol**
CDU	**Cynllun Datblygu Unigol**
CSGA	**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**
WEMWBS	**Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale**
VAWDASV	**Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence**

“Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion”

Mesuryddion Addysg

laith: All

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

Arlwyo

% o ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd sy'n manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim

82

Arlwyo

% o ddysgwyr ysgolion Gwynedd sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol

65

Arlwyo

% o ysgolion cymwys (ysgolion gyda 16% neu fwy o PYD) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Bwyd a Hwyl

27

Arlwyo

% yr adroddiadau Archwiliad Hylendid a Safonau Bwyd Ysgolion sydd yn derbyn sgôr o 5

89

Cefnogaeth Fusnes

% o anfonebau sy'n cael ei brosesu o fewn 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) o'u derbyn

98

Cefnogaeth Fusnes

% yr ysgolion (allan o'r rhai a holwyd) oedd yn fodlon gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes

100

Cludiant Addysg

Nifer y cwynion am gludiant

9

Diogelu

% gwahaniaeth rhwng presenoldeb PMG a dim PMG

0.08

Diogelu

% o Gynlluniau Addysg Personol a graffwyd sydd yn cynnwys targedau addysgol addas

88

Diogelu

% o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol (allan o'r staff sydd ei angen)

100

Diogelu

% o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol

99.31

Diogelu

% o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu

100

Diogelu

Nifer o ddyddiau mae PMG wedi bod allan o addysg mewn blwyddyn addysgol

45

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Mesuryddion Addysg

laith

Cymraeg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

Llywodraethwyr

% o lywodraethwyr (sydd wedi ymateb i'r broses werthuso hyfforddiant) sy'n teimlo'n fwy hyderus wedi hyfforddiant

86

Llywodraethwyr

% o Gadeiryddion newydd Cyrff Llywodraethol sy'n mynychu hyfforddiant i Gadeiryddion (Cadeiryddion sy'n newydd i'r rol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol)

95

Llywodraethwyr

% o lywodraethwyr sy'n mynychu hyfforddiant anwytho

77

Moderneiddio

% o brosiectau cyfalaf sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl

90

Moderneiddio

% o brosiectau di-gyfalaf sy'n symud ymlaen yn unol a'r disgwyl

100

Mynediad Ysgolion

Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod

0

Mynediad Ysgolion

Nifer y ceisiadau trosglwyddo Ysgol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod

230

Mynediad Ysgolion

% y ceisiadau mynediad i flwyddyn derbyn ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf

99.80

Mynediad Ysgolion

% y ceisiadau mynediad i flwyddyn 7 ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf

100

Safonau Ysgol

Canran o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad cefnogi yn ystod y tymor

98

Safonau Ysgol

Canran o ysgolion sydd heb bennaeth parhaol

13

Safonau Ysgol

Nifer o ysgolion sydd mewn categori statudol Estyn

5

Uned Ddata

% o 'gwsmeriaid' sy'n adrodd bod y data a dderbyniwyd o ansawdd uchel a bod y wybodaeth/data a dderbyniwyd wedi arwain at benderfyniadau

80

Mesuryddion ADY

laith

Cymraeg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

ABC

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

100

ABC

% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd

83.50

ADY Ansawdd a Gweinyddol

Nifer o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys

4

ADY Ansawdd a Gweinyddol

% o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)

1.90

ADY Blynyddoedd Cynnar

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

100

ADY Blynyddoedd Cynnar

% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd

91

ADY Blynyddoedd Cynnar

% yr achosion sy'n cyd fynd a'r amserlen statudol

100

ADY Penodol

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

97

ADY Penodol

Nifer o blant sydd angen mewnbwn uniongyrchol gan y gwasanaeth

71

Corfforol Meddygol a Synhwyraidd

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

98

Corfforol Meddygol a Synhwyraidd

% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd

97

Cyfathrebu a Rhyngweithio

% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth

100

Cyfathrebu a Rhyngweithio

% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd

83

Gweinyddol

% o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos

100

Seicoleg

% o blant a phobl ifanc sydd yn gwneud cynnydd yn dilyn mewnbwn gan y gwasanaeth seicoleg

62

Seicoleg

% o'r ELSAs wedi cymhwyso sydd yn mynychu goruchwyliaeth bob hanner tymor

64

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Mesuryddion Cynhwysiad

laith

Cymraeg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

Addysg Ddewisol Gartref	Addysg Ddewisol Gartref	Addysg Ddewisol Gartref	Cwnsela	Cwnsela	Cynhwysiad
Nifer o ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref	% o ddisgyblion yn derbyn addysg addas i'w gallu	% o deuluoedd yn derbyn ymweliadau cartref	% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth	Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth	% y disgyblion sydd yn gwneud cynnydd yn dilyn mewnbwn y tîm
3	2	2	1	2	2
284	75	42.95	85	44	0

Cynhwysiad	Cynhwysiad	Cynhwysiad	Lles	Lles	Lles	Lles
Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd	Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd	Nifer o ddisgyblion sydd ar agor i'r tîm yn profi gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol	% presenoldeb disgyblion Cynradd	% presenoldeb disgyblion Uwchradd	% y disgyblion (sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles) sydd â rhieni wedi derbyn erlyniadau o dan 444 (1)	% y disgyblion sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles yn adrodd ar welliant mewn presenoldeb
1	3	2	2	2	1	2
0	10	0	92.23	89.83	1.90	49

Mesuryddion Cynhwysiad

laith

Cymraeg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

Saesneg fel laith Ychwanegol	Saesneg fel laith Ychwanegol	Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd	Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd
% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd	% presenoldeb y disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth	% o ddisgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth yn adrodd ar gynnydd llesiant	% o ddisgyblion yn mynychu ein gweithgareddau cymunedol
94	83	63	54.35

Mesuryddion Y Gymraeg

laith

Cymraeg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Cynradd)

100

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Cynradd)

67

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Uwchradd)

100

Canolfannau laith

% o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Uwchradd)

36

Y Gymraeg

% o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd

97.00

Y Gymraeg

% o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd

79.24

Y Gymraeg

% o bynciau Blwyddyn 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

73.58

Y Gymraeg

% o athrawon cynradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

97.90

Y Gymraeg

% o athrawon uwchradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

86.20

Mesuryddion Gwasanaeth Ieuenctid

laith
Cymraeg

Cyfnod Amser
01 Mawrth 2026

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.

95.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth

97.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol

76.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)

71.00

Gwasanaeth Ieuenctid

% o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir

95.00

Gwasanaeth Ieuenctid

Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed

96

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o achrediadau mae'r pobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)

489

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid

5,951

Gwasanaeth Ieuenctid

Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed

3,114


Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd sy'n manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim



82% o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim ym mis Mawrth 2026. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys dysgwyr sy'n gymwys drwy'r cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (Universal Primary Free School Meals (UPFSM)), yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys drwy fudd-daliadau (Free School Meal (FSM)). Dylid nodi hefyd fod lefelau presenoldeb yn gallu dylanwadu ar y ffigyrau hyn.

O ran hawlio grant cinio am ddim yn y sector cynradd, mae 73% o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynnig drwy'r cynllun yma (UPFSM). Mae'r data hwn yn seiliedig ar wythnos sampl ym mis Mawrth. Wrth gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos, mae'r ganran o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig yn dilyn patrwm tebyg, ond mae Cyngor Gwynedd gyda canran uwch o ddysgwyr yn manteisio ar y cynllun nag ambell awdurdod yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae bwydlenni themâu wedi'u cynllunio, megis Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd GŴyl Dewi, Pasg a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, er mwyn ceisio annog mwy o ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig o brydau ysgol. Mae'r adborth cychwynnol gan y Penaethiaid wedi bod yn gadarnhaol.

Misol — Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol



11 o ysgolion wnaeth gwblhau'r holiadur, gyda chyfanswm o 667 o ddysgwyr oed cynradd.
O'r dysgwyr sydd wedi cwblhau'r holiadur roedd 90% yn fodlon neu'n niwtral:
65% yn fodlon (gwyneb hapus)
25% ddim yn fodlon na anfodlon (gwyneb niwtral)
10% yn anfodlon (gwyneb trist), gan nodi nad oeddent yn hoffi'r bwyd.

Nid yw nifer yr ysgolion sydd wedi cwblhau'r holiadur boddhad cwsmer wedi bod yn uchel ar gyfer mis Mawrth, felly nid ydym yn cael trosolwg manwl ar draws ein hysgolion. Mae sylwadau cyffredinol megis 'bwyd neis' a 'bwyd lyfli' yn ymddangos yn gyson ar draws yr ymatebion. O ran dewisiadau, mae rhai prydau'n fwy poblogaidd nai gilydd megis sglodion a phitsa a chinio rhost mewn rhai ardaloedd. Ar y cyfan, mae barn y dysgwyr sydd wedi nodi wyneb trist yn deillio o ddewisiadau personol o ran blas a ffafriaeth, yn hytrach na phryderon ynghylch ansawdd y bwyd.

Yn ychwanegol i hyn, bu i'r Swyddog Bwyd a Hwyl a Hybu Cinio am Ddim ymweld â 5 ysgol mis Rhagfyr sef Ysgol yr Hendre, Ysgol Glancegin, Ysgol Cymerau, Ysgol Llanllechid ac Ysgol y Traeth. Ymatebion tebyg ddaeth i'r amlwg yn dilyn yr ymweliadau, gyda dewisiadau personol yn dylanwadu os ydynt yn cymryd cinio ysgol a'i pheidio. Daeth i'r amlwg bod mwy o ddysgwyr hŷn yr ysgolion yn dewis bwyta pecyn bwyd. Roedd y prif resymau'n cynnwys dewis bwydydd cyfarwydd o'r cartref a dylanwad ffrindiau. Mae'n ymddangos bod rhai dysgwyr sydd yn cael bocs bwyd drwy'r wythnos yn cymryd cinio ysgol ar ddyddiau Gwener, gan bod sglodion ar y fwydlen.

Roedd cynnydd yn nifer oedd yn cymryd cinio yn rhai o'r ysgolion mis Mawrth o gymharu â mis Tachwedd.

Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ysgolion cymwys (ysgolion gyda 16% neu fwy o PYD) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Bwyd a Hwyl



4 ysgol gymerodd rhan yn y Rhaglen Bwyd a Hwyl Haf 2024. 8 ysgol wedi manteisio ar y rhaglen llynedd yn ystod Haf 2025 (30 ysgol yn gymwys, data PLASC Ionawr 2025).
Er bod Rhaglen Bwyd a Hwyl yn raglen wych sydd wedi'i hariannu'n llawn gan Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'n dysgwyr dros yr haf, mae'n her cael ysgolion i ymrwymo i weithio 12 diwrnod yn ystod gwyliau'r haf. Nid yw gweithio yn ystod y gwyliau yn rhan o gytundebau gwaith llawer o staff yr ysgolion, na staff Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg, felly rydym yn dibynnu ar ewyllys da y staff i weithio. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cydweithio gyda 'Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd' ac asiantaethau allanol i helpu mewn ambell ysgol, er nid yw'r gefnogaeth yma ar gael ymhob ardal.
Mae rhai ysgolion wedi mynegi bod hyfforddiant Sgiliau Maeth ar gyfer Bywyd (Nutrition Skills for Life L2) sydd yn hanfodol i gynnal y rhaglen yn rhwystr, gan fod angen rhyddhau staff i fynd ar y cwrs (6 sesiwn). Bellach mae modd cwblhau'r cwrs ar-lein, sydd yn gwneud pethau'n haws i ysgolion gymryd rhan, ond mae ambell ysgol yn parhau i weld hyn yn rwystr gan bod y sesiwn yn ystod oriau ysgol.
Ar gyfer haf 2026, rydym wedi cofrestru 8 ysgol i fod yn rhan o'r rhaglen. Bu trafodaethau gyda mwy o ysgolion yn wreiddiol, ond yn anffodus nid oedd modd i'r Penaethiaid ymrwymo eleni.
Mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei drefnu gyda'r ysgolion a phartneriaethau allweddol dechrau mis Mawrth i fynd drwy amodau'r cynllun. Y camau nesaf yw gwirio bod gan bob ysgol ddigon o staff i gefnogi dros yr haf a sicrhau bod arweinydd y rhaglen yn mynychu'r hyfforddiant bwyd a maeth gyda Betsi Cadwaladr mis Ebrill. Yn ystod mis Ebrill a Mai bydd angen trefnu cyfarfodydd wyneb i wyneb yn yr ysgolion i lunio amserlen gweithgareddau a chefnogi'r ysgolion yn ôl yr angen.

Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Arlwyo

Pwrpas: Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % yr adroddiadau Archwiliad Hylendid a Safonau Bwyd Ysgolion sydd yn derbyn sgôr o 5



8 allan o 9 ysgol wedi cael sgôr o 4
Mae holl ysgolion Gwynedd ar hyn o bryd gyda sgôr o 4 neu 5

Misol

Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Cefnogaeth Fusnes

Pwrpas: Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o anfonebau sy'n cael ei brosesu o fewn 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) o'u derbyn



Bu i'r Ganolfan Fusnes Addysg brosesu 1,954 o anfonebau yn ystod y cyfnod 01/01/26 hyd at 20/03/26. Fe broseswyd 98% o'r anfonebau o fewn 7 diwrnod (sef 5 diwrnod gwaith) o'u derbyn sydd yn ganran uchel.
Roedd rhesymau dilys dros y 2% nad oedd wedi'u prosesu o fewn y saith diwrnod.

Misol — Kathryn Aveline Roberts (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Cefnogaeth Fusnes

Pwrpas: Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % yr ysgolion (allan o'r rhai a holwyd) oedd yn fodlon gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes



Anfonwyd holiaduron at benaethiaid yr ysgolion y mae'r staff yn ymweld â hwy. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda 30% o'r penaethiaid i gasglu eu barn am y gwasanaeth, gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.
Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn addawol iawn gyda 5 ysgol wedi ymateb hyd yma i'r holiaduron yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth. Byddwn yn dilyn i fyny gyda'r holiaduron sydd heb eu dychwelyd ar ôl gwyliau'r Pasg.
Dyma rhai o'r sylwadau a nodwyd ar yr holiaduron:

- Mae'r cymorth yma wedi lleihau baich gweinyddol arnaf i fel pennaeth sydd hefyd yn athrawes 4 diwrnod. Gallwn argymell y gwasanaeth yma i unrhyw un.
- Mae'r gwasanaeth yn un gwerthfawr i ni fel ysgol fach nad yw'n gallu fforddio swyddog gweinyddol. Mae'n lleihau baich y Pennaeth yn sylweddol, ac mae pob ymweliad yn dod â rhyddhad mawr gan fod y gwaith gweinyddol a'r rhestr dasgau wedi'u cwblhau.
- Mae swyddog busnes yn gwybod pa waith sydd angen ei wneud yn yr ysgol ac mae hyn yn gwneud fy ngwaith yn llawer haws, ac mae ei chysylltiadau o fewn gwahanol adrannau'r cyngor yn hynod werthfawr.

Yn ystod y cyfarfodydd, mynegodd y penaethiaid na allant wneud heb y gwasanaeth, gan ei fod yn lleihau eu baich gwaith ac yn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu dyletswyddau statudol.
Mae'r ysgolion oll am barhau i brynu'r gwasanaeth eto yn flwyddyn ariannol 2026/27 sydd yn newyddion da iawn ac yn ychwanegol i hynny mae dwy ysgol arall wedi penderfynu prynu mewn i'r gwasanaeth yn 2026/27.

Misol — Kathryn Aveline Roberts (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Cludiant Addysg

Pwrpas: Darparu cludiant addas i fynd a disgyblion i'r ysgol neu goleg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer y cwynion am gludiant



Mae'n amlwg fod y dysgwyr oll wedi setlo ac arfer gyda'r ddarpariaeth bellach ac adlewyrchir hynny yn nifer y cwynion a dderbyniwyd.
Derbyniwyd 1 gwyn am ddifrod i lochesi bws mewn pentref cyfagos a chyd-weithredwyd gyda'r heddlu lleol, yr ysgol a'r uned gludiant i adnabod y difrodwyr a chanfod datrysiad.
Derbyniwyd 3 cwyn am wrthod dysgwr rhag teithio ar fws ysgol ond nid oedd y dysgwr yn gymwys am fod eu hysgol newydd o'u dewis yn all-ddalgylch, er hyn adolygir cefndir y dysgwyr yma rhag ofn eu bod yn cwrdd a meini prawf ADY neu eithriadau arbennig.
Derbyniwyd 2 cwyn yn ymwneud ag ymddygiad rhai dysgwyr mewn tacsis a bu cyd-weithio rhwng yr ysgolion, swyddogion y cyngor a'r darparwyr a chanfuwyd ddatrysiadau cadarnhaol trwy addasu'r ddarpariaeth presennol.
Derbyniwyd 1 gwyn yn ymwneud ag addasrwydd cerbyd arbennig a chyd-weithiwyd eto â sawl swyddog i ganfod datrysiad. Mewn partneriaeth â'r gweithredwr tacsi, sicrhawyd fod y cerbyd newydd yn addas ac yn diwallu anghenion y dysgwr dan sylw.
Derbyniwyd 1 cwyn a oedd yn mynegi pryder am ddysgwyr sydd yn teithio heb docyn dilys ar gludiant addysg a ddarperir gan drenau Trafnidiaeth i Gymru. Aethpwyd allan i fonitro, cyfarfod â staff ac adolygwyd y darpariaethau cyfan, a gwnaethpwyd trefniadau i archebu tocynnau trên ar gyfer y dysgwyr dan sylw.
Yn olaf, derbyniwyd 1 cwyn gan weithredwr bws ysgol am ymddygiad annerbyniol grŵp bychain o ddysgwyr ar lwybr mewn ardal cyfagos. Bu cyd-weithio addas â'r ysgol dan sylw i ganfod datrysiad tymor byr yn gyntaf i'r digwyddiad dan sylw, ac mae trafodaethau ar waith ar ganfod datrysiad tymor hir i osgoi unrhyw ddigwyddiad tebyg i'r dyfodol.

Misol

Robert John Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % gwahaniaeth rhwng presenoldeb PMG a dim PMG



Mae presenoldeb Plant Mewn Gofal (PMG) yn sefyll ar 91.48% (cynnydd o 0.24% ers y cyfnod adrodd diwethaf), sy'n gyson â chyfradd presenoldeb gyffredinol ysgolion Gwynedd (91.56%), gyda gwahaniaeth o ddim ond 0.08%.

Yn y sector cynradd, mae presenoldeb PMG yn 94.88% (cynnydd o 1.44% ers y cyfnod adrodd diwethaf) yn gadarnhaol o gymharu â chyfradd cynradd Gwynedd (93.15%).

Yn yr uwchradd, mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r heriau ychwanegol sy'n wynebu rhai disgyblion mewn gofal, gyda gwahaniaeth o 2.02% rhwng presenoldeb PMG (87.69%) a chyfradd presenoldeb disgyblion uwchradd Gwynedd (89.71%)

Misol

Llion Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o Gynlluniau Addysg Personol a graffwyd sydd yn cynnwys targedau addysgol addas



Yn dilyn awdit yn gynharach yn y flwyddyn addysgol o bob Cynllun Addysg Personol (CAP) ar gyfer Plant Mewn Gofal mewn ysgolion Gwynedd, mae gwaith parhaus wedi dechrau i gefnogi ysgolion i wella'r cynlluniau hynny lle canfuwyd bod angen mwy o wybodaeth neu welliannau penodol.

Canfu'r awdit fod gan bob CAP dargedau, ond nodwyd bod rhai o'r cynlluniau angen:
• wella ansawdd y targedau, yn enwedig drwy sicrhau eu bod yn fwy penodol ac yn dilyn egwyddorion SMART
• cynnwys llais y disgybl yn fwy pendant
• ychwanegu targedau cliriach sy'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol a lles emosiynol/cymdeithasol
Mae gwaith i wella'r cynlluniau hyn eisoes ar y gweill. Mae'r Swyddog Cefnogi Plant Mewn Gofal Gwynedd yn darparu:
• cyngor uniongyrchol i ysgolion
• templedi a chanllawiau gwell
• cyfarfodydd cefnogol un-i-un lle bo angen

Mae'r gwaith diweddaru a gwella'n cael ei wneud fel rhan o'r adolygiadau rheolaidd, ac mae ysgolion wedi dechrau cryfhau eu cynlluniau ar sail canfyddiadau'r awdit.

Misol — Llion Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol (allan o'r staff sydd ei angen)



Mae pob aelod o'r adran (heb gyfri staff ysgolion a staff cefnogol sy'n gweithio mewn ysgolion) gyda gwiriad DBS cyfredol.

Misol

Llion Williams (ADDYSG)

Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

laith
Multiple sele...

Mesurydd: % o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol



Mae adroddiadau DBS yn cael eu monitro'n fisol fel rhan o drefniadau cydymffurfiaeth yr Adran, yn ogystal â'r rhybuddion awtomatig a gynhyrchir drwy'r system hunanwasanaeth. Ar gyfer Chwefror 2026, mae lefel cydymffurfiaeth DBS yr Adran yn sefyll ar 99.31%.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau nad yw staff achlysurol yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad, er mwyn cynnal cywirdeb data. Nid oes unrhyw aelod o staff yn cychwyn gweithio mewn ysgol heb wiriad DBS dilys.

Ar hyn o bryd, mae 20 o unigolion ar y rhestr "heb ddiweddaru DBS", wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

- 5 unigolyn – i ffwrdd oherwydd salwch tymor hir neu absenoldeb arall, gan gynnwys 2 athro a 3 chymhorthydd cefnogol.
- 10 unigolyn – yn disgwyl i reolwr wirio'r cais, gan gynnwys 1 athro, 1 cymhorthydd ymddygiad, a gweddill yn staff achlysurol.
- 2 unigolyn – angen cwblhau eu cais, sef 1 cymhorthydd a 1 athro (y ddau mewn rolau llanw/achlysurol).
- 3 unigolyn – yn disgwyl canlyniad DBS, gan gynnwys 1 athro, 1 cymhorthydd ac 1 aelod o staff arlwyo a glanhau. Mae gan y 3 yma DBS ond nid yw'r broses o ddiweddaru wedi ei chwblhau yn unol â pholisi 3 blynedd y cyngor eto. Mae'r lleoliadau yn cynnal asesiadau risg i sicrhau bod yr unigolion yma yn gallu parhau i gyflawni eu dyletswyddau hyd nes bod y broses diweddaru gwiriad DBS wedi ei gwblhau.

Mae'r holl achosion yn cael eu monitro'n rheolaidd, a chynhelir dilyniant gyda rheolwyr llinell i sicrhau symudiad amserol a chydymffurfiaeth â gofynion statudol ac arfer da.

Misol — Llion Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu



Yn ystod y cylch ymweliadau rhwng Ionawr a Mawrth 2026, canfuwyd bod pob ysgol yn cydymffurfio'n dda neu'n well â gofynion diogelu statudol a lleol. Er gwaethaf y lefel gyffredinol o gydymffurfiaeth, nodwyd cyfres o gamau gweithredu sylfaenol mewn tair ysgol, gyda'r bwriad o gryfhau trefniadau diogelu yn ymarferol.

Cyfeiriodd y camau gweithredu hyn at:
• Gynyddu gweledegd negeseuon diogelu, drwy ychwanegu nifer y posteri a chyfarwyddiadau diogelu o amgylch yr ysgol.
• Sicrhau prosesau ymwelydd cyson, gan gynnwys darparu lanyard ymwelydd i bob unigolyn sy'n arwyddo i mewn.
• Adnewyddu hyfforddiant GrŴp C (Lefel Person Dynodedig) i rai aelodau o staff cyn diwedd y tymor. Mae hyn er mwyn cadw o fewn amserlen Gwynedd o adnewyddu bob dwy flynedd—yn uwch na'r gofyniad cenedlaethol o bob tair blynedd—fel rhan o sicrhau safonau cadarn o gydymffurfiaeth.

Bydd y tair ysgol hyn yn derbyn ymweliadau cefnogol ychwanegol ar ôl y Pasg er mwyn monitro cynnydd a sicrhau bod yr holl argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn.

Misol

Llion Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Diogelu

Pwrpas: Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o ddyddiau mae PMG wedi bod allan o addysg mewn blwyddyn addysgol



Ar hyn o bryd mae dau ddisgybl o fewn y sector Plant Mewn Gofal y tu allan i addysg brif lif, ac mae gwaith traws asiantaeth yn parhau i sicrhau bod darpariaethau addas ac interim ar waith tra'n ceisio sefydlogi eu sefyllfa addysgol.

Disgybl 1

Mae'r data diweddaraf yn ymwneud â disgybl nad oedd wedi mynychu'r ysgol am gyfnod estynedig cyn cyflwyno cais ffurfiol i newid ysgol. Mae'r ysgol newydd bellach wedi derbyn y trosglwyddiad ac yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Lles Ysgolion a'r Gweithiwr Cymdeithasol.

Er gwaethaf sawl cyfarfod sefydlu a drefnwyd gan yr ysgol, nid yw'r disgybl wedi mynychu hyd yma. O ganlyniad:

- Mae trefniadau newydd wedi'u gwneud i gynnal cyfarfod rhwng aelod o staff yr ysgol, Swyddog Diogelu a Llesiant, a'r disgybl mewn lleoliad yn y gymuned (oddi ar dir yr ysgol).
- Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaus, gyda thrafodaethau rheolaidd rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Swyddog Adolygu Annibynnol i sicrhau bod cefnogaeth ar waith ac i asesu cynnydd.

Disgybl 2

Mae'r ail ddisgybl hefyd ar hyn o bryd y tu allan i addysg brif lif. Mae trafodaethau cyson yn digwydd rhwng:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cydlynydd Plant Mewn Gofal
- Tîm Cynhwysiad

Mae'r partneriaid hyn yn cydweithio i ddatblygu cynllun darpariaeth amgen dros dro ar gyfer y disgybl, nes bydd lleoliad addysgol sefydlog ar gael ac yn addas i'w anghenion.

Misol — Llion Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Llywodraethwyr

Pwrpas: Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

laith

Multiple ...

Mesurydd: % o lywodraethwyr (sydd wedi ymateb i'r broses werthuso hyfforddiant) sy'n teimlo'n fwy hyderus wedi hyfforddiant



Mae'r ganran yma ar sail 21 ymateb gan fynychwyr sesiynau hyfforddiant Anwytho i Lywodraethwyr Newydd, Cadeiryddion Newydd, Gormodedd a Diogelu ar gyfer Cadeiryddion a Llywodraethwyr Dynodedig Amddiffyn Plant. Bu i gyfanswm o 82 o Lywodraethwyr fynychu'r sesiynau hyfforddiant yma. Mae yn bryderus mai dim ond chwarter y mynychwyr sydd yn llenwi'r ffurflen werthuso sy'n cael ei danfon wedi'r hyfforddiant. O'r 21 ymateb mae 18 (86%) wedi nodi eu bod wedi cynyddu yn eu hyder ynghylch y maes dan sylw yn dilyn yr hyfforddiant. O'r 3 (14%) nad oedd yn teimlo'n fwy hyderus roedd 2 ohonynt eisoes yn hyderus a'r trydydd, o fynychu'r hyfforddiant gormodedd yn cwestiynu addasrwydd yr hyfforddiant. Bydd ei sylwadau yn cael eu hystyried cyn darparu hyfforddiant gormodedd yn 2027. Bydd angen ystyried hefyd os oes dull amgen o gasglu'r wybodaeth yma.

Chwarterol

Buddug Mair Huws (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Llywodraethwyr

Pwrpas: Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

laith

Multiple ...

Mesurydd: % o Gadeiryddion newydd Cyrff Llywodraethol sy'n mynychu hyfforddiant i Gadeiryddion (Cadeiryddion sy'n newydd i'r rol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol)



Gofynnwyd i Clercod pob Corff Llywodraethu unigol i lenwi arolwg oedd yn gofyn yn benodol am wybodaeth ynghylch hyfforddiant anwytho i Llywodraethwyr ynghyd â hyfforddiant Cadeiryddion. Erbyn hyn, bu inni dderbyn gwybodaeth ar gyfer 58 o Gyrff Llywodraethu allan o gyfanswm o 88 (66%) - ffigwr sy'n parhau yn siomedig. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar sail yr ymatebion rheiny yn unig. Gofynnwyd am enw Cadeirydd y Corff Llywodraethu, pryd etholwyd nhw'n gyntaf i'r rôl ac os oeddynt wedi mynychu'r hyfforddiant i Gadeiryddion newydd. O'r 58 Cadeirydd, roedd 95% (55) wedi mynychu'r hyfforddiant eisoes. O'r 5% (3) nad oedd wedi mynychu roedd 2 yn newydd i'r rôl, ac wedi eu ethol yn Gadeirydd ar y Corff Llywodraethu am y tro cyntaf y tymor diwethaf, roedd un ohonynt wedi archebu lle ar yr hyfforddiant i Gadeiryddion yn Mawrth 2026 ond wedi gorfod canslo ar y funud olaf. Roedd y Cadeirydd arall nad oedd wedi mynychu'r hyfforddiant i Gadeiryddion yn Gadeiryddion ers Medi 2024.

Mae cywain gwybodaeth am gyrff llywodraethol yn her yn bresennol gan ein bod yn ddibynnol ar weithrediad y clerc. Rydym wedi adnabod bod datblygu rôl y clerc yn gam gweithredu allweddol yn ein rhaglen waith ar gyfer 2026-27 gyda hyfforddiant i Glercod wedi ei drefnu ar gyfer Ebrill 2026.

Er mwyn symud ymlaen bydd angen:

Parhau i fynd ar ôl y wybodaeth ar gyfer y 30 Corff Llywodraethu sydd heb ymateb hyd yma er mwyn cael darlun llawnach o'r sefyllfa;

Targedu Cadeiryddion unigol sydd heb fynychu'r hyfforddiant a sicrhau eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ar unwaith.

At Medi 2026 fe fydd angen ail-edrych ar y rhaglen hyfforddiant yn ei chyfanrwydd a sicrhau bod unrhyw Gadeirydd newydd yn gwneud yr hyfforddiant yn ystod Tymor yr Hydref.

Chwarterol

Buddug Mair Huws (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Llywodraethwyr

Pwrpas: Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

laith

Multiple ...

Mesurydd: % o lywodraethwyr sy'n mynychu hyfforddiant anwytho



Gofynnwyd i Clercod pob Corff Llywodraethol unigol i lenwi arolwg oedd yn gofyn yn benodol am wybodaeth ynghylch hyfforddiant anwytho i Llywodraethwyr ynghyd â hyfforddiant Cadeiryddion. Bu inni gael gwybodaeth ar gyfer 58 o Gyrff Llywodraethol allan o gyfanswm o 88 (66%). Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar sail yr ymatebion rheiny yn unig.

Gofynnwyd am nifer y Llywodraethwyr presennol sydd ar y Corff Llywodraethol, sawl un ohonynt oedd wedi mynychu hyfforddiant Anwytho i Lywodraethwyr ac o'r rheiny nad oedd wedi mynychu, sawl un ohonynt oedd yn lywodraethwyr ers llai na blwyddyn (er mwyn cydymffurfio â'r gofyn statudol). O ddiystyru'r Penaethiaid roedd 703 o Lywodraethwyr yn aelodau ar y 58 CLl. O'r rhain roedd 77% (544) wedi mynychu'r hyfforddiant. O'r 23% (159) oedd heb fynychu roedd 11% (74) ohonyn nhw'n newydd i'r rôl, gyda'r mwyafrif wedi cychwyn rhwng Medi a Rhagfyr 2025. Mae hyn yn gadael gweddill o 12% (85) sydd yn Lywodraethwyr ers mwy na blwyddyn ac heb gwblhau'r hyfforddiant anwytho. O edrych ar pwy yn union yw'r llywodraethwyr yma mae nifer ohonynt yn aelodau staff ysgolion (athrawon a staff ategol) ac wedi bod yn Lywodraethwyr ers blynyddoedd lawer. Tu hwnt i hynny, mae'n amlwg bod rhai ysgolion yn well na'i gilydd am sicrhau bod eu llywodraethwyr newydd yn mynychu. Mae'r sefyllfa yn amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol.

Er mwyn symud ymlaen bydd angen:

Parhau i fynd ar ôl y wybodaeth ar gyfer y 30 Corff Llywodraethol sydd heb ymateb hyd yma er mwyn cael darlun llawnach o'r sefyllfa;

Hysbysebu'r rhaglen gyffredinol o sesiynau anwytho trwy glercod pob Corff Llywodraethol;

Targedu ysgolion unigol lle bo sawl Llywodraethwr heb fynychu'r hyfforddiant;

Cyflwyno rhaglen hyfforddiant i Glercod er mwyn Sicrhau bod Clercod y Cyrff Llywodraethu yn sylweddoli pwysigrwydd hysbysebu a chofnodi hyfforddiant y llywodraethwyr.

Bydd Llywodraethiant yn ei gyfanrwydd yn un o brif flaenoriaethau'r Adran Addysg ar gyfer 2026-27 gyda datblygu rhaglen flynyddol o hyfforddiant i glercod a llywodraethwyr yn gam gweithredu.

Mae'n fwriad hefyd peilota trefn Clerc Proffesiynol gyda'r ysgolion hynny sydd heb glerc yn bresennol.

Chwarterol

Buddug Mair Huws (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Moderneiddio

Pwrpas: Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

laith

Multiple ...

Mesurydd: % o brosiectau cyfalaf sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl



Mae nifer sylweddol o'r prosiectau cyfalaf wedi gweld cynnydd da dros y cyfnod ac ar drac i'w cyflawni'n amserol, ac eraill wedi eu cwblhau, gan gynnwys Ysgol Llanllechid. Derbyniwyd hefyd gymeradwyaeth i Achos Fusnes Campws Cymunedol Bontnewydd gwerth £18.5m ddiwedd Mawrth, ac mae hyn yn ein galluogi i symud ymlaen a'r gwaith i gychwyn ar y safle. Fodd bynnag, mae'r maes parcio eto i'w greu ar gyfer Ysgol Y Faenol a Chanolfan Penrhosgarnedd mewn cydweithrediad gyda Chyngor Cymuned Pentir (Prosiect Band A), ond rydym ynghanol y broses dendro ar gyfer hynny ar hyn o bryd, ac mae'r Cyngor Cymuned bellach yn gwneud defnydd o'r Ganolfan newydd ar safle'r Ysgol sydd yn newyddion arbennig o dda.

Misol — Debbie Anne Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Moderneiddio

Pwrpas: Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

laith

Multiple ...

Mesurydd: % o brosiectau di-gyfalaf sy'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyl



Mae ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen wedi ei gynnal a daeth yr ymgynghoriadau i ben ddiwedd mis Ionawr 2026. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Moderneiddio yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Mai 2026.
Ar 10 Chwefror cyflwynwyd papur cynnig gerbron y Cabinet yn gofyn iddynt gymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol, yn caniatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026. Bellach mae'r cyfnod gwrthwyenbu statudol o 28 diwrnod wedi dod i ben, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. Byddwn nawr yn symud ymlaen i sicrhau penderfyniad terfynol ar y cynnig i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026 ym mis Mai 2026.

Misol — Debbie Anne Jones (ADDYSG)


Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod



Ni dderbyniwyd unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd, Beth bynnag, wrth i ni agosáu at diwrnod penderfyniad ceisiadau blwyddyn derbyn ar gyfer Medi 2026, rhagwelir y potensial am apeliadau ar sail gwrthod 15 cais (dewis cyntaf). Bydd rhaid ymateb i'r apeliadau wrth iddynt ddod i fewn.

Misol Kenny Norgain (ADDYSG)


Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer y ceisiadau trosglwyddo Ysgol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod



Mae'r broses Mynediad i Ysgolion yn digwydd yn barhaus drwy gydol y flwyddyn drwy'r broses trosglwyddo Ysgol – mae gan rhiant hawl i wneud cais trosglwyddo ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn, heb orfod rhoi rheswm am wneud y cais. Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd 230 cais i drosglwyddo ysgol yng Ngwynedd, o'r rhain derbyniwyd 148 o geisiadau trosglwyddo yn y sector cynradd, ac o'r data nid oes tuedd amlwg o ran symudiadau allan o unrhyw ysgol benodol. Yn y sector uwchradd, derbyniwyd 82 o geisiadau trosglwyddo, ac er bod y ceisiadau trosglwyddo o bob ysgol uwchradd yn gyffredinol, mae'r data hefyd yn dangos fod nifer uwch o geisiadau trosglwyddo o rai ysgolion uwchradd penodol.

Misol

Kenny Norgain (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % y ceisiadau mynediad i flwyddyn derbyn ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf



Derbyniwyd 947 o geisiadau mynediad i blwyddyn derbyn ar gyfer mis Medi 2026 – mae 15 o'r rhain wedi cael ei gwrthod ar sail gôr danysgrifiad, mae'r 15 wedi cael cynnig lle ar sail ei ail-ddewis. Mae gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, felly rhagwelir cynnydd mewn apeliadau yn y cyfnod adrodd nesaf.

Chwarterol | Kenny Norgain (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Mynediad Ysgolion

Pwrpas: Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % y ceisiadau mynediad i flwyddyn 7 ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf



Derbyniwyd 1,144 o geisiadau mynediad i flwyddyn 7, ac mae pawb wedi derbyn cadarnhad o'i dewis cyntaf. Mae ceisiadau hwyr yn parhau i ddod i fewn ac yn cael eu prosesu.

Chwarterol Kenny Norgain (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesuryddion: Canran o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad cefnogi yn ystod y tymor



Mae 97.87% (92 ysgol) wedi derbyn o leiaf un ymweliad cefnogol craidd yn ystod y tymor gan swyddogion cefnogi ysgol.

Mae hyn yn gynnydd bychain o gymharu â Tymor yr Hydref. Mae'r swyddogion wedi llwyddo i gael mynediad i bob ysgol ar draws yr Awdurdod ers sefydlu'r Gwasanaeth gyda'r ymdeimlad o gydweithio mewn partneriaeth agored gyda'r Awdurdod yn datblygu. Mae'r ymweliadau hyn wedi esblygu i fod yn edrych yn benodol ar brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgolion gan gynnwys craffu ar waith dysgwyr, cynnal teithiau dysgu a gwrando ar lais dysgwyr.

Mae'r ymweliadau hyn wedi galluogi'r swyddogion i ddatblygu adnabyddiaeth gref o holl ysgolion yr Awdurdod gan adnabod ble mae'r arferion gorau yn ogystal ag adnabod yr ysgolion hynny sydd angen cefnogaeth bellach gyda agweddau penodol.

Er y bydd rôl y swyddogion cefnogi ysgolion yn esblygu wrth i'r ysgolion berchnogi'r model o gydweithio, mae'r penaethiaid yn awyddus iawn i ymweliadau tymhorol pwrpasol barhau dros 2026-27.

Misol

Alison Halliday (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Canran o ysgolion sydd heb bennaeth parhaol



Mae hyn yn gyfystyr a 12 o ysgolion cynradd sy'n cael eu harwain gan bennaeth mewn gofal dros dro.

Yn ogystal a'r penaethiaid dros dro a gyfeirir atynt uchod, mae yna drefniadau pennaeth mewn gofal dros dro yn bodoli mewn 7 ysgol ychwanegol oherwydd absenoldeb hir-dymor pennaeth parhaol. Felly, mae trefniadau pennaeth dros dro yn weithredol mewn cyfanswm o 19 ysgol ar draws yr Awdurdod - 16 Cynradd, 2 Uwchradd a 1 Arbennig

Yn gyffredinol rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn niferoedd ceisiadau am swyddi pennaeth dros y ddwy flynedd diwethaf a'r her i ddenu unigolion i swydd pennaeth ar gynnydd. Mewn ymateb i'r her mae'r Adran Addysg wedi llunio rhaglen ddatblygol 'Arweinwyr y Dyfodol' er mwyn cynnig cefnogaeth ymarferol a sicrhau llwybr datblygol ac olyniaeth o fewn y gyfundrefn. Rydym yn rhedeg y rhaglen am yr eildro eleni ar gyfer dwy garfan gyda 17 o gyfranogwyr o'r Cynradd a 7 o'r Uwchradd.
Yn ystod 2024-25 bu i 14 o gyfranogwyr o'r Cynradd a'r Uwchradd gwblhau'r rhaglen.
Ers Ionawr 2026, rydym wedi datblygu rhaglen sy'n cynnig cefnogaeth bwrpasol ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid sydd mewn gofal sydd hefyd yn cynnig cefnogaeth mentor a chyfle i rwydweithio. Yn bresennol mae 22 o benaethiaid wedi ymrwymo i'r rhaglen hon gyda'r adborth yn gadarnhaol iawn hyd yma.

Ein camau nesaf fydd gweithio efo'n ysgolion i sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu hannog i fynychu rhaglenni datblygol arweinwyr canol ac uwch arweinwyr sy'n cael eu cynnal gan DYSGU yn ogystal a datblygu rhaglen i feithrin hyder dirprwyon ac aelodau o uwch dimau arwain er mwyn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu gyrfa neu gwneud cais am CPCP – Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol am Prifathrawiaeth.

Misol | Alison Halliday (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Safonau Ysgol

Pwrpas: Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o ysgolion sydd mewn categori statudol Estyn



Mae 5 ysgol o 94 yr Awdurdod mewn categori statudol Estyn yn bresennol.
1 ysgol – Gwelliant Sylweddol
4 ysgol – Mesurau Arbennig (Mae 3 ysgol yn rhan o'r un ffederasiwn)

Bydd ysgol sy'n cael ei gosod mewn categori statudol yn aros yn y categori yma hyd nes y bydd Estyn yn dyfarnu bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn eu hargymhellion. Gall hyn gymryd rhwng deunaw mis a thair blynedd.

Mae'r ysgolion sydd mewn categori statudol yn derbyn lefel uwch o gefnogaeth gan yr Awdurdod ar ffurf cynllun cefnogaeth cytunedig sy'n cynnwys cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cefnogaeth Ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Diogelu. Mae Bwrdd Cefnogi Ysgol sy'n cynnwys y pennaeth ac uwch dim arwain, Llywodraethwyr a Swyddogion yn cael ei sefydlu er mwyn craffu ar gynnydd yr ysgol yn erbyn cerrig milltir yr argymhellion o fewn y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg (CGOA) gan gytuno ar unrhyw weithredu pellach.

Ers mis Medi 2025 mae 14 o ysgolion wedi dderbyn arolygiad craidd hyd yma.

Misol | Alison Halliday (ADDYSG)


"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Uned Ddata

Pwrpas: Sicrhau cefnogaeth i'r Adran drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad

laith
Multiple sele...

Mesurydd: % o 'gwsmeriaid' sy'n adrodd bod y data a dderbyniwyd o ansawdd uchel a bod y wybodaeth/data a dderbyniwyd wedi arwain at benderfyniadau



Gyrrwyd 8 holiadur i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod, o'r rheini derbyniwyd 5 yn ôl, gyda 4 yn datgan eu bod yn fodlon iawn gyda safon y gwaith a dderbyniwyd yn ôl gan yr Uned – roedd yr 1 ymateb arall y nodi eu bod yn 'fodlon' gyda'r gwaith, ni gafwyd unrhyw sylwadau yn ôl.
Er fod gostyngiad bach, mae lefel perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol, ond mae rhaid ystyried fod y sampl yn eithaf bach unwaith eto.
Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, mae sylwadau wedi bod yn galonogol iawn parthed safon y gwaith. Beth bynnag, mae sail i wella rhai elfennau o'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, a fydd hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes yr Uned am 2026/27.

Misol Kenny Norgain (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

ABC

Pwrpas: Paratoi plant ifanc ar gyfer byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a cefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Gyda dwyster yr anghenion rydym yn eu gweld mewn ysgolion prif-lif yn cynyddu, mae'r galw am arbenigedd y tîm ABC yn cynyddu. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi arweiniad a chefnogaeth y tîm yn gynnar yn y meithrin, gan gydnabod pa mor bwysig yw cael y cychwyn gorau i'r plentyn.

Yn gynyddol, mae nifer o ysgolion yn mynegi eu dymuniad i gael mwy o ganolfannau ABC er mwyn i ni allu targedu a chefnogi mwy o blant – sy'n dangos yn glir eu bod yn gweld yr angen ac yn gwerthfawrogi effaith y ddarpariaeth.

Er nad yw'r tîm yn derbyn ymateb i bob holiadur, maent yn derbyn sylwadau cadarnhaol iawn yn ystod ymweliadau ymestyn allan, cyfarfodydd a pan daw'r rhieni i'r Ganolfan.

Derbyniwyd 4 ymateb holiadur .

Rhannodd Cydlynydd ADY un Ysgol 'Rwy'n fwy na hapus gyda'r gwasanaeth rydym yn ei dderbyn gan yr Uned ABC yn ein hysgol. Diolch'
Gyda Rhieni yn rhannu :
'Very happy with the service. All staff very kind and helpful.' 'Staff at the ABC are amazing and so helpful. My little boy loves attending . I'm so thankful to them, Service is excellent, I cant think of a way it can be improved.'
Mae'r adborth yn cadarnhau bod mewnbwn y tîm yn effeithiol.

Misol

Einir Rees Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


ABC

Pwrpas: Paratoi plant ifanc ar gyfer byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a cefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd



Mae'r data'n dangos cynnydd yn nifer y plant oed meithrin ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaeth ABC drwy Ganolfannau ac Ymestyn Allan. Defnyddir Proffil Tracio Cynnydd ar ddechrau'r flwyddyn i asesu lefel ddatblygiadol gychwynnol y plentyn, yn seiliedig ar gerrig milltir Blynyddoedd Cynnar wedi'u rhannu'n gamau bach a mesuradwy.
Yn Nhymor 1, gwnaeth 5 plentyn gynnydd sylweddol o ganlyniad i ymyrraeth gynnar, gan arwain at drosglwyddo i CDU (Cynllun Datblygu Unigol) yr ysgol neu gynyddu cefnogaeth yn y prif lif. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd 4 sesiwn hyfforddiant HMS, a symudwyd plant Ymestyn Allan heb gynnydd i Ganolfannau ABC yn Nhymor 2, lle gwelwyd cynnydd addawol.
Yn Nhymor 2, ni welwyd cynnydd mewn 16.5% o'r disgyblion oherwydd diffyg dilyn strategaethau ysgolion, presenoldeb isel, dwysedd anghenion, cyfeiriadau newydd, a chynnydd mewn anghenion ymddygiadol a synhwyraidd dwys.
Er mwyn ymateb, bydd y gwasanaeth yn parhau i gydweithio ag ysgolion, Swyddogion Ansawdd ac asiantaethau eraill, sicrhau aliniad rhwng y Proffil Tracio, CDU a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, datblygu ymarferion cynhwysol, adolygu meini prawf mynediad y gwasanaeth, a pharhau â threfniadau hyfforddiant HMS.

Monthly

Einir Rees Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


ADY Ansawdd & Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys



Mae'r Awdurdod Addysg yn hybu osgoi a datrys unrhyw anghydfod gyda rheini mor fuan ag sy'n bosib. Ac mewn rhan helaeth o achosion (dros 95%) o achosion mae hyn yn digwydd. Yn y cyfnod hwn mae'r Swyddogion Ansawdd wedi datrys 6 achos ac wedi osgoi y rhain fynd i apêl tribiwnlys.
Mae'r apeliadau tribiwnlysoedd yn digwydd ar agweddau penodol o'r Cynllun Addysg Unigol sydd wedi cael eu pennu gan statud. Mae nifer uchel o'r apeliadau yn ymwneud â lleoliad addysgol neu ddarpariaeth y Bwrdd lechyd yn yr ysgolion. Mae gan bob rhiant yr hawl i gyflwyno apêl tribiwnlys a phrin yw'r achosion hynny. Er hyn cafwyd 1 achos apêl newydd yn ystod y cyfnod hwn ac mae 3 dal yn agored. Mae 1 o'r pedwar ar fin cael ei ddatrys gyda'r disgwyliad i'r rhiant dynnu'r apêl yn ôl. Bydd Gwrandawiadau'r 3 arall cyn diwedd Gorffennaf 2026.

Chwarterol

Einir Thomas (ADDYSG)


ADY Ansawdd & Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)



Mae cefnogaeth raddoledig i ysgolion gan y Gwasanaeth Ansawdd yn cynnwys ymweliad tymhorol fel y lefel isaf o gefnogaeth hyd at gefnogaeth wythnosol sydd wedi ei gynllunio ar y cyd ac o fewn cynllun cefnogi ar y raddfa uchaf.

Mae'r ysgolion a fu yn derbyn mewnbwn wythnosol gan y swyddogion ansawdd bellach i gyd wedi cael eu hisraddio.

Yn ystod y cyfnod Herio Perfformiad hwn mae 3 ysgol newydd wedi symud i lefel uwch o gymorth, gydag un ysgol yn parhau gyda'r cymorth uchel. Mae'r pedair ysgol yn derbyn lefel uchel oherwydd un ai absenoldebau strategol neu oherwydd Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae pecynnau unigol o gefnogaeth wedi ei deilwra i'r pedair ysgol gyda chydweithio ar draws yr Adran Addysg gyda dwy ysgol.

Mae cyswllt chwarterol yn dal i gael ei gynnal gyda'r 4 ysgol a fu'n derbyn mewnbwn o raddfa uwch hyn tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, rhag tynnu'n ôl yn gyfan gwbl i gymorth arferol.

Misol

Einir Thomas (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


ADY Blynyddoedd Cynnar

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALl mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Derbyniwyd 8 ymateb yn ystod y cyfnod diwethaf, gyda phob un yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan y tîm wrth gwblhau proses ymholiad ADY, sef proses statudol er mwyn adnabod a oes gan y plentyn ADY ai peidio, neu wrth adolygu'r CDU.

Dyma rannu enghraifft o un o'r adborth a dderbyniwyd:

' I have received a lot of support and information since starting working with **. she has also been exceptional with my daughter and gave me a lot of peace of mind and confidence with what happens next for **'

'has been amazing and as a family we really appreciate everything that this service provides to families like mine.'

'We are very grateful and my son has definitely benefited from the early learning ALN service.'

Mae'r holiaduron yn cadarnhau bod mewnbwn y tîm yn effeithiol ac yn sicrhau bod plant ifanc sy'n mynd drwy'r broses statudol yng Ngwynedd yn cael y cychwyn gorau posibl ar eu taith drwy'r system addysg. Hefyd, mae'r tîm yn sicrhau bod y gefnogaeth broffesiynol y maent yn ei rhoi i deuluoedd yn arwain at brofiad cadarnhaol, er y gall y broses fod yn heriol i rai ohonynt.

Er bod yr ymatebion yn sampl fach, gallwn gadarnhau nad oes unrhyw riant wedi cysylltu â'r Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar i drafod unrhyw anghydfod, ac felly nid oes unrhyw achos tribiwnlys wedi'i gofnodi yn y Blynyddoedd Cynnar.

Misol — Ellen Mai Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


ADY Blynyddoedd Cynnar

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALl mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd



Adolygwyd cynnydd yn erbyn targedau mewn 64 Cynllun Datblygu Unigol (CDU – dogfen statudol). Dengys fod y rhan fwyaf (91%) o'r plant wedi gwneud cynnydd da neu well, gyda lleiafrif (27%) yn gwneud cynnydd da iawn. Mae hyn yn cadarnhau bod y ddarpariaeth a'r gefnogaeth i leoliadau a theuluoedd gan dîm ADY Blynyddoedd Cynnar yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau plant 0–3 oed.
O'r 9% (6 plentyn) lle bu cynnydd yn arafach, mae gweithdrefnau monitro ansawdd yn dangos bod darpariaeth y lleoliadau yn dda iawn. Mae'r rhesymau dros gynnydd arafach yn cynnwys ffactorau megis cyfnod setlo mewn lleoliad newydd, presenoldeb isel, amgylchiadau cartref, anghysondeb ar draws meysydd datblygu neu fod cynnydd da wedi'i wneud yn y tymor blaenorol.

Chwarterol

Ellen Mai Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


ADY Blynyddoedd Cynnar

Pwrpas: Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALl mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % yr achosion sy'n cyd fynd a'r amserlen statudol



Yn ystod y cyfnod diwethaf, derbyniwyd 30 cyfeiriad i gychwyn y broses statudol 'Ymholiad ADY' yn y Blynyddoedd Cynnar, sef cynnydd o 20% o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, ond sy'n gyson â'r patrwm tymhorol arferol ar gyfer tymor y Gwanwyn. Yn ystod yr un cyfnod, cwblhawyd 33 Ymholiad ADY, gyda 18 yn arwain at roi Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar waith. Cwblhawyd 26 o'r ymholiadau hyn o fewn 6 wythnos ar gyfartaledd, sy'n sylweddol gyflymach na'r amserlen statudol o 12 wythnos. Bu angen oedi'r amserlen mewn 7 achos er mwyn sicrhau bod gwybodaeth llawn a pherthnasol ar gael, ac yn yr achosion hyn cynhaliwyd cyfathrebu clir, amserol a chyson gyda rhieni.
Noder hefyd fod nifer y penderfyniadau "dim ADY" yn sylweddol uwch na'r un cyfnod y llynedd. Wrth graffu'n fanylach ar y data, gwelir bod dros hanner yr achosion hyn yn tarddu o un ardal benodol.

Misol

Ellen Mai Jones (ADDYSG)


"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

ADY Penodol

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd i gael mynediad i addysg

laith
Multiple sele...

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Cafodd 10 holiadur ei yrru allan yn ystod y tymor gyda 3 yn cyflwyno ymateb. Mae'n ymddangos fod 2 o'r defnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth ac 1 yn fodlon.
Mae'r defnyddwyr yn mynegi eu bod yn fodlon iawn gyda'r adnoddau sydd yn cael eu creu a'u rhannu gan y tîm. Mae defnyddiwr arall yn teimlo ei bod wedi derbyn adborth ac adroddiad am gyrhaeddiad disgybl yn amserol iawn ac yn dilyn hynny, yn ddiolchgar o'r hyfforddiant i uwch-sgilio staff yr ysgol wrth gynllunio ar gyfer cefnogi'r disgyblion yma.
Bydd y gwasanaeth yn parhau i gefnogi ysgolion drwy greu adnoddau a hyfforddi staff ar ddulliau cefnogi disgyblion sydd yn cael anhawster sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd.

Misol Einir Thomas (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


ADY Penodol

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd i gael mynediad i addysg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o blant sydd angen mewnbwn uniongyrchol gan y gwasanaeth



Roedd 71 o ddisgyblion yn derbyn mewnbwn gan y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol penodol yn ystod y tymor sydd yn leihad o 11% wrth gymharu â Rhagfyr 2025.
Mae'n debygol fod y lleihad yn y gofyn am y gwasanaeth yn ganlyniad i hyfforddiant llwyddiannus diweddar yn ystod dyddiau HMS, gyda staff ysgolion yn gallu diwallu anghenion a chefnogi y disgyblion yn annibynnol.
Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal hyfforddiant yn ogystal â datblygu adnoddau anghenion dysgu ychwanegol penodol ar gyfer disgyblion sydd yn cael anhawster sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd.

Misol

Einir Thomas (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Corfforol, Meddygol & Synhwyraidd

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifan sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyraidd i gael mynediad i addysg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Cafodd 24 o holiaduron eu gyrru allan yn ystod y tymor a dderbyniwyd 9 ymateb. Roedd 8 yn Fodlon iawn gyda'r gwasanaeth ac 1 yn Fodlon. Roedd y sylwadau yn gadarnhaol gan nodi bod staff arbenigol yn ymateb mor fuan â phosibl i geisiadau am gefnogaeth a'u bod yn teimlo fod y mewnbwn hynny yn werthfawr iawn. Roedd un defnyddiwr yn mynegi bod derbyn hyfforddiant diweddar wedi bod yn hynod o fuddiol i staff yr ysgol wrth gefnogi disgybl â nam synhwyraidd. Roedd sylwadau gan ddefnyddiwr arall yn nodi bod cydweithio effeithiol iawn rhwng yr ysgol a'r athrawes arbenigol drwy gyfarfod gyda'r rhieni (ar y cyd a'r ysgol) a rhoi arweiniad pellach a chyngor ar asesiad risg.

Misol

Sara Llwyd Davies (ADDYSG)


"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Corfforol, Meddygol & Synhwyraidd

Pwrpas: Cefnogi plant a phobl ifan sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyraidd gael mynediad i addysg

laith
Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd



Mae'r data'n dangos cynnydd disgyblion a gafodd gefnogaeth reolaidd gan athrawon arbenigol synhwyraidd. Yn ystod y tymor diwethaf, cafodd disgyblion gefnogaeth uniongyrchol i ddatblygu sgiliau arbenigol megis teipio cyffwrdd, Braille, arwyddo (BSL/Makaton) a defnyddio offer clyw. Gwnaed cynnydd gan 97% o'r disgyblion.
Ni welwyd cynnydd gan 3% o'r disgyblion oherwydd amharodrwydd i ddefnyddio offer arbenigol ar ôl diagnosis, neu oherwydd prinder staff cymorth wedi'u hyfforddi i gefnogi disgyblion nam clyw yn gyson yn yr ysgol.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon presenoldeb, cynhaliwyd cyfarfodydd i wella ymgysylltiad disgyblion, gan arwain at well presenoldeb a derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth synhwyraidd.
Ar gyfer cefnogi'r disgyblion lle na welwyd cynnydd a chynllunio ar gyfer y tymor nesaf, bwriedir:
• Cefnogi trosglwyddiad graddol i ysgolion uwchradd gan sicrhau hyfforddiant arbenigol i staff newydd.
• Rhoi amser i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag offer newydd a chryfhau cyfathrebu rhwng rhieni, ysgolion a'r gwasanaeth arbenigol.
• Parhau i weithio gydag ysgolion sy'n cael anhawster penodi staff arbenigol.

Chwarterol | Sara Llwyd Davies (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Cyfathrebu & Rhyngweithio

Pwrpas: Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallant ffynnu yn addysgol a chymdeithasol

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod 100% o'r adborth bodlonrwydd gan ysgolion y tro hwn yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig. Braf gweld hefyd bod y sylwadau rydym wedi ei dderbyn gan rieni yn gadarnhaol iawn.
Sylwadau penodol:
'Nid oes gennyf unrhyw awgrymiadau gan fy mod yn hynod fodlon ar y gwasanaeth mae fy mab yn ei dderbyn'.

'Dim byd mewn gwirionedd, rydych chi'n gwneud gwaith gwych gyda'r plant ac rwy'n hynod falch o XXXX, mae wedi gwneud cynnydd mor dda gyda chi".

'Dim byd sy'n dod i'r meddwl — mae popeth am y ganolfan a'r staff yn 100%.
Mae'n dod adref yn hapus ac rwy'n gweld newid mawr ynddo ers iddo fod yno'.

'Methu beio'r gwasanaeth o gwbl. Mae'r staff i gyd yn wych'.

'Mae fy merch wedi gwneud cynnydd anhygoel ers bod yn y ganolfan ac mae hynny i gyd i lawr i waith caled y staff'.

'Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i chi gyd. Rydych chi'n anhygoel! Diolch.'

Misol — Delyth Gibbard (ADDYSG)


"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Cyfathrebu & Rhyngweithio

Pwrpas: Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallant ffynnu yn addysgol a chymdeithasol

laith
Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd



Rydym yn mesur cynnydd disgyblion prif lif cynradd ac uwchradd sy'n derbyn mewnbwn uniongyrchol gennym fel tîm unai drwy leoliad mewn canolfan arbenigol neu drwy dderbyn mewnbwn rheolaidd gan Gymhorthydd Arbenigol. Dengys ein mesuryddion bod 83% o'r disgyblion hynny wedi gwneud cynnydd da.
Rydym yn defnyddio 'Cofnod Monitro Cynnydd' sy'n arf holistaidd o fesur sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion. Rydym yn casglu'r wybodaeth ar gyfer y cofnod drwy gynnal asesiadau ac arsylwadau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae pob disgybl sy'n agored i ni yn cael asesiad cychwynnol a ddefnyddir fel gwaelodlin, yna yn derbyn asesiad tymhorol er mwyn mesur cynnydd.
Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd wedi gwneud cynnydd y chwarter hwn, mae sawl ffactor wedi dylanwadau ar y gostyngiad:-
- Absenoldebau yn y tîm- sawl aelod o'r tîm wedi bod yn absennol o'r gwaith am gyfnodau estynedig sy'n effeithio ar ein gallu i gefnogi ysgolion gan ein bod yn gorfod sicrhau staffio digonol yn ein canolfannau.
- Nifer y disgyblion sy'n cael eu cyfeirio atom yn cynyddu
- Dwyster anghenion y disgyblion - hwn yn batrwm amlwg, mae anghenion ein disgyblion mewn ysgolion prif lif yn dwysau.
- Mae prinder Therapyddion laith a Lleferydd yn cael ardrawiad arnom fel tîm gan ein bod yn aml yn gorfod llenwi'r bwlch ein hunain.

Beth ydym yn wneud i geisio gwella ymhellach?
- Wedi cyllido hyfforddiant i ysgolion cynradd ac uwchradd drwy arian grant er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion synhwyraidd.
- Y tîm yn gweithio yn agos gydag ysgolion arbennig yng Ngwynedd er mwyn sicrhau fod y plant cywir yn cael mynediad i Ysgol Arbennig
- Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, er mwyn sefydlu grwpiau bach sydd yn cynnig cwricwlwm arbenigol i'r disgyblion hynny sy'n ei chael hi'n annod ymgysylltu gydag addysg fwy ffurfiol wrth ddesg.
- Gweithio gyda chartrefi'r disgyblion hynny sy'n cael anhawster mynychu ysgol er mwyn creu perthynas ac adeiladu pontydd rhwng y cartref ac addysg.
- Cefnogi ysgolion prif lif i wneud y defnydd gorau o ymyraethau ac adnoddau ar ôl hyfforddi staff

Misol | Delyth Gibbard (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gweinyddol

Pwrpas: Cefnogi'r timau ADYaCH, Ysgolion a'r cyhoedd ar gyfer darparu mewnbwn ADYaCh

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos



Yn dilyn bob fforwm/panel, mae'r tîm gweinyddol yn mewnbynnu'r penderfyniadau ar y CDU ar-lein o fewn pythefnos o'r dyddiad cadarnhau penderfyniad.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd:
. 4 Fforwm Dwys
. 4 Panel Ymholiad
. 3 Fforwm Ardal
. 2 Panel Eithriadau ac Ysgolion Arbennig
. 11 Panel Blynyddoedd Cynnar

Misol — Ellen Mai Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Seicoleg

Pwrpas: Defnyddio gwybodaeth ac ymyrraethau seiliedig ar Seioleg i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn gwneud cynnydd yn dilyn mewnbwn gan y gwasanaeth seicoleg



Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn gwasanaeth i ysgolion yn seiliedig ar fodel ymgynghorol lle mae strategaethau i gynorthwyo cynnydd yn cael eu trafod mewn partneriaeth â staff allweddol ysgolion, asiantaethau eraill (ble mae'n berthnasol), a rhieni. Mae yna broses o weithredu ac adolygu yn dilyn. Mae gennym hefyd rôl allweddol mewn hyfforddi, gweithredu ymyraethau a chynnal prosiectau. Yn ogystal a hyn, rydym yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion o bryd i'w gilydd ac wrth gwrs gyda disgyblion unigol. Mae mesur cynnydd disgyblion unigol, yn dilyn gwaith gan y tim, yn profi yn her am fod y cynnydd mae plentyn yn ei wneud yn amle yn ddibynnol ar ffactorau megis fod y strategaethau a argymhellir mewn adroddiadau neu drwy hyfforddiant, yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a rheolaidd o fewn ysgolion neu newidiadau ym mywydau yr unigolion sy'n lliniaru effaith ymyrraethau.

Mae'r gwasanaeth seicoleg yn bwriadu mireinio ein dull o gasglu data ar gyfer Medi 2026 ond ar hyn o bryd rydym yn ddibynnol ar ysgolion yn ymateb i'n holiaduron yn adrodd ar gynnydd disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn yn uniongyrchol (drwy arsylwad, gwaith therapiwtig neu asesiad) neu yn anuniongyrchol (drwy ymgynghoriad gyda staff neu drwy hyfforddiant). Mae'r data yma yn seiliedig ar 33 ymateb ac rydym yn falch o weld fod ysgolion yn teimlo fod mwy o blant yn gwneud cynnydd mewn ymateb i ymwneud y tîm seicoleg y chwarter hwn. Gan ein bod yn gweithio yn aml gyda'r bobl (system) o amgylch y plentyn mewn ysgol (Cydlynydd ADY, athrawon dosbarth a chymhorthyddion) mae cynnydd yn aml, yn ddibynnol ar fod yw'r argymhellion yn cael ei gweithredu gan yr ysgol. Mewn achosion ble mae gwaith uniongyrchol therapiwtig yn cael ei wneud gyda disgybl; mae'n haws dweud fod y cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) yn deillio o fewnbwn y seicolegydd.

Chwarterol

Elenid Glyn (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Seicoleg

Pwrpas: Defnyddio gwybodaeth ac ymyrraethau seiliedig ar Seioleg i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o'r ELSAs wedi cymhwyso sydd yn mynychu goruchwyliaeth bob hanner tymor



Mae'r prosiect ELSA (Emotional Literacy Support Assistants) yn rhan fawr o waith y gwasanaeth seicoleg addysgol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r tim seicoleg addysg yn hyfforddi cymorthyddion i gynnal ymyraethau lles mewn ysgolion ar gyfer plant sydd yn fregus yn emosiynol ac ymddygiadol, o dan oruchwyliaeth gyson Seicolegwyr Addysgol. Drwy'r prosiect yma mae nifer uchel o blant yn derbyn ymyrraeth yn amserol a chyda oedolyn cyfarwydd iddynt. Er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth bwysig yma, ac i sicrhau fod y gwaith wedi ei seilio ar dystiolaeth seicolegol gyfredol, mae'n ofynnol i'r cymorthyddion ELSA fynychu sesiynau goruchwyliaeth gyda'r tim yn rheolaidd.

Mewn cyfnod ble mae'r tim seicoleg wedi bod o dan gapasiti ers cyfnod estynedig (oherwydd problemau recriwtio cenedlaethol) rydym wedi gorfod addasu ein dull o weithio yn aml i gyfarch yr anghenion yn yr ysgolion ac mae prosiect ELSA yn rhywbeth rydym yn ei weld fel un o'r elfennau na ellir gwneud hebddo.

Ers adrodd y tro diwethaf, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd o gymorthyddion ELSA sydd wedi mynychu sesiynau goruchwyliaeth, ond nid yw yn ddigonol. Er mwyn cadw achrediad ELSA, ac er mwyn i'r tîm seicoleg wirio ansawdd y ddarpariaeth bwysig yma mewn ysgolion mae mynychu goruchwyliaeth bob hanner tymor yn HANFODOL. Nid yw'n glir beth sydd wedi galluogi i fwy o ELSAs fynychu y tro hwn ond mae'r tim yn cymryd bob cyfle i bwysleisio pwysigrwydd mynychu mewn unrhyw sgwrs gyda rydym yn gael gyda chydlynwyr ADY (CADY). Rydym wedi anfon ebost allan i ysgolion hefyd i ategu pwysigrwydd rhyddhau cymorthyddion ELSA o'u gwaith i ddod i dderbyn goruchwyliaeth.Er mwyn ymateb ymhellach (ac mae hyn wedi ei nodi chwarter diwethaf hefyd) rydym wedi trefnu i drafod y prosiect ELSA gyda phenaethiaid Gwynedd ym Mis Mai yn y gobaith y bydd hynny yn gwella eu dealltwriaeth o ofynion Rhwydwaith ELSA, sef fod rhaid i'r gwaith gael ei oruchwylio gan seicolegwyr addysg, ac felly bod rhaid i'r cymorthyddion gael eu rhyddhau i ddod i'r sesiynau .

Chwarterol

Elenid Glyn (ADDYSG)


"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Addysg Ddewisiol Gartref

Pwrpas: Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

laith
Multiple sele...

Mesurydd: % o ddisgyblion yn derbyn addysg addas i'w gallu



Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd ymweliadau â 32 o deuluoedd sy'n addysgu gartref. O'r rhain, nodwyd bod 24 o blant (75%) yn derbyn addysg sy'n cael ei hystyried yn addas i'w gallu. Mae'r data'n dangos bod 25% o'r plant a gafodd ymweliad ddim yn derbyn addysg sy'n bodloni'r meini prawf statudol ar hyn o bryd.
Mae'r canfyddiadau'n amlygu:
• Bod 75% o'r disgyblion a gafodd ymweliad yn derbyn addysg sy'n cael ei hystyried yn addas i'w gallu.
• Bod 25% o'r plant a aseswyd angen cefnogaeth neu welliant yn y ddarpariaeth addysg gartref.
• Nad yw'r ffigurau'n cynrychioli'r holl gofrestr gan fod ymweliadau'n digwydd yn flynyddol; felly mae'r data'n adlewyrchu'r teuluoedd a gafodd eu hasesu yn unig yn ystod y cyfnod hwn.
Mae'r wybodaeth hon yn tynnu sylw at yr angen i:
• Gryfhau monitro i sicrhau bod darpariaeth annigonol yn cael ei hadnabod yn brydlon.
• Dargedu cefnogaeth at y teuluoedd hynny lle nodwyd pryderon.
• Adolygu trefniadau ymweld i sicrhau bod y darlun a geir yn gynrychioliadol ac yn ddigon cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Addysg Ddewisiol Gartref

Pwrpas: Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o deuluoedd yn derbyn ymweliadau cartref



Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y tîm yn gweithio ar sail amserlen ymweliadau blynyddol, sy'n golygu nad oes disgwyl ymweld â phob teulu ym mhob cyfnod adrodd. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol ac yn caniatáu i'r tîm ganolbwyntio ar deuluoedd sydd angen cefnogaeth fwy dwys neu fwy rheolaidd.

- O'r ymweliadau oedd wedi ei rhaglenu yn y cyfnod, cafodd 42.95% ymweliad.
- Mae'r amserlen flynyddol yn golygu bod rhai teuluoedd yn cael ymweliadau wedi'u hamserlennu ymlaen llaw, tra bod eraill yn cael ymweliadau ychwanegol os oes angen.
- Mae'r patrwm hwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng monitro rheolaidd a chefnogaeth hyblyg pan fo sefyllfaoedd yn newid.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)


"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Addysg Ddewisiol Gartref

Pwrpas: Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

laith
Multiple sele...

Mesurydd: Nifer dysgwyr Addysg Ddewisol Gartref



Mae'r darlun diweddaraf yn dangos bod 284 o ddysgwyr ar y gofrestr Addysg Ddewisol Gartref. Ers 1 Ionawr 2026, mae 37 o ddisgyblion wedi ymuno â'r gofrestr, tra bod 10 wedi dychwelyd i'r ysgol. O'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae hyn yn cyfateb i gynnydd net o 20 o unigolion ar y gofrestr.
Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r patrymau a nodwyd gan rieni, sy'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol ac nid ydynt yn unigryw i Wynedd.

Mae pedwar prif faes yn ymddangos yn gyson fel rhesymau dros ddewis Addysg Ddewisol Gartref
• Iechyd meddwl -pryder, pryder cymdeithasol, iselder neu straen sy'n effeithio ar allu'r plentyn i ymgysylltu ag ysgol.
• Pwysau presenoldeb -teimlad bod disgwyliadau presenoldeb yn ychwanegu straen neu'n gwaethygu lles.
• Anghenion heb eu diwallu - teimlad nad yw'r ysgol yn gallu ymateb i anghenion y plentyn, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud ag ADY, sensitifrwydd synhwyraidd neu brofiadau negyddol blaenorol.
• Ffordd o fyw - dewis teuluol am ddull dysgu mwy hyblyg neu bersonol, neu batrymau gwaith sy'n gwneud ADG yn fwy ymarferol na mynychu ysgol bob dydd.
Mae 21% o'r disgyblion sydd wedi dadgofrestru ers Medi 2025 yn ddisgyblion Blwyddyn 11. Mae hyn yn awgrymu:
• Bod rhai teuluoedd yn dewis ADG yn ystod cyfnodau pwysau uwch megis arholiadau.
• Bod disgyblion hŷn yn fwy tebygol o symud i ADG pan fo pryderon iechyd meddwl neu anghenion heb eu diwallu.
• Bod angen dealltwriaeth ddyfnach o'r ffactorau sy'n sbarduno dadgofrestru hwyr yn y sector uwchradd.
Mae'r rhesymau a nodwyd yn adlewyrchu tueddiadau ledled Cymru:
• Cynnydd mewn ADG sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a phryder ysgol.
• Effaith pwysau presenoldeb a phrofiadau ôl-bandemig ar ddisgyblion.
• Teimlad bod ysgolion prif ffrwd ddim yn gallu ymateb yn ddigon hyblyg nac yn ddigon cyflym i anghenion unigol.
Goblygiadau i'r Gwaith Cefnogi
Mae'r patrwm hwn yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r ymateb lleol mewn sawl maes:
• Cefnogaeth iechyd meddwl fwy cadarn mewn ysgolion.
• Dulliau presenoldeb mwy hyblyg ar gyfer disgyblion sy'n profi pryder neu straen.
• Deialog agored rhwng ysgolion a theuluoedd cyn i benderfyniadau ADG gael eu gwneud, er mwyn lleihau dadgofrestru y gellid ei atal.

Misol — Ellen Rowlands (ADDYSG)


Cwnsela

Pwrpas: Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth



Mae sylwadau yn hynod o bositif ar y cyfan am y gwasnaeth ond mae pobl ifanc yn bryderus am yr amser aros sydd rhaid iddynt ei ddisgwyl cyn cael cefnogaeth ag hefyd nad ydi y gefnogaeth yn ddigon hir dymor.

Misol

Meleri Wyn Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Cwnsela

Pwrpas: Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth



Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at gynnydd yn amseroedd aros y gwasanaeth yn ystod y chwarter hwn. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cyfeiriadau sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth, ac mae'r cyfeiriadau hyn yn fwy cymhleth, gyda mwy o bobl ifanc yn cyflwyno anghenion emosiynol a therapiwtig dwysach, yn enwedig yn y cynradd. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi bod yn ymateb yn fwy hyblyg i lefel yr angen, gan ddarparu ymyriadau mwy hirdymor lle bo hynny'n briodol ac yn foesegol. Ma pob cyfeiriad addas cynradd yn derbyn lleiafswm o 12 wythnos o Wasanaeth. Er bod hyn yn sicrhau cefnogaeth fwy priodol, effeithiol ag moesegol i'r unigolion hynny, mae hefyd wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i gynnig apwyntiadau newydd mor gyflym ag o'r blaen.
Yn ystod y tri mis diwethaf, bu ffocws ychwanegol ar hyfforddiant a datblygiad y tîm, gan gynnwys hyfforddiant mewn gwaith grŵp therapiwtig. Er bod hyn yn fuddsoddiad pwysig yn ansawdd a datblygiad y gwasanaeth yn y tymor hir, mae wedi effeithio rhywfaint ar gapasiti gweithredol y tîm yn y tymor byr.
Yn ogystal, mae nifer o staff yn parhau ar gyfnod mamolaeth, gydag aelod arall o staff ar absenoldeb tymor hir, sydd hefyd wedi effeithio ar gapasiti'r gwasanaeth dros y chwarter hwn.
Mae'r chwarter hwn hefyd yn cyd-fynd â'r cyfnod sy'n arwain at dymor arholiadau, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cyflwyno lefelau uwch o bryder ac angen cefnogaeth ychwanegol yn ymwneud â straen ac iechyd emosiynol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Misol

Meleri Wyn Jones (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd



Mae lefel y gwaharddiadau yn y sector cynradd yn parhau'n isel iawn, gyda dim ond un gwaharddiad parhaol wedi'i gofnodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiad hwn wedi'i gadarnhau. Yn yr achos hwn, mae'r disgybl yn blentyn sydd â CDUA, ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar sicrhau lleoliad arall iddo. Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn:

- Osgoi i'r gwaharddiad parhaol gael ei gadarnhau'n ffurfiol.
- Atal i'r gwaharddiad ymddangos ar adroddiad ysgol y plentyn.
- Lleihau effaith hirdymor ar ei lwybr addysgol a'i gyfleoedd yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y plentyn yn cael lleoliad sy'n gallu diwallu ei anghenion yn well.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ymagwedd ragweithiol ac adferol yn y sector cynradd, gan geisio datrysiad sy'n diogelu lles y plentyn tra'n cynnal diogelwch a sefydlogrwydd yn yr ysgol.

Mae'r ffaith bod dim ond un achos wedi cyrraedd y cam hwn yn dangos bod ysgolion cynradd yn parhau i ddefnyddio dulliau ataliol effeithiol cyn cyrraedd gwaharddiad parhaol.

Mae'r gwaith o geisio lleoliad arall yn dangos ymrwymiad cryf i atebion cynhwysol ac i leihau effaith negyddol ar blant ag anghenion ychwanegol.

Mae'r sefyllfa'n cyd-fynd â'r neges ehangach o bwysigrwydd cyfeirio cynnar a chefnogaeth amlasiantaethol i atal achosion rhag dwysáu.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)


Cynhwysiad

Pwrpas: Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd



Mae lefel y gwaharddiadau yn parhau i fod yn ffactor sylweddol sy'n effeithio ar bresenoldeb a chynnydd disgyblion uwchradd. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

• Cofnodwyd 10 gwaharddiad parhaol, gyda 4 ohonynt yn dod o un ysgol, sy'n dangos anghysondeb amlwg rhwng lleoliadau.

• Mae cyfanswm o 537 o waharddiadau penodol wedi gweithredu ers Medi gyda nifer sesiynau o gollwyd yn cyfateb i 4,338 sef 2,169 diwrnod ysgol. Noder: Nid yw gwaharddiadau parhaol wedi'u cynnwys yn y ffigwr hwn, felly mae'r effaith wirioneddol yn uwch fyth.

• Blwyddyn 9 a Blwyddyn 8 yw'r grwpiau blwyddyn sydd wedi colli'r mwyaf o amser dysgu oherwydd gwaharddiadau, gan ddangos bod y grwpiau hyn yn parhau i fod yn risg uchel o ran ymddygiad a phresenoldeb.

Patrymau ysgolion

• Mae pob ysgol uwchradd wedi gwahardd disgyblion ers Medi .

• Fodd bynnag, mae un ysgol yn gwahardd yn sylweddol uwch na'r lleill, gyda 128 cyfnod gwaharddiad, o'i chymharu â'r ddwy ysgol nesaf sydd â 83 a 87 .

• Mae hyn yn awgrymu gwahaniaethau mewn polisi, dulliau rheoli ymddygiad neu lefelau anghenion disgyblion rhwng ysgolion.

Cymhariaeth â'r llynedd

• Mae gwaharddiadau parhaol wedi lleihau'n sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

• Roedd 33 gwaharddiad parhaol wedi'u cofnodi rhwng Medi a Mawrth y llynedd, o'i gymharu â 17 eleni.

• Mae hyn yn dangos tuedd gadarnhaol, ond mae'r niferoedd presennol yn dal i gynrychioli effaith sylweddol ar amser dysgu a phresenoldeb.

Goblygiadau strategol

• Mae'r lefel uchel o amser dysgu a gollir oherwydd gwaharddiadau yn cyfrannu'n uniongyrchol at y ffaith bod 32.5% o ddisgyblion uwchradd o dan 90% presenoldeb.

• Mae'r anghysondeb rhwng ysgolion yn awgrymu angen am:
adolygiad o bolisïau gwaharddiadau, rhannu arfer da, a chefnogaeth wedi'i dargedu i ysgolion sy'n gwahardd yn amlach.

• Mae'r gostyngiad mewn gwaharddiadau parhaol yn gadarnhaol, ond mae'r cyfanswm sesiynau a gollir yn parhau i fod yn uchel ac yn effeithio'n sylweddol ar gynnydd disgyblion.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % presenoldeb disgyblion Cynradd



Mae'r data'n dangos bod 19.9% o ddisgyblion cynradd yn gweithredu o dan y trothwy 90% presenoldeb, gyda salwch, gwyliau a nifer o absenoldebau anawdurdodedig heb reswm yn cyfrannu at y darlun. Er mwyn atal achosion rhag dwysáu ac i wella canlyniadau i ddisgyblion, mae dau gam gweithredu allweddol yn cael eu blaenoriaethu ar draws y sector cynradd.

Mae achosion cynradd sy'n parhau ar agor i'r GLLA (Gwasanaeth Llesiant ac Ymddygiad Dysgwyr) yn tueddu i fod ymhlith y rhai mwyaf heriol, gan gynnwys teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau cymhleth. Mae cyfeirio'n gynnar yn hanfodol i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar waith cyn i'r sefyllfa waethygu. Mae hyn yn:

- Atal achosion rhag dwysáu ac yn lleihau'r angen am gamau statudol neu ymyraethau dwys.
- Caniatáu i'r GLLA gefnogi teuluoedd cyn i batrymau presenoldeb gwael ddod yn ingrained.
- Cryfhau'r berthynas rhwng ysgolion cynradd a'r GLLA, gan sicrhau dull cydlynol a chyson o reoli presenoldeb.

Mae'r dull hwn yn rhan o ymagwedd ataliol ehangach sy'n ceisio lleihau nifer yr achosion hirdymor ac yn gwella canlyniadau i ddisgyblion cynradd.

Mae 8 achos cynradd wedi dangos gwelliant sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd, gan ddarparu cyfle pwysig i ddeall beth sy'n gweithio'n effeithiol mewn cyd-destun cynradd. Mae'r achosion hyn yn cynrychioli enghreifftiau o ymyraethau llwyddiannus ac yn cynnig tystiolaeth werthfawr y gellir ei defnyddio i lywio arfer da ar draws ysgolion eraill. Mi fydd yr ysgolion a'r GLLA yn edrych yn fwy manwl ar yr achosion hyn er mwyn cael darlun clir o:

- Pa ymyraethau penodol a sbardunodd newid cadarnhaol, megis cyfarfodydd teuluol cynnar, monitro tynnach, cefnogaeth lles wedi'i dargedu neu newidiadau mewn trefn gartref.
- Pa ffactorau teuluol neu ysgolion oedd yn allweddol i'r gwelliant, gan gynnwys lefel ymgysylltiad rhieni, cefnogaeth ychwanegol gan staff neu gydweithio amlasiantaethol.
- Sut y gellir atgynhyrchu'r dulliau hyn ar draws ysgolion cynradd eraill i wella cysondeb, lleihau amrywiad rhwng lleoliadau a chryfhau dulliau ataliol ar draws y sector.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % presenoldeb disgyblion Uwchradd



Mae 32.5% o ddisgyblion uwchradd ar hyn o bryd o dan y trothwy 90% presenoldeb, sy'n dangos lefel uchel o risg ar draws y sector. Mae dadansoddiad o'r rhesymau am absenoldeb yn amlygu darlun cymhleth sy'n cynnwys ffactorau awdurdodedig ac anawdurdodedig.

Absenoldebau awdurdodedig

Mae'r cyfraniad mwyaf yn dod o:

- Salwch
- Apwyntiadau meddygol
- Gwaharddiadau

Mae hyn yn dangos bod nifer sylweddol o ddisgyblion yn colli amser dysgu oherwydd materion iechyd, anghenion lles neu ymddygiad. Mae'r patrwm hwn yn tynnu sylw at yr angen am fonitro tynnach, gwaith ataliol ymddygiad a chyfathrebu cliriach â rhieni ynghylch apwyntiadau meddygol yn ystod amser ysgol.

Absenoldebau anawdurdodedig

Mae'r prif gyfranwyr yn cynnwys:

- Gwyliau yn ystod y tymor
- Hwyr

Mae gwyliau'n cael effaith sylweddol ar bresenoldeb uwchradd ac yn aml yn arwain at lithro pellach. Mae hwyr yn cyfrannu at absenoldebau anawdurdodedig ac yn aml yn adlewyrchu problemau trefniadol neu ymgysylltiad isel.

Camau gweithredu blaenoriaethol

Er mwyn ymateb i'r darlun hwn, mi fydd yn GLLA yn canolbwyntio ar:

- Datblygu dulliau gwella presenoldeb drwy'r Gwanwyn a'r Haf (ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, nodau wythnosol, cyfarfodydd teuluol cynnar).
- Targedu grwpiau risg uchel gyda monitro wythnosol a galwadau rheolaidd i rieni cyn i achosion ddwysáu.
- Mapio achosion llwyddiannus i nodi a rhannu arfer da.
- Sicrhau bod Swyddogion Lles yn defnyddio data ansoddol a meintiol gyda'i gilydd i ddeall achosion yn llawn.
- Mireinio'r broses cyn-erlyniad i sicrhau cysondeb a thegwch.
- Atgyfnerthu monitro achosion agored dros 12 wythnos i atal llithro pellach.

Misol — Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % y disgyblion (sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles) sydd â rhieni wedi derbyn erlyniadau o dan 444 (1)



Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 1.9% o achosion agored i'r Gwasanaeth Llesiant ac Ymddygiad Dysgwyr (GLLA) wedi arwain at erlyniad o dan Adran 444(1) Deddf Addysg 1996 am fethu â sicrhau presenoldeb ysgol reolaidd. Mae'r gyfradd hon yn adlewyrchu patrwm gweithredu arferol y gwasanaeth, lle rhoddir blaenoriaeth i ymyraethau cefnogol cyn defnyddio camau statudol. Yn unol â hyn, mae erlyniadau'n gymharol brin yn nhymor yr Hydref, gyda chynnydd amlwg yn y Gwanwyn wrth i achosion hirdymor a mwy cymhleth barhau ar agor.

Mae'r data'n dangos tueddiad tymhorol clir: defnyddir cefnogaeth gynnar fel ymyrraeth gyntaf, ac erlyniadau dim ond pan fydd y dulliau hyn wedi methu. Mae'r achosion sy'n parhau hyd at dymor y Gwanwyn fel arfer yn llai ymatebol ac yn fwy cymhleth, gan ofyn am ystyriaethau ychwanegol.

Yn ystod y cyfnod, derbyniodd pedwar achos (chwe rhiant) Hysbysiadau Terfynol o Achos Llys. Aeth dau achos (tri rhiant) ymlaen i erlyniad, tra tynnwyd dau achos arall yn ôl cyn y gwrandawiad, naill ai oherwydd lliniariad sylweddol neu welliant amlwg mewn presenoldeb. Mae hyn yn dangos dull cymesur a thargedol, lle dim ond yr achosion mwyaf difrifol neu anatebol sy'n mynd ymlaen i'r llys.

Mae dadansoddiad yr achosion unigol yn dangos canlyniadau cymysg. Mewn un achos, arweiniodd pwysau statudol at welliant sylweddol iawn mewn presenoldeb, ond bu dirywiad dilynol, gan godi pryderon ynghylch cynaliadwyedd. Mewn achos arall, tynnwyd yr achos yn ôl oherwydd profedigaeth, gan ddangos sensitifrwydd y GLLA i amgylchiadau teuluol. Yn y ddau achos aeth ymlaen i'r llys, gwelwyd un achos gyda gwelliant mesuradwy ond presenoldeb yn parhau'n isel, a'r llall heb unrhyw welliant amlwg, gan awgrymu ymwrthedd i ymyrraeth.

Nodir risgiau gwasanaeth allweddol, gan gynnwys cynnydd mewn dwysedd achosion cymhleth, pwysau ar adnoddau cyfreithiol a'r gweithlu, a'r risg o ganlyniadau addysgol gwael os na sefydlogir presenoldeb. Er bod camau statudol yn effeithiol mewn rhai achosion, mae'r data'n tynnu sylw at yr angen parhaus am fonitro tynnach, dulliau aml-asiantaethol a chefnogaeth barhaus i sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Lles

Pwrpas: Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % y disgyblion sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles yn adrodd ar welliant mewn presenoldeb



Er bod nifer yr achosion ar agor i'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r data'n dangos newid clir yn y proffil, gan greu cyfleoedd i dargedu cefnogaeth yn fwy effeithiol. Ar hyn o bryd, mae 49% o'r disgyblion ar agor yn dangos gwelliant mewn presenoldeb, sy'n adlewyrchu effaith gadarnhaol ymyraethau'r gwasanaeth ar bron hanner y dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth barhaus. Ar yr un pryd, mae 51% nad ydynt eto'n dangos gwelliant. Mae'r grŵp hwn fel arfer yn cynnwys achosion mwy cymhleth, aml ffactorol neu hirdymor, sy'n gofyn am ddulliau mwy dwys neu arbenigol ac am gefnogaeth aml asiantaethol.

Newid yn y Proffil Achosion

Mae'r newid yn y dosbarthiad achosion yn cynnig mewnwelediad pwysig:

- 90% o'r achosion bellach yn y sector uwchradd, gan alluogi'r gwasanaeth i ganolbwyntio adnoddau lle mae'r angen mwyaf.
- Mae achosion sy'n cau yn parhau i gyrraedd y trothwy presenoldeb o 85%, sy'n dangos bod y llwybr cau yn gweithio'n gyson.
- 93% o'r achosion a gaewyd yn y cyfnod hwn yn achosion uwchradd, gan adlewyrchu effeithiolrwydd ymyraethau ar gyfer y grŵp hwn er gwaethaf eu cymhlethdod.

Dehongli'r Tueddiadau

Mae'r cynnydd mewn achosion uwchradd yn darparu cyfle i:

- Dargedu cefnogaeth fwy arbenigol ar gyfer achosion hirdymor neu aml ffactorol.
- Gryfhau partneriaethau aml asiantaethol i ymateb i anghenion mwy cymhleth.
- Adolygu capasiti'r gweithlu i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r galw cynyddol yn y sector uwchradd.

Er bod y gyfradd gwelliant wedi gostwng i 49%, mae hyn yn gyson â thueddiadau cenedlaethol ac yn adlewyrchu natur y dysgwyr sy'n parhau ar agor sef y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n llai tebygol o ymateb i ymyraethau byr-dymor.

Camau Statudol a Goblygiadau

Mae'r defnydd o gamau statudol yn dangos:

- Bod y gwasanaeth yn gweithredu'n gadarn pan nad yw cefnogaeth gynnar yn ddigonol.
- Bod prosesau monitro yn sicrhau bod achosion difrifol yn cael eu rheoli'n briodol.
- Bod angen asesu effaith camau statudol ar newid ymddygiad a phresenoldeb.

Cyfleoedd Strategol

Mae'r data'n tynnu sylw at gyfleoedd clir i gryfhau'r ymateb:

- Cryfhau ymyraethau tymhorol yn ystod y Gwanwyn.
- Datblygu dulliau cynnar cadarn yn y sector cynradd i leihau achosion uwchradd cymhleth yn y dyfodol.
- Adolygu'r trothwy presenoldeb o 85% ar gyfer achosion uwchradd cymhleth.
- Cynllunio gweithlu wedi'i dargedu i ymateb i'r newid mewn proffil achosion.

Misol — Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Saesneg fel laith Ychwanegol

Pwrpas: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu galluogi i gael mynediad i addysg a chymuned ddwy-ieithog Cymraeg a Saesneg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd



Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion unigol a'r grwpiau wedi dangos cynnydd cadarnhaol dros y tymor. Mae rhai wedi symud ymlaen o fewn eu Camau presennol, tra bo eraill wedi gwneud cynnydd sylweddol gan symud o Gam A i Gam B.

- Oherwydd y cynnydd hwn, rydym yn bwriadu dod â'r gefnogaeth i ben i nifer o ddisgyblion ar ddiwedd y tymor. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried cyfeiriadau newydd yn ystod fforwm diwedd Ebrill.
- Cyfeiriadau newydd: Mae 11 o ddisgyblion newydd eisoes wedi'u cyfeirio i'r fforwm yng Ngwynedd (hyd at 25 Mawrth), er nad yw'r dyddiad cau tan 17 Ebrill.
- Mae rhai ysgolion hefyd wedi ailgyfeirio disgyblion lle maent yn teimlo y byddai'r unigolion hyn yn elwa o cefnogaeth pellach.

Chwarterol

Helen Elisabeth Speddy (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Saesneg fel laith Ychwanegol

Pwrpas: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu galluogi i gael mynediad i addysg a chymuned ddwy-ieithog Cymraeg a Saesneg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % presenoldeb y disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth



Mae presenoldeb y disgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth dros y tymor wedi bod yn gadarnhaol.

Dim pryderon: Nid yw'r ysgolion wedi adrodd unrhyw bryderon ynghylch presenoldeb y disgyblion hyn.

Chwarterol

Helen Elisabeth Speddy (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

Pwrpas: Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddisgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth yn adrodd ar gynnydd llesiant



Mae 63% o'r disgyblion sydd ar agor i'r tîm wedi dangos cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei asesu drwy gyfuniad o ffynonellau, gan roi darlun cadarn ac aml-ffynhonnell o sut mae disgyblion yn symud ymlaen.

Sut mae'r cynnydd yn cael ei fesur:
Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth sy'n dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys:
• Adroddiadau ysgolion – gwybodaeth ffurfiol ar gynnydd presenoldeb, ymgysylltiad, ymddygiad a lles.
• Adborth gan unigolion sy'n derbyn cefnogaeth, barn y disgyblion eu hunain ar eu cynnydd a'u profiad.
• Adborth gan rieni ,persbectif y teulu ar newid mewn hyder, presenoldeb neu ymddygiad.
• Data caled yn enwedig presenoldeb ac ymddygiad, sy'n rhoi mesur gwrthrychol o gynnydd.

Beth mae'r ganran yn ei olygu:
• Mae'r 63% yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth yn gwneud cynnydd mesuradwy.
• Mae'r dull aml-ffynhonnell yn sicrhau bod y cynnydd yn cael ei ddeall yn eang, nid yn seiliedig ar un ffynhonnell yn unig.
• Mae'r data'n awgrymu bod ymyraethau'r tîm yn cael effaith gadarnhaol ar ran sylweddol o'r disgyblion.

Misol — Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

Pwrpas: Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddisgyblion yn mynychu ein gweithgareddau cymunedol



Mae 54% o'r disgyblion sydd ar agor i'r tîm wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd yma. Mae'r lefel hon o gyfranogiad yn dangos ymrwymiad cadarnhaol gan y disgyblion ac yn adlewyrchu effaith y gefnogaeth sy'n eu hannog i ymgysylltu â'u cymuned leol.
Mae'r gweithgareddau a nodwyd yn amrywiol ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, empathi a chyfrifoldeb.
Ymhlith y gweithgareddau mae:
• Casglu sbwriel, cyfrannu at lanhau a gwella'r amgylchedd lleol.
• Cynnal te pnawn i'r henoed, meithrin cysylltiadau rhwng cenedlaethau a hyrwyddo lles cymdeithasol.
• Cefnogi yn siop gymuned Maesincla, datblygu sgiliau gwasanaeth cwsmer a chyfrifoldeb cymunedol.
• Pontio'r cenedlaethau – gweithgareddau sy'n cysylltu pobl ifanc â'r henoed i feithrin dealltwriaeth a chydlyniant cymdeithasol.
Mae'r lefel uchel o gyfranogiad yn awgrymu bod disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu hyder, sgiliau rhyngbersonol a chysylltiad â'u cymuned ac fod yn gweithgareddau'n cefnogi lles emosiynol ac yn gallu lleihau teimladau o unigrwydd neu ddadrithiad.
Mae'r patrwm hwn yn dangos bod y gefnogaeth a gynigir gan y tîm yn helpu disgyblion i gymryd rhan mewn profiadau cadarnhaol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Misol

Ellen Rowlands (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)



Mae disgyblion Cynradd yn caffael iaith i'r lefel hon yn llwyddiannus iawn gan siarad yn ddealladwy, ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml a chyfleu gwybodaeth. Mae'r adborth gan ddisgyblion ar ddiwedd y cwrs yn dangos eu bod wedi mwynhau eu hamser yn y canolfannau yn fawr ac yn falch o'u cynnydd.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)



Mae'r gostyngiad bychan hwn yn adlewyrchu perfformiad cohort penodol gyda phroffil anghenion cymhleth ac nid yw'r canlyniadau hyn yn dangos patrwm cyson dros amser.
Bu staff y Gyfundrefn yn gweithio'n agos â'r ysgolion i ddarparu tystiolaeth ar gyfer CDU ac i ymateb i dargedau penodol y disgyblion drwy gydol y cwrs.
Roedd perfformiad y dysgwyr i gyd yn dangos cynnydd clir a chyflym, gyda thystiolaeth amlwg o sawl nodwedd Lefel 2 ym mhob achos. Serch hynny, roedd cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys anghenion dysgu penodol ac amgylchiadau teuluol cymhleth, yn ddylanwad ar rai lefelau terfynol.
Mae'r gefnogaeth yn y canolfannau ac yn yr ysgolion yn parhau.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Canolfannau Iaith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)



Erys y canlyniadau'n gyson ardderchog. Mae disgyblion Uwchradd yn caffael iaith i'r lefel hon yn llwyddiannus iawn gan siarad yn ddealladwy, ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml a chyfleu gwybodaeth. Mae ymatebion disgyblion mewn holiaduron ar ddiwedd y cwrs yn dangos eu bod yn mwynhau eu cyfnod yn y canolfannau, ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant a'u cynnydd.

Chwarterol — Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


Canolfannau laith

Pwrpas: Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan laith (Uwchradd)



Mae'r ganran hon yn seiliedig ar berfformiad cohort bychan o ddisgyblion gyda phroffil anghenion cymhleth. Roedd hwn yn grŵp neilltuol o ran eu hanghenion dysgu, ac nid yw'r canlyniadau'n adlewyrchu patrwm perfformiad arferol nac unrhyw duedd dros dreigl amser.
Mewn ymateb, mae staff y Gyfundrefn wedi darparu cyfres o wersi cefnogi wedi eu teilwra'n benodol i anghenion y disgyblion nad oedd yn cyrraedd holl ofynion Lefel 2 ac mae'r gefnogaeth yn y canolfannau ac yn yr ysgolion yn parhau. Roedd perfformiad dau ddisgybl o fewn y cohort hwn yn arbennig o gryf, gan arddangos holl nodweddion Lefel 3 a pherfformiad disgybl arall ar frig Lefel 2.

Chwarterol — Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd



Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd



Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o bynciau Blwyddyn 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o athrawon cynradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

Y Gymraeg

Pwrpas: Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o athrawon uwchradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol

Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.



Mae'r ystadegau'n dangos bod cyfran sylweddol o bobl ifanc yn mynegi awydd i barhau i fynychu sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu lefel uchel o ymgysylltiad a bodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth, ac yn awgrymu bod y sesiynau'n cael eu gweld fel rhai perthnasol, gwerthfawr ac ymatebol i'w hanghenion. Mae'r mesur hwn hefyd yn ddangosydd pwysig o gynaladwyedd y gwasanaeth a'i allu i feithrin perthnasoedd hirdymor gyda phobl ifanc.

Cesglir y wybodaeth hon gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd sesiynau drwy adborth uniongyrchol, gan ofyn cwestiynau syml ynghylch bwriad pobl ifanc i ddychwelyd. Defnyddir trafodaethau anffurfiol, dulliau adborth strwythuredig a holiaduron byr i gasglu'r data, a chaiff hyn ei ategu gan fewnbwn o fforymau llais pobl ifanc a dulliau ymgysylltu eraill er mwyn darparu darlun ehangach o'u hymrwymiad a'u diddordeb.

Mae'r canlyniadau'n cael eu dylanwadu gan sawl ffactor, gan gynnwys safon a pherthnasedd y gweithgareddau, cryfder y berthynas rhwng gweithwyr a phobl ifanc, cysondeb y ddarpariaeth, a dylanwadau allanol megis ymrwymiadau ysgol, materion cludiant neu amgylchiadau personol. O gymharu â'r mis neu'r chwarter blaenorol, mae'r ffigyrau'n parhau'n sefydlog, gyda thueddiad amlwg fod pobl ifanc sy'n mynychu'n rheolaidd neu sydd â chyfle i ddylanwadu ar gynnwys sesiynau yn fwy tebygol o nodi eu bwriad i barhau i gymryd rhan.

Er mwyn cynnal a chryfhau'r perfformiad hwn, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a datblygu'r ddarpariaeth, sicrhau amrywiaeth o weithgareddau sy'n adlewyrchu diddordebau lleol, a cheisio cynnal cysondeb staff i feithrin perthnasoedd cadarn. Pe bai unrhyw ostyngiad yn cael ei nodi, bydd camau'n cynnwys adolygu amseriad a lleoliad sesiynau, gwella cyfathrebu ynghylch cyfleoedd sydd ar gael, a defnyddio adborth pobl ifanc i ail-lunio'r ddarpariaeth er mwyn hybu ymgysylltiad parhaus.

Misol — Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth



Mae'r ystadegau'n dangos bod canran sylweddol o bobl ifanc yn adrodd gwelliant yn eu llesiant ar ôl cymryd rhan yn sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae hyn yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles emosiynol, cymdeithasol a phersonol, drwy ddarparu amgylchedd diogel lle gallant fynegi teimladau, magu hyder a meithrin perthnasoedd iach.
Cesglir y mesur hwn gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd sesiynau drwy gyfuniad o drafodaethau adborth ffurfiol ac anffurfiol, ynghyd â dulliau hunanasesu megis graddfeydd llesiant syml (er enghraifft, sut mae person ifanc yn teimlo cyn ac ar ôl sesiwn). Ategir hyn gan ddata ansoddol o holiaduron, nodiadau arsylwi gweithwyr ieuenctid a mewnbwn o fforymau llais pobl ifanc, gan ddarparu darlun ehangach o'r newidiadau a brofir.

Mae'r canlyniadau'n cael eu dylanwadu gan sawl elfen, gan gynnwys cynnwys a strwythur y sesiynau, safon y berthynas rhwng gweithwyr a phobl ifanc, lefel eu hymgysylltiad, a ffactorau allanol fel pwysau addysgol, amgylchiadau teuluol neu heriau iechyd meddwl ehangach. O gymharu â'r mis neu'r chwarter blaenorol, mae'r canlyniadau'n parhau'n gyson, gyda thueddiad clir o welliant mwy amlwg ymhlith pobl ifanc fregus neu'r rhai sy'n mynychu'n rheolaidd dros gyfnod. Yn benodol, mae sesiynau sy'n canolbwyntio ar sgiliau bywyd, llesiant emosiynol a gweithgareddau grŵp cefnogol yn tueddu i greu'r effaith fwyaf cadarnhaol.

Er mwyn cynnal a datblygu'r perfformiad hwn ymhellach, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i roi blaenoriaeth i lesiant wrth gynllunio a chyflwyno sesiynau, gan bwysleisio dulliau sy'n seiliedig ar berthynas, gwrando gweithredol a chefnogaeth emosiynol briodol. Pe bai unrhyw ostyngiad yn cael ei nodi, bydd camau'n cynnwys adolygu ffocws a strwythur y sesiynau, cryfhau'r defnydd o offer mesur llesiant, ac ehangu cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at siapio'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ymatebol i'w hanghenion.

Misol — Steffan Williams (ADDYSG)


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol



Dros y tri mis diwethaf, mae canran y bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion o fewn eu cynlluniau personol wedi cynyddu ychydig ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r cynnydd hwn yn arwydd cadarnhaol o effaith barhaus y gefnogaeth a ddarperir, ac yn dangos bod y dull cynllunio person-ganolog yn parhau i gefnogi cynnydd mesuradwy ymhlith pobl ifanc.
Mae'r cynlluniau personol hyn yn cael eu cyd-greu gyda phob person ifanc, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau unigol. Maent yn cynnwys targedau tymor byr a hirdymor, gan alluogi pobl ifanc i weld cynnydd graddol a datblygu ymdeimlad o berchnogaeth dros eu taith ddatblygu. Mae'r broses hon yn cryfhau cymhelliant, yn meithrin hyder ac yn darparu fframwaith clir ar gyfer adolygu cynnydd yn rheolaidd.
Yn ystod y cyfnod diweddar, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu a gweithredu system gofnodi ddigidol newydd, ynghyd â system Microsoft Power BI er mwyn gallu dadansoddi a gwerthuso'r data a gesglir yn fwy effeithiol. Mae hyn wedi hwyluso'r broses o olrhain cynnydd yn erbyn targedau unigol, adnabod patrymau a thueddiadau, a chynhyrchu adroddiadau clir sy'n dangos effaith y ddarpariaeth.
O ganlyniad, mae'r gwasanaeth bellach mewn sefyllfa gryfach i ddangos tystiolaeth gadarn o ganlyniadau a chyflawniadau pobl ifanc, gan sicrhau bod cynllunio, monitro a gwerthuso yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ac yn cyfrannu at welliant parhaus.

Misol

Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)



Mae'r ganran o bobl ifanc sydd wedi dangos gwelliant yn eu llesiant dros y tri mis diwethaf wedi cynyddu ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r duedd gadarnhaol hon yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn parhau i gael effaith fuddiol ar lesiant pobl ifanc, ac yn dangos arwyddion o adferiad yn dilyn amrywiadau tymhorol blaenorol.

Caiff gwelliant mewn llesiant ei fesur drwy raglen Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale (WEMWBS), sef offeryn cydnabyddedig sy'n galluogi monitro lles meddwl yn y boblogaeth gyffredinol, yn ogystal â gwerthuso effaith prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n anelu at wella llesiant meddyliol. Mae defnyddio'r offeryn hwn yn sicrhau dull safonol, dibynadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Er bod amrywiadau bach yn gallu digwydd o dymor i dymor, mae'r cynnydd presennol yn cyd-fynd â'r patrwm blynyddol a welir yn hanesyddol, lle mae lefelau llesiant yn tueddu i wella wrth symud allan o fisoedd y gaeaf pan fo pwysau ychwanegol yn aml yn wynebu pobl ifanc. Mae hyn yn adlewyrchu natur ddeinamig llesiant, sy'n gallu newid drwy gydol y flwyddyn yn ôl yr amgylchiadau a'r anghenion unigol.

O ganlyniad, mae'r duedd bresennol yn gadarnhaol ac yn rhoi sicrwydd bod y ddarpariaeth yn parhau i ymateb yn briodol i anghenion pobl ifanc. Bydd y ganran yn parhau i gael ei monitro'n agos dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod y gwelliant hwn yn cael ei gynnal, a bod unrhyw newidiadau pellach yn cael eu hadnabod a'u hystyried yn brydlon.

Misol Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: % o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir



Mae'r ystadegau'n dangos bod cyfran uchel iawn o bobl ifanc yn parhau i nodi eu bod yn mwynhau darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae hyn yn awgrymu bod y cynnig yn dal yn berthnasol, yn apelio at bobl ifanc ac yn diwallu eu hanghenion ar draws yr ardaloedd. Mae'r lefel gyson o foddhad yn adlewyrchu safon y gwaith ymgysylltu a'r perthnasoedd cryf sy'n cael eu meithrin rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc.

Cesglir y mesur hwn gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd pob sesiwn drwy adborth uniongyrchol gan bobl ifanc, gan ddefnyddio dulliau syml megis systemau sgorio, trafodaethau byr mewn grwpiau neu weithgareddau adborth anffurfiol. Ategir hyn gan ddata o holiaduron ffurfiol, fforymau llais pobl ifanc a dulliau ymgysylltu eraill, sy'n cynnig darlun ehangach a mwy cynhwysfawr o brofiadau pobl ifanc.

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn, gan gynnwys safon a pherthnasedd y gweithgareddau, gallu'r gweithwyr i addasu sesiynau i anghenion lleol, cryfder y berthynas a'r ymddiriedaeth gyda phobl ifanc, ynghyd â chysondeb y ddarpariaeth. O gymharu â'r mis neu'r chwarter blaenorol, mae'r ffigyrau'n parhau'n sefydlog, gyda thueddiad clir o foddhad uchel mewn lleoliadau lle mae presenoldeb rheolaidd a chyfleoedd gwirioneddol i bobl ifanc gyfrannu at lunio'r ddarpariaeth. Yn benodol, mae sesiynau sy'n cael eu cyd-gynllunio gyda phobl ifanc yn derbyn yr adborth mwyaf cadarnhaol.

Er mwyn cynnal y safonau hyn, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i roi llais canolog i adborth pobl ifanc wrth gynllunio sesiynau, sicrhau cefnogaeth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i weithwyr, a rhannu arferion effeithiol ar draws y timau. Pe bai unrhyw ostyngiad mewn perfformiad yn cael ei nodi, bydd camau'n cynnwys adolygu cynnwys sesiynau, ehangu'r dulliau o gasglu adborth ansoddol, a gweithio'n agos gyda phobl ifanc i ail-ddylunio'r ddarpariaeth lle bo angen.

Misol Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed



Mae'r data ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos twf sylweddol yn nifer y cyfeiriadau i'r prosiect, gyda galw cynyddol am y ddarpariaeth. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, mae nifer o bobl ifanc bellach ar restr aros oherwydd cyfyngiadau capasiti presennol y prosiect. Mae hyn yn dystiolaeth glir o'r angen am y gwasanaeth a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael yn y gymuned.
Casglwyd y data drwy gofnodion mewnol y gwasanaeth, yn seiliedig ar yr unigolion sydd wedi cael eu cynnwys yn ffurfiol ar lwyth achos y gweithwyr ieuenctid ar ôl cwblhau'r broses gyfeirio berthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y ffigurau'n adlewyrchu ymgysylltiad gweithredol a chefnogaeth strwythuredig yn hytrach na chyswllt anffurfiol yn unig.

Fodd bynnag, rhagwelir heriau pellach yn y dyfodol agos, gan fod un o rolau staff y prosiect yn dod i ben yn dilyn diwedd y cyllid a dderbyniwyd drwy'r SPF. Bydd hyn yn debygol o gael effaith ar gapasiti'r prosiect i ymateb i'r galw cynyddol ac i leihau'r rhestr aros, oni bai y sicrheir ffynhonnell gyllid amgen.
Mae'n bwysig nodi hefyd fod 85% o'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y prosiect yn unigolion â hanes o bresenoldeb ysgol isel iawn, wedi dadgofrestru o'r ysgol, neu'n ddisgyblion EBSA. Mae hyn yn tanlinellu natur dargededig a chynhwysol y ddarpariaeth, a'i rôl allweddol wrth gefnogi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o addysg a gwasanaethau prif ffrwd.
O ystyried bod y niferoedd wedi codi, y ffocws yw cynnal y lefelau presennol o berfformiad da. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy barhau i feithrin perthnasoedd cadarn gyda phartneriaid atgyfeirio, monitro llwythi achos unigol yn rheolaidd i osgoi gorbwysau ar weithwyr, a sicrhau bod prosesau cyfeirio'n parhau'n glir ac yn effeithiol. Os bydd arwyddion o lithro mewn perfformiad yn y dyfodol, bydd camau'n cael eu cymryd i adolygu capasiti'r tîm a blaenoriaethu'r achosion mwyaf brys yn unol ag anghenion y bobl ifanc.

Misol Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o achrediadau mae'r bobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)



Dros y cyfnod adrodd diweddaraf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achrediadau a gwblhawyd gan bobl ifanc drwy ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r ffigwr presennol yn uwch na'r hyn a adroddwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddangos tuedd gadarnhaol o ran ymgysylltiad, ymrwymiad a chynnydd personol ymhlith pobl ifanc ar draws y sir.

Mae'r achrediadau a gwblhawyd yn cynnwys cymwysterau Dug Caeredin, unedau Agored Cymru, a modiwlau drwy Virtual College. Mae'r ystod yma o gymwysterau yn adlewyrchu amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael, gan alluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd, sgiliau gwaith, hyder, arweinyddiaeth a gwytnwch mewn cyd-destun anffurfiol ond strwythuredig.

Mae'r cynnydd yn y ffigyrau yn dystiolaeth o waith pwrpasol staff i integreiddio achredu i weithgareddau wythnosol a phrosiectau penodol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn gweld gwerth clir i'w cyfranogiad. Yn bwysig, mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr ag ethos y Gwasanaeth Ieuenctid o gynnig addysg anffurfiol o safon uchel a chyfleoedd amgen i bobl ifanc lwyddo y tu allan i'r cymwysterau academaidd craidd.

Yn ogystal, mae'r data yn dangos bod achredu yn arf effeithiol i gynyddu cymhelliant ac ymdeimlad o gyflawniad ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rhai nad ydynt bob amser yn ffynnu mewn lleoliadau ffurfiol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i adeiladu ar y momentwm hwn drwy ehangu'r cynnig achredu a sicrhau bod cyfleoedd clir ar gael ar draws pob ardal gymunedol.

Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid



Cyfranogiadau
Ionawr - 1897
Chwefror-2067
Mawrth- 1987

Unigolion
Ionawr-301
Chwefror-264
Mawrth-289

Mae'r data perfformiad ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos bod nifer y cyfranogiadau a'r unigolion unigryw sy'n mynychu darpariaeth clybiau cymunedol y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau'n gyson uchel drwy gydol y cyfnod. Er y gwelwyd cynnydd pellach yn ystod y mis mwyaf diweddar, mae'r ffigyrau cyffredinol wedi aros ar lefel gadarn, gan adlewyrchu'r ffaith bod y clybiau cymunedol bellach wedi'u sefydlu'n llawn a bod nifer o glybiau newydd wedi agor yn ystod y cyfnod.
Ar hyn o bryd, mae'r ffigyrau'n gyffredinol yn cyfateb i ddata'r un cyfnod yn y blynyddoedd blaenorol, gan ddangos sefydlogrwydd a chryfder yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, disgwylir i'r niferoedd ostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod nesaf gan fod y clybiau cymunedol yn cau dros gyfnod yr haf tan fis Medi. Bydd y gostyngiad hwn felly yn adlewyrchu newid tymhorol yn y ddarpariaeth yn hytrach nag unrhyw ostyngiad mewn galw neu ymgysylltiad.
Mae'r data wedi'i gasglu drwy gofrestri presenoldeb a gwblheir gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd pob sesiwn clwb cymunedol. Mae'r dull hwn yn sicrhau cysondeb wrth gasglu gwybodaeth ac yn galluogi monitro effeithiol o dueddiadau perfformiad dros amser, gan ddarparu cyd-destun clir ar gyfer dehongli unrhyw amrywiadau tymhorol.
Yn ei gyfanrwydd, mae'r data'n dangos perfformiad sefydlog a chryf dros y tri mis diwethaf, gyda gostyngiad rhagweladwy yn y cyfnod nesaf oherwydd trefniadau tymhorol y ddarpariaeth, ac mae disgwyl i'r niferoedd gynyddu eto ar ôl ailagor y...

Misol — Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"


Gwasanaeth Ieuenctid

Pwrpas: Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

laith

Multiple sele...

Mesurydd: Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed



Cyfranogiadau
Ionawr- 1002
Chwefror-1126
Mawrth- 986
Unigolion
Ionawr-283
Chwefror-289
Mawrth-223

Mae'r data perfformiad ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos bod lefelau cyfranogiad a nifer yr unigolion unigryw sydd wedi manteisio ar y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau'n gyson uchel, gan gynnal y momentwm cadarnhaol a welwyd yn flaenorol. O'u cymharu â'r un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r lefelau hyn yn dal yn uwch, gan adlewyrchu galw sefydlog a chryf am ddarpariaeth y gwasanaeth, ynghyd â lefel uchel o ymgysylltiad gan bobl ifanc ar draws ystod eang o weithgareddau a lleoliadau.

Casglwyd y ffigyrau'n gyson drwy gofrestru presenoldeb a gwblheir gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd pob sesiwn. Mae'r dull casglu hwn yn sicrhau bod y data'n adlewyrchu presenoldeb gwirioneddol ac yn darparu sail gadarn ar gyfer monitro perfformiad a thueddiadau dros amser, gan gryfhau hyder yn ddibynadwyedd y canlyniadau.

Mae nifer o ffactorau allweddol wedi cyfrannu at gynnal y safonau uchel hyn. Mae'r holl ddarpariaethau ysgol bellach wedi'u sefydlu'n llawn, gan sicrhau mynediad cyson a rheolaidd i bobl ifanc. Yn ogystal, mae prosiectau cymunedol newydd wedi ehangu'r ddarpariaeth i ardaloedd a grwpiau ychwanegol, gan gynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan. Mae gweithgareddau ychwanegol, megis tripiau llesiant penodol, hefyd wedi cyfrannu at gynnal lefelau cyfranogiad cadarn.

Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos perfformiad sefydlog a chryf dros y cyfnod dan sylw, gan adlewyrchu effaith barhaus datblygiad y ddarpariaeth a'r buddsoddiad parhaus mewn gwaith ieuenctid.

Misol — Steffan Williams (ADDYSG)

"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"

Hyfforddiant Mandadol

% Staff yr Adran Addysg (gan gynnwys y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu	% Staff yr Adran Addysg (gan gynnwys y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV (Cam-drin Domestig)
34.80%	**48.00%**

% Staff yr Adran Addysg (gan eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu	% Staff yr Adran Addysg (gan eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV (Cam-drin Domestig)
96.80%	**94.00%**

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn cynnwys dros 600 o staff mewn swyddi yn y Gwasanaethau Ategol. Mae nifer o staff y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau wedi derbyn hyfforddiant diogelu sylfaenol gan yr ysgol.

O'r swyddogion sy'n weddill sydd heb gwblhau'r hyfforddiant (ac yn eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau), mae'r mwyafrif i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch hirdymor, mamolaeth neu wedi'u gwahardd.

Rydym yn cydweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn gallu cwblhau'r modiwlau hyfforddiant mandadol.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Economi a Chymuned
DYDDIAD	18 Mehefin 2026
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi a Chymuned
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Graffu Perfformiad Gwasanaethau'r Adran 2025/26
AWDUR	Sioned E Williams
AELOD CABINET	Cyng. R Medwyn Hughes

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu perfformiad Gwasanaethau o fewn yr Adran.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn 2025/26, yn ogystal ar fesuryddion perfformiad Gwasanaethau'r Adran. Mae'r holl faterion yn cael eu herio gennyf drwy'r flwyddyn, ac rwyf yn fodlon gyda'r perfformiad.

4. Cefndir / Cyd-destun

Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

4.1 Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd pedwar prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 mae'r Adran Economi a Chymuned yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae tri o'r prosiectau hyn yn adran Gwynedd Lewyrchus o'r Cynllun, sydd yn anelu i gryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng. Ond mae'r cyfrifoldeb i arwain ffrwd gwaith o fewn prosiect 'Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau' yn rhaglen Gwynedd Ofalgar wedi trosglwyddo i'r Adran ers 2025.

4.2 O'r wybodaeth, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y prosiectau hyn dros y flwyddyn diwethaf. Y prif risg sy'n gyffredin i'r pedwar cynllun yma ydi fod y cronfeydd sydd wedi ariannu'r gwaith ers 2023 wedi dod i ben diwedd Mawrth 2026 ac ansicrwydd am gyllidebau'r Llywodraeth fydd yn dod yn eu lle yn parhau. Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y materion canlynol:

Prosiect Blaenoriaeth: Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy

4.3 Mae Cynllun Gweithredu Gwynedd & Eryri 2035 (G&E2035) wedi ei roi ar waith i gefnogi economi ymweld gynaliadwy yn y Sir – hynny ar sail y prif bwyntiau godwyd yn yr Arolwg Trigolion, adborth mynychwyr yr uwchgynhadledd fis Chwefror 2025 a thrafodaethau yn strwythurau Partneriaeth G&E2035 ac Ardal Ni.

4.4 Bu i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll)Etc. Cymru ddod i rym fis Medi 2025. Mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda siroedd Conwy a Môn ac Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod ein gweithdrefnau ardrawiad effaith, ymgynghori a phenderfynu yn cyd-fynd lle'n bosib. Cafodd adroddiad ar y pwnc ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu fis Chwefror 2026 ac yna i'r Cyngor Mis Mai 2026 pan benderfynwyd mynd allan i ymgynghori ar sefydlu Ardoll Ymwelwyr i Wynedd.

4.5 Mae grantiau gwerth bron i £300,000 wedi eu cynnig i 69 o sefydliadau ar draws Gwynedd yn y flwyddyn diwethaf i gefnogi gweithgareddau diwylliannol, digwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo byw'n iach. Mae manylion llawn prosiect Diwyllesiant yma - Prosiect Diwyllesiant

4.6 Cynhaliwyd gweithdy diwylliant yn Neuadd Dwyfor mis Hydref i gyd-ddatblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd i'r dyfodol. Bydd y weledigaeth a'r amcanion yn cael eu mireinio a'u cadarnhau dros y misoedd nesaf ac yn gosod cyfeiriad ac uchelgais i'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ymchwil i gyfraniad diwylliant i economi a llesiant cymunedau Gwynedd fydd yn cyfrannu at gynllun gweithredu diwylliant.

4.7 Rwy'n hynod falch o weld cynnydd yn ein prosiect Llewyrch o'r Llechi. Mae gweithgareddau'r prosiect bellach wedi denu dros £35m o fuddsoddiad i gymunedau llechi Gwynedd. Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol. Fe nodwch yn y flwyddyn diwethaf fod 68 o ddigwyddiadau wedi eu cynnal yn y cymunedau gyda 3,100 o bobl wedi mynychu a dysgu mwy am werth ein treftadaeth yn y cymunedau. Agorwyd adeilad Yr Aelwyd ym Mlaenau Ffestiniog, dad-orchuddiwyd celf cyhoeddus yn ein trefi a'n pentrefi llechi, cwblhawyd gwelliannau stryd ac arwyddo ac mae gwaith adeiladu ar ganolfan ymwelwyr newydd Parc Padarn wedi ei gwblhau.

Prosiect Blaenoriaeth: Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi

4.8 Mae'r prosiect wedi cyflawni holl gerrig milltir a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn diwethaf. Mae £8.9m wedi ei fuddsoddi ar brosiectau sy'n cyfrannu at hybu ac adfywio canol trefi Gwynedd ar draws y sir. Fe nodwch o Atodiad 1 yr ystod o brosiectau ar draws Gwynedd sydd wedi derbyn buddsoddiad. Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn drwy dargedu cronfeydd gan y Llywodraeth ac felly mae'r gwaith wedi ei gyfyngu i ganllawiau'r rhaglenni grant sydd yn bennaf ar gyfer gwella gwedd a golwg adeiladau canol tref. Mae cwestiwn wedi ei godi am fuddsoddiadau amgen mewn canol trefi allasai gael effaith ar fwrlwm canol tref. Yn dilyn y drafodaeth yn y

cyfarfod herio a chefnogi perfformiad, dwi wedi gofyn i'r Adran ystyried gwneud gwaith ar pa fesurau fyddai yn cael yr effaith fwyaf ar fwrlwm canol tref i'r dyfodol.

4.9 Eleni, fel rhan o Cynllun Adfywio Gwynedd Ni, sefydlwyd Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned fel cynllun peilot a gwahoddwyd cynigion am gyfraniad gan pob un o'r Cynghorau hyn. Gyda chyllideb o £370k, mae grantiau wedi eu cynnig i 55 Cyngor Tref / Cymuned Gwynedd. Mae natur y prosiectau yn amrywio ac yn cynnwys cyfres o furluniau o amgylch terfi/ pentrefi, offer chwarae newydd mewn parciau sydd o dan rheolaeth Cynghorau lleol, dodrefn stryd yn cynnwys raciau cadw beics, meinciau, paneli gwybodaeth, gwelliannau i ganolfannau cymunedol a chynlluniau tirweddu.

4.10 Bydd cyfle i'r Pwyllgor graffu ymhellach ar weithgaredd yr Adran wrth gefnogi adfywio canol trefi mis Gorffennaf.

Prosiect Blaenoriaeth: Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

4.11 Fe nodwch o Atodiad 1 fod £1.3 miliwm wedi ei dargedu o gronfeydd Llywodraeth i sefydlu cronfa i gefnogi 118 o fusnesau Gwynedd yn 2025/26. Mae rhaglen o sesiynau galwch heibio ac Arolwg Busnes wedi ei gynnal dros y flwyddyn i ddeall yn well y rhwystrau sy'n wynebu mentrau, gyda pecyn o sesiynau gwybodaeth / hyfforddiant wedi eu darparu mewn ymateb.

4.12 Mae mabwysiadu strategaeth economaidd newydd yn y flwyddyn diwethaf wedi bod yn gam allweddol er mwyn sicrhau fod blaenoriaethau Gwynedd yn cael eu cyflawni. Bydd y Strategaeth yn gosod cyfeiriad clir i raglen fuddsoddi'r Cyngor a phartneriaid i'r dyfodol. Un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn rhaglen waith 2025/26 ydi sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd. Dwi'n falch o adrodd fod cynnydd da ar ddatblygu'r achos busnes ar gyfer sefydlu Canolfan Arloesi newydd ar safle'r Parc Gwyddoniaeth, i warchod, cynnal a chreu swyddi newydd sy'n talu'n dda yng Ngwynedd. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo £10miliwn tuag at y cynllun yn ddibynnol ar gynnwys yr achos busnes manwl. Bydd adroddiad mwy manwl ar y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yma maes o law.

4.13 Yn ogystal, fe nodwch o Atodiad 1 fod cymorth wedi ei ddarparu i 255 o drigolion Gwynedd gael gwaith, gyda 130 wedi cael cefnogaeth i'w galluogi i ennill cyflog gwell; datblygu sgiliau a goresgyn rhwystrau.

4.14 Yn olaf, fe nodwch fod gwaith adeiladu wedi cychwyn i godi 10 uned gwaith newydd yn Minffordd. Rhagwelir bydd yr unedau yn barod yn hydref 2026.

Prosiect Blaenoriaeth: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

4.15 Fe nodwch o Atodiad 1 fod trefniadau Hwb bellach ar waith ym mhob un o'r 13 ardal ar draws y sir. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu cefnogaeth mewn 3 ardal sef Tywyn, Abermaw a Blaenau Ffestiniog, drwy ymgorffori trefniadau'r Hwb o fewn gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd. Fel rhan o'r model newydd o gefnogaeth gymunedol, mae holl staff Llyfrgelloedd Gwynedd wedi dechrau ar hyfforddiant. Mae'r Hwyluswyr Lles hefyd wedi sefydlu rhaglen o

sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol, ynghyd â digwyddiadau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gymorth costau byw a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael.

4.16 Mae 6 rownd o grantiau bwyd wedi eu cynnal i gefnogi cynlluniau bwydo cymunedol ar draws y sir. Hyd yma mae grantiau gwerth £217,743 wedi eu dyrannu i grwpiau cymunedol a banciau bwyd i gryfhau cefnogaeth lleol i drigolion. Dwi'n gweld fod y trefniadau newydd yn mynd i arwain at gefnogaeth mwy sefydlog, cyson ac integredig i drigolion mwyaf bregus Gwynedd.

Gwaith dydd i ddydd yr Adran

4.17 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn Atodiad 2. Mae'n cael ei graffu yn rheolaidd, gyda cyfarfodydd wedi eu trefnu dros y flwyddyn i fy ngalluogi i gefnogi a herio gwasanaethau ar y perfformiad. Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Pwyllgor i'r materion canlynol:

Gwasanaethau Hamdden - Adnoddau Hamdden Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon, Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon.

4.18 Mae'r gwaith buddsoddi grant ym Mharc Padarn a Glynllifon yn parhau. Ym Mharc Padarn mae gwelliannau i'r Inclein, Bloc Croeso newydd a gwelliannau i'r maes parcio bellach wedi eu cwblhau; ynghyd â gwelliannau i rwydwaith llwybrau ym Marc Glynllifon. Mae cyfartaledd boddhad cwsmer y Parciau Gwledig yn 88%, ond mae hefyd werth nodi fod gwaith ehangach yn digwydd ym Mharc Padarn, gan gynnwys buddsoddiad Amgueddfa Lechi Cymru sydd ar gau ar hyn o bryd.

4.19 Gwelir fod nifer ymweliadau cronnus canolfannau hamdden Byw'n Iach dros y flwyddyn yn 964,980 – sydd 5.6% yn llai na 2024/25. Fel a nodir yn yr atodiad, mae amryw o resymau am hyn, yn cynnwys cynnydd mewn nifer cwsmeriaid sydd yn talu drwy ddebyd uniongyrchol ac felly ddim yn cael eu cofnodi yn yr un ffordd; a newid hefyd i sut oedd nifer ymweliadau oedd yn hanesyddol wedi eu cofnodi drwy 'luosydd' defnydd clwb. Ystyrir fod y drefn newydd, er nad yn gymharol efo data hanesyddol, yn fwy cywir ac yn sail gwell i fesur i'r dyfodol.

4.20 Yn ogystal, mae llai o ddefnydd gan ysgolion, a hynny er gwaetha ymdrech i annog mwy o ymweliadau ysgol. Rwy'n parhau i fod yn bryderus fod nifer disgyblion Gwynedd sydd yn cael gwersi nofio yn ein canolfannau yn gostwng. Yn dilyn trafodaethau gyda Byw'n Iach a'r Adran Addysg, llythyrwyd gyda cyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd gan ofyn iddynt roi ystyriaeth bellach i'r risgiau a'r anghyfartaledd ar draws y sir. Mae Byw'n Iach hefyd yn ystyried datblygu pecynnau penodol ar gyfer ysgolion fyddai o bosib yn gwneud ymweliadau i'r canolfannau hamdden yn fwy atyniadol a chynnig gwerth am arian pellach.

4.21 Mae ffigurau Boddhad Cwsmer wedi aros yn eithaf tebyg dros y flwyddyn diwethaf gyda gostyngiad bychan o 84.5% i 84.2%. Ond fe nodwch o'r atodiad fod rhaglen o welliannau wedi cael eu cyflawni a'u cynllunio er mwyn ymateb i'r sylwadau a gwella profiad defnyddwyr. Dros y flwyddyn misoedd diwethaf llwyddwyd i ddenu grantiau er mwyn gwneud gwelliannau i ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Dwyfor, gwelliannau i Ganolfan Tenis Arfon, adnewyddu cae 3G Tywyn, a gwelliannau wedi

eu cwblhau ar gyfer caeau 3G yn Nolgellau a Porthmadog; ynghyd a gwelliannau trin dwr yn Nghanolfannau Bala ac Arfon.

4.22 Mae hyfywedd systemau pwll nofio Canolfan Byw'n Iach Bangor yn fy mhryderu. Mae'r Adran wedi dyrchafu lefel y risg ar ei gofrestr risg ac yn gweithio'n agos gyda Cwmni Byw'n Iach a Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor i adnabod mesurau lliniaru tymor byr a chynlluniau buddsoddiad hir dymor. Byddwn yn adrodd ar gynnydd y gwaith yma dros y flwyddyn.

4.23 Fe nodwch o'r Atodiad fod 88% o gwsmeriaid Harbyrau Gwynedd a 70% o ymatebwyr arolwg boddhad cwsmer traethau o'r farn fod eu profiad yn 'dda iawn' neu 'dda'. Mae'r adborth dderbynnir o'r arolygon yma yn ddefnyddiol iawn i alluogi'r gwasanaeth ymateb gyda Adrannau eraill o'r Cyngor.

4.24 Cynyddodd nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 9% yn ein harbyrau yn 2025/26 o'i gymharu a llynedd, sef cynnydd o 250 i 273 (dim yn cynnwys Hafan Pwllheli a Doc Caernarfon). Fe nodwch hefyd fod angorfeydd Hafan Pwllheli wedi bod 97% yn llawn yn 2025/26, gyda 86% o'r angorfeydd yn yr harbwr allanol yn llawn dros yr un cyfnod.

4.25 Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o stormydd a chyfnodau o wyntoedd cryfion a gafodd effaith sylweddol ar yr harbyrau. Torrodd rhai cychod yn rhydd o'u hangorfeydd, suddodd eraill a difrodwyd nifer o gymhorthion mordwyo. Gwelwyd tirlithriadau hefyd a digwyddiad llygredd olew. Ymatebodd swyddogion y Gwasanaeth ar fyr rybudd, yn aml y tu allan i oriau gwaith arferol, i gyfyngu neu arbed difrod pellach.

4.26 Dros y flwyddyn 2025/26 mae angorfeydd Hafan Pwllheli wedi bod yn 96% yn llawn ac 86% yn yr Harbwr allanol. Nid yw hyn yn newid o 2024-25 ar gyfer yr Hafan. Mae pryderon yn parhau ynghylch lefelau siltio yn harbwr Pwllheli. Dros y misoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth, gyda chefnogaeth technegol YGC, wedi symud ymlaen gyda gwaith rhagbaratoi a thechnegol pellach wedi ei wneud fel rhan o strategaeth garthu.

Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Celfyddydau a Llyfrgelloedd

4.27 Fe nodwch fod 91% o ddefnyddwyr Gwasanaeth Archifau yn 'fodlon iawn' gyda'r gwasanaeth. Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, ond o'r rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau am yr oriau agor. Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Gwladol yn sgil toriadau nôl yn 2016. Sicrhaodd y Gwasanaeth grant £341,000 gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn Archifdy Caernarfon ac Archifdy Dolgellau. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2026 a bydd yn gwella cadwraeth ynni'r adeiladau a'r profiad a'r awyrgylch i ddefnyddwyr yn yr ystafelloedd ymchwil.

4.28 Dros y flwyddyn cafwyd adborth cadarnhaol, rhwng 97-100%, gan bartneriaid am y gwasanaeth celf cymunedol, yn seiliedig ar brosiectau fel Porthi Dre, Criw Celf i blant 7-11 oed; Stiwdio Lles i gefnogi bobl ifanc 18-30 oed (cynllun celf ar bresgripsiwn gyda grant Cyngor Celfyddydau mewn phartneriaeth â Chwmni Fran Wen a

Phrifysgol Bangor); Crefft er Lles i oedolion; Sgwrs a Chân i rai mewn fflatiau gofal gyda Chanolfan William Mathias. Darparwyd grantiau Celfyddydau Cymunedol Noson Allan a Chefnogi'r Celfyddydau, i sicrhau bod cyfleodd drwy Wynedd e.e. yn Croesor, Bangor, Nefyn, Bala a Llanbedr. Rôl bwysig gan y gwasanaeth ydi rhoi cyngor a chefnogaeth i unigolion a sefydliadau ac i annog partneriaethu. Bu cydweithio gyda nifer fel Gwasanaeth Ieuenctid, Cell B, Canolfan Gerdd William Mathias, Theatr Derek Williams, Dawns i Bawb, Theatr y Ddraig, Tîm Oed Gyfeillgar, Grŵp Llywio'r Celfyddydau ac Iechyd, Oriel Ysbyty Gwynedd.

4.29 Fe nodwch o Atodiad 2 fod Canran Boddhad Cwsmer Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn 98% o ran Gofal Cwsmer gyda 90% o'r defnyddwyr yn dweud fod y Llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Ond fe nodwch hefyd mai ddim ond hanner y defnyddwyr sydd bellach yn benthyg llyfr gyda rol y canolfannau yn raddol newid i fod yn fannau cynnes, croesawgar a diogel, sydd yn cyfrannu at wella lles trigolion.

Gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau

4.13 Mae'r gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y flwyddyn diwethaf ar weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn ddibynnol ar arian grant ac mae pob pecyn cymorth ddarperir i bartneriaid, cymunedau a mentrau yn cael eu monitro a gwerthuso yn unol â thelerau'r arianwyr.

5. Ymgynghori

5.1 Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys y cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran 15 Mai 2026.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 Mae'r Gwasanaethau a'r Prosiectau Blaenoriaeth yn gweithredu'r dyletswydd datblygu cynaliadwy - gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Gwneir hyn trwy:

- **Gynnwys** trigolion/defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau a chyflwyno newidiadau;
- **Gydweithio** efo partneriaid lle'n berthnasol;
- Geisio **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol;
- Ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod;
- Ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau **integreiddio.**

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1 Mae pob Gwasanaeth o'r Adran a phrosiect blaenoriaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r dyletswydd i baratoi asesiad effaith nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Defnyddir yr asesiadau hyn er mwyn gwella'r prosiectau a gwasanaethau.

8. Camau Nesaf

8.1 Byddwn yn cymryd sylwadau'r Pwyllgor i ystyriaeth a lle'n berthnasol yn gweithredu er mwyn gwella gwasanaethau

Gwybodaeth Cefndir - Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran

Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Adran a Prosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb)
Economi a Chymuned - Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld gynaliadwy: • Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhan ddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. • Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a	Byddwn wedi gweithredu rhaglen waith Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035 ac wedi targedu adnoddau i hyrwyddo'r amcanion newydd. Byddwn wedi ystyried deddfwriaeth cenedlaethol ar yr Ardoll Ymwelwyr ac wedi ymgynghori trwy Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035. Byddwn wedi hyrwyddo a monitro defnydd 4 Aros-fan ar draws Gwynedd ac wedi gwerthuso'r cynllun peilot	Do Do Do	Cynllun gwaith yn ei le a chronfeydd megis SPF 2 a Chronfa Pethau Bychain, Croeso Cymru wedi i'w targedu o ran adnoddau i weithredu'r amcanion. Trafodaethau wedi eu cynnal gyda busnesau a phartneriaid sector yn Partneriaeth Gwynedd + Eryri 2035. Trafodaethau wedi' cynnal gyda Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn ogystal â Awdurdodau lleol eraill. Adroddiad a Chynnig Ardoll Gwynedd drafft wedi eu trafod yn y Pwyllgor Craffu 12 Chwefror 2026. Adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn Mai 2026 i gymeradwyo proses ymgynghori ffurfiol. Ers Mehefin 2024 a hyd 30/04/26, 3,518 o archebion parcio dros nos wedi eu llogi yn safleoedd Arosfan (1,977 Criccieth / Pwllheli / Caernarfon a 2,654 Llanberis). Achos gorfodaeth wedi cael i ddwyn yn erbyn 96 cerbyd oedd wedi

	sicrhau adnoddau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd. • Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos. • Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn llwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol ar gymunedau Gwynedd.	Byddwn wedi cefnogi cymunedau a busnesau Gwynedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant yn lleol drwy'r prosiect 'Diwyllesiant 2'. Byddwn yn monitro ac yn gweithredu cynlluniau newydd i ddarparu gwasanaethau yn Storiel, Amgueddfa Lloyd George a Neuadd Dwyfor, a chydweithio gyda partneriaid yn y sector ddiwylliannol i adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol.	Do Do	parcio mewn mannau an-swyddogol. Trafodaethau wedi cychwyn o ran datblygu gofod Arosfan pellach yn Nhywyn. Adroddiad gwerthuso yn cael i'w ddarparu i gyflwyno i'r cabinet yn ystod 2026 Grantiau gwerth bron i £300,000 wedi eu cynnig i 69 o sefydliadau ar draws Gwynedd er mwyn cefnogi gweithgareddau diwylliannol a byw'n iach. Gweithgareddau prosiect Diwyllesiant 2 wedi cwblhau gyda Gwasanaethau diwylliannol, Cwmni Byw'n Iach yn ogystal â Antur Waunfawr ac Eco-Amgueddfa Llyn. Peilot Eco-Amgueddfa wedi datblygu ym Mangor. Risg i barhad gweithgareddau a gefnogir yn y dyfodol oherwydd newidiadau i gynlluniau cyllido Llywodraeth y DU. Gwelliannau Amgueddfa Lloyd George wedi eu cwblhau a'r amgueddfa wedi ail-agor. Adolygiad o'r gofodau a chomisiwn datblygu cynulleidfa ar waith. Gwelliannau allanol i Storiel ar waith a trydydd arddangosfa Celf (Yr Oriel Gelf Gyfoes) wedi ei chynnal. Cynllun Datblygu Cynulleidfa wedi ei gwblhau. Trefniadau cofrestru cwmni elusennol i gefnogi Storiel ar waith. Caffi wedi ail-agor 10 Chwefror 2026. Gwelliannau Neuadd Dwyfor yn dwyn-ffrwyth gyda nifer ymwelwyr. Tîm Arweinyddiaeth wedi trafod Gweledigaeth ac Egwyddorion Diwylliant. Digwyddiad 'Diwylliant Gwynedd: er lles

		Byddwn wedi cefnogi cymunedau Gwynedd i fanteisio ar ddynodiad treftadaeth byd y diwydiant llechi gan weithredu prosiect trwy arian Loteri Treftadaeth i brosiect LleCHI LleNI, ac arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Ffyniant Bro, yn cynnwys gwaith: • Ogwen – contractwyr ar safle Yr Hen Bost, cwblhau uwchraddio'r llwybr cysylltiol i Chwarel Penrhyn, agoriad swyddogol Neuadd Ogwen • Dinorwig – contractwyr ar safle Yr Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn • Blaenau Ffestiniog – agor yn swyddogol y llwybr cysylltiol, agoriad swyddogol Aelwyd yr Urdd, contractwyr ar safle Church St • Celf Cyhoeddus – agoriad swyddogol wedi ei wneud mewn 6 tref • Gwelliannau Canol Tref – cynlluniau wedi eu cwblhau mewn 6 tref • Arwyddo a dehongli – wedi ei osod mewn 6 tref • Cadwraeth – nifer o strwythurau hanesyddol wedi derbyn buddsoddiad • Ymgysylltu, addysgu a digwyddiadau – trwy'r prosiect LleCHI LleNI byddwn wedi cyrraedd allbynnau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2. • Llywodraethu: Byddwn wedi adolygu'r Cynllun Rheoli yn ystod 2025 a datblygu'r Cynllun Dehongli a Rheoli Ymwelwyr newydd.	Do	pawb' wedi ei gynnal ym Mhortmeirion ar 04-03-26. Prosiectau sylweddol ar waith ar draws y tirlun llechi. Adroddiad Blynyddol i'w weld yma. Prosiect Llewyrch o'r Llechi (a gyllidir trwy arian Llywodraeth y DU) wedi derbyn ymestyniad i gwblhau'r gwaith. Pob elfen o'r rhaglen bellach ar waith. Parhau i gydweithio efo Amgueddfa Lechi Cymru a'r Hen Bost i sicrhau bod pecynnau ariannu cyflawn mewn lle. Celf cyhoeddus trawiadol wedi ei osod mewn 4 o 6 lleoliad gyda chaniatâd Cynllunio mewn lle ar gyfer Llanberis a threfniadau Bethesda mewn lle. Gwelliannau canol tref ar waith a nifer wedi cwblhau. Gwaith Cadwraeth Ysbyty Chwarel Penrhyn dal ar waith ac yn derbyn sylw a diddordeb eithriadol yn lleol. Gweithgareddau hynod boblogaidd yn cael eu cynnal trwy LleCHI LleNI o fewn ein cymunedau ac ysgolion. Gweithdy thematig dehongli wedi ei gynnal gyda yn agos at 50 o fynychwyr er mwyn datblygu dehongli ar draws y Safle Treftadaeth Byd. Yn y 12 mis diwethaf mae LleCHI LleNI wedi cefnogi: • 68 digwyddiad • 3,100 o bobl wedi mynychu yn cynnwys 1,938 o blant Aelodau'r tîm wedi mynychu digwyddiadau yn Iwerddon a Chaerdydd i rannu arfer da.

Economi a Chymuned – Adfywio cymunedau a chanol trefi	Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cyd-blethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol.	Byddwn wedi adolygu a diweddaru'r Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol; gan gynnwys trefniadau lleol i'w cyd-lynu.	Do	Mae Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal wedi eu diweddaru yn ystod cyfnod 2025/6, a chyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn lleol.
		Bydd Grwp Traws-Adrannol yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn sicrhau trefniadau cydweithio rhwng y cynlluniau adfywio lleol a phrosiectau strategol y Cyngor.	Do	Mae grŵp traws adrannol wedi ei sefydlu ar gyfer Cynllun Canol Trefi Gwynedd Ni 2025/6; a chynllun SPF Gwydnwch Cymunedol yn cefnogi hybiau ym mhob ardal leol
		Byddwn wedi cefnogi a galluogi partneriaid i weithredu pecyn o brosiectau adfywio ar draws cymunedau Gwynedd drwy weinyddu Cronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau (gyda arian SPF) yn ystod cyfnod 2025/6.	Do	Llwyddwyd i sicrhau £800k arian Cronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer Cronfa Allweddol yn cefnogi prosiectau adfywio lleol. Llwyddodd y Gronfa i gefnogi ystod eang o brosiectau yn ystod 2025/6 gyda enghreifftiau yn cynnwys Menter y Twr, Pwllheli; Meithrinfa Seren Fach, Brithdir; Cynllun Hen Lyfrgell Pwyllgor Pentre Deiniolen; cynllun Canolfan Rhyd Ddu, Antur Nantlle; a cynlluniau Menter Rabar, Abersoch.
		Byddwn wedi datblygu pecyn o gynigion buddsoddi er mwyn uwchraddio canol trefi a phentrefi'r Sir fel rhan o Cynllun Adfywio Gwynedd Ni yn ystod 2025/6, gan dargedu grant Cronfa Ffyniant Cyffredin.	Do	Llwyddwyd i sicrhau £1.3m arian Cronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer pecyn Cynllun Adfywio Gwynedd Ni. Cafod rhan helaeth o'r pecyn ei weithredu yn ystod cyfnod, gyda enghreifftiau yn cynnwys gwelliannau Maes Cricieth; uwchraddio toiledau cyhoeddus yn Abermaw ac Abersoch; Gwelliannau Ty Siamas, Dolgellau; rhagbaratoi cynlluniau ym Mangor, Pwllheli a'r Bala; a threialu Cronfa ar gyfer Cynghorau Thref a Chymuned.
		Byddwn yn denu buddsoddiad ychwanegol i adfywio canol trefi Gwynedd drwy dargedu Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.	Do	Mae grant Trawsnewid Trefi wedi ei sicrhau ar gyfer prosiectau Canolfan Porthmadog, Gob Crwn, a Llety Arall. Mae

				arian rhagbaratoi wedi ei sicrhau ar gyfer cynllun Camp Rhufeinig Bangor, a Cei Llechi. Mae pecyn £1.5m wedi ei ddatblygu ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro sydd i'w gwblhau yn ystod 2026/7.
		Byddwn wedi dod a mwy o adeiladau gwag i ddefnydd drwy'r Rhaglen Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd/	Do	Mae rhaglen Eiddo gwag yn weithredol, a cefnogwyd 13 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd mewn canol trefi. Sicrhawyd £995k ar gyfer peilot eiddo gwag Stryd Fawr Bangor fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2026/7.
Economi a Chymuned – Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a	Byddwn wedi darparu rhaglen o gymorth i gefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol yn ystod 2025/26 gan ddefnyddio arian o flwyddyn ychwanegol y Gronfa Ffyniant Gyffredin.	DO	Sicrhawyd cyfanswm o £1.3 miliwm sydd wedi ei ddarparu i 118 o fusnesau i gynorthwyo mentrau lleol i leihau costau neu gynyddu eu hincwm.
		Byddwn wedi rheoli blwyddyn pontio'r rhaglen ARFOR yng Ngwynedd a'r rhanbarth.	DO	£500,000 wedi ei sicrhau i barhau ARFOR ar draws Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gar. Cafodd yr arian ei ddefnyddio i drosglwyddo dysgu o'r rhaglen a gweithredu ymyraethau o fewn y themâu ieuenctid a mudo.
		Byddwn wedi cynnal rhaglen i ddathlu a hyrwyddo llwyddiant busnesau a mentrau Gwynedd yn cynnwys cynnal wythnos o weithgaredd y ystod tymor yr Hydref.	DO	Wythnos Busnes 2025 wedi ei gynnal mis Hydref. Newyddion am lwyddiannau lleol wedi eu rhannu i dros 4 mil o fusnesau yn wythnosol drwy ein bwletinau busnes.
		Byddwn wedi sicrhau cyngor i fusnesau a mentrau Gwynedd sy'n ymateb i'w pryderon.	DO	Rhaglen o sesiynau galwch heibio ac Arolwg Busnes wedi eu cynnal i ddeall pryderon mentrau, rhaglen o sesiynau gwybodaeth / hyfforddiant wedi eu darparu mewn ymateb.
		Byddwn wedi cychwyn adeiladu 10 uned busnes newydd yn Minffordd yn ystod ail chwarter 2025/26.	DO	Unedau yn y broses o gael eu hadeiladu ac am fod yn barod I'w gosod yn yr hydref.

	chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.	Byddwn wedi cydweithio gyda partneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau budd i Wynedd o Gais Twf Gogledd Cymru	DO	Unedau diwydiannol yn Parc Bryn Cegin yn cael eu hadeiladu; dwy wedd gyntaf Hwb Gwledig Glynllifon wedi ei gymeradwyo ac yn cael ei adeiladu; cynlluniau ar gyfer Gwedd 3 prosiect Glynllifon yn cael ei ddatblygu; canolfan Academi Croeso Portmeirion wedi ei gwblhau; cynlluniau ar gyfer datblygiad Zip World yn Chwarel Penrhyn a Llechwedd yn parhau i gael eu datblygu; cynllun i ddatblygu Ysgol Fusnes Albert Gubay wedi cael ei gymeradwyo gyda'r gwaith yn cychwyn ar safle'r hen Ysgol Friars ym Mangor yn ystod 2026; arian wedi ei neilltuo i gefnogi Canolfan Sgiliau a Gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, gyda'r achos busnes manwl yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn a'r bwriad o gychwyn adeiladu yn 2027.
		Byddwn wedi cytuno ar Strategaeth Economaidd newydd i Wynedd ar gyfer cyfnod 2025-2028 ac wedi paratoi ceisiadau am adnoddau i weithredu ei blaenoriaethau.	DO	Strategaeth economaidd newydd wedi ei ddatblygu a'i gytuno gan Cabinet 10 Mawrth a Cyngor Llawn 15 Mai. Adnoddau i weithredu elfennau o'r strategaeth wedi eu targedu.
		Byddwn wedi darparu cymorth i drigolion Gwynedd ddychwelyd i waith ac i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da.	DO	Cymorth wedi ei ddarparu, 255 o drigolion Gwynedd wedi cael gwaith yn dilyn derbyn cefnogaeth a 130 yn gallu ennill cyflog gwell ar ôl derbyn help i wella eu sgiliau.

Trawsadrannol: Cefnogi Llesiant Pobl	Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach. Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.	Byddwn wedi Sefydlu 2 Hwb Cefnogi Pobl mewn 2 ardal newydd. Byddwn wedi trefnu hyfforddiant i weithwyr a gwirfoddolwyr yr Hybiau ar gefnogi unigolion. Byddwn wedi penodi swyddi Hyrwyddwyr Lles a cynnal digwyddiadau costau byw, sesiynau galw heibio amrywiol. Byddwn wedi cydweithio gyda partner gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth rhifedd a cyllidebu i drigolion.	Do Do Do Do	Bellach mae trefniadau Hwb ar waith ym mhob un o'r 13 ardal ar draws y sir. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu cefnogaeth mewn 3 ardal sef Tywyn, Bermo a Blaenau Ffestiniog, drwy ymgorffori trefniadau'r Hwb o fewn gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd. Mae hyfforddiant MoneyGuiders bellach wedi ei gynnwys ar borth dysgu'r Cyngor er mwyn galluogi gweithwyr rheng flaen i ddatblygu sgiliau cefnogi trigolion gyda materion ariannol a chyllidebu. Fel rhan o'r model newydd o gefnogaeth gymunedol, mae holl staff Llyfrgelloedd Gwynedd wedi dechrau ar yr hyfforddiant MoneyGuiders. Mae'r Hwylusydd Lles wedi sefydlu rhaglen o sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol, ynghyd â digwyddiadau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gymorth costau byw a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael. Drwy gyllid SPF y Prosiect Gwytnwch Cymunedol, mae Cyngor ar Bopeth ac Advice MidWales yn darparu sesiynau allgymorth ar draws rhwydwaith yr Hybiau ledled y sir.

				Mae addasiadau wedi eu gwneud i gytundeb lefel gwasanaeth CAB er mwyn sicrhau bod y trefniadau allgymorth yma yn parhau y tu hwnt i gyfnod cyllido SPF.
		Byddwn wedi cwblhau'r Prosiect Cynhwysiad Digidol i roi help ymarferol i ddysgu pobl i fynd ar-lein a dosbarthu cyfarpar TG.	Do	Mae Cynllun Gwytnwch Cymunedol SPF wedi ariannu AbilityNet i gynnal sesiynau galw heibio anffurfiol yn y rhwydwaith Hybiau i gefnogi trigolion gyda TG a chynhwysiant digidol.
		Byddwn wedi cynnal Cynllun Bwyd i gynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol; cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol.	Do	Mae 6 rownd o grantiau bwyd wedi eu cynnal i gefnogi cynlluniau bwydo cymunedol ar draws y sir. Hyd yma mae grantiau gwerth £217,743 wedi eu dyrannu i grwpiau cymunedol a banciau bwyd i gryfhau cefnogaeth lleol i drigolion

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

gwynedd.llyw.cymru

CyngorGwyneddCouncil

CyngorGwynedd

cyngorgwyneddcouncil



Adroddiad Perfformiad
Adran Economi a Chymuned

2025/26

Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gweledig

Lefel boddhad defnyddwyr Parciau Gwledig

88%

Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gweledig

Lefel boddhad cwsmer Canolfannau Hamdden

84.51%

Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gweledig

Cyfanswm nifer ymweliadau i'r Canolfannau Hamdden (Cronnus)

964,980

Gwasanaeth Morwrol

Rheoli a Gwasanaethu yn unol a gofynion Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a Chôd Diogelwch Morol

96%

Gwasanaeth Morwrol

Cytundebau Angorfeydd harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi

273

(cynnydd o 9% ers 2024)

Gwasanaeth Morwrol

BODDHAD CWSMER

Traethau - 70**%**
Harbyrau - 88**%**

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Canran angorfeydd blynyddol yn Hafan Pwllheli a Doc Fictoria

96% Hafan
100% Doc Fictoria

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Canran boddhad cwsmer yn Hafan Pwllheli

91%

(i fyny o 89%)

Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Bodlonrwydd cwsmer Doc Fictoria

98%

(i fyny o 69%)

Gwasanaeth Archifau

Bodlonrwydd cwsmer Gwasanaeth Archifau

91%

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Cyfanswm sy'n ymweld ac ymgysylltu'n ddigidol â'r amgueddfeydd a'r orielau

1,212,877

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

% boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau

95%

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Canran o gyfranogwyr yn cael budd drwy brosiect Celfyddydau Cymunedol

99%

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Nifer benthyciadau o'r Llyfrgelloedd 2025/26

452,845

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Bodlonrwydd Cwsmer Llyfrgelloedd 2025/26

98%

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Bodlonrwydd cwsmer Neuadd Dwyfor 2025/26

95%

Gwerthiant Tocynnau ac Incwm Neuadd Dwyfor 2025/26

Gwerthwyd 19,602 o docynnau

£201,565 o Incwm o werthiant tocynnau a Bwyd a Diod

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

74.1% o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

311% cynnydd o waelodin 2024/5 mewn busnesau a mentrau yn llwyddo i dderbyn Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi ymrwymo i dalu cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr ac i ddefnyddio mwy o Gymraeg

97

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi Ymgysylltu'n fisol (Cyfartaledd 2025/26)

4,326

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Busnesau wedi eu cefnogi i arbed arian a/neu cynyddu eu incwm

185

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pobl wedi eu cefnogi i waith

255

Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pobl wedi cynyddu eu gallu i ennill cyflog da

130

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Buddsoddiad Mewn Rhaglenni Adfywio Canol Trefi

£3,398,526

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Nifer Unedau Masnachol sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd

Cefnogaeth wedi arwain at 4 eiddo mewn canol tref i ddod yn ôl i ddefnydd a gwella delwedd 6

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Nifer Grwpiau lleol sydd yn derbyn cyngor neu cefnogaeth

335

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Nifer o brosiectau cymunedol sydd yn derbyn cymorth I'w datblygu

337

Adran Economi a Chymuned

Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Mandadol

Diogelu – 90.1%
VAWDASV – 92.8%

Parc Padarn Cyfartaledd boddhad cwsmer **94%** (Parciau 88%)

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

Trosolwg o berfformiad:

Positif	Gwelliannau
• Good place for kids • Amazing views and amazing walk with the dog Beautiful place for a walk - wheelchair accessible • Good parking and then excellent walks. • I absolutely loved my walk around Lake Padarn — it's one of those places that perfectly captures the beauty of North Wales. The trail is well-marked and easy to follow, offering a mix of woodland paths, open lakeside stretches, and incredible mountain scenery, especially with Snowdon (Yr Wyddfa) in the background	• Basically it is a beautiful park with lots to see and discover, but at the moment a lot of construction and renovation work is going on, so not everything is open. • Really disappointed that the museum was closed • It would be great if Parc Padarn itself was better maintained, there are so many invasive plants and it doesn't seem that any work to reduce them is done? Is there a management plan? Maybe share this with the community , why not have community volunteer days etc?



- Planhigion Ymledol – Yn ystod Mai 2025 fe fu cychod Truxtor yn Llyn Padarn i gychwyn ar y gwaith clirio'r chwyn ymledol. O fis Medi ymlaen roedd trefniant yn ei le gyda BSAC i ddeifwyr ddod i Llyn Padarn yn wirfoddol i barhau gyda'r gwaith clirio'r chwyn ymledol.
- Grantiau LUF, Pethau Pwysig, Cadw a Grid Cenedlaethol - Gwaith adfer yr Inclein wedi ei gwblhau yn ogystal a'r Bloc Croeso newydd. Rhan helaeth o'r gwaith i'r maes parcio wedi ei gwblhau. Tendr ar gyfer y Fire Queen a Hafod Owen wedi ei rannu a contractwyr wedi eu penodi ar gyfer cychwyn ar y gwaith adfer yn ystod 2026/27. Tendr hefyd wedi ei gwblhau ar gyfer gwaith dehongli natur yn y Bloc Croeso a gwelliannau i'r dehongli o fewn yr Ysbyty Chwarel a sied y Fire Queen.
- Grid Cenedlaethol & Amgueddfa Lechi – Grid Cenedlaethol gyda'r cynllun ail geblu wedi achosi i'r Parc i golli ¼ o'r maes parcio Gilfach Ddu a'r Rheilffordd wedi cau ar brydiau. Yr Amgueddfa Lechi wedi cau ar gyfer yr ail-ddatblygiad sydd wedi golygu fod rhai ymwelwyr i'r Parc wedi bod yn siomedig gyda'r cynnig oedd ar gael. Er hynny, mae'r Parc wedi creu tudalen Facebook newydd a wedi bod yn ymdrechu i rannu gwybodaeth gyda ymwelwyr dros y flwyddyn diwethaf.



Parc Glynllifon Cyfartaledd boddhad cwsmer **82%** (Parciau 88%)

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams, **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


Rheolwr Cyfrifol: Carwyn Williams

Pwrpas: Sicrhau amgylchedd diogel ac o ansawdd yn ein Parciau Gwledig fyddai yn galluogi pobl leol ac ymwelwyr i'w gwerthfawrogi a mwynhau

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Parciau Gwledig

Trosolwg o berfformiad:

Positif	Gwelliannau
• Fantastic day !! Beautiful gardens, lots of information around the park about the history of the house and gardens. Staff were all so friendly, food excellent. Park area right by cafe so kids could play whilst we had a paned. Great easter egg hunt that kept the kids engaged throughout the walk. Lovely little artisan shops in a little courtyard. We didn't manage to get around all of it so will definitely be back soon. Really pleasantly surprised at how lovely it was and can't believe we have never heard of it before. • Beautiful and almost hidden gem. So many areas to explore, perfect for dog walking or just exploring on your own. I call it my happy place. • The activities set up in the courtyard were fab for all ages (bean bags in buckets, frisbees through holes, knocking tins down, eggs in the tube etc) and everyone in our group from 8 to 80 enjoyed these.	• Very interesting park with a huge potential, if somebody is willing to invest here.... • Streams are clogged up and water features abandoned or poorly preserved. Many plants who have signs attached are either dead or cut down ! The natural forests are lovely but the areas that require human consideration have been given none. • Cafe was closed due to staffing issues, which is a great loss to visitors, I'm sure many will come because there is a cafe on site.





- Tal Mynediad - 2025/26 oedd y flwyddyn brysuraf o ran nifer ymwelwyr i'r Parc ers cychwyn cymryd cofnod.
- Digwyddiadau – Parc wedi cynnal Helfa Pasg cyntaf erioed yn 2025. Digwyddiad llwyddiannus gyda mwy yn ymweld dros penwythnos Pasg 2025 na chyfanswm ymweliadau Ebrill gyfan yn 2024. Ar gyfer yr Haf cynhaliwyd gemau Ffair Hwyl gyda adborth positif iawn gan ymwelwyr a tenantiaid y Parc. Mi oedd incwm mis Awst 104% yn uwch na incwm Awst 2024.
- Gostyngiad ffi mynediad – Wedi cyflwyno hysbyseb ar gefn pob tocyn parcio Parc Padarn yn cynnig gostyngiad 10% i ffwrdd oddi ar unrhyw docyn diwrnod Parc Glynllifon os yn ymweld o fewn 7 diwrnod. Mae oddeutu 60,000 o docynnau parcio y flwyddyn yn cael eu gwerthu yn Parc Padarn, ac felly yn gyfle i hyrwyddo a marchnata Parc Glynllifon.
- Grantiau - Cais Datganiad o Ddiddordeb i'r Loteri am £2.6m wedi ei gyflwyno. Cais wedi bod yn llwyddiannus a gwahoddiad i gyflwyno cais am arian datblygu yn ystod 2026/27.
- Cynnal a chadw – Wardeniaid wedi bod yn gwella hygyrchedd y safle drwy osod dros 100 tunnell o wastraff llechi ar y llwybrau. Er y nifer diwrnodau o wyntoedd cryf a coed wedi syrthio o fewn y Parc dros y Gaeaf, y wardeinaid wedi llwyddo i gadw'r Parc yn agored drwy fod yn ddiwyd yn sicrhau fod y llwybrau'n ddiogel a clirio unrhyw lanast.

Byw'n Iach Cyfartaledd boddhad cwsmer 84.51%

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Trystan Pritchard – Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach

Pwrpas: Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Byw'n Iach


Trosolwg o berfformiad:

Ffigyrau boddhad cwsmer diwedd 2025/26 yn dangos gostyngiad bychan 84.51% i 84.26%, ac yn rhoi sgôr cyffredinol o 4.21 allan 5.

Meysydd Cyfathrebu, Staff a Dosbarthiadau Ffitrwydd i gyd wedi gwella. 524 cwsmer wedi ymateb, gan ddarparu 1119 sylw gwahanol.

'Staff' yn parhau i berfformio orau (93.27%) ac Ystafell Ffitrwydd (78.02%) a Cyfleusterau'n (77.17%) yn sgorio isaf eto.

Mae'r 'Cyfleusterau' hefyd yn dangos y gostyngiad mwyaf - 2.5%, tra fod 'Dosbarthiadau Ffitrwydd' yn dangos y cynnydd mwyaf - 4.5%.



Positif

Bro Dysynni - "The staff are really knowledgeable & helpful. I have struggled over the last few years getting my confidence & fitness back up. They have all been really supportive. Thank you."
Glaslyn - "The leisure centre has made a real difference to my life! The Aquafit sessions and the circuits keep me moving and the staff are brilliant! The other customers are friendly and it's lovely to have the library and the bank and the excellent cafe in the building!!!"
Plas Ffrancon - "Staff at Plas Ffrancon are FANTASTIC. They make the place what it is, creating a feeling of community and family! "
Arfon - "Mae defnydd yr holl aelodau staff o'r Gymraeg yn gyntaf yn ychwanegu at y teimlad cartrefol sy'n bodoli yn y ganolfan yng Nghaernarfon "
"Great facilities, great staff and very value for money! Da iawn pawb! "
Pafiliwn - "The quality of fitness classes have improved over the last 9 months,Jody,Paula and Megs classes are fantastic."
Penllyn - "Diolch yn fawr am y gwasanaeth gwych."

Gwelliannau

Arfon: "Bywn Iach Arfon desperately needs modernisation inside and out the pool changing rooms especially "
Bro Dysynni: "A range of fitness classes and more of them "
Dwyfor: "Ystafelloedd newid. Mae y showers yn hen a gwan. Dim digon o adnodda i deulu (plant yn newid yn ystafelloedd oedolion). Y lloria yn medryd bod yn wlyb a llithrig ar draenia yn fydyr. "
Glaslyn: "mwy o offer eang yn y stafell ffitrwydd a pwysau - e.e. kettlebells"
Pafiliwn: " just need the equipment updating/replacing"
Penllyn: "I would get much better value for money if the gym opened earlier on more than one day a week it is not enough at present "
Plas Ffrancon: "More of the same fitness machines "
Plas Silyn: "Rhai dosbarthiadau yn boblogaidd ac yn llenwi'n sydyn..efallai cynnig mwy o ddosbarthiadau."

Byw'n Iach Cyfanswm nifer ymweliadau 964,980 (>5.6% o'i gymharu a 2024/25)

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Trystan Pritchard – Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach

Pwrpas: Cefnogi Cwmni Byw'n Iach i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i wella llesiant trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: Cyfanswm Nifer Ymweliadau Byw'n Iach

Trosolwg o berfformiad:



Niferoedd ar y Cynllun Debyd Uniongyrchol (DU) , drwy Ebrill i Awst 2025, niferodd yn gyson a'r un cyfnod llynedd.

Yna dros 7 mis, tyfu yn y niferodd i 4,229 (Mawrth 24, 3,650) - cynnydd o 579.

- Niferodd Gwersi nofio – wedi sefydlogi yn dilyn rhestrau aros COVID. Rhaglenni 1:1 ac arbenigol yn tyfu ac yn cael eu Lansio ymhob pwll

- Incwm achlysurol – effaith cynnydd mewn cwsmeriaid DU ond angen mwy o wybodaeth wedi adroddiad mis 13. Gyriant cryf o fewn y cwmni i ad-ennill neu sicrhau parhad cwsmeriaid NERS.

- Ymweliadau cronnus i lawr. Amryw o resymau, ychydig llai o ddefnydd gan ysgolion, mwy o gwsmeriaid DU, ond prif rheswm newid yn y 'lluosydd' defnydd clwb yn y system gofnodi. Mae'n debyg fod hwn wedi bod rhy uchel yn hanesyddol, ac erbyn hyn, mae'r 'llogi bloc' wedi mynd, ac mae 'cynnyrch' gwahanol yn cael ei ddefnyddio hefo lluosydd llai, ond fwy cywir e.e peldroed 5 pob ochr cynt yn 50 fel defnyddiwr, nawr yn 15. Felly darlun cyfredol yn fwy cywir.

Canolfannau yn gyffredinol yn adrodd fod lleihad mewn defnydd ysgol a clybiau a nofio ysgolion yn lleihau yn bennaf o ran hyd y gwersi (10 wythnos yn aml).

- Prosiectau/Grantiau Canolfan Dwyfor – Gofod ffitrwydd arbennig wedi ei greu ac ar agor o 30 Ebrill – potensial am 150 aelod newydd a phrosiect cydweithio amlwg gyda Meddygon Teulu lleol.

- 64 aelod newydd ym Mangor wedi gosod yr offer Biocircuit
- Cae bob tywydd Bro Dysynni ar fin agor wedi grant o £300,000 Chwaraeon Cymru
- Prosiect ardal ffitrwydd Arfon ar fin cychwyn i drawsnewid y gampfa bresennol a galluogi mwy o hyfforddiant a dosbarthiadau wedi eu cyfeirio gan iechyd – pwyslais ar iechyd cyhoeddus amlwg yn strategaeth y cwmni
- Peilot gyda Tim Strôc Ysbyty Eryri wedi gwella dangosyddion iechyd allweddol 12 claf yn sylweddol ac felly cynllun i'w ehangu ar draws y sir.
- Datblygiadau pellach efo iechyd gan ganolbwyntio ar gleifion diabetes, clefyd y galon a rhai sydd dros eu pwysau ond ar restrau aros llawdriniaeth – aros am ganlyniad cais am £80k o arian GIG.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

Dangosydd Perfformiad: Cyfanswm cwsmeriaid angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Mae nifer y cwsmeriaid sydd â chytundeb angorfa wedi cynyddu 9% o'i gymharu â 2025, gan adlewyrchu'r galw cynyddol am gyfleusterau a gwasanaethau'r harbyrau. Mae buddsoddiad parhaus wedi gwella profiad defnyddwyr ac wedi gwneud yr harbyrau yn fwy deniadol, gan alluogi pob harbwr i ddenu cwsmeriaid newydd a chynyddu nifer y cychod ymwelwyr sy'n aros ar angorfeydd dros dro. Mae hyn yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn darparu incwm hanfodol ar gyfer y Gwasanaeth.

Mae sianeli mordwyo deinamig a siltio yn parhau i greu heriau sylweddol, gan effeithio ar allu'r gwasnaeth i ddarparu ardaloedd angorfeydd diogel a mynediad cwsmeriaid i'r harbyrau. Mae'r gwasanaeth yn monitor'r sianeli mordwyo a lefelau siltio yn agos ac yn gweithio i gynnal a rheoli angorfeydd diogel ac yn archwilio ffyrdd i liniaru effaith siltio ar fynediad.





Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o stormydd a chyfnodau o wyntoedd cryfion a gafodd effaith sylweddol ar yr harbyrau. Torrodd rhai cychod yn rhydd o'u hangorfeydd, suddodd eraill a difrodwyd nifer o gymhorthion mordwyo. Ymatebodd swyddogion y Gwasanaeth ar fyr rybudd, yn aml y tu allan i oriau gwaith arferol, i gyfyngu neu arbed difrod pellach ac i sicrhau nad oedd llygredd yn gollwng i ddyfroedd yr harbwr.

Oherwydd y tywydd ansefydlog dros fisoedd y gaeaf, ynghyd a diffyg argaeledd contractwr i ail-leoli'r offer, mae canran y cymhorthion mordwyo yn eu safleoedd wedi gostwng i **81.5%.** Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn offer newydd, ac mae cynlluniau ar waith i'w lleoli yn ystod mis Ebrill a Mai pan fydd y tywydd yn fwy sefydlog.

Penodwyd unigolyn annibynnol i gynnal archwiliad o gydymffurfiaeth y Cyngor a gofynion y Côd Diogelwch Morol. Cwblhawyd yr archwiliad ym mis Chwefror gyda chanlyniad cadarnhaol iawn. Mae 'Datganiad Cydymffurfio' eisoes wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ynghyd â dogfennaeth y Côd - Côd Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morwrol

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gynnal nifer cwsmeriaid ffyddlon ein harbyrau a denu cwsmeriaid newydd yn flynyddol

Dangosydd Perfformiad: Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Roedd cyfran uchel o ymatebwyr (88%) yn nodi bod eu profiad o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn yn 'Dda iawn' neu'n 'Dda'. Roeddem yn derbyn sylwadau cyson am broffesiynoldeb ein swyddogion, gyda nifer yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn mynd 'uwchlaw a thu hwnt' i gynorthwyo cwsmeriaid. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd trafferthion yn codi yn ystod tywydd garw, neu pan oedd angen cyngor ynghylch mordwyo neu angori o fewn yr harbwr. Nodwyd nifer hefyd pa mor lân a thaclus yw'r harbyrau. Mae sylwadau cadarnhaol am y gofal cwsmer a ddarperir gan y tîm yn ymddangos yn rheolaidd yn ein harolygon boddhad, ac mae'n debygol mai hyn yw un o'r prif resymau ein bod yn llwyddo i gadw cwsmeriaid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mynegwyd pryderon hefyd ynglyn a siltio o fewn harbwr Bermo, gyda rhai cwsmeriaid yn cael anawsterau oherwydd dyfnderoedd bas.

Swyddfeydd: Mae'r cynlluniau a'r dyluniadau arfaethedig ar gyfer datblygu swyddfa harbwr newydd yn Aberdyfi wedi'u cwblhau ac wedi'u cyflwyno i Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri am sylwadau. Yn ogystal mae'r gwaith o wella adeilad swyddfa harbwr Porthmadog bellach wedi'i gwblhau, gan sicrhau bod gofodau a chyfleusterau addas ar gyfer y staff.

Mae cynllun gwellla'r lloc allanol yn harbwr Porthmadog hefyd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gwelliannau yn cynnwys gosod arwyneb concrit, giatiau diogelwch, ynghyd a ffens ymylol newydd. Rydym wedi derbyn nifer o sylwadau cadarnhaol am edrychiad y safle, yn enwedig gan drigolion sy'n byw ger yr harbwr.



Jeti Aberdyfi: Ym mis Mawrth cwblhawyd prosiect adnewyddu jeti pren harbwr Aberdyfi. Mae'r cynllun, arianwyd yn rhannol gan gyllid SPF, wedi trawsnewid y strwythur, gan adfer a chryfhau ei adeiladwaith, gwella diogelwch, hygyrchedd a hefyd gwella ei ymddangosiad cyffredinol.

Cefnogaeth: Yn ystod y cyfnod o dywydd heriol ar ddechrau mis Ionawr, darparodd y Gwasanaeth Morwrol gefnogaeth werthfawr i Wasanaethau Oedolion trwy gludo gofalwyr ar draws y sir, gan eu galluogi i barhau i ddarparu gofal i drigolion bregus.

Staff: Cwblhaodd un o staff yr adran Ddiploma Harbwrfeistr, a ariannwyd yn llawn gan y Cyngor. Mae'r cymhwyster yn cryfhau sgiliau a gwybodaeth dechnegol o fewn y tîm. Hefyd cwblhaodd aelodau arall o staff fordaith chwe wythnos ar draws Cefnfor yr Iwerydd - bydd y profiad a'r sgiliau a gafwyd yn ystod y daith, yn cyfrannu'n sylweddol at ei ddatblygiad personol, gan gefnogi a chryfhau ei waith o ddydd i ddydd.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Morwrol

Yn ôl i'r dashfwrdd


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Bryn Pritchard-Jones

Pwrpas: Rheoli traethau a harbyrau Gwynedd yn ddiogel gan gyflwyno mesurau fyddai yn gwella mwyniant a diogelwch defnyddwyr ein traethau

Dangosydd Perfformiad: Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:



Dros y flwyddyn, dywedodd 70% o'r ymatebwyr fod eu profiad o'r traethau yn 'Dda Iawn' neu'n 'Da', gan adlewyrchu lefel uchel o foddhad cyffredinol. Roedd canmoliaeth am ansawdd a glendid cyffredinol y traethau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at rai pryderon, yn enwedig yn ystod tymor brig yr haf, gan gynnwys sbwriel ar draethau, diffyg biniau a phresenoldeb baw cŵn. Cafwyd adborth cymysg ar berfformiad swyddogion tymhorol ar y prif draethau, gan dynnu sylw at ddiffyg gorfodi is-ddeddfau a rheolau mewn rhai achosion. Roedd hefyd rhwystredigaeth am barcio dros nos ar draethau a lefel y ffioedd. Roedd cŵn afreolus a phresenoldeb cŵn mewn parthau gwaharddedig hefyd yn bryder i lawer.

Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried o fewn fframwaith ehangach amgylcheddol ac arfordirol gyda'r nod o wella profiad defnyddwyr. Rydym wedi cael trafodaethau cynhyrchiol yn ddiweddar gyda Thîm Gorfodaeth y Cyngor i sicrhau gorfodaeth a phresenoldeb mwy amlwg ar draethau.

Llygredd Olew: Yn dilyn adroddiad o lygredd olew ar draeth Promenâd, Cricieth bu i swyddogion y gwasanaeth weithredu drwy gynnal ymgyrch lanhau ar y safle. Cynhaliwyd y gwaith mewn cydweithrediad a Chyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i'r sefyllfa. Cafodd y digwyddiad gryn gyhoeddusrwydd yn y wasg.



Tirlithriadau: Yn dilyn cyfnodau o law trwm bu dau dirlithriad sylweddol ar y clogwyni ar draeth Nefyn. Gweithredwyd mesurau diogelwch rhagweithiol gan gynnwys cau rhan o'r traeth a gosod arwyddion diogelwch clir. Mae'r sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n agos oherwydd y risg o ddirywiad pellach os bydd cyfnod arall o law trwm.



Gwelliannau: Mae'r gwasanaeth wedi bod yn ffodus iawn i sicrhau cyllid er mwyn gweithredu gwelliannau mewn rhai o'n cyrchfannau mwyaf poblogaidd. Mae gwaith wedi cychwyn ym mhrif fynedfa traeth Morfa Bychan i wella trefniadau mynediad a sicrhau bod y fynedfa yn parhau i fod yn ddiogel ac yn addas i ddefnyddwyr. Mae gwelliannau ar fin cael eu cwblhau ar Lôn Golff, Abersoch i gryfhau'r isadeiledd a gwella diogelwch defnyddwyr mewn lleoliad hynod o brysur a phoblogaidd. Yn ogystal mae gwaith wedi cychwyn i wella mynediad i draeth Marian-y-De, Pwllheli. Disgwylir i'r holl brosiectau gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mai, gan wella profiad ymwelwyr a diogelwch ar draws y safleoedd allweddol hyn.

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones


Rheolwr Cyfrifol: Sarah Hattle

Pwrpas : Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: Canran o angorfeydd blynyddol yn Hafan a Harbwr Pwllheli

Trosolwg o Perfformiad: 96%

Dros y flwyddyn 2025/26 mae angorfeydd Hafan wedi bod yn 96% yn llawn ac 86% yn yr Harbwr allanol. Nid yw hyn yn newid o 2024-25 ar gyfer yr Hafan. Ar gyfer yr harbwr allanol, er bod hyn yn edrych fel cynnydd o 10% (77% y llynedd) mewn gwirionedd, nid yw'n newid yn nifer y contractau angori. Yr hyn sydd wedi newid yw bod 5 angorfa harbwr allanol o 24-25 bellach yn anhygyrch oherwydd mwd, siltio a diffyg dŵr. Mae'r gofyniad i garthu a mwy o waddodiad yn parhau i fod y bygythiad mwyaf i'r Hafan.



Dros y flwyddyn rydym wedi gweithio gydag YGC i baratoi ceisiadau am Drwyddedau Morol i gwblhau carthu cyfalaf a charthu cynnal a chadw. Rydym yn parhau efo'r gwaith hyn. Mae'r ceisiadau i fod i gael eu cyflwyno Haf 2026.

Fel rhan o'r gwaith rydym hefyd wedi comisiynnu adroddiad yn ystyried safleoedd posib o fewn ffiniau'r harbwr ar gyfer adennill tir – a thrwy hynny waredu llaid yr harbwr. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Harbwr ym mis Mawrth er mwyn cynnig diweddariad ar gynlluniau carthu arfaethedig gan weithio yn agos gyda rhanddeilliaid a sefydliadau lleol.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol**: Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Sarah Hattle


Pwrpas: Darparu gwasanaeth o ansawdd yn Hafan Pwllheli sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod harbwr Pwllheli yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmeriaid

Trosolwg o Berfformiad:

Cafodd arolwg blynyddol boddhad cwsmeriaid ei gynnal ym mis Tachwedd. Ar gyfer cyfnod 2025, gwelwyd cynnydd o ran boddhad o safbwynt agweddau megis agwedd staff a chyfleusterau parcio. Serch hynny, gwelwyd lleihad ar agweddau megis ymddangosiad cyffredinol sydd yn adlewyrchu'r ffaith fod isadeiledd a chyfleusterau yn dyddio (yn cynnwys pontwns a chawodydd). Canfyddir hefyd bod dyfnder yn gwaethygu gyda mwy o siltio, er bod dyfnder y sianel yn cael ei gynnal.

Ar ôl gwrando ar adborth ein cwsmeriaid rydym wedi dechrau gweithio ar baratoi darpariaeth lolfa cwsmeriaid a fydd ar gael cyn uchafbwynt tymor 2026.



Mae ein cais am grant drwy Adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Rydym wedi derbyn cynnig grant o £67,688 ar gyfer ailosod y pontŵn pysgota masnachol a'r raciau tendr presennol. Mae'r gwaith wedi dechrau ers ddiwedd mis Chwefror 2026.

Fel rhan o'r prosiect hwn, gosodwyd pontŵns newydd ym mis Chwefror ac maent yn boblogaidd iawn gyda'r gymuned bysgota.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Doc Fictoria (Hafan a Harbwr Pwllheli)


Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Sarah Hattle

Pwrpas: Sicrhau gwasanaeth o ansawdd yn Doc Fictoria sy'n cwrdd â gofynion y farchnad gan sicrhau fod y cyfleusterau yn cael ei reoli yn ddiogel.

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Doc Fictoria

Trosolwg o berfformiad:



Mae Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon (YHCHT) yn parhau i reoli Doc Fictoria ar ran Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu'r holl weithrediadau o ddydd i ddydd, tra bod Cyngor Gwynedd yn cadw cyfrifoldeb am y seilwaith.

Mae YHCHT wedi parhau i weithredu'r Doc ar ei gapasiti llawn a thrwy gydweithrediad ag YHCHT rydym wedi cytuno i adolygiad llawn o'r cytundeb rheoli hanesyddol gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Yn ystod 2025/6 gwelwyd cynnydd boddhad cwsmer i 98%. Gwelir fod cynnydd wedi bod ar draws holl agweddau, ag eithrio diogelwch. Credir fod adborth bositif am y Doc Feistr wedi cyfrannu at y cynnydd yma.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Archifau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


Rheolwr Cyfrifol: Lynn Francis

Pwrpas : Gwarchod Archifau'r Sir drwy gasglu, cadw, rhoi mynediad a hyrwyddo defnydd o'r archifau fel bod modd i bawb ddarganfod, dysgu a deall mwy am eu hunain a'u bro.

Dangosydd Perfformiad: % defnyddwyr sy'n fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth

Trosolwg o Berfformiad:

Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 cwblhaodd 1321 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 91% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth, 3% yn fodlon, 1% yn nodi nad oeddent yn fodlon nac anfodlon a 5% yn anfodlon.
Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn gadarnhaol: "Pawb yn hynod o awyddus i helpu", "Bu'r staff tu ôl i'r ddesg o gymorth amhrisiadwy i mi, "Very helpful – was a bit anxious about coming in, but staff friendly and approachable".
O'r rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau yn nodi eu hanfodlonrwydd gyda'r oriau agor, y safle we a'r diffyg deunydd sydd ar gael ar-lein:
"More opening hours are needed", "When using the online system, it's not very clear which archive / record office the information is held", "Rwyf yn cael trafferth ymweld â'r Archifdy byddai'n dda petai rhai dogfennau ar gael ar-lein"
Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Wladol yn sgil toriadau nôl yn 2016. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf bu'r Gwasanaeth yn ffodus i dderbyn arian grant SPF i gyflogi swyddog i ganolbwyntio ar ddigido casgliadau. Mi fydd y gwaith yn gosod sail i greu safle gwe newydd ble bydd modd cael mynediad at ddeunydd sydd wedi ei ddigido yn ogystal a rhoi mwy o wybodaeth am y casgliadau sydd yn ein gofal.
Heryd yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Gwasanaeth grant gan Lywodraeth Cymru i wella'r ardaloedd cyhoeddus a chynaliadwyedd yr adeiladau. Bydd y gwelliannau hyn yn gwella hygyrchedd ac yn gwella profiad ein defnyddwyr.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau: Hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiel ym Mangor.

Dangosydd Perfformiad: Nifer sy'n ymweld ac yn ymgysylltu ddigidol â'r Amgueddfeydd a'r Orielau

Trosolwg o berfformiad:

- Amgueddfa Lloyd George: Ail agorwyd Pasg 2025 gydag arddangosfa newydd yn ei lle. Blaenoriaeth 2025/6 oedd edrych ar ddatblygu cynulleidfa a marchnata gyda chefnogaeth grant Llywodraeth y DU. Mae cynllun gweithredu yn ei le ac yn ystod 2026 mi fydd taflenni, arwyddion a buddsoddiadau eraill yn dwyn ffrwyth er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ar y safle i'n cymunedau, ysgolion ac ymwelwyr.
- Storiel: Yn sgil grant CELF (Rhwydwaith Orielau Gelf Gyfoes i Gymru) mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata wedi cael ei gwblhau gyda chynllun gweithredu yn ei le. Grant Llywodraeth y DU wedi cefnogi rolau swyddogion i gefnogi marchnata a gweithgareddau ymgysylltu er mwyn cynyddu niferoedd ymwelwyr ac ymgysylltu. Mae hyn wedi arwain at cynnydd o 14.8% yn nifer ymweliadau â Storiel. Hefyd gweithgareddau Cyfuno, gyda grant Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfleoedd i'n cymunedau gan gefnogi a phartneriaethu ac eraill drwy'r sir.
- Gweithgareddau ymgysylltu gyda grantiau wedi denu dros 2,000 o bobl i Storiel a darparu cyfleoedd i bron i 1,000 drwy'r sir. Dibyniaeth ar grantiau yn heriol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Mae rôl y Gwasanaeth yn bwysig iawn i hwyluso a chyfeirio rhai at ei gilydd gan arwain at bartneriaethau newydd ee Sinema Tywyn a Menter Iaith Gwynedd.
- Cyfanswm cronnus ymweliadau yn unig rhwng Ebrill 2025 –Mawrth 2026 yn 34,859
- Cyfanswm Cronnus ymweliadau ac ymgysylltu'n ddigidol Ebrill 2025 - Mawrth 2026 yn 1,212,877 yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel tripadvisor, instragram a google.
- Er mwyn ymateb i'r diffyg yn y gwasanaeth, mae Caffi Siabod bellach wedi agor ystod Chwefror 2026.



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas y gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau: Hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw drwy redeg Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Storiel ym Mangor

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau

Trosolwg o berfformiad:

Adborth Amgueddfa Lloyd George


Ers ail agor gydag arddangosfa newydd mae'r mwyafrif yn canmol y profiad a'r staff. Adroddiad Sequoia (Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchanta) yn nodi bod y mwyafrif efo ddiddordeb yn Lloyd George a Hanes Cymru. 22% yn byw yn lleol (LL53). Mae angen ei hyrwyddo'n well.

"*Angen mwy i blant" (bellach wedi ychwanegu hyn) / "My GCSE history grade is gonna thank me for coming here" / "far more interesting than anticipated" / "(Speeches) ...please bring them back." (hyn ar waith) / "I liked that we are encouraged to form our own opinion"/ Wedi dysgu llawer nad oeddwn yn gyfarwydd ohonynt yn flaenorol. Yr arddangosfa werth ei gweld a chael ymweld a'r cartref lle i magwyd ar y stryd yn fonws. Diolch am ail-agor i'r cyhoedd".*

Adborth Storiel

Mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata yn cadarnhau bod angen codi proffil Storiel; bod 48% yn ymweld yn reolaidd a 24% yn flynyddol. Nifer yn ei gweld fel cyfraniad pwysig i Fangor ac i dreftadaeth a diwylliant Gwynedd.

"*Diddorol iawn. Plantos a minnau yn mwynhau yn arw" / "We are so fortunate to have such a facility." / "What a coup for STORIEL Iwanowski & Piech"/ "Really good exhibitions of modern Welsh artists in the galleries when we visited." / "We travelled some distance to see this ..... we learnt so much more about the background of promoting Welsh language culture to the youth (Dathlu 50 mlynedd o Gwaed ar y Sêr ar y cyd a Pontio) / Rhai yn gweld bod angen buddsoddi yn yr orielau hanes, a llawer yn canmol gweithgareddau i'r plant a'r teulu ond fod angen mwy ohonynt.*



Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans


Rheolwr Cyfrifol: Nêst Thomas

Pwrpas: Hyrwyddo'r celfyddydau i bawb fel cyfrwng i wella lles trigolion Gwynedd

Dangosydd Perfformiad: % o Gyfranogwyr yn cael budd drwy brosiect Celfyddydau Cymunedol

Trosolwg o berfformiad:

- Darparwyd amrywiaeth o brosiectau trwy Wynedd ar gyfer oedrannau amrwyiol unai'n uniongyrchol neu trwy grantiau gan ganolbwyntio ar yr elfen llesiant, dysgu a mwynhad gan gefnogi nifer yn y sector drwy ddarparu gwaith.
- Adborth positif rhwng 97-100% yn seiliedig ar brosiectau fel Porthi Dre, Criw Celf i blant 7-11 oed; Stiwdio Lles i gefnogi bobl ifanc 18-30 oed (cynllun celf ar bresgripsiwn gyda grant Cyngor Celfyddydau mewn phartneriaeth â Chwmni Fran Wen a Phrifysgol Bangor); Crefft er Lles i oedolion; Sgwrs a Chân i rai mewn fflatiau gofal gyda Chanolfan William Mathias
- Darparwyd grantiau Celfyddydau Cymunedol; Noson Allan a Chefnogi'r Celfyddydau i sicrhau bod cyfleodd drwy Wynedd e.e. Croesor, Bangor, Nefyn, Bala a Llanbedr.
- Rôl bwysig gan y gwasanaeth i roi cyngor a chefnogaeth i unigolion a sefydliadau ac i annog partneriaethu. Cydweithir gyda nifer fel Gwasanaeth Ieuenctid, Cell B, Canolfan Gerdd William Mathias, Theatr Derek Williams, Dawns i Bawb, Theatr y Ddraig, Tîm Oed Gyfeillgar, Grŵp Llywio'r Celfyddydau ac Iechyd, Oriel Ysbyty Gwynedd ayyb.
- Noder ei bod yn her cael ymatebion a sylwadau ar gyfer gwerthusaid gan nifer.
- Gyda grant Llywodraeth y DU cynhaliwyd gweithdai a Chynhadledd Diwylliant gan ddod a'r sector ynghyd i adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol. Bellach mae comisiwn ar y gweill i asesiad economaidd a chymdeithasol o werth diwylliant i Wynedd.
- Adborth Stiwdio Lles - *"Roedd yr hyder a gefais drwy'r Stiwdio Lles yn caniatáu i mi fod yn fwy hyderus wrth reoli agweddau eraill ar fy mywyd roeddwn I'n cael trafferth efo nhw*."



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

Dangosydd Perfformiad: Nifer Benthyciadau Llyfrgelloedd Gwynedd

Trosolwg o Berfformiad:

Parhaodd y patrwm sefydlog mewn benthyciadau ac aelodaeth actif yn ystod 2025–26, gyda gostyngiad bychan mewn benthyciadau ffisegol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar yr un pryd, parhaodd benthyciadau digidol i gynyddu fesul mis.

Cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo ar gyfer gwasanaeth BorrowBox i ysgolion cynradd Gwynedd, gan gynnwys cyflwyniadau yng nghyfarfodydd ardal Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd (Cynradd).

Fel rhan o raglen Sêr y Silffoedd, trefnwyd ymweliadau awduron a rhaglen eang o weithgareddau creadigol i blant, a ariannwyd drwy Gronfa SPF – Diwyllesiant. Cymerodd 999 o blant Gwynedd ran yn y Sialens Ddarllen Haf – Gardd o Straeon 2025.


Fel datblygiad newydd yn ystod 2025–26, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i oedolion mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys sesiynau Atgofion Jiwcbocs, nosweithiau cerddorol, digwyddiadau cwrdd ag awduron a sesiynau crefft. Bu cyllid SPF – Diwyllesiant yn allweddol wrth alluogi'r gweithgareddau hyn.

Mae'r cynllun #CroesoCynnes bellach ar waith ym mhob un o Lyfrgelloedd Gwynedd, gan gynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis chwarae gwyddbwyll, jig-sos a chôr dementia.

Parhawyd hefyd i ddosbarthu cardiau SIM a thalebau data i unigolion sy'n wynebu argyfwng digidol drwy Gynllun Databank Cenedlaethol.

Mae'r sesiynau Cymorth Digidol 1:1 wedi parhau'n sefydlog, er gwaethaf colli sesiynau AbilityNet a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2026. Yn ogystal, bu nifer o staff rheng flaen yn cychwyn hyfforddiant ar-lein Money Guiders

Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwasanaeth hefyd yn cydweithio ar beilot Taith Tywyn, sef gwasanaeth cludiant cymunedol ar gyfer ardal Tywyn.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas: Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.

Dangosydd Perfformiad:


Trosolwg o berfformiad % Bodlonrwydd Cwsmer

I gyd-fynd hefo 7fed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd rydym wedi cynnal arolwg cynhwysfawr yn ystod Mis Tachwedd 2025 a oedd yn cynnwys arolwg cyffredinol ymhob Llyfrgell yn ogystal ac arolwg penodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Cafwyd 610 o ymatebion

Dyma rai canlyniadau:
96% yn hollol fodlon gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y llyfrgell
90% yn credu bod defnyddio llyfrgell leol wedi eu helpu i ddysgu rhywbeth neu ddatblygu sgiliau newydd
69% yn credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu gyda'u iechyd a'ch lles.
98% yn credu bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld
90% yn credu bod defnyddio'r llyfrgell hon wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywyd
79% yn credu bod y cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth yn dda neu da iawn
88% yn credu bod y dewis o lyfrau yn dda neu da iawn
98% yn credu bod safon y gofal cwsmer yn dda neu da iawn
51% wedi ymweld â Llyfrgell i fenthyg llyfr neu ddarllen
22% wedi ymweld i ddefnyddio cyfrifiadur, argraffu neu ddefnyddio wifi
34% wedi ymweld i fynychu digwyddiad neu am reswm cymdeithasol
12% wedi ymweld i dderbyn cymorth neu chwilio am wybodaeth

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbynwyd yn gadarnhaol ond lle cafwyd sylwadau adeiladol rydym yn trio rhoi ystyriaeth iddynt fel rhan o broses gwella y gwasanaeth
"I can read books and play and eat biscuits"
"Pa mor gartrefol ydi yma a bod pawb mor barod i helpu" "Rhan defnyddiol a phwysig o'r gymuned"
"my favourite place to go to feel calm" "Y jigsos! Gwneud byd o les a thawelu'r meddwl."
"This library seems to be very child orientated. No groups for adults which is a shame i.e. Talking groups, Reading groups"
"My life would be so much poorer without the library home delivery service. Thank you!"

"I use the library regularly for a variety of reasons - homeschooling, poetry group, writing group, children's activitiesm, health and wellbeing sources. The library has been an essential place for my and my children's socialising, education and wellbeing"



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : ***Darparu lle cymdeithasol sy'n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy'r celfyddydau a diwylliant.***

Dangosydd Perfformiad: % Boddhad Cwsmer Neuadd Dwyfor

Trosolwg o Berfformiad:

Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd 1,191 o ddefnyddwyr yr holiadur boddhad cwsmer. Ar gyfartaledd roedd 95% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth.


Ers mis Ionawr rydym wedi cyflwyno holiadur boddhad cwsmer newydd a fydd yn rhoi mewnwelediad i ni ar bwyntiau megis sut mae'n cwsmeriaid yn cyrraedd y Neuadd, ac a ydynt yn ymweld a unrhyw fusnes arall ym Mhwllheli cyn neu ar ôl y perfformiad

Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yn gadarnhaol, megis:
"Neis gweld rwbath gwahanol yna"
"Roedd o'n noson ffantastic! Efallai'r gallwch chi gynnal dwy noson y tro nesaf?! Roedd hi'n braf gweld y Neuadd mor llawn! Diolch am drefnu x"

Mae'r sylwadau negyddol yn aml am ddefnyddwyr eraill yn tarfu ar fwynhad trwy siarad yn ystod y ffilm, neu y tymheredd yn rhy boeth/rhy oer, diffygion cynnig bwyd a diod a diffygion yn ein offer technegol yn enwedig y system sain. Fodd bynnag, lle bo sylwadau adeiladol, rydym yn ceisio rhoi ystyriaeth iddynt, fel rhan o'n prosesau gwella perfformiad parhaus.

Bu i Neuadd Dwyfor gael ei enwebu ar gyfer gwobr sinema annibynol y flwyddyn ac er i ni beidio dod i'r brig derbynwyd sylwadau cadarnhaol am ein cynnig
"Awyrgylch bendigedig o gymuned leol. Rhywbeth i bawb. Staff cyfeillgar a chymwynasgar, bob amser yn croesawu"
"Wonderful local community atmosphere. Something for everyone. Friendly helpful staff always welcoming"

Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio i ail sefydlu y grŵp defnyddwyr a fydd yn rhoi adborth ac awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer cynllunio rhaglenni i'r dyfodol.



Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Neuadd Dwyfor, Pwllheli

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Rhian Evans

Pwrpas : ***Darparu lle cymdeithasol sy'n ysbrydoli, addysgu a chefnogi lles pobl Gwynedd trwy'r celfyddydau a diwylliant.***

Dangosydd Perfformiad: Gwerthiant Tocynnau ac Incwm Neuadd Dwyfor

Trosolwg o Berfformiad:


Un o'n blaenoriaethau strategol oedd gwella amrywiaeth y rhaglen drwy gynnig rhagor o ddigwyddiadau cerddorol byw, yn ogystal â'r cynnig arferol o ffilmiau a sioeau theatr. Dengys poblogrwydd y digwyddiadau hyn fod y flaenoriaeth hon yn llwyddiannus, ac ein bod yn ymateb yn gadarnhaol i batrymau ymwelwyr a disgwyliadau ein cynulleidfaoedd.


Cynhaliwyd nifer o nosweithiau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiadau gan Al Lewis, Cabarela, Welsh of the West End, yn ogystal â nosweithiau comedi lle'r oedd y neuadd yn llawn. Yn sgil llwyddiant perfformiad Welsh of the West End ym mis Mai 2025, mae'r grŵp wedi'i gadarnhau ar gyfer dau berfformiad ychwanegol yn 2026.

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, cyflwynwyd digwyddiadau crefftau i oedolion fel ychwanegiad newydd i'r rhaglen, ynghyd â sefydlu Clwb Darllen – O'r Llyfr i'r Ffilm, gan ehangu'r cynnig diwylliannol a chymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y costau sy'n gysylltiedig â chynnal cynhyrchiadau. O ganlyniad, er bod incwm ar gynnydd, rhaid cydnabod bod rhaid i ni fod yn wyliadwrus o gostau cynyddol. Rydym wedi dechrau cynnig yswiriant wrth werthu tocynnau sydd golygu ffrwd ychwanegol o Incwm.

Mae'r datblygiadau hyn i gyd yn cyfrannu at adnewyddu cynnig Neuadd Dwyfor ac yn cefnogi'r nod o apelio at gynulleidfaoedd newydd tra'n cynnal cefnogaeth cynulleidfaoedd presennol.





Cyfanswm Cronnus Gwerthiant Tocynnau & Incwm	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Cronnus Gwerthiant Tocynnau 2025/26	2,178	3,753	5,726	7,586	8,918	10,019	11,723	12,731	15,172	17115	18578	19602
Cronnus Incwm gwerthiant tocynnau a bwyd a diod 2025/26	£15,176	£34,636	£48,809	£73,200	£88,207	£101,176	£118,002	£130,634	£152,650	£168,634	£186,369	£201,565
Cronnus Gwerthiant Tocynnau 2024/25	1,737	2,656	3,721	6,136	9,296	10,131	11,476	13,481	15,989	17002	18449	19924
Cronnus Incwm gwerthiant tocynnau a bwyd a diod 2024/25	£16,449	£26,682	£37,630	£56,059	£83,288	£92,001	£105,113	£121,986	£143,679	£155,568	£173,891	£191,266

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Yn ôl i'r dashfwrdd

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans
Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones
Pwrpas: Cefnogi economi ymweld cynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant
Dangosydd Perfformiad: Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol
Trosolwg o Berfformiad:

Canran o drigolion Gwynedd a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol

Cesglir y data mewn arolwg blynyddol caiff ei gwblhau gan drigolion y sir trwy lenwi holiadur ar wefan y Cyngor. Yr arolwg wedi bod yn fyw ar-lein o ddiwedd Hydref 2025 a tan ganol Tachwedd 2025. Cyfnod sydd yn cyd-fynd gyda amseru ymchwil tebyg a gynhaliwyd yn sirol yn 2023 a 2024.

Yn 2025 bu i 996 o drigolion y sir ymateb ir arolwg ar lein ar wefan y Cyngor i ganfod barn trigolion am effaith twristiaeth ar eu hardal hwy o Wynedd. Gofynnir i'r ymatebwyr nodi yn gyffredinol os ydynt yn credu bod twristiaeth yn cael effaith bositif, negyddol neu niwtral ar eu cymuned. Bu I 74.1 % nodi positif , 14.3% yn niwtral a 10.8% negatif
Nodwyd yn 2024 – 74.3% nodi positif, 12.1% yn niwtral a 12.7% yn negatif
yn 2023 – 75.8% nodi positif, 10.8% yn niwtral a 13.4 % yn negatif
I'r rhai fyddai'n nodi fod canlyniadau negyddol yn deillio o dwristiaeth yn eu hardal bydd cyfle iddynt nodi pa broblemau sydd yn codi ac i ba raddau roeddynt yn broblem.
(fwy o adborth i weld yn y tabl)
Caiff cwestiynau penodol eu gofyn yn arolwg 2025 am y dynodiad UNESCO Llechi, Cynllun Arosfan, digwyddiadau, tai haf, yr iaith Gymraeg a'r lefi twristiaeth a bydd modd hidlo'r canlyniadau lawr i lefel yr 13 Ardal adfywio, Ardal AHNE, Ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oddi fewn i Wynedd ar 6 Parth o fewn y dynodiad Llechi UNESCO.
Bydd y canlyniadau yn gyfrwng pwysig i siapio'r weledigaeth twristiaeth cynaliadwy, cynlluniau gwaith a bidiau am arian ir dyfodol. Sylfaenir fformat yr holiadur ar fodelau ymchwil rhyngwladol i'r maes barn trigolion ar dwristiaeth ac ymchwil peilot y bu i'r Cyngor cymryd rhan ynddo trwy Croeso Cymru yn 2023.



Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Sian Jones

Pwrpas : Cefnogi economi ymweld cynaliadwy er budd a lles pobl Gwynedd; ei amgylchedd, iaith a diwylliant .

Dangosydd Perfformiad: Canran cynnydd mewn busnesau a mentrau yn llwyddo i dderbyn Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35

Trosolwg o Berfformiad:

70 wedi arwyddo i fyny i Addewid Busnes Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 35 rhwng Ebrill-Mawrth 2025/26 Canran cynnydd o 311% o nifer y gwaelodlin a sefydlwyd yn 2024-25.
Mae 7 egwyddor mae angen i'r busnes arwyddo i fyny iddo cyn gall busnes wneud cais i arwyddo i fyny i'r addewid:

- Cefnogi yn lleol
- Dathlu traddodiadau a diwylliant lleol
- Hyrwyddo teithio cynaliadwy
- Lleihau effeithiau amgylcheddol eich busnes
- Gwarchodwch eich cymunedau lleol
- Annog Diogelwch ein mynyddoedd ac arfordir
- Arwain ar ddiwylliant positif o gyfathrebu digidol

Trwy ymrwymo i'r Addewid hwn, bydd y busnes yn chwarae rhan bwysig wrth warchod harddwch naturiol a phwysigrwydd diwylliannol Gwynedd ac Eryri – ac yn cyfrannu at economi ymwelwyr cynaliadwy.

Mae **Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri 35** yn rhan o becyn o adnoddau i godi ymwybyddiaeth ac i wreiddio egwyddorion economi ymweld cynaliadwy Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sydd yn cynnwys:

- **Modiwl Egwyddorion twristiaeth cynaliadwy Gwynedd ac Eryri** sydd wedi ei gynnwys o'r newydd ar **Platfform Cynllun Llysgennad Gwynedd ac Eryri** 511 wedi cofrestru ar y cynllun Llysgennad sirol. 259 wedi pasio tri modiwl lefel Efydd, 172 wedi pasio 6 modiwl i lefel Arian a 152 wedi pasio 9 neu fwy o fodiwlau i gyrraedd lefel Aur)
- Cod ymarfer da i'r rhai sydd yn ymweld ar ardal - **Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri 35** Addewid Ymwelwyr Gwynedd ac Eryri | Eryri
- **Achrediad / Addewid Busnes Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035** Addewid Busnes Gwynedd ac Eryri | Eryri
- **Bwletin Gwybodaeth Gwynedd ac Eryri 35**

Tudalen 100

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMRWYMO I DALU CYFLOG BYW GO IAWN I'W GWEITHWYR AC I DDEFNYDDIO MWY O GYMRAEG

(Dangosydd o effaith darparu cymorth gan y Cyngor – mae pob busnes yn derbyn arian yn gorfod ymrwymo i dalu'r cyflog byw go iawn a defnyddio mwy o Gymraeg)

Trosolwg o berfformiad:


Mae ymdrech barhaus gan y Gwasanaeth i hyrwyddo'r buddion sy'n dod i fentrau o ddefnyddio'r Gymraeg a talu'r cyflog byw go iawn.


Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gofyn i unrhyw fusnes sy'n derbyn cynnig o gymorth ariannol gan y Cyngor yn gorfod ymrwymo i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at dalu'r cyflog byw go iawn (isafswm o £13.45) i'w gweithwyr. Dyma 54 o fusnesau wedi ymrwymo i'n gofynion yn 2024/25.


Sicrhawyd mwy o arian i ddarparu cymorth i fusnesau dechrau'r haf ac mae cynnig o grant wedi ei ryddhau i 118 o fentrau lleol eleni.

Mae'r nifer yn ymddangos yn y dangosydd pan fydd busnes yn hawlio eu grant. Hyd yn hyn mae 97 hawliad wedi dod i law.

Mae'r nifer o fusnesau *yn* talu'r cyflog byw go iawn ac *yn* defnyddio mwy o Gymraeg yn cael ei fonitro ar ôl cwblhau'r gwaith ariannwyd gan y Cyngor.







Tud. 306

Awedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a'r llinell yn dangos cyfanswm cronnus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae'r flwyddyn flaenorol (glas) a'r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: BUSNESAU WEDI YMGYSYLLTU A BUSNESAU WEDI DERBYN CEFNOGAETH
(Data rheolaethol sy'n cyfrif gwaith y Gwasanaeth yn annog busnesau i ymwneud â cymorth busnes a'r mentrau sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor.)

Trosolwg o Berfformiad:

Ar gyfartaledd mae 4,326 o fentrau wedi ymgysylltu yn fisol gyda'r Gwasanaeth yn ystod 2025/26.

Mae busnesau wedi dod i gyswllt drwy eu bod yn derbyn gwybodaeth drwy law ein bwletinau gwybodaeth rheolaidd neu ym mynychu gweithgaredd wedi ei drefnu gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd Wythnos Busnes llwyddiannus ynghyd â cyfres o sesiynau galw heibio i fusnesau, a cyfres o ddigwyddiadau mewn ymateb i faterion o bwys i busnesau lleol.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth i ddatblygu economi Gwynedd fydd yn arwain ein gwaith dros y degawd nesaf i gefnogi mentrau Gwynedd a sicrhau economi sydd yn cyflawni i'n bobl a'n cymunedau lleol.

Rhoddwyd cymorth i 185 o fusnesau gan y Gwasanaeth yn ystod 2025/26 gan gynnwys darparu £1.3 miliwm o help ariannol i fentrau lleihau eu costau neu gynyddu eu incwm.

Mae enghreifftiau o gynlluniau sydd wedi eu cefnogi eleni yn cynnwys:

- Cwmni bywyd lleol yn cychwyn gwerthu prydau wedi eu rhewi
- Garej lleol yn cychwyn trwsio ceir trydan / hybrid
- Help i brynu offer torri laser i newid dull cynhyrchu cwmni hir sefydlog yn y sir

Darparwyd help ariannol i 56 o fusnesau yn Arfon, 24 yn Dwyfor a 36 ym Meirionnydd.

Dyma adborth un busnes sydd wedi derbyn cymorth:

'Many thanks for all your help, and for the support of Cyngor Gwynedd to develop my business and increase resilience. It is deeply appreciated. The project is progressing well. Only yesterday I had a cold enquiry via my online course trailer on YouTube from Brazil! The international market is opening up, little by little.' Ruani Higson o Dyffryn Nantlle (www.raunihigson.co.uk) sydd enter newydd i gynnig hyfforddiant gemwaith ar-



Dyma lun o Mirain Glyn o Llangybi sydd wedi derbyn cyfraniad o £4.5k tuag at odyn newydd fydd yn caniatáu ymestyn ystod cynnyrch ei busnes www.prydferthflwch.com.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI EU CEFNOGI I WAITH

(Dangosydd o effaith cymorth y Cyngor i helpu trigolion oed gwaith sydd yn economaidd anweithgar i sicrhau swydd)

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'n tîm Gwaith Gwynedd yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd wedi bod allan o waith am gyfnod hir am resymau megis salwch neu anabledd. Mae'r unigolion angen cymorth dwys i'w cynorthwyo i fod yn barod am waith. Llywodraeth Cymru sydd yn talu am gost y gwaith.


Yn 2025/26 roedd 255 o bobl lleol wedi sicrhau swydd o ganlyniad i'r help maent wedi ei gael gan Gwaith Gwynedd. Roedd y nifer 34 yn fwy nac yn 2024/25.

Dyma hanes un o fuddiolwyr Gwaith Gwynedd yn 2025/26:

Roedd Seimon yn ddigartref, yn cysgu ar y stryd, heb unrhyw incwm pan gyfeiriodd ei hun i Gwaith Gwynedd ar gyngor y Ganolfan Byd Gwaith.

Cefnogwyd Seimon i gael mynediad brys at y tîm digartrefedd lleol yna, wedi iddo gael mynediad at lety dros dro, dyma Gwaith Gwynedd yn ei helpu i ymgeisio am swyddi yn lleol ac i baratoi ar gyfer cyfweliad.

O ganlyniad o fewn mis dyma Seimon yn symud o gysgu ar y stryd i lety dros dro ac i sicrhau swydd. I wneud yn siŵr fod ei lwyddiant yn gynaliadwy dyma Gwaith Gwynedd hefyd yn darparu tocyn bws iddo fel ei fod yn gallu teithio i'r gwaith hyd iddo dderbyn ei gyflog gyntaf.



Tud 308

Amcan: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a'r llinell yn dangos cyfanswm cronnus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae'r flwyddyn flaenorol (glas) a'r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos i ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned: Gwasanaeth Datblygu'r Economi

Pennaeth: Sioned Williams

Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffiths

Pwrpas : Gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Dangosydd Perfformiad: POBL WEDI CYNYDDU EU GALLU I ENNILL CYFLOG DA

(Dangosydd o effaith cymorth y Cyngor i helpu trigolion mewn gwaith gael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swydd gwell neu datrys problem yn nhw rhag cynyddu eu oriau)

Trosolwg o Berfformiad:


Mae trigolion sy'n gweithio llai na'r hyn allent yn nodwedd o'r farchnad llafur yn y sir. Mae hefyd llawer o drigolion sydd ddim ennill cyflog sy'n ddigon i gyfarch eu anghenion.

Mae'r Cyngor wedi ymestyn sgôp Gwaith Gwynedd i gynnwys help i drigolion sydd eisoes yn gweithio oresgyn problem sy'n eu hatal rhag gweithio mwy o oriau neu gael y sgiliau sydd eu hangen i gael swydd sy'n talu'n well.

O ganlyniad i lwyddiant y gwaith mae adnoddau pellach i barhau ein gweithgaredd yn y maes pwysig yma wedi ei sicrhau.

Roedd 130 o bobl Gwynedd gyda gwell gallu i ennill cyflog da o ganlyniad i gefnogaeth y Gwasanaeth yn 2025/26. Roedd yn gychwyn yr haf cyn derbyn cadarnhad o gyllid o'r SPF o ganlyniad roedd gostyngiad yn ein gweithgaredd ar gychwyn y flwyddyn ond bellach mae momentwm y gwaith wedi ailgydied.

Mae'r newid i ffwrdd o arian refeniw yn y Gronfa Twf Lleol yn peryglu dyfodol y gwaith yma.



Tud. 309

Allwedd: Bariau yn dangos perfformiad y dangosydd fesul mis a'r llinell yn dangos cyfanswm cronnus y flwyddyn (gan ail ddechrau mis Ebrill yn flynyddol). Mae'r flwyddyn flaenorol (glas) a'r flwyddyn gyfredol (oren) yn cael eu dangos ganiatáu cymhariaeth.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Esyllt Rhys Jones


Yn ôl i'r dashfwrdd

Pwrpas: Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

Mesurydd Perfformiad: Buddsoddiad mewn Rhaglenni Adfywio Canol Trefi

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am dargedu cefnogaeth ariannol o ffynonellau ariannu amrywiol er mwyn buddsoddi mewn cynlluniau adfywio canolfannau masnachol. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddod a swyddogion/partneriaid allweddol at eu gilydd i ddatblygu a ffurfio unrhyw gynllun. Mae'r mesurydd yma yn seiliedig ar y llythyrau cynnig a dderbynnir gan ffrwd cyllido sydd yn golygu fod modd symud o wedd datblygol i wedd gweithredu a'r gallu gan y Gwasanaeth i ddilyn camau Rheoli Prosiect yn ffurfiol. Mae'r symiau a gaiff eu sicrhau yn flynyddol yn amrywio ac yn ddibynnol ar gyllidwyr a rhaglenni adfywio cyrff allanol.



Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi llwyddo:

- Sicrhau cyllideb o hyd at £1M i gydweithio gyda perchnogion eiddo ym Mangor er mwyn gwella edrychiad a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn y Ddinas;
- Cydweithio gyda partneriaethau er mwyn datblygu cynlluniau yng nghanol trefi mewn ymateb i Gynlluniau Creu Lle ar gyfer Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau ac Y Bala. Deilliant i hyn yn cynnwys sicrhau defnydd llawn o gyllid Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi i gefnogi y gwaith o uwchraddio Y Ganolfan a Cob Crwn ym Mhorthmadog, Llety Arall, Caernarfon ynghyd a gwaith rhagbaratoi i ofod allanol Cei Llechi Caernarfon a Gwersyll Rhufeinig, Bangor.
- Cwblhau gweithredu a chau cynlluniau Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd Ni (yn cynnwys 64 cynllun gan y Cynghorau Lleol) oedd yn cynnwys cynlluniau megis gwaith uwchraddio meysydd chwarae, toiledau a gorsafoedd bysiau ar draws y Sir, ynghyd a thrawstoriad eang o gynlluniau drwy Diwyllesiant2 (Prosiect Diwyllesiant- Cronfa Ffyniant Gyffredin) er budd cymunedau Gwynedd, gan uchafu ar yr allbynnau a chanlyniadau a ragwelwyd.
- Sicrhau trefniadau llywodraethu ar gyfer pecyn cynhwysfawr o brosiectau i'w gweithredu drwy gyllid Cronfa Effaith Balchder Bro (Llywodraeth Prydain), i gynnwys ail rownd o'r Gronfa i'r Cynghorau Lleol.
- Parhau i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi gan fonitro cynnydd cynlluniau partneriaid allanol tra yn gweithredu cyfres o ymyraethau canol trefi. Gwelwyd sawl prosiect megis Yr Aelwyd ym Mlaenau Ffestiniog, gwaith arwyddo Bethesda a'r Bloc Croeso yn Parc Padarn yn cael eu cwblhau.
- Cefnogi ar weithredu ar becyn o gynlluniau yn y maes arfordirol, drwy Gronfa Pethau Pwysig, Croeso Cymru, megis gwelliannau mynedfa Morfa Bychan, Uwchraddio Jeti Aberdyfi a gwelliannau i ffordd at y traeth yn Abersoch.
- Cydlynu y gwaith o drefnu a chynnal y balot ar gyfer Ardal Gwella Busnes Bangor a Hwb Caernarfon.

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Yn ôl i'r dashfwrdd


Rheolwr Cyfrifol: Esyllt Rhys Jones

Pwrpas: Datblygu a rheoli rhaglenni adfywio i ddod a bwrlwm yn ôl i ganol trefi, er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo.

Mesurydd Perfformiad: Uwchraddio ac Adnewyddu Adeiladau Gwag

Trosolwg o Berfformiad:

Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn gyfrifol am osod yr isadeiledd er mwyn symbylu twf economaidd ac adfywio canol trefi Gwynedd. Mae uwchraddio a dod ac adeiladau gwag, rhai yn adeiladau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir o amser, yn ôl i ddefnydd yn gosod yr isadeiledd ar gyfer adfywio a thwf economaidd.



Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi llwyddo:

- Gwaith o gydlynu'r Grŵp Eiddo Gwag trawsadrannol, adnabod ymyraethau a chefnogaeth, a symud ymlaen i ymateb i'r Cynllun Gweithredu wedi datblygu yn sylweddol;
- Fel rhan o Gynllun Peilot Eiddo Gwag Bangor, sicrhau cyllideb i gydweithio gyda perchnogion eiddo ym Mangor er mwyn gwella edrychiad a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn y Ddinas. Cydweithio gyda 6 perchennog i ddatblygu a gweithredu cynlluniau;
- Cefnogaeth i 15 eiddo mewn canol trefi i ddod yn ôl i ddefnydd yn cynnwys drwy gefnogaeth ariannol drwy Trawsnewid Trefi, Cronfa Ffyniant Bro, Cronfa Ffyniant Gyffredin a Benthyciadau Canol Trefi. Enghreifftiau yn cynnwys Y Maes, Criccieth, Aelwyd yr Unrdd Blaenau Ffestiniog a Lle Da, Caernarfon.
- Trefniadau gorfodaeth mewn lle gyda amryw eiddo er mwyn symud yr agenda yn ei blaen. Cefnogi cynlluniau i adnewyddu adeiladau;
- 13 adeilad yng nghanol trefi Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth ariannol i'w hadnewyddu a gwella eu delwedd yn sgil cefnogaeth Cyngor Gwynedd drwy gefnogaeth Trawsnewid Trefi a Chronfa Ffyniant Gyffredin. Enghreifftiau yn cynnwys Y Tŵr, Pwllheli, 4 eiddo yng Nghaernarfon a brynwyd (drwy gefnogaeth) gan Galeri Caernarfon, ac Eifion Stores, Blaenau Ffestiniog.
-

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol: L**lyr Jones


Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis


Pwrpas : Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau .

Dangosydd Perfformiad: Nifer y grwpiau sydd wedi cael cyngor neu gefnogaeth – 335

Trosolwg o Berfformiad:

Mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn brysur o fuddsoddi a chefnogi grwpiau cymunedol i wireddu prosiectau drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, datblygu cynlluniau 'Ardal Ni' ar draws y sir, a dyrannu dros £1.6m o grantiau. Mae integreiddio'r gwaith Cefnogi Pobl hefyd yn gam allweddol tuag at gryfhau cymunedau mwy gwydn a chynaliadwy.







Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis

Pwrpas: Cefnogi Grwpiau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio er mwyn gwella cymunedau


Dangosydd Perfformiad: Nifer o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu - 337

Trosolwg blynyddol

Cefnogaeth y gwasanaeth wedi galluogi buddsoddiad, diogelu asedau a datblygu prosiectau cymunedol, gyda ffocws ar gynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r tîm wedi cynorthwyo 337 o brosiectau cymunedol ar draws ystod eang o weithgarwch—o brosiectau cyfalaf i fentrau sy'n cryfhau gwydnwch cymunedol drwy weithgareddau lleol, llywodraethiant a datblygu modelau cynaliadwy a chreu swyddi.

Mae hyn wedi cynnwys galluogi 22 o brosiectau cyfalaf, cefnogi 11 i ddatblygu cynlluniau, a gweithio ar 7 cynllun i sicrhau defnydd cymunedol o asedau'r Cyngor.



Enghreifftiau o brosiectau wedi'u cwblhau eleni:

- ✓ Menter Rabar (Abersoch) a Menter y Tŵr (Pwllheli)
- ✓ 2 gynllun trafnidiaeth gymunedol gynaliadwy ym Meirionnydd
- ✓ Gwelliannau i 7 neuadd bentref
- ✓ Uwchraddio Canolfan Rhyd Ddu a Lle'r Llan (Llan Ffestiniog)
- ✓ Estyniad i Feithrinfa Seren Fach, Brithdir
- ✓ Parc Chwarae Garndolbenmaen
- ✓ Prynniant hen lyfrgell Deiniolen gyda £300k o gyllid

Mae 'Ardal Ni' wedi datblygu'n gadarn gyda 13 cynllun gweithredu lleol yn fyw, rhwydweithiau'n datblygu mewn 9 ardal, a sgwrs barhaus gyda chymunedau i lywio blaenoriaethau.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned : Cefnogi Pobl

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones

Rheolwr Cyfrifol: Lindsey Ellis

Pwrpas: Helpu pobl i ymdopi hefo heriau costau byw. Helpu pobl i gael cefnogaeth, gwybodaeth a mynediad i wasanaeth a chyngor sy'n sicrhau tegwch i bawb.



Crynodeb 25/26

- Rhaglen Gwytnwch Cymunedol £820k yn cefnogi pobl fregus ar draws Gwynedd
- Ffocws ar atal: costau byw, unigrwydd, sgiliau digidol
- Gweithio trwy rwydwaith eang o bartneriaid a hybiau cymunedol
- Effaith uniongyrchol ar les, annibyniaeth a gwasanaethau a gweithgareddau ataliol

Cryfderau

- Cydweithio cryfach rhwng partneriaid (CAB, Ability Net, Age Cymru, Mantell Gwynedd, Adra, cynlluniau trafnidiaeth cymunedol)
- Cyrraedd cymunedau anghysbell
- Cymorth personol (1:1) yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol

Heriau

- Galw a chymhlethdod anghenion yn cynyddu
- Pwysau ar adnoddau a chynaladwyedd rhai cynlluniau
- Amrywiaeth mewn ansawdd a darpariaeth ar draws ardaloedd

Neges Allweddol

Mae'r rhaglen yn cael effaith gadarnhaol glir ond mae angen cryfhau modelau darparu a sicrhau cynaladwyedd tymor hir sydd wedi arwain at gynllun trawsnewid Rhwydwaith Hybiau Cymunedol

Talebau Argyfwng Charis

101 o dalebau i gyd wedi eu creu, y mwyafrif o'r rhain yn dalebau bwyd
Cyfanswm ariannol y talebau: £5,011.80

Hyrwyddwyr Lles wedi helpu 498 o bobl i uchafu incwm ac wedi trefnu 4 digwyddiad costau byw ledled y sir

Ymgyrch Credyd Pensiwn

Households targeted: 162
Households claimed: 21
Total annual: £ 62,118.54
Total lifetime: £ 604,859.51

Rhwydwaith Hybiau Cymunedol

Cynllun i drawsnewid y Rhwydwaith Hybiau Cymunedol i fodel mwy integredig a chynaliadwy, gan ddefnyddio llyfrgelloedd fel prif bwynt mynediad a llunio model ardal wrth ardal yn seiliedig ar anghenion ac asedau lleol.

Yn ôl i'r dashfwrdd

Adran Economi a Chymuned

Pennaeth: Sioned Williams; **Pennaeth Cynorthwyol:** Llyr Jones a Roland Evans

Rheolwr Cyfrifol: Holl reolwyr yr adran

Pwrpas: Sicrhau fod staff yr adran yn cwblhau hyfforddiant mandadol 'Diogleu' a 'VAWDASV' yn unol a'u cytundeb cyflogaeth

Mesurydd Perfformiad: Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol Diogelu a VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol)

% Staff yr Adran Economi a Chymuned sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu	% staff yr Adran Economi a Chymuned sydd wedi cwblhau hyfforddiant VAWDASV
90.1%	**92.8%**

Yn ôl i'r dashfwrdd

CCYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	Mehefin 18, 2026
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol
RHESWM DROS GRAFFU	Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AWDUR	Ian Jones – Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Llio Elenid Owen

1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cefndir / Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2025-26. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad diweddar, ac rwyf yn fodlon iawn gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Rhesymeg a chyfiawnhad

Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

Mae Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar chwe phrosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023 - 2028, sef:

1. Cadw'r Budd yn Lleol
2. Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd
3. Cynllunio'r Gweithlu
4. Sicrhau Tegwch i Bawb
5. Merched Mewn Arweinyddiaeth
6. Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2025-26, ac mae Atodiad 1 yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y chwe blaenoriaeth

2.3 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Mae Atodiad 2 yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau'r Adran. Mae'n cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, cyd-destun a sylwadau yn esbonio perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2025-26.

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol nifer o wahanol wasanaethau a meysydd cyfrifoldeb amrywiol. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

3.Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gyda'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Adran, Pennaeth Cynorthwyol, Rheolwyr Gwasanaeth a finnau yn bresennol.

4. Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd meysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

Gwynedd Lewyrchus: Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Adran a Phrosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb)
Gwasanaethau Corfforaethol **- Cadw'r Budd yn Lleol**	Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nwyddau a gwasanaethau sylweddol gan gwmnïau allanol ac rydym yn awyddus i weld busnesau lleol yn cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Bydd y prosiect yma yn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn y rheolau perthnasol, tra ar yr un pryd yn sicrhau fod y Cyngor	1.Datblygu strategaeth caffael newydd i dreiddio egwyddorion a nod y cynllun cadw'r budd yn lleol.	Ydy	Mae yna strategaeth caffael newydd wedi datblygu a'i gymeradwyo gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn. Mi ddaru ni gymryd y cyfle i ymgysylltu gyda gwahanol rhanddeiliaid wrth ei ddatblygu a bu'r strategaeth newydd gael ei graffu gan y Pwyllgor Corfforaethol dros yr hydref, gan hefyd gael ei gymeradwyo yn fan hyn. Mae'r strategaeth newydd yn adnabod saith maes blaenoriaeth sydd yn cynnwys: Budd Lleol, Carbon sero, Gwerth am arian, Gwerth Cymdeithasol, Technoleg, Trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg. Yn ystod 2026/27 byddwn yn gweithio ar ddrafftio cynllun gweithredu a rhoi hwn ar waith.
		2.Adrodd ar berfformiad caffael y Cyngor – gwariant lleol.	Ydy	Rydym wedi cyfrifo ac adrodd ar wariant caffael y Cyngor gyda busnesau lleol dros y flwyddyn. Gwelwn fel y flwyddyn flaenorol bod y prif feysydd ble mae gwariant yn gadael y Sir yn parhau i fod yn

	yn cael y gwerth gorau am yr arian sy'n cael ei wario.			gynlluniau Adeiladwaith Arbenigol, Systemau TG a Gofal Preswyl i Oedolion a Phlant. Gyda phryniant mewn meysydd fel Gofal Cartref, Tai a Chefnogaeth, Cludiant Ysgolion, Hurio Offer ac Ailgylchu yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol.
		3.Codi ymwybyddiaeth o'r prosiect a'r amcanion prynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon (hinsawdd) gyda swyddogion y cyngor a busnesau'r Sir.	Yn rhannol	Sesiynau hyfforddi wedi ei datblygu a'i cynnal gyda swyddogion sydd yn caffael yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amcanion i brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon. Swyddogion wedi cynnal digwyddiadau cwrdd â'r prynwyr i amlygu'r trefniadau caffael a'r meini asesu hyn. Buom hefyd yn rhan o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth busnesau ar y cyd a Busnes Cymru ac Adra. Rydym hefyd wedi rhannu negeseuon drwy'r bwletin staff a chefnogi busnesau ynglŷn â newid i'r rheoliadau caffael cenedlaethol newydd.

Gwynedd Gymraeg: Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg

Adran a Phrosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb)
Gwasanaethau Corfforaethol **– Hybu defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd**	Byddwn yn cynnal prosiectau penodol fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.	1.Gweithredu Rhaglen Waith Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033. Mae'r strategaeth iaith wedi ei rhannu i 5 blaenoriaeth sef: **Blynyddoedd cynnar** **Iaith dysgu** **Gwaith a Gwasanaeth** **Y gymuned** **Ymchwil a thechnoleg** Adroddir yma ar waith sy'n hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd a wneir gan dîm y Gymraeg a Chraffu ac sy'n berthnasol yn bennaf i faes blaenoriaeth Gwaith a Gwasanaeth, Y Gymuned ac Ymchwil a Thechnoleg a'r gwaith a wnaed o ganlyniad i'r grant a roddwyd i Fenter Iaith Gwynedd er mwyn gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Gwynedd a chyfrannu tuag at gostau staff a phrosiectau 2025-2026.	Ydy	**Maes Blaenoriaeth Gwaith a Gwasanaeth** Bu cydweithio gydag Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er mwyn creu adnoddau digidol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus sy'n chwalu mythau am y Gymraeg ac o gymorth i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Rhoddwyd hyfforddiant i dimau rheoli a chreu fideo ar gyfer y gweithdy croeso er mwyn parhau i geisio gwella cydymffurfiaeth fewnol gyda pholisi iaith y Cyngor a Safonau'r Gymraeg. Parhawyd i gydweithio gydag eraill a chymryd rhan yn Grŵp Cynyddu Defnydd Mewnol Comisiynydd Y Gymraeg er mwyn cynorthwyo i hybu'r Gymraeg mewn gweithleoedd ar hyd Cymru. Mynychwyd gweithdy ffurfio fframwaith sgiliau iaith newydd Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi barn ar beth fyddai'n fuddiol er mwyn cynorthwyo cyflogwyr a'r cyhoedd i'w ddeall a'i ddefnyddio. Cydweithiwyd gyda swyddogion Menter Iaith Gwynedd a Thîm Cefnogi Busnes, i weithio tuag at gynyddu defnydd busnesau o'r Gymraeg a rhoi sylw i hynny yn ystod Wythnos Fusnes Gwynedd, diwrnod Shwmae, Su' mae a Diwrnod Hapus i Siarad Mentrau Iaith Cymru. Targedwyd oddeutu 200 o fusnesau i arddangos poster sy'n nodi eu bod yn hapus i siarad Cymraeg gyda

				chwsmeriaid a chefnogi dysgwyr i sgwrsio yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Tywyn a Bro Peris. Mae bwriad i dargedu mwy o fusnesau yn y sir. Rhoddwyd sêl bendith i fabwysiadu Twf - Siarter y Gymraeg yn y Gwaith ar y cyd gyda Chyngres Undebau Llafur Cymru a chynrychiolwyr lleol o undebau Unsain, GMB ac Unite gan y Cabinet. Mae'r siarter yn cefnogi gweithwyr, eu hundebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog yn ogystal â rhoi pwyslais ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gwaith ac ar sicrhau fod gan weithwyr fynediad i gynrychiolaeth gan undebau llafur yn eu dewis iaith. Bu swyddog hefyd yn aelod o banel trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle yn yr Eisteddfod Genedlaethol a beth all eraill wneud i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Cychwynnwyd ar y gwaith o sefydlu Bwrdd Prosiect Y Gymraeg er mwyn cael gwell trosolwg strategol o waith a wneir i hybu'r Gymraeg ar draws pob adran a chytuno ar flaenoriaethau'r dyfodol. **Maes Blaenoriaeth Blynyddoedd cynnar** Bu Menter Iaith Gwynedd yn cydweithio gyda Sesiwn Fawr Dolgellau i gynnal Digwyddiad Hwiangerddi i rieni a Phlant er mwyn annog pobl i ganu hwiangerddi traddodiadol i blant. Cynhyrchwyd hefyd restr chwarae a gafodd ei recordio yn broffesiynol fel bod pobl yn gallu gwrando a chyd ganu adref. **Maes Blaenoriaeth Dysgu** Dros y flwyddyn cynhaliwyd amryw o weithgareddau gan Fenter Iaith Gwynedd drwy gydweithio gyda'r ysgolion a'r adran addysg er mwyn hybu'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn chwarae gemau buarth yn Gymraeg yn Ysgol y Garnedd ym Mangor a

				gweithgareddau i blant, gyda'r cyfle i drafod efo'r rheini, yn ysgol y Faenol ym Mangor yn ystod eu ffair haf. Cydweithiwyd gyda swyddogion Siarter Iaith Gwynedd i gynnal taith gan Gareth yr Orangwtan a Hywel Pitts i 5 ysgol uwchradd gydag elfennu o'r sioe yn trafod pa swyddi sydd angen y Gymraeg ynddynt ar ôl gadael ysgol. Yn ogystal â hyn trefnwyd taith cerddoriaeth ysgolion, gyda Ed Holden yn gwneud gweithdai rapio a Mei Emrys yn gwneud gweithdai sylwebu gydag ymweliadau i Frynrefail, Tywyn, Ardudwy, Friars, Moelwyn a Dyffryn Nantlle. Mynychodd swyddog hefyd gyfarfod Cyngor Iaith yr ysgolion, cynnal sesiwn ymwybyddiaeth iaith a thrafod sut gall y fenter eu cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol. Cynhaliwyd prosiect 'Arwyr Iaith' eto eleni, ar y cyd gyda'r Adran Addysg, yn Ysgol Ffridd y Llyn ac yn Ysgol Abererch. Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan hwyluswyr celfyddydol, yn dilyn y pecyn arbennig a grëwyd sy'n canolbwyntio ar ganmol unigolion sydd newydd ddychwelyd o'r canolfannau trochi i'w mam ysgol, a phwysigrwydd bod y plant sy'n barod yn yr ysgol yn siarad Cymraeg gyda'r newydd ddyfodiaid. Er bod hwn yn brosiect mewn ysgolion mae'r digwyddiadau cloi yn berfformiadau i'r rhieni, ac yn gyfle iddynt ddod mewn a chael perfformiad gan y plant sy'n llawn negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg, ei hanes a phwysigrwydd ei defnyddio. Siaradwyd hefyd gyda theuluoedd disgyblion yr Unedau Trochi ar ddiwedd cyfnod y plant yn y canolfannau. **Y gymuned** Yn unol ag amodau'r grant darparwyd nifer o weithgareddau cymunedol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan Fenter Iaith Gwynedd. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau a sesiynau sgwrsio cymunedol i ddysgwyr, un ymhob ardal llesiant yng Ngwynedd, sydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a magu hyder mewn

				awyrgylch anffurfiol. Cefnogwyd mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor neuadd Rhiwlas, criw yn Ninas Mawddwy ac aelwydydd Yr Urdd i bobl ifanc yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd. Cynhaliwyd hefyd ddigwyddiadau cymunedol ym Methesda, Bala, Botwnnog a Thywyn am sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yno Defnyddiwyd cerddoriaeth i ddenu oedolion at y Gymraeg, drwy gynnal nosweithiau misol cerddoriaeth Gymraeg yn nhafarn y Nelson ym Mangor, a threfnwyd noson 'Bang Bang Bangor Ucha' ym Mangor uchaf, sef cyfres o gigiau mewn sawl lleoliad. Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi cafwyd gig lwyddiannus gan Gwilym Bowen Rhys yn Nhywyn. Canolbwyntiwyd ar ddenu teuluoedd sydd ddim fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol i ddigwyddiadau cymdeithasol e.e gweithdai creu llusernau yn Y Bala, gig calan yn Llithfaen a disgo cymunedol yn Llanbedrog fel rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi yn yr ardal. Trefnwyd hefyd orymdeithiau Gŵyl Dewi yn Nhywyn, Llanbedrog a Bangor gan ddefnyddio arian cyfatebol o Gyngor Gwynedd (Storiel) a'r Loteri i gyd ariannu'r digwyddiadau amrywiol. Trefnwyd gorymdeithiau Gŵyl Dewi gan y fenter iaith yn Nhywyn, Llanbedrog a Bangor gan ddefnyddio arian cyfatebol o Gyngor Gwynedd (Storiel) a'r Loteri i gyd ariannu'r digwyddiadau amrywiol yn ogystal â chynnal prosiect Hyrwyddwyr Ifanc a oedd yn rhoi cyfle i griwiau o bobl ifanc drefnu gigiau eu hunain yn Blaenau Ffestiniog, Tywyn a Dolgellau. Datblygwyd Prosiect Cefnogi Clybiau Chwaraeon i gynyddu/parhau defnydd o'r Gymraeg yn dilyn ymgynghori gyda chlybiau chwaraeon. Daeth clybiau -

				CPD y Felinheli, CPD Cae Glyn, Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Rygbi Caernarfon, CPD Dolgellau a CPD Llanystumdwy i ddigwyddiad arbennig i weld cynnwys y pecyn a mewnbynnu syniadau iddo ym Mhorthmadog ganol Awst. Gweler mwy o fanylion am fforwm iaith Gwynedd, rhaglen waith enwau lleoedd a Phrosiect 15 isod o dan 2,3 a 4. Mae'r Cyngor bellach yn aelod o Rwydwaith WISERD sy'n dod ac academyddion a chynllunwyr ieithyddol at ei gilydd i drafod ymchwil am y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill a chanfod bylchau. Braf hefyd yw adrodd bod adrannau bellach yn cysylltu gydag ymgynghorwyr iaith wrth gaffael systemau technoleg gwybodaeth mawr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Gweler mwy o fanylion am y ffrwd gwaith yma o dan 4 a 5.
		2.Gweithredu Rhaglen waith enwau lleoedd 2025/26	Ydy	Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd sylw i gynyddu gweledded enwau Cymraeg yn ogystal â'u hyrwyddo. Darparwyd cyngor ar enwau tai a strydoedd, gosod arwyddion stryd newydd, cynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â chynghori cyrff a sefydliadau eraill. Cydweithiwyd gyda Pheirianwyr ardal Arfon a Dwyfor i osod tua 40 o arwyddion strydoedd newydd a thrafodwyd rhestr o arwyddion strydoedd eraill i'w gosod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Trefnwyd hefyd bod arwyddion Cymraeg yn cael eu gosod yn nhraethau Mhorth Neigwl a Phorthor. Cynghorwyd eraill hefyd megis Cyngor Conwy a Chyngor Mynwy ar ein prosesau mewnol yn ymwneud ag enwi eiddo, map enwau digidol ac ap enwau i staff a

				rhoddwyd cyngor i Gymdeithas Ddinesig Caernarfon ynghylch hyrwyddo rhestr o blaciau hen Enwau Strydoedd Caernarfon. Cafwyd adborth da gan ddisgyblion yn Ysgol Maenofferen ac Ysgol Dyffryn Ogwen i'r gweithdy enwau lleoedd. Cyhoeddwyd mwy o erthyglau 'Yr Enw a'r Hanes' ar y Fewnrwyd i hyrwyddo enwau Cymraeg i staff a darparwyd dogfen ar enwau lleoedd Bangor i Fenter Iaith Gwynedd. Cyfrannwyd hefyd at Fforwm Enwau Lleoedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru gan gynnwys rhannu deunyddiau arfer da a grëwyd gan y prosiect. Yn dilyn derbyn ymholiadau gan y cyhoedd rhoddwyd pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru i newid enw ar goedwig ym Mraichmelyn ym Methesda a chasglu tystiolaeth ar ddefnydd yr enw 'Pistyll Dafn' er mwyn argyhoeddi'r Arolwg Ordnans i ddefnyddio'r enw ar fapiau swyddogol. Mynegwyd pryder hefyd wrth Gomisiynydd y Gymraeg am ddiffyg defnydd o enwau Cymraeg cynhenid gan yr Arolwg Ordnans. Dyma oedd blwyddyn olaf y prosiect ac fe lwyddwyd yn ystod oes y prosiect i roi sylw i'r prif amcanion sef hyrwyddo enwau Cymraeg ar eiddo'r Cyngor, tai unigol, busnesau, strydoedd, pentrefi a chyrchfannau, nodweddion daearyddol. Daeth yn amlwg mai'r brif broblem yw nad oes gan y Cyngor unrhyw bŵer i newid enwau ar wahân i enwau strydoedd. Penderfynwyd nad oedd yn ymarferol newid pob arwydd stryd i arwydd Cymraeg ac y byddai'n well newid arwyddion i rai Cymraeg yn unig pan fo angen adnewyddu arwyddion yn dilyn cwblhau peilot newid arwyddion stryd yn Trefor. Cwblhawyd y cynllun peilot eleni a'r brif wers a ddysgwyd oedd bod angen gwirio'n fanwl os yw'r stryd/stad wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor yn y gorffennol gan y gall effeithio'n fawr ar

				leoliad ac union eiriad arwyddion newydd yn ogystal â'r amserlen gosod arwydd. Daeth yn amlwg hefyd bod Arolwg Ordnans eisiau gwybod pwy sydd â'r hawl neu'r awdurdod ar enw a thystiolaeth o blaid cefnogi'r newid enw os am newid enwau ar fapiau swyddogol yr Arolwg Ordnans. Heb ein bod yn 'awdurdod' (sef â hawl') ar yr enw mae'n gallu bod yn anodd darbwyllo'r Arolwg Ordnans i newid enwau ar eu mapiau. O safbwynt gwarchod enwau daearyddol ar fapiau swyddogol felly daeth yn amlwg mai dim ond drwy ymyrraeth wleidyddol a deddfwriaeth gref, benodol y gall y Cyngor neud unrhyw beth cadarn a choncrid.
		3.Datblygu Prosiect 15 ymhellach er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc	Ydy	Comisiynwyd Mentera i reoli a chreu cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol prosiect 15 am eleni a darparu adroddiad ar opsiynau posib ar gyfer y dyfodol i'r prosiect. Braf yw nodi bod twf wedi bod mewn dilynwyr ar bob platfform cymdeithasol gyda sylw arbennig wedi ei roi i'r prif blatfformau a ddefnyddir gan bobl ifanc sef TikTok ac Instagram. Cyhoeddwyd pyst yn gysylltiedig gyda Gŵyl Fwyd Caernarfon, cymeriadau AI, Wythnos Balchder LGTBQ, tirwedd Gwynedd, Eisteddfod yr Urdd, Ffeithiau am Wynedd mewn 15 eiliad, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a chydweithio gyda grwpiau fel Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor a Chlwb Syrffio Llyn yn ogystal â dylanwadwyr amrywiol. Mae un clip fideo o Oshi G, dylanwadwr amaethyddol 16 oed o Wynedd, o ddillad poblogaidd yn y sioe wedi denu dros 161,000 o wylwyr. Derbyniwyd adroddiad diwedd blwyddyn a oedd yn nodi bod cyrhaeddiad Instagram dros y flwyddyn wedi cynyddu i 42,000 a bod 382,000 wedi gweld cynnwys cyfrif Tik Tok. Nodwyd hefyd yn yr adroddiad nad oedd y prosiect yn gynaliadwy heb fuddsoddiad digonol o tua

				£35,000 y flwyddyn a fyddai golygu bod modd rhywun i greu cynnwys am a chyllideb iach i gydweithio gydag unigolion a dylanwadwyr.
		4.Cynnal a Datblygu Fforwm Iaith Gwynedd	Ydy	Bu Fforwm Iaith Gwynedd eleni yn canolbwyntio ar greu strategaeth iaith i'r fforwm. Er nad yw'r strategaeth wedi ei gorffen eto mae is-grwpiau wedi eu creu er mwyn edrych yn fwy manwl ar heriau sy'n wynebu rhai meysydd. Erbyn hyn mae gan y fforwm 3 is-grŵp sef busnes, cymunedau a phobl ifanc. Mae'r is-grŵp Pobl Ifanc wedi ei sefydlu ers tro ac wedi gwneud ymgynghoriad gyda phobl ifanc 16-18 oed am eu hagweddau at y Gymraeg. Cafwyd 200 ymateb i'r holiadur a gafodd ei rannu ymysg rhai 16-18 mlwydd oed oedd yn byw neu weithio yng Ngwynedd a chynhaliwyd 4 grŵp ffocws er mwyn cael mwy o fanylder ar eu hagweddau. Amlygodd y data bod gwahaniaeth yn nefnydd y Gymraeg a'r hyder i'w ddefnyddio gyda chyfryngau cymdeithasol lle mae'r Gymraeg ar ei gwanaf a hefyd cwymp yn y rhai sydd yn hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg, o gymharu â'i siarad. Bydd trafodaethau yn parhau fel is-grŵp ynglŷn â'r ymyraethau i ymgymryd â'r heriau, gyda dau gam yn dod i'r amlwg; sef sicrhau bod cyrsiau Cymraeg i bobl ifanc eu dilyn, bydd yn arwain at yrfaoedd Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth pobl ifanc fod galw am y Gymraeg gan gyflogwyr.
		5.Ymchwilio i ddewis defnydd iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a deall mwy am agweddau pobl at y Gymraeg.	Ydy	Cwblhawyd dadansoddi'r ymchwil a gwelwyd bod defnydd y cyhoedd o'r Gymraeg ar ei uchaf gan blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed. Serch hynny gwelwyd patrwm bod y defnydd o'r Gymraeg yn lleihau wrth fynd yn hyn gan y trigolion a arsylwyd. Gwelwyd hefyd bod mwy yn defnyddio Cymraeg gyda staff rheng flaen

				mewn mannau sy'n darparu gwasanaeth mwy anffurfiol fel llyfrgell neu ganolfan hamdden nag mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau mwy ffurfiol fel eu naws e.e Canolfan Galw Gwynedd. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'n fuddiol cynnal yr arolwg eto ymhen 3 blynedd a'i ymestyn i leoliadau eraill. Bu swyddogion y Cyngor yn arwain ar yr ymgynghoriad at agweddau pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed tuag at yr Iaith Gymraeg ar ran is-grŵp pobl ifanc Fforwm Iaith Gwynedd gan gynnwys dadansoddi'r canlyniadau at y Gymraeg. Gwelwyd nad oedd y bobl ifanc yn gweld gwerth yn y Gymraeg fel sgil yn y byd gwaith. Trafodwyd hefyd arolwg ar-lein a wnaed gan Brifysgol Bangor mewn ymgynghoriad gyda Chyngor Gwynedd a oedd yn edrych yn benodol ar agwedd pobl at y Gymraeg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, tua 900, gydag agwedd bositif at y Gymraeg sy'n newyddion calonogol.

Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

Adran a Phrosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb)
Gwasanaethau Corfforaethol – **Cynllunio'r Gweithlu** ***Hefyd*** **Trawsadrannol**	Prif nod y prosiect ydi sicrhau bod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau bod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg.	1. Cydweithio ag adrannau a gwasanaethau i gynhyrchu cynlluniau gweithlu, trwy gynghori rheolwyr ar ddilyn y camau canlynol: a. Adnabod swyddi allweddol, wedi eu hasesu ar sail risg i barhad gwasanaeth. b. Dadansoddi proffil gweithlu'r timau, er mwyn adnabod risgiau posib i lefelau staffio / anghenion sgiliau. c. Cynhyrchu cynlluniau gweithredu. ch. Sefydlu trefniadau adolygu cynlluniau	Nac ydy – gwaith yn parhau	Mae cynllun drafft wedi ei lunio a bydd ymgynghori yn digwydd yn y dyfodol agos.
		2. Adolygu'r broses a dulliau o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, er mwyn parhau i wella'r profiad ar gyfer ymgeiswyr swyddi a sicrhau fod y Cyngor yn denu'r gweithlu mwyaf cymwys posib. Camau i gynnwys: a. Adolygu sut rydym yn hysbysebu swyddi a denu ymgeiswyr, a chyflwyno dulliau newydd. b. Adolygu'r broses o gyflwyno ceisiadau, ac addasu fel bo'r angen.	Nac ydy – gwaith yn parhau	Mae cynllun drafft wedi ei lunio a bydd ymgynghori yn digwydd yn y dyfodol agos.

		c. Dod i gasgliad ar sut y gellir cyflwyno ychwanegiadau neu addasiadau i'r pecyn amodau a thelerau gwaith, ac addasu yn ôl y gofyn.		
Gwasanaethau Corfforaethol – **Sicrhau Tegwch i Bawb**	Byddwn yn parhau gyda gwaith sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau bod y Cyngor, yn ei holl weithredoedd, yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb. Byddwn yn adnabod gwaith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin pawb mewn ffordd sy'n deg, beth bynnag eu nodweddion cydraddoldeb, cefndir a'u hanghenion.	1. Adolygu a newid ein dulliau o recriwtio pobl i'r gweithlu, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r profiad gorau posib i ddarpar ymgeiswyr, ond hefyd yn cynnig ein hunain fel cyflogwr blaenllaw i bawb o bob rhan o'r gymdeithas.	Nac Ydi	Mae'r garreg filltir yma ynghlwm â'r gwaith cynllunio'r gweithlu ac wedi llithro i'r flwyddyn 2026-27 oherwydd heriau capasiti. Mae gwaith wedi digwydd i lunio cynllun strategol drafft fydd yn gosod cyfeiriad yn symud ymlaen a bydd hwn yn cael ei arwain gan grŵp trawsadrannol o swyddogion.
		2. Creu dashfwrdd o ddata am Wynedd i'w ddefnyddio i greu asesiadau effaith sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ac yn gwella ein gwasanaethau.	Ydi	Mae dashfwrdd craidd wedi ei greu ond ddim yn fyw eto a bydd y gwaith o ychwanegu ato yn hirdymor. Bydd yr wybodaeth yn cael ei ddefnyddio wrth wneud asesiadau effaith ayb, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar sail tystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau fod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn deg i bawb.
		3. Parhau i godi ymwybyddiaeth rheolwyr ar bwysigrwydd defnyddio asesiadau effaith cydraddoldeb yn effeithiol.	Yn rhannol	Mae'r drefn electroneg (PowerApp) yn awr yn barod i gael ei hyrwyddo ac mae'r gwaith o ymweld â Thimau Rheoli wedi dechrau. Bydd codi ymwybyddiaeth rheolwyr o'r angen i wneud asesiad yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn gwella ein polisïau a'n gweithdrefnau a sicrhau fod materion cydraddoldeb yn cael sylw dyledus wrth wneud unrhyw newidiadau.
		4. Cynnal Asesiad Cyflog Cyfartal ar systemau tâl y Cyngor, ac ymateb i unrhyw negeseuon sydd yn codi o'r canlyniadau.	Nac Ydi	Nid yw hwn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2025-26) a bydd yn llithro i'r flwyddyn nesaf. Byddwn yn comisiynu ymgynghorydd annibynnol dros y misoedd nesaf i ymgymryd â'r gwaith, gyda golwg ar gynhyrchu'r

				adroddiad yn ystod 2026 - bydd union amserlen cwblhau'r asesiad i'w gadarnhau eto, yn ddibynnol ar yr ymgynghorydd.
Gwasanaethau Corfforaethol – **Merched Mewn Arweinyddiaeth**	Mae nifer y merched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan. Byddwn felly yn parhau gyda rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd fel rhan o'r rhaglen i annog mwy o ferched i ymgeisio am uwch-swyddi o fewn y Cyngor.	1.Parhau i gynnal a datblygu'r gweithgareddau sy'n ffurfio sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial, Sgyrsiau dros Baned;	Ydy	**'Sgyrsiau dros Baned' -** Dwy gyfres o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau Dros Baned" wedi ei chynnal gyda siaradwyr mewnol. Sgyrsiau gyda Keira Sweenie, Rheolwr Cynllunio, a'r Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor, wedi eu cynnal yn ystod cyfnod yr haf. Sgyrsiau gyda Llinos Rowlands, Pennaeth Cynorthwyol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Adran Cyllid, wedi eu cynnal dros gyfnod y gaeaf. Mae trefniadau ar waith i drefnu sgyrsiau pellach ar gyfer y cyfnod i ddod. Y bwriad parhaus yw bod yn targedu mwy o amrediad mewn lefelau swyddi mewn siaradwyr i fod yn cynnwys Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm gyda'r bwriad o dargedu merched ifanc i gymryd y cam cyntaf. **Rhaglen Ddatblygol -** Mae chweched gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol wedi dod i ben ganol mis Rhagfyr. Bu 13 merch deilwng, o amrywiaeth o adrannau'r Cyngor yn rhan o'r gyfres.

				Mae un ferch fu'n rhan o'r gyfres ddiwethaf eisioes wedi ymgeisio ac wedi derbyn swydd uwch gydag ambell un arall wedi ymgeisio am swydd uwch / yn paratoi ar gyfer ymgeisio am swydd uwch. Ers sefydlu'r Rhaglen Ddatblygol mae 71 o ferched wedi cymryd rhan hyd yma.
		2.Cynnal ymyraethau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion;	Nac ydy	Nid oes digwyddiad penodol wedi ei gynnal yn uniongyrchol ar gyfer dynion. Fodd bynnag, defnyddir pob cyfle i hyrwyddo gwaith y prosiect mewn amrywiol rwydweithiau a chyfarfodydd.
		3.Parhau i adeiladu ar y sylfaen ystadegol sydd eisoes wedi ei sefydlu er pwrpas mesur llwyddiant y prosiect;	Ydy	Mae hwn yn waith parhaus sydd yn digwydd dros y flwyddyn. Y gobaith yw y gellir cynhyrchu adroddiadau byw unwaith y bydd y system Adnoddau Dynol wedi ei mewnosod. Mae data ar gynnydd ac effaith y prosiect yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Ar hyn o bryd mae'r ffigwr o ferched mewn swyddi rheolaethol yn 46%. Mae yna wahaniaethau rhwng Adrannau, a gwahaniaethau hefyd rhwng haenau swyddi. Lluniwyd holiadur i'w anfon allan i ferched y Cyngor yn gynnar mis Ionawr. Pwrpas yr holiadur yw canfod barn merched ar wahanol agweddau er mwyn gallu adnabod sut i symud ymlaen gyda'r prosiect.

				Bydd gwaith parhaus yn digwydd dros y flwyddyn i ddiweddaru'r data.
		4.Parhau a'r gwaith o ddarganfod beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer da, a theilwro ymyraethau yn ôl gofyn Adrannau ble fo angen	Ydy	Gwaith yn parhau. Bellach mae tasg wedi ei ymgorffori i'r rhaglen ddatblygol fod merched sy'n dilyn y rhaglen yn adnabod un darn o waith i fod yn ei wneud yn y maes yn eu Hadran.
		5.Trefnu digwyddiad i ddathlu llwyddiant gwaith y prosiect hyd yma	Ydy	Eleni crëwyd fideo byr ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched a gynhaliwyd ar yr 8.3.26. Dathlwyd llwyddiannau merched a fu ar raglen ddatblygol merched mewn arweinyddiaeth sydd wedi eu dyrchafu i swyddi uwch yn ogystal â phenodiadau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn. Rhannwyd y fideo yn fewnol gyda staff trwy'r fewnrwyd a'r Gair Wythnosol. Yn ogystal dangoswyd y fideo i aelodau ar ddechrau cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth a rhannwyd y fideo drwy'r bwletin i aelodau.
		6.Defnyddio rhwydweithiau megis 'Rhwydwaith Rheolwyr', 'Sesiwn Byw gyda'r Prif Weithredwr' er mwyn codi ymwybyddiaeth bellach o waith y prosiect.	Ydy	Yn ystod 'Sesiwn Byw' y Prif Weithredwr mis Gorffennaf tynnwyd sylw at y fideo a gynhyrchwyd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2025 a rhannwyd y linc i'r fideo yn y panel sgwrsio. Ym mwletin staff mis Hydref, tynnwyd sylw fod chweched gyfres Rhaglen Ddatblygol Merched Mewn Arweinyddiaeth wedi cychwyn. Yn ogystal, mae trafodaethau yn cael eu cynnal gydag Arweinydd y Cyngor.

				Parhau i fanteisio ar gyfleoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y prosiect.
Gwasanaethau Corfforaethol – **Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch**	Mae'r prosiect yma yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.	1.Parhau â chyflwyno'r system TG newydd ar gyfer Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro yn dri cham, gyda'r cam cyntaf – datblygu'r ffurflen ddamwain electronig – yn agosáu at ei gwblhau.	Rhan 1 wedi cwblhau. Rhan 2 a 3 wedi oedi oherwydd y system ddigidol gorfforaethol	Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflwyno system TG newydd ar gyfer iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor, gyda ffocws clir ar gyflawni'r cam cyntaf o'r rhaglen, sef gweithredu ffurflen electronig ar gyfer adrodd damweiniau, digwyddiadau a methiannau agos. Mae hyn wedi golygu gwaith datblygu, profi, cydlynu a chynllunio helaeth, wedi'i gyflawni drwy gydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch, TG a rheolwyr ar draws gwasanaethau. Er bod adnoddau TG wedi'u hail-flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwaith corfforaethol ehangach, gan gyfyngu ar y gallu i symud ymlaen â chamau dau a thri ar hyn o bryd, llwyddwyd i gynnal momentwm y rhaglen a chwblhau cam cyntaf y system yn llwyddiannus. Cynhaliwyd peilot cynlluniedig, ochr yn ochr â rhaglen hyfforddi strwythuredig i reolwyr, gan fabwysiadu dull 'hyfforddi'r hyfforddwr'. Erbyn hyn, mae dros 450 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant, gyda'r adborth yn gadarnhaol iawn, gan amlygu effeithlonrwydd, cysondeb a gwell ansawdd adrodd. Yn ystod y chwarter olaf, rhoddwyd pwyslais ychwanegol ar weithgareddau cyfathrebu mewnol er mwyn cefnogi gweithredu llawn y system newydd.

				Cafodd negeseuon allweddol eu rhannu'n eang drwy sianeli corfforaethol, ac anfonwyd posteri i safleoedd gwaith i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr o'r newidiadau i'r drefn adrodd. Roedd y dull hwn yn atgyfnerthu disgwyliadau corfforaethol ac yn cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth yn lleol, gan gyfrannu at gynnydd pendant o ran dealltwriaeth ac ymgysylltiad ar draws nifer o wasanaethau. O ganlyniad i'r gwaith parhaus, ymdrech sylweddol y tîm, a'r ffocws clir ar wreiddio'r trefniadau newydd, daethpwyd i benderfyniad strategol i newid y drefn weithredol. O 1 Ebrill 2026 ymlaen, mae'r Gwasanaeth bellach yn derbyn pob adroddiad o ddamweiniau, digwyddiadau a methiannau agos drwy'r system electronig yn unig. Mae hyn yn nodi carreg filltir bwysig o ran moderneiddio trefniadau iechyd a diogelwch y Cyngor ac yn dangos sut y gall cyfuniad o systemau, hyfforddiant a chyfathrebu effeithiol sbarduno newid ymarferol ar draws y sefydliad. Er bod system TG corfforaethol newydd ar fin cychwyn, ac y gallai hyn gael effaith ar ddatblygiadau pellach yn y dyfodol, nid yw eto'n glir beth fydd natur na graddfa'r effaith honno. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro mewn cydweithrediad â TG, gyda'r ffocws yn parhau ar gynnal y trefniadau presennol a diogelu'r cynnydd a gyflawnwyd.

		2.Parhau i gyflwyno'r cynllun gweithredu manwl (drafft) i Dîm Rheoli'r Cyngor, sy'n amlinellu'r camau tuag at gyflawni model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch.	Ydy - wedi ei gyflwyno i'r adrannau a pharhau i'w weithredu.	Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol wrth ddatblygu a symud ymlaen y cynllun gweithredu manwl i gefnogi gweithredu model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor. Er nad yw'r cynllun wedi'i gyflwyno'n ffurfiol eto i Dîm Rheoli'r Cyngor, cynhaliwyd momentwm strategol drwy ddefnyddio canfyddiadau'r holiadur Modelau Diogelwch fel sail i drafodaethau corfforaethol ac adrannol, gan alluogi dealltwriaeth gyffredin a symudiad pendant tuag at weithredu ymarferol. Yn ystod cyfnod olaf y flwyddyn, mae'r rhan fwyaf o adrannau wedi trafod Modelau Diogelwch drwy eu fforymau adrannol ac wedi dechrau gweithredu rhaglenni gwaith cysylltiedig. Er mwyn cefnogi gweithredu a monitro cynnydd, sefydlwyd system ganolog i gofnodi, blaenoriaethu a thracio camau gweithredu, gan ddarparu dull strwythuredig a chymesur o reoli gweithgareddau a chynnal trosolwg strategol. Mae'r gwaith hwn, ochr yn ochr â datblygiad parhaus y system TG Iechyd a Diogelwch, a'r angen i gwblhau camau dau a thri er mwyn cryfhau'r seilwaith a'r trefniadau rheoli, yn gosod Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa gref i greu trefn gadarn, gynaliadwy ac integredig. Mae hyn yn cefnogi nid yn unig cydymffurfiaeth statudol, ond hefyd datblygu diwylliant cadarnhaol sy'n lleihau risgiau, yn gwella iechyd, diogelwch a llesiant y gweithlu, ac yn

				cyfrannu at well rheolaeth hirdymor o bwysau ariannol cysylltiedig.
		3.Datblygu rhaglen archwiliadau pum mlynedd, yn seiliedig ar y data a gasglwyd drwy'r Holiaduron Modelau Diogelwch.	Nac ydy	Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i osod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu rhaglen archwiliadau pum mlynedd sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio data'r Holiaduron Modelau Diogelwch. Er nad yw rhaglen archwilio ffurfiol wedi'i chwblhau eto, gwnaed penderfyniad ymwybodol a strategol i sicrhau bod y broses yn cael ei sefydlu'n gywir. Byddai symud ymlaen yn rhy fuan heb y data priodol a threfn glir ar gyfer blaenoriaethu wedi bod yn aneffeithiol ac wedi lleihau gwerth yr archwiliadau. O ystyried bod archwiliadau yn adnodd sylweddol i'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ac i'r adrannau sy'n cael eu harchwilio, rhoddwyd pwyslais clir ar sicrhau bod y model archwilio yn gadarn, yn gyson ac yn ychwanegu gwerth gwirioneddol. Er bod rhai rhwystrau wedi arwain at arafu'r amserlen wreiddiol, mae camau pendant wedi'u cymryd i symud y gwaith ymlaen mewn ffordd gynaliadwy. Mae gwaith sylweddol wedi mynd i ddatblygu a chryfhau cofrestr risg gorfforaethol sy'n mapio'r gofynion deddfwriaethol ar draws y Cyngor. Mae'r gofrestr hon yn cael ei chynnal a'i hadolygu'n barhaus er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith a gofynion AGID, gan ddarparu sail gadarn a hyblyg ar gyfer blaenoriaethu archwiliadau yn y dyfodol ar sail risg wirioneddol. Wrth i weithredu'r Modelau

				Diogelwch barhau, rhagwelir y bydd modd cyfuno'r wybodaeth hon â chanlyniadau'r holiaduron i lunio rhaglen archwiliadau corfforaethol pum mlynedd sy'n integredig ac yn adlewyrchu risgiau gwirioneddol ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae gwaith wedi dechrau i gryfhau trefniadau gweithredol yr archwiliadau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn offer digidol i gefnogi ymgynghorwyr ar safle a datblygu dulliau mwy effeithiol o gofnodi a rheoli gwybodaeth yn ystod archwiliadau. Mae'r amser a roddwyd i sefydlu'r seilwaith, y prosesau a'r systemau hyn yn cael ei ystyried yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen yn y tymor hir. Yn y cyd-destun hwn, cydnabyddir bod cyflawni rhaglen archwiliadau lawn o fewn blwyddyn wedi bod yn uchelgeisiol yn fwriadol, a bod rhoi amser teg i sefydlu trefn gadarn yn gosod sylfaen lawer cryfach ar gyfer rhaglen archwilio effeithiol, gwerthfawr a chynaliadwy yn y dyfodol.



Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol

Switch to English

Crynodeb Mesuryddion Meintiol

Adrannol

Caffael

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyswllt Cwsmer a Cofrestru

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Gwasanaethau Cefnogol

Democratiaeth a Iaith

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Ymchwil a Gwybodaeth

Ymgynghorol Adnoddau Dynol

Dewis Blwyddyn: 2025-2026

Dewis Chwarter: Chw 4

Dewis Mis: Mawrth

Mesuryddion Meintiol

Switch to English

Mesuryddion Adrannol

GC1 - % o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Cam-drin Domestig	GC2 - % o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Diogelu	GC3 - Nifer dyddiau salwch staff y pen yn yr Adran ar gyfartaledd	GC4 - % ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith yn yr Adran	GC5 - % staff yr Adran sydd wedi cwblhau'r Asesiad Iaith
98.5%	**97.7%**	**11.91**	**100.0%**	**94.1%**
Adrannol	Adrannol	Adrannol	Adrannol	Adrannol

Mesuryddion Gwasanaeth

CA01 - % o wariant refeniw caffael gyda chyflenwyr lleol	CC04 - Cyfartaledd ateb Canolfan Gyswllt (eiliadau)	CC05c - Nifer dyddiau cyfartalog i benderfynu ar gymhwysedd unigolyn, am Fathodyn Glas	CE09 - % staff sydd heb adnewyddu DBS yn amserol	ID2.1 - % o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cael cyngor gan IG yn dilyn iddynt g...
61%	**42**	**1.34**	**1.1%**	**37%**
Caffael	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Gwasanaeth Cefnogol	Iechyd, Diogelwch a Llesiant

YG1 - Nifer digwyddiadau gwybodaeth	YG2 - % ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith	YG3 - % ceisiadau diogelu data atebwyd o fewn yr amserlen	AD01 - Nifer o ddyddiau salwch staff y pen yn y Cyngor ar gyfartaledd	AD04 - Nifer dyddiau cyfartalog i gwblhau arfarniad swydd
5	**93.2%**	**79.6%**	**13.01**	**23.2**
Ymchwil a Gwybodaeth	Ymchwil a Gwybodaeth	Ymchwil a Gwybodaeth	Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Ymgynghorol Adnoddau Dynol

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth


Adrannol - Ian Jones

Pwrpas

Switch to English

GC1 - Teitl Mandadol - Cam-drin Domestig (Chwarterol)

Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Cam-drin Domestig




Sylw

Mae 98.5% o staff yr Adran wedi cwblhau hyfforddiant mandadol ar Gam-drin Domestig. Mae'r ffigwr ychydig yn is na Chwarter 3, hynny o ganlyniad i drosiant staff. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant i'w wneud cyn gynyed a phosib.

GC2 - Teitl Mandadol - Diogelu (Chwarterol)

Canran o staff yr adran sydd wedi cwblhau Teitl Mandadol Diogelu




Sylw

Mae 97.7% o staff yr Adran wedi cwblhau hyfforddiant mandadol Diogelu. Mae'r ffigwr ychydig yn is na Chwarter 3, hynny o ganlyniad i drosiant staff. Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog staff sydd heb gwblhau'r hyfforddiant i'w wneud cyn gynyed a phosib.

GC3 - Nifer Dyddiau Salwch (Chwarterol)

Cyfradd absenoldeb salwch fesul pen yn yr Adran (ffigwr cronnus)




Sylw

Dros y pedwar chwarter eleni, gweler cynnydd graddol yn ffigyrau salwch yr adran. Mae'r data'n dangos patrwm cyson o gynnydd chwarter wrth chwarter. Rydym fel Adran yn ymwybodol o'r ffactorau sydd yn cyfrannu at y duedd, ac yn parhau i fonitro'r sefyllfa er mwyn deall yr achosion sylfaenol a nodi camau priodol i'w rheoli.

GC4 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Chwarterol)

Canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith yn yr Adran




Sylw

Derbyniodd yr Adran 81 cais rhyddid gwybodaeth yn ystod 2005/26. Atebwyd pob cais o fewn y 20 diwrnod gwaith.

GC5 - Asesiadau Iaith (Chwarterol)

Canran staff yr Adran sydd wedi cwblhau'r Asesiad Iaith



Sylw

Mae gostyngiad bach iawn yn y nifer sydd wedi cwblhau'r asesiad iaith y chwarter yma o'i gymhaur a Chwarter 3. Mae hynny oherwydd fod aelodau staff newydd wedi ymuno a'r Adran yn ystod y chwarter a ddim wedi cwblhau'r asesiad.

Mae gwaith parhaus yn digwydd i annog y staff hynny sydd heb gwblhau'r asesiad i wneud hynny cyn gynted a phosib.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Caffael - Arwel Evans

Pwrpas

Galluogi'r Cyngor i anelu at werth am arian, cadw'r budd yn lleol a gwella safon caffael y Cyngor


Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	Cliciwch yma i weld y risgiau
		5	1	

CA01 - Cyflenwyr Lleol (Chwarterol)

Canran o wariant refeniw caffael gyda chyflenwyr lleol



Sylw

Mae'r canran lleol wedi cynyddu 2% i 61% o gymharu a Chwarter 4 flwyddyn diwethaf.

Mae'r prif resymau am y cynnydd ynghlwm a:

Gwariant pellach o Cronfa Ffyniant Cyffredin (Shared Prosperity Fund) gyda Colegau Lleol o £1.2m
Gwariant pellach mewn gwaith rheoli llifogydd o £1.7m
Cynydd yn gostau darpariaeth Gofal gyda darparwyr lleol presenol.


Mae cyfanswm gwariant refeniw ar gyfer 2025/26 yn £191m gyda £116.5m yn cael ei wario yng Ngwynedd.

Mae'r prif feysydd ble mae gwariant yn gadael y Sir dros y flwyddyn yn parhau i fod yn gynlluniau Adeiladwaith Arbenigol, Systemau TG a Gofal Preswyl i Oedolion a Phlant.

Gyda pryniant mewn meysydd fel Gofal Cartref, Tai a Chefnogaeth, Cludiant Ysgolion, Hurio Offer ac Ailgylchu yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol.

CA02 - Hunan-asesiad Caffael (Blynyddol)

Datblygu'r maes Caffael (Sgôr 0-5)



Sylw

Rydym wedi cychwyn drafftio Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth Caffael newydd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y saith blaenoriaeth gwella rydym wedi adnabod sef, budd lleol, carbon sero, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, technoleg, trefniadau llywodraethu ac y Gymraeg.

Mae'r drafft terfynol o'r Polisi Caffael newydd wedi gylchredeg ymysg y Timau Categori ac Rheolwyr Gwasanaethau Corfforaethol am sylwadau.

Rydym yn ceisio datblygu Mesurau Caffael ac Adroddiad Blynyddol yn unol ar anghenion y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, byddwn angen ymgynghori ar y mesurau perfformiad terfynol byddwn yn gyhoeddi. Mwyaf thebyg bydd rhain yn cynnwys: Gwariant Lleol, Gwerth am Arian, Gwerth Cymdeithasol, Lleihau Carbon, Hybu defnydd o'r Gymraeg a defnydd o dechnoleg.

Rydym wedi cynnal yr ymarferiad i gwblhau'r hunanasesiad caffael yn ystod y mis gan ofyn i Swyddogion y Timau Categori a Caffael gwblhau'r holiadur.

Mae'r sesiynnau hyfforddi yn parhau, gyda sesiwn Hyfforddiant Caffael a Chontractau wedi gynnal yn ystod mis Mawrth.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Gwasanaeth Cefnogol - Mari P Jones

Pwrpas


- Cynnal gwybodaeth strwythur staffio Adrannau
- Recriwtio a Penodi unigolion yn gyfreithiol i swyddi
- Galluogi staff y Cyngor gael mynediad at wybodaeth yn y system Hunan Wasanaeth Staff
- Cynnal a datblygu rhaglen Buddiannau i staff y Cyngor
- Darparu Gwasanaeth Argraffu a Post ynghyd a gweinyddiaeth ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i Adrannau'r Cyngor, yn ogystal a prosesu archebion ac anfonebau
- Perchnogaeth a chyfrifoldeb am weithredu trefniadau Cwynion a Gwella Gwasanaeth y Cyngor

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	
		4	1	Cliciwch yma i weld y risgiau


CE01 - Cytundebau Cyflogaeth



Sylw

Mae'r Adrannau yn parhau i fod yn anfon gwybodaeth hwyr ymlaen (15%). Mae trefn wedi'i sefydlu i gysylltu â rheolwyr ac arweinwyr tîm ar ôl i gyfweliadau gael eu trefnu drwy Hunanwasanaeth Staff. Pwrpas hyn yw egluro'r drefn recriwtio a phenodi y mae'n ofynnol ei dilyn, yn ogystal â phwysleisio'r angen i gyflwyno manylion yr ymgeisydd llwyddiannus yn brydlon. Mae hyn gogyfer sicrhau bod cytundeb cyflogaeth yn cael ei anfon i ymgeiswyr mewn modd amserol, a bod y gwiriadau diogelu angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith heb oedi.

CE02 - Bodlonrwydd Cwsmer - Ymgeiswyr Swydd (Chwarterol)




Sylw

Cyflwynwyd 1088 o geisiadau am swyddi yn ystod y chwarter 4 ac mae 73% o ymgeiswyr wedi cwblhau adborth am ei bodlonrwydd o'r broses ymgeisio am swydd. Mae 94% o'r adborth yn hollol hapus gyda'r drefn. Allan o'r 6% mae'r sylwadau sydd wedi eu nodi yn sylwadau na fyddwn yn rhoi sylw pellach iddynt ar hyn o bryd e.e methu llwytho CV i fyny, ddim yn hoffi y rhan rhoi cymwysterau i fewn gan na fydd adnodd pellach yn cael ei roi i wella'r system bresennol. Bydd y system newydd fydd yn cael ei chyflwyno at ddiwedd y flwyddyn yn cyfarch rhai o'r sylwadau yma.

Negeseuon diolchiadau yn cael eu derbyn gan y Cyhoedd am gefnogaeth y Swyddog Gwella Gwasanaeth am y drefn gwynion. Mae'r adborth yn weledol ar y ar y Mewnrwyd.


CE03 - Bodlonrwydd Cwsmer - Gwasanaethau'r Cyngor (Chwarterol)



Sylw

Canmoliaeth a diolch yn cael ei dderbyn gan Staff a Rheolwyr am y gefnogaeth sydd yn cael ei roi iddynt gan staff Cefnogol pan maent yn eu cynorthwyo gyda ymholiadau nau pan yn cwblhau tasgau gwaith. Sylw yn cael ei roi i wella unrhyw drefniant sydd yn derbyn adborth negyddol.


CE04 - Tim Cyllid a Gweinyddol - Amserlenni



Sylw

Yr amserlenni wedi eu prosesu erbyn dyddiad cau y gyflogres

CE08 - Tim Cyllid a Gweinyddol - HS11




Sylw

Gostyngiad wedi bod yn y perfformiad oherwydd diffyg adnodd i fewnbynnu y ffurflenni yn amserol, hyn o ganlyniad i swydd wedi dod i ben yn sgil arbedion. Mae sylw yn cael ei roi i sicrhau bod y ffurflenni sydd a blaenoriaeth wedi cael eu mewnbynnu.

Gyda dyfodiad y modiwl HS11 yn weithredol yn llawn o'r 1af o Ebrill 2026 bydd y nifer ffurflenni papur yn gostwng yn sylweddol dros y mis nesaf gyda'r bwriad y byddent yn diflannu yn gyfan gwbl yn y diwedd.


CE09 - DBS



Sylw

Y sefyllfa bresennol heddiw ydi bod 55 o staff heb adnewyddu DBS yn amserol. Mae 10 cais yn eistedd yn y DBS yn Lerpwl yn disgwyl eu prosesu. Mae 45 cais arall yn disgwyl i aelod staff neu rheolwr i fod yn gwirio'r dogfennau er mwyn eu rhyddhau i'w prosesu. Mae'r system yn cynhyrchu e-bost i'r aelod staff ar y Sed diwrnod ac i'r rheolwr ar y 10fed diwrnod ac bob 5 diwrnod wedyn yn atgofia yr angen i cwblhau y ffurflen DBS. Mae'r Grwp Gweithredol Diogelu chwarterol yn trafod perfformiad DBS yr Adrannau. Yn dilyn o'r Grwp yma sefydlwyd is grwp i drafod data DBS. Mae ffigwr yn newid yn dyddiol oherwydd bod staff yn cwblhau y ffurflenni a mwy o staff eraill yn dod i'r ffenest cyfnod adnewyddu.

CE11 - Cwynion a Llwyddiannau



Sylw

Pan fydd Cwynion a Phryderon yn cyrraedd y Gwasanaeth, mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth (SGG) yn cofnodi Cwynion Ffurflol Dilys ac Annilys yn ogystal a Chwynion Anffurflol Dilys ac Annilys ar daenlen excel ac yn anfon y cwynion rheini ymlaen drwy e-bost i'r Swyddogion perthnasol o fewn y Gwasanaethau am sylw. Nid yw'r Pryderon na'r Ceisiadau am Wasanaeth a dderbynnir yn cael eu cofnodi fan yma. Yn unol a'r Polisi perthnasol mae gan Wasanaeth 20 diwrnod gwaith i ymchwilio ac ymateb i gwyn. Bydd y SGG yn cadw golwg ar yr amser ymateb ac yn atgoffa'r Gwasanaethau o'r amserlen fel bo angen. Ar adegau mae methiant gan yr Adrannau i ateb o fewn yr 20 diwrnod, gall hynny fod am sawl rheswm gwahanol e.e swyddogion ddim ar gael i fedru ateb yn amserol, angen cyngor Cyfreithiol, angen mwy o wybodaeth neu ymchwiliad o fewn yr Gwasanaeth yn cymryd mwy nac 20 diwrnod.

Cyflwynir Adroddiad i'r Cabinet bob 6 mis ar berfformiad Cwynion a Gwella Gwasanaeth. Pryd hynny Cwynion Ffurflol Dilys a Chwynion yr Ombwdsmon sydd yn cael eu cynnwys yn unig.

Mae gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i geisio sicrhau fod y Gwasanaethau yn ceisio gwella eu perfformiad wrth ymgeisio i ateb yr achwynwyr yn amserol.
Y gobaith yw bydd y Siarter Cwsmer newydd yn gymorth efo hyn.

CE12 - Llesiant Staff - Buddiannau (Chwarterol)

Sylw

Gyda'r newidiadau wedi eu gwneud i'r Cynllun Beicio i'r gwaith ble mae'r uchafswm i'r swm wedi ei gynyddu i £5000 yn ogystal a'r cyfnod lesu wedi ei ymestyn i 3 blynedd, mae hyn wedi galluogi i staff fod yn prynnu beiciau trydan yn ogystal a beic traddodiadol. Mae 52 aelod o staff wedi manteisio ar y Cynllun ers Ebrill 2025 o gymharu a 37 o staff yn 2024/25 a 58 yn 2023/24.

Mae staff y Cyngor yn gallu talu cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol "AVC" sydd yn fudd Trethiannol iddynt. Mae oddeutu 11% o'r gweithlu yn flynyddol yn cyfrannu ac yn elwa o'r Cynllun. Bydd oediad yn amserlen y rhaglen oedd i fod mewn lle dros y misoedd nesaf i hyrwyddo Budd y Cynllun er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r cyfle sydd ar gael gyda cyfraniadau Pensiwn,. oherwydd mae'r Swydd bellach yn wag gan fod y Swyddog wedi gadael y Cyngor.

CE99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

Rydym medi derbyn cadarnhad mai system ITrent ydi system newydd Adnoddau Dynol a Cyflogau y Cyngor. Mae sefydlu ein anghenion a symud data i'r system newydd dros y misoedd nesaf yn mynd i fod yn golygu llawer o waith a pwysau ychwanegol ar staff y Gwasanaeth. Byddwn yn edrych i ymgyfarwyddo ein hunain gyda'r system a cydweithio gyda cwmni a'r gwasanaeth TG mewnol i fod yn lliniaru y broses o symud i'r staff. Rydym wedi dechrau cael ein cyflwyno i elfennau o'r system a bydd gwaith yn parhau am fisoedd i ddod, ynghyd a parhau gyda rhoi gwasanaeth arferol i ymgeiswyr swyddi allanol, staff a rheolwyr y Cyngor.

Bydd oediad am gyfnod gyda'r gwaith o hyrwyddo Buddiannau i staff tra byddwn yn ail edrych ar y trefniadau yn dilyn i'r swydd ddod yn wag ar ddiwedd y mis o ganlyniad i'r Swyddog adael cyflogaeth y Cyngor.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Sion Williams

Pwrpas

Galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal sgwrs ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor.
Galluogi'r cyhoedd i hunanwasanaethu ar wefan Cygor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.


Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	
	1	2		Cliciwch yma i weld y risgiau

CY01 - Eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg

Nifer ar gyfartaledd o eitemau newyddion a/neu adroddiadau yn y wasg sy'n deillio o ddatganiadau i'r wasg rhagweithiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn ystod y mis



Sylw

Datganiadau rhagweithiol i'r wasg:

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd 101 o ddatganiadau i'r wasg a arweiniodd at 416 eitem newyddion yn y wasg a'r cyfryngau. Mae hyn yn 4.1 eitem newyddion am bob datganiad a gyhoeddwyd.

Yn ystod 2025-26, mae materion sy'n deillio o gynllun ymateb y Cyngor i droseddau cyn-bennaeth a'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder' wedi denu sylw sylweddol. Roedd y mater trasig hwn yn destun cynllun cyfathrebu cynhwysfawr a chydweithio rhwng swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid o sefydliadau eraill. Y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd yn dilyn cyhoeddi adroddiad y AYP (Tachwedd 2025) a ddenodd y sylw mwyaf dros y flwyddyn, sef 23 eitem newyddion. Bu sylw sylweddol hefyd i ddatganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025 i amlinellu'r cynnydd cadarnhaol yn ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb, a arweiniodd at 9 eitem newyddion.

Tu hwnt i'r materion hyn, rhai o'r datganiadau i'r wasg eraill a gyhoeddwyd a arweiniodd at sylw da oedd: gwybodaeth am ail-agor Amgueddfa Lloyd George yn Mehefin 2025 yn dilyn buddsoddiad sylweddol (11 eitem newyddion); Cabinet y Cyngor yn trafod y Gyllideb yn mis Chwefror (arweiniodd at 9 eitem newyddion); a lansio ap i helpu pobl Niwroamrywiol a'u teuluoedd (a arweiniodd at 8 eitem newyddion).


Gwaith y wasg ymatebol:

Dros y flwyddyn ddiwethaf, darparwyd atebion i 534 o ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau. Rhai o'r materion a arweiniodd at ymholiadau lluosog oedd:

• Her gyfreithiol yn erbyn penderfyniad y Cyngor i fabwysiadu Erthygl 4 ac yn dilyn hynny gwrthod y cais am apêl;
• Tywydd garw, gan gynnwys nifer o stormydd sydd wedi effeithio'r sir dros y flwyddyn ddiwethaf;
• Materion sy'n codi o bwyllgorau'r Cyngor, gan gynnwys y Pwyllgor Cynllunio;
• Materion gweithredol megis cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd; gwaith sydd wedi deillio o'r Corbett Arms yn Nhywyn; problemau gyda pharcio anghyfreithlon.

CY02 - Sgôr y wefan

Canran unigolion ddefnyddiodd y teclyn bodlonrwydd i gynnig sgôr am y wefan wnaeth nodi sgôr o 5 allan o 5



Sylw

Cyfanswm ymweliadau â'r wefan yn 2025-26: 2,950,552

Cyfanswm wnaeth lenwi'r holiadur bodlonrwydd yn 2025-26: 1,474


Cyfanswm nifer wnaeth roi sgôr o 5 allan o 5 yn 2025-26: 1,320 = 90%

Manylion yr ymatebwyr wnaeth roi sgôr o 4 neu lai yn 2025-26:
- Cwyn am y wefan (cyfrifoldeb y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu) = 42. Yn bennaf gan nad oedd modd dod o hyd i wybodaeth wrth ddefnyddio'r system chwilio. Rydym wedi comisiynu Technoleg Gwybodaeth i greu system chwilio newydd sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ddisodli'r un bresennol.
- Cwyn am y wefan (cyfrifoldeb Gwasanaeth penodol) = 34. Mae'r cwynion yn amrywio o fis i fis, e.e. unigolion eisiau derbyn calendr gwastraff ac ailgylchu drwy'r post, gwybodaeth ar y wefan heb ei ddiweddaru/yn anghywir.
- Cwyn am Wasanaeth penodol = 48. Mae'r cwynion yn amrywio o fis i fis, e.e. staff yn methu ateb galwadau ffôn, pris y gwasanaeth gwastraff gardd, pris meysydd parcio, Erthygl 4.
- Cwyn am sustem trydydd parti = 30. Mae'r cwynion hyn yn bennaf am fethu dod o hyd i gais cynllunio ar y wefan (sustem Tascomi) a methu dod o hyd i bapurau pwyllgor (sustem Moderngov).

Rydym yn datrys y cwynion sydd o fewn cyfrifoldeb Cyfathrebu ac Ymgysylltu gynted â phosib ar ôl eu derbyn. Mae'r cwynion eraill yn cael eu pasio ymlaen i'r Gwasanaethau perthnasol ac rydym yn eu cefnogi i'w datrys ble y gallwn.

CY05 - Ceisiadau Gwasanaeth

Nifer ceisiadau gwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno ar-lein



Sylw

Roedd 274,378 cais am wasanaeth wedi'i gyflwyno yn 2025-26. 12,829 cais yn fwy nac yn 2024-25.

Gwelodd rhai gwasanaethau leihad yn y ceisiadau a gyflwynwyd, e.e. Cais am fynediad ysgol 162 yn llai, Rhoi gwybod am fethu casgliad gwastraff ac ailgylchu 676 yn llai ac Archebu casgliad gwastraff gardd 606 yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Gwelodd nifer o wasanaethau gynnydd yn nifer y ceisiadau, e.e. Cais am docyn teithio 16+ 726 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, Cais am gyfarpar gwastraff ac ailgylchu 418 yn fwy, Rhoi gwybod am dwll yn y ffordd 249 yn fwy a Rhoi gwybod am lifogydd 152 yn fwy. Roedd un gwasanaeth - Archebu slot Canolfan Ailgylchu - wedi gweld cynnydd sylweddol eto eleni – 12,520 cais yn fwy na 2024-25. Roedd hynny'n rhannol am bod rhaid archebu slot dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn 2025-26, yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol.

Ym mis Medi 2025 cyflwynwyd ffurflen Ymholiad Tai newydd ar-lein, sy'n cael ei defnyddio gan y Siop un Stop Tai, a derbyniwyd 515 ymholiad ar-lein hyd at ddiwedd Mawrth 2026.

Yn ystod 2026-27 bydd nifer o brosiectau'n derbyn sylw yn cynnwys Ffurflen newydd ar gyfer rhoi gwybod am gasgliad gwastraff/ailgylchu wedi'i fethu (hyn o ganlyniad i'r gwasanaeth Amgylchedd yn prynu system swyddfa gefn newydd i reoli gwaith) a Ffurflen newydd ar gyfer ceisiadau mynediad ysgolion wedi'i integreiddio efo Fy Nghyfrif Cyngor Gwynedd (hyn o ganlyniad i'r gwasanaeth Addysg yn prynu system swyddfa gefn newydd i reoli ceisiadau).

CY99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

Gwefan y Cyngor:
- Llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol gyda'r gwaith o uwchraddio cynnwys y wefan i gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif. 2) 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r gwaith o baratoi'r wefan gorfforaethol newydd.

Gwefannau Cymdeithasol / Cyfathrebu Digidol:
- Yn ystod 2025/26, bu cynnydd o 2,549 yn nifer yr unigolion sy'n dilyn y Cyngor ar Facebook, ynghyd â 190 o ddilynwyr newydd ar Instagram.
Cynyddodd cyrhaeddiad cyfartalog Facebook (nifer cyfartalog o weithiau y dydd y mae gwahanol bobl wedi gweld eich cynnwys) i 17,661 sef cynnydd o 5,223 o'r flwyddyn flaenorol.
Y negeseuon mwyaf poblogaidd yn ystod y flwyddyn oedd negeseuon am rwydweithiau graeanu a thywydd garw â negeseuon am yr ymgynghoriad twristiaeth.
- Cynhyrchwyd 5 rhifyn o bodlediad Teulu Gwynedd ac maent i'w gweld a'u clywed a'r Spotify, Apple Music ac Amazon.

Ymgysylltu cyhoeddus:
- Cefnogwyd sawl ymarferiad ymgysylltu gan gynnwys Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu, Heneiddio'n Dda ac ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Cyfathrebu Mewn Argyfwng:
- Gweithredwyd Cynlluniau Cyfathrebu ar gyfer Storm Amy, Storm Bram, Cau Twnnel Conwy, Cau Pont Borth a chyfnodau estynedig o rew ac eira.

Dathlu Llwyddiant staff:
- Mae trefn newydd wedi ei roi mewn lle ar gyfer ymweliadau i ddathlu a chydnabod llwyddiant staff y Cyngor. Hyd yma, mae digwyddiadau wedi cael eu cynnal yn Amlosgfa Bangor, Cynllun Atal Llifogydd Bangor, Depo Cwm y Glo, Meithrinfa Goed Glynllifon a Depo Afon Wen.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Cyswllt Cwsmer a Cofrestru - Joanne Parry

Pwrpas


Pwrpas y Gwasanaeth / Uned: Cyswllt Cwsmer - "Rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth"
Pwrpas y Gwasanaeth / Uned: Cofrestru - "Cynnal seremoniau a galluogi'r cyhoedd i gofrestru digwyddiadau a darparu copïau tystysgrif yn unol â gofynion y ddeddf"

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	Cliciwch yma i weld y risgiau
		4		


CC03 - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt



Sylw

Dros y flwyddyn diwethaf, mae Galw Gwynedd wedi derbyn 125173 o alwadau ffôn, wedi ateb 120805 a colli 4368, yn golygu ein bod ni wedi ateb 3.61% o'r holl alwadau ffôn ddaeth mewn i Galw Gwynedd. Mae'r nifer o alwadau atebwyd yn llai o 5929 i gymharu a'r nifer atebwyd yn ystod 2024-25, ond mae'r nifer galwadau collwyd yn ystod 2025/26 wedi gostwng (gweler dangosydd CC03a) i gymharu a 9603 o alwadau collwyd yn ystod 2024/25 (gwahaniaeth o 5235). Mae hyn yn awgrymu nad ydi cwsmeriaid wedi gorfod ffônio yn ôl oherwydd eu bod nhw wedi cael ateb y tro cyntaf yn Galw Gwynedd.
Yn ystod Hydref 2025, mae Siop Un Stop Tai a Digartrefedd wedi newid eu trefniadau gwaith ac mae'r mwyafrif o'u cwsmeriaid yn mynd yn uniongyrchol i rif Tai erbyn hyn yn hytrach na Galw Gwynedd yn trosglwyddo galwadau iddynt, mae hyn yn dilyn cyflwyno system ffôn newydd Webex yn ystod Mai 2025, ble mae'r dechnoleg erbyn hyn yn ein galluogi i weithio yn fwy effeithlon wrth ddosbarthu galwadau sy'n dod i mewn. Mae hyn wedi arwain at welliant yn ein perfformiad, fel mae'r graff yn dangos.
O'r 120805 o alwadau atebwyd gan Galw Gwynedd yn ystod 2025/26, mae oddeutu 72000 o'r rhain unai wedi'u cofnodi fel ymholiad yn ein system CRM neu prosesu fel taliad gan staff Galw Gwynedd, yn golygu ein bod ni'n delio gydag oddeutu 60% o draffic ffôn o fewn y Ganolfan Gyswllt, heb drosglwyddo yr alwad i Wasanaeth arall. Ar ben hyn mae staff Galw Gwynedd hefyd yn delio gyda gwaith gweinyddol sy'n cael ei gynhyrchu drwy sianeli digidol yn ogystal â delio gydag ymholiadau sgwrs fyw.


CC03a - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt



Sylw

Fel sydd wedi'i nodi yn nagosydd CC03, mae'r nifer galwadau yr ydym wedi colli eleni yn llai na'r ffigwr gollwyd yn ystod 2024/25. Fe welwch o'r graff bod y perfformiad yn fwy sefydlog oherwydd ein gallu i reoli ein perfformiad yn well yn dilyn cyflwyno system ffôn newydd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Yr ydym hefyd yn cydweithio yn agos gyda Gwasanaethau rheng flaen er mwyn ceisio osgoi cynnydd sylweddol mewn galwadau, e.e. wrth agor ceisiadau gwastraff gardd am y flwyddyn i ddod, yr ydym wedi osgoi cychwyn ar gyfnodau prysur er mwyn gallu ymdopi gyda'r nifer galwadau sy'n dod mewn. Fodd bynnag, pan mae Gwasanaethau yn cyflwyno newidiadau heb gyfathrebu gyda ni yn gyntaf, mae hyn yn cael effaith negyddol ar y cwsmer ac yn arwain at gynnydd annisgwyl mewn galwadau, gyda mwy o alwadau yn cael eu colli. Mae systemau digidol yn methu hefyd yn cael yr un effaith.


CC04 - Galwadau i'r Ganolfan Gyswllt



Sylw

Perfformiad wedi bod yn sefydlog dros y flwyddyn diwethaf ac yn cyrraedd y safon Gofal Cwsmer newydd, ar gyfer ateb galwadau ffôn mor fuan â phosib ond o fewn 1 munud.
Mae 42 eiliad yn ffigwr cyfartalog sy'n golygu fod rhai cwsmeriaid yn disgwyl mwy nag 1 munud cyn cael ateb, a dyna fydd yr her ar gyfer 2026/27, cael y nifer o drigolion sy'n disgwyl mwy nag 1 munud i lawr. Ers cychwyn gyda'r system ffôn webex mis Mai, mae gennym fynediad at ddata nad oedd ar gael yn flaenorol. Mae adroddiad "dosbarthu galwadau" yn adrodd fod Galw Gwynedd wedi ateb 87629 o alwadau o fewn 1 munud, sydd yn 81% o'r holl galwadau atebwyd ers mis Mai 2025.


CC05c - Bathodynnau Glas



Sylw

Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn her i'r tîm bathodyn glas, yn dilyn cyhoeddiad y cwmni asesu annibynnol Able 2, eu bod yn stopio asesu ceisiadau gydag wythnos o rybudd. Mae hyn wedi arwain at nifer fychan o gwsmeriaid yn disgwyl llawer hirach am benderfyniad ar eu cais, gan nad oedd gennym fynediad at wasanaeth asesu annibynnol yn y maes symudedd.
Mae cwmni newydd wedi'u penodi i wneud y gwaith gan Llywodraeth Cymru erbyn hyn, a ceisiadau nad ydym yn galllu dod i benderfyniad arnynt yn cael eu cyfeirio mlaen am asesiad pellach. Wrth i ni dderbyn canlyniadau yn ôl ar gyfer yr unigolion sydd wedi bod yn disgwyl peth amser am benderfyniad, yr ydym yn disgwyl i'r nifer dyddiau prosesu gynyddu, cyn sefydlogi eto pan fydd yr ôl groniad o geisiadau wedi'u cwblhau.


CC06 - Webchat



Sylw

Mae nifer trafodion webchat wedi bod ar ei uchaf eleni, wrth i ni ddelio gyda 2,099 o drafodion sgwrs fyw yn ystod 2025/26 i gymharu â 710 yn ystod 2024/25. Mae'r cynnydd sylweddol i'w weld ym mis Tachwedd ac eto wedyn yn mis Ionawr oherwydd problemau PSBA, ble ddaru ni golli system Hunan Wasanaeth ar wefan y Cyngor am gyfnod (1 diwrnod mis Tachwedd a 1.5 diwrnod mis Ionawr) ond gyda'r niferoedd yn defnyddio'r sgwrs fyw yn parhau i fod yn uwch na'r flwyddyn blaenorol, ar ôl y ddau ddigwyddiad yma. Mae gennym 2 aelod o staff yn monitro'r sgwrs fyw rhwng 9 a 5 ble mae lefelau staffio yn caniatau.

CC09 - Bodlonrwydd Cwsmer - Cofrestru



Sylw

Neb wedi adrodd anfodlonrwydd gyda'r Gwasanaeth Cofrestru dros y flwyddyn diwethaf.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Dysgu a Datblygu - Mari Edwards

Pwrpas

- Cefnogi a datblygu unigolion a thimau i gyflawni eu rôl i orau eu gallu, er mwyn darparu gwasanaethau o werth i bobl Gwynedd
- Datblygu a meithrin diwylliant sy'n galluogi staff ac Aelodau i roi o'u gorau ar gyfer pobl Gwynedd
- Denu a datblygu gweithlu briodol ar gyfer y dyfodol
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau sy'n gwella gwasanaethau er lles Trigolion, Cymunedau Gwynedd a Busnesau Lleol

Switch to English


Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	Cliciwch yma i weld y risgiau
	4	4		

DD1.1 - Hyfforddiant - Bodlonrwydd

I ba raddau mae'r hyfforddiant yn eich helpu i gyflawni eich rôl? (sgôr/10)

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026



Sylw

Wrth ddadansoddi yn fisol y sgôr mae mynychwyr wedi ei roi ar gyfer yr hyfforddiant maen nhw wedi ei fynychu, gwelwn fod llawer o'r teitlau yn derbyn 10 allan o deg yn gyson. Mae rhain yn gyrsiau sydd yn cael eu cynnal gan staff y Cyngor ar gyfer Rheolwyr yn bennaf.

Mae'r cyrsiau sydd yn derbyn y sgôr isaf yn tueddu i fod yn rai sydd yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr allanol. Y sgôr isaf yw 8 allan o 10 - sydd ddim wir yn isel.

Mae'n amlwg o'r data yma fod staff y Cyngor yn gefnogol o'i gilydd ac yn gwerthfawrogi derbyn hyfforddiant gan arbenigwyr yn eu maes.

DD1.2 - Rhaglenni Datblygol

Sylw

Cynllun Prentisiaethau a Cynllun Yfory – Ar yr 16 o Ebrill, mae 20 swydd prentisiaeth a 6 swydd Cynllun Yfory ar agor. Mae strategaeth hynwyddo ac ymgysylltu yn ei le a gobeithio y bydd ymateb da wedi ein cyrraedd erbyn diwedd Mai.

Arolwg Llais Staff – Bu i'r arolwg redeg am 5 wythnos. Ar y cyfan, roedd y niferoedd a ymatebodd i'r arolwg yn ffigwr tebyg iawn i'r llynedd. Wrth ddadansoddi yn fanylach, bu i niferoedd yr ymatebion gan adrannau sydd â llawer o staff swyddfa gynyddu e.e Gwasanaethau Corfforaethol a rhai adrannau wedi methu a chael llawer o staff i ymrwymo i'w gwblhau.

Croeso – Mae Grŵp Prosiect a Dogfen Sefydlu yn ei le i lywio'r Prosiect Cyfnod Croeso i lunio strwythur cyson a theg i holl aelodau newydd o staff y Cyngor.

Rhwydwaith Rheolwyr - Datblygu rhaglen a threfn fwy pendant i'r Rhwydweithiau Rheolwyr gan gynnwys treialu 'Paned efo Rheolwyr' am y tro cyntaf i annog mwy o rwydweithio rhwng Rheolwyr y Cyngor.

DD1.3 - Datblygiadau

Sylw

Maes Dysgu
* Sesiynau Peilot wedi eu cynnal
* Cyflwyniad Democratiaeth i Reolwyr (Ionawr 2026) – 'Mi oedd y cwrs yn wych, yn enwedig o ystyried mai hwn oedd y tro cyntaf i'w gyflwyno. Roedd yn hollol ymarferol, a'r wybodaeth wedi'i chyflwyno ar y lefel gywir'
* Cynnal Sgyrsiau Anodd (Chwefror 2026) – 'Mi fyddwn yn argymell yr hyfforddiant gan fy mod wedi dysgu llawer o sut i gynllunio sgwrs anodd, beth bynnag fo'r pwnc. Mae yn wybodaeth gellir ei drosglwyddo i nifer iawn o sefyllfaoedd'
* Caffael a Chontractau (Mawrth 2026) – 'Roedd yr hyfforddiant yn ddigonol i fy mhwrpas i, efallai buasai sesiynau sylfaenol ac uwch yn ddefnyddiol i'r rhai sydd angen mynd i mewn i'r pwnc yn fwy manwl'
* IOSH Rheoli'n Ddiogel wedi ei gynnal yn gyfan gwbl yn y Gymraeg am y tro cyntaf, h.y. wedi ei gyflwyno yn Gymraeg a gyda adnoddau / deunyddiau Cymraeg (Chwefror 2026) – 'Cymraeg yw fy iaith gyntaf a Chymraeg yw iaith gweithredu mewnol y cyngor felly rwyf yn credu ei fod yn holl-bwysig fod pob deunydd hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg'
* Sesiynau Peilot i ddod (hyfforddwyr mewnol i gyd)
* Niwroamrywiaeth (Ebrill 2026)
* Penderfyniadau Da (Ebrill 2026)
* Technoleg Cymraeg (Ebrill 2026)

Maes Busnes a Chomisiynu
* Wedi mynd drwy'r broses caffael ar gyfer 3 teitl gwahanol yn ddiweddar (hysbysiad yn Sell 2 Wales)
* Darparwr allanol wedi ei gomisiynu i redeg yr hyfforddiant Cynnal Sgyrsiau Anodd (yn dilyn peilot llwyddiannus cychwyn mis Chwefror). Yr hyfforddiant yma yn benodol i reolwyr ac arweinyddion tîm.
* Mae gennym darparwr allanol yn rhedeg sesiwn peilot hyfforddiant Anabledd i ni fis Mai (oedi wedi bod efo hwn oherwydd amgylchiadau annisgwyl ochr y darparwr)
* Mewn trafodaethau efo darpawr allanol fydd o bosib yn medru rhedeg hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth i ni.
* Y bwriad ydi mynd allan i chwilio am ddarparwyr ar gyfer yr hyfforddiant Pendantrwydd a hyfforddiant Perswadio a Dylanwadu nesaf.

Maes Dysgu Digidol
* E-fodiwlau newydd yn fyw ar y Porth e-ddysgu – Rheoli Gwybodaeth, Gwrth Hiliaeth, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ac Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma yng Cymru
* Polisiau sydd wedi ei derbyn yn Y Ganolfan bolisi yn cael ei fwydo i'r Hunanwasanaeth yn ddyddiol ac yn awtomatig – datblygiad technegol.
* Tudalen 'Wordpress' Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi cael ei datblygu ar gyfer gweithwyr rheng flaen; disgwyl i'r safle mynd yn fyw yn y misoedd nesaf.
* MASTERCLASS - Darparu Hyfforddiant Effeithiol ar Microsoft Teams; wedi ei beilota a'i redeg.

Maes Diogelu
* Mapio allan categoriau swyddi yn derbyn sylw ar gyfer Diogelu a VAWDASV
* Trafodaethau angen digwydd yn dilyn hyn, efo'r Tim Cefnogol a TG o ran dynodi categori pob swydd, a sicrhau bod ffilter yn cael ei ychwanegu ar MODS lle sy'n dangos categori hyfforddiant Diogelu
* Tudalen Diogelu wedi cael ei greu a fydd yn rhoi mynediad i staff y Cyngor at wybodaeth allweddol am ddiogelu
* Fideo Hyfforddiant Diogelu Grwp A yn orffenedig (Cymraeg a Saesneg) ac yn cael ei beilota gyda'r Adran Amgylchedd yn y lle cyntaf
* Yr Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i fynd allan at Arweinyddion Timau y staff rheng flaen i fynd trwy'r broses (dangos y fideo, cael y staff i arwyddo cofrestr bresenoldeb, a dosbarthu posteri hyrwyddo, cofnodi y staff ar MODS)
* Y dair Adran arall yn cael sylw yn dilyn yr uchod (Addysg, Tai ac Eiddo, Priffyrdd a YGC)
* Is Grwp Hyrwyddo yn cwrdd 17/4 i drafod cynllun hyrwyddo Diogelu

Maes Iaith
* Canllaw Cefnogi Timau Dwyieithog – drafft wedi'i gwblhau ac yn y broses o dderbyn adborth.
* Prosiect Maes Gofal – disgwyl gallu dal ati am flwyddyn (heb gael caniatâd o gyllid eto). Mair Rees i barhau fel tiwtor. Dros 80 wedi holi am wersi ac oddeutu 50 wedi derbyn gwersi hyd yma (staff cartrefi gofal a gofal cartref).
* Dashfwrdd PowerBI Dynodiadau laith ar gael i benaethiaid adran – neges wedi mynd i bob pennaeth i dynnu sylw ato.
* Cymraeg Clir – wedi addasu dau swydd ddisgrifiad o'r maes gofal ar y cyd â Nia Lewis o'r Uned Iaith.
* Cwrs Glywsi Iaith 10 sesiwn wedi'i drefnu o Ionawr-Mawrth 2026.

DD2 - Newid Diwylliant (Cyfraniad i Fforddi Gwynedd)

Sylw

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi canlyniadau yr Arolwg Llais Staff diweddar. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i greu grwpiau ffocws ac adnabod strategaeth wrth symud ymlaen gyda'r gwaith yma.

DD3 - Blaenoriaethau


Sylw

Gweithredu a datblygu ar y Fframwaith Dysgu a Datblygu (2025/2026) gan sicrhau ansawdd, mireinio ymgysylltu pwrpasol a hyrwyddo'r gwaith.
Datblygu Fframwaith ar gyfer Uwch Swyddogion ac Aelodau.
Ehangu ar ar ein fframweithiau darpariaeth hyfforddi/cefnogi drwy gyfarch anghenion yr ystod lefelau swyddi.
Parhau i ddatblygu a chefnogi gwaith Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent.
Parhau i sefydlu a gosod trefniadau Busnes a Chomisiynu er mwyn cael camau pendant o gomisiynu gwaith ac i sicrhau ansawdd i waith y gwasanaeth.

DD4 - Hyfforddiant

Nifer hyfforddiant sydd wedi rhedeg yn fisol

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026



Sylw


Mae niferoedd uwch o hyfforddiant wedi bod yn digwydd er mis Ionawr nag yn y flwyddyn flaenorol. Wrth i'r Rhaglen Dysgu a Datblygu parhau i fod yn cael ei ddatlbygu a theitlau newydd yn cyrraedd y Panel, mae'n dda gweld bod mwy o amrywiaeth o gyrsiau yn cael eu rhedeg yn ogystal a mwy o deitlau yn rhedeg.

Ionawr – Nifer digwyddiadau 45; Nifer Teitau 23
Chwefror - Nifer Digwyddiadau 41; Nifer Teitlau: 21
Mawrth - Nifer Digwyddiadau: 37; Nifer Teitlau: 28

DD5 - Staff a Chynghorwyr wedi derbyn Hyfforddiant

Nifer staff a chynghorwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant yn fisol

Blwyddyn ● 2024-2025 ● 2025-2026



Sylw

Mae'r graff yn dangos y niferoedd o unigolion unigryw sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant. mae'n galonogol iawn gweld mwy o staff yn ymgysylltu â'r Rhaglen Dysgu a Datblygu ac yn elwa o allu mynychu'r cyrsiau newydd sydd yn cael eu darparu.

DD6 - Adborth o Ddigwyddiadau

Sylw

Ddim yn cynnwys adborth o sesiynau peilot.

Ionawr
DiSC – Diddorol clywed am y mathau gwahanol o weithwyr. Gallu edrych ar ymddygiad proffesiynol unigolion mewn ffordd wahanol yn dilyn yr hyfforddiant. Bydd yn help mawr i mi yn fy rôl i gallu cyfathrebu yn effeithiol gyda aelodau erail yn y tîm.
Cyflwyniad i Democratiaeth i Reolwyr - Sesiwn gwych y dylai bawb gael, yn enwedig fel rheolwyr/arweinyddion tîm, er mwyn deall y Cyngor yn iawn. dwi'n gweithio'n y cyngor ers dros 15 mlynedd ond mi wnes ddysgu pethau dwi rioed wedi glywed / deall o'r blaen.
Cyflwyniadau Effeithiol - Creadigol. Ymarferion realistig fel esiamplau da.

Chwefror
Cyfathrebu clir - Wedi mwynhau pob agwedd o'r hyfforddiant ym heddiw, roedd yn ddefnyddiol iawn. Unig awgrym sydd gen i ydi bod ni yn cael neges/diweddariad bach bob 3-4 mis fel bod yr egwyddorion dal yn fyw i ni. Roedd yr astudiaethau achos yn ddifyr ac yr ymarfer o rhoi cynnig ar addasu brawddegau. Sesiwn ymarferol a diddorol lle gallaf ddefnyddio bob dim sydd wedi eu trafod mewn gwaith a bywyd go iawn. Diolch Lilo - yn amlwg yn arbenigwr ac yn eglurо'r egwyddorion yn dda iawn. Ymarferol iawn - cynyddu maint y testun ar y sleidiau. Egluro termau technegol yn gynharach e.e. "Cystrawen" / "gylunu" - falle nad yw pawb yn gwybod beth yw ystyr yr holl dermau.
Diogelu Data - Hyfforddiadant defnyddiol ac ymarferol oedd yn hawdd i'w ddilyn ac yn cynnig gwybodaeth defnyddiol i waith dydd i ddydd. Cwrs diddorol iawn, 'refresher' gan ym mod heb fod ar gwrs diogelu data ers sawl blwyddyn bellach. Llawer iawn o arferion dda i'w ddefnyddio o'r cwrs.

Mawrth
Arwain Newid - Hyfforddiant yn sbarduno diddordeb rhywun i ymgymryd ar broses o newid, boed yn fach neu fawr. Cwrs ymarferol ac gwerthfawr.
*Y ffaith bod y cwrs yn ddiddorol iawn ac rydym yn cael gwneud tasgau ymarferol a oedd yn wirioneddol berthnasol i'n tîm. Roedd yr hyfforddwr yn wybodus iawn ac yn amlwg mae ganddo ddiddordeb yn y pwnc. Fe wnaethon ni symud o gwmpas yn ystod y cwrs a sefyll i fyny a symud y corff ychydig a oedd yn ddefnyddiol iawn i mi gan fod gen i ADHD. Roedd yn ddefnyddiol iawn cwblhau'r hyfforddiant hwn ar ddechrau fy swydd newydd fel arweinydd tîm ac roedd yn hynod fuddiol ymuno â gweddill fy nhîm gan y gallwn weithio gyda'n gilydd.
*Hyfforddiant difyr dros ben sydd yn mynd i fy helpu yn fawr iawn yn fy ngwaith i arwain y newidiadau sydd gennym ar y gweill. Mae rheoli y newid yn llawr cliriach ac threfnus wedi i mi fynychu ddoe. Mae wedi rhoi hyder i mi i Gynllunio a chyflwyno'r newid i'r tîm. Bydd 8 cam Kotter yn ddefnyddiol iawn. Tybed oes modd cael copi o'r cyflwyniad os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr i Nia Meleri am hyfforddiant hwyliog, perthnasol a llawn gwybodaeth a chyngor.
Caffael a Chontractau - Sesiwn eglur o egwyddorion a phwrpas rheolau caffael- man cychwyn da. Help mawr i ddeall pryd mae angen gwneud ymholiadau am gyngor rhai fwy profiadol yn y maes a pwy yw'r pwyntiau cyswllt. O bosib byddai'n fuddiol teilwra sesiynau byr i lefelau gwahanol o fewn adrannau- fel bod dealltwriaeth glir ar bob lefel o beth yw'r egwyddorion, a beth sydd yn 'iawn'. I bwnc allai fod yn ddrysyld/ trwm roedd y sesiwn yn glir ac yn rhoi cyflwyniad cynhwysfawr... er nad wyf yn caffael, yn hytrach yn dilyn fframwaith, mae'n fuddiol deall beth ywr egwyddorion a'r gwaith sydd yn digwydd 'tu ôl y llen'.
Cydraddoldeb – LHDTCRA+ - Roedd yr hyffordwr yn wybodus iawn o'r pwnc. Cawsom sgyrsiau pwysig er mwyn deall pa eirfa sy'n priodol i'w ddefnyddio.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Democratiaeth a laith - Vera Jones

Pwrpas


Cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus
Cyfieithu - Darparu gwasanaeth cyfieithu safonol i'r Gymraeg a'r Saesneg ar bapur ac ar lafar i staff, aelodau a thrigolion Gwynedd
Democratiaeth - Darparu cefnogaeth o safon i Gynghorwyr Gwynedd
Iaith a Chraffu - Hyrwyddo a hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd y sir ac arwain ar drefniadau craffu Gwynedd

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	
	4	3		Cliciwch yma i weld y risgiau

DI1 - Taflenni Penderfyniad



Sylw

Cyhoeddwyd 109 o daflenni penderfyniad yn ystod 2025/26, a dim ond 3 a gyhoeddwyd yn hwyr. Cyhoeddwyd y diwrnod canlynol yn y tri achlysur, a gododd oherwydd disgwyl am sylwadau/caniatad a phroblem yn codi gyda'r system gyhoeddi.

DI2 - Bodlonrwydd Aelodau (Blynyddol)

Sylw

Da iawn - 88%, da - 11%
Gofynwyd am adborth gan aelodau am eu bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Democratiaeth. Adroddwyd ar yr ymatebion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Chwefror 2026. Derbyniwyd 27 ymateb gyda 88% wedi nodi fod y gwasanaeth yn "dda iawn" a 11% yn nodi "da", sydd yn gynnydd o'r llynedd pan nododd un Cynghorydd fod y safon yn "dderbyniol". Amlygwyd argaeledd a phrydlondeb ymateb y tîm fel rhan o'r cefnogaeth o ansawdd.

DI3 - Gwasanaeth Cyfieithu

Sylw

Mae'r tîm wedi parhau'n brysur iawn yn y cyfnod yma, gyda galw mawr am ein gwasanaeth, yn enwedig cyfieithu ar y pryd, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol a chenedlaethol.

Eleni, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, mae'r tîm wedi bod yn gyflawn o ran nifer yr aelodau staff, yn sgil trosglwyddo cyfieithydd profiadol iawn o GwE fis Ebrill 2025. Yn ogystal, mae Cyfieithydd dan Hyfforddiant sydd wedi bod yn aelod o'r tîm ers 2023 bellach wedi cymhwyso ac yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y tîm o ran cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd.

Yn anffodus, yr un heriau y mae'r tîm wedi'u hwynebu eleni eto:
- Y ffaith fod swyddogion o fewn Adrannau'r Cyngor yn defnyddio technoleg AI i gyfieithu eu dogfennau ffurfiol eu hunain yn achlysurol, ond hynny heb eu prawf-ddarllen yn ddigon manwl. Mae risg wirioneddol i'r Cyngor yn sgil hyn fod camgyfieithiadau yn mynd yn gyhoeddus - yn wir mae achosion o hyn wedi digwydd, neu o leiaf bron â digwydd. Tra bod y Tîm Cyfieithu yn defnyddio meddalwedd sydd bellach yn cynnwys cyfieithu peirianyddol, sy'n cyflymu ein prosesau cyfieithu yn arw, rydym yn sicrhau bod y cyfieithiadau hyn yn cael eu prawf-ddarllen yn ofalus er mwyn sicrhau cywirdeb a bod y safonau arferol yn cael eu cynnal.

- Fel sydd wedi'i adrodd yn flaenorol, mae'r dechnoleg yn ystafelloedd cyfarfod anffurfiol y Cyngor yn annigonnol i allu cynnal cyfarfodydd hybrid gyda chyfieithu ar y pryd yn llwyddiannus. Yn ogystal â hyn, mae'r elfen cyfieithu ar y pryd o fewn Teams yn dal i fod yn ddiffygiol ar rai achlysuron. Rydym yn dal i ddisgwyl am atebion gan TG ynglŷn â'r ddau fater yma.

Mae'r tîm wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan ein cwsmeriaid o fewn y Cyngor a'r tu allan, a dyma ddetholiad o'r sylwadau hynny:

"Diolch yn fawr am y cyfieithydd yn y cyfarfod neithiwr, roedd yn ardderchog."
"Dim ond gair o ddiolch am eich gwasanaeth cyfieithu yn ein cyfarfod ddoe. Wir yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth fel tîm."
"Gwasanaeth gwych, diolch yn fawr!"
"Wedi derbyn y cyfieithiadau. Diolch yn fawr iawn am y gwasanaeth prydlon."
"I am about to leave Cyngor Gwynedd after two years on an interim contract. I wanted to write to say that the service you offer is incredible. I have been amazed at the proficiency and professionalism of the staff supporting the CJC. Thank you for all your support and best wishes to you all."

DI4 - Gwasanaeth Craffu ac Iaith

Sylw

Bu'n flwyddyn prysur i'r tîm o ran y pwyllgorau craffu a'r prosiectau sydd ar waith i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Llwyddwyd i gynnal a chefnogi cyfarfodydd craffu arferol drwy'r flwyddyn gan edrych ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys adroddiadau herio perfformiad pob adran. O ganlyniad i gais gan yr aelodau cynhaliwyd dau gyfarfod arbennig i graffu cymllun ymateb adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder. Am y tro cyntaf cyflwynwyd cais i graffu eitem mewn pwyllgor gan aelod o'r cyhoedd, sef y cynllun hinsawdd. Parhawyd gyda gwaith Ymchwiliad trefniadau diogelu mewn ysgolion gan ymweld â 6 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd, 1 ysgol arbennig ac 1 ysgol ddilynol yn ogystal a chynnal dau grŵp tasg a gorffen a flaenoriaethwyd gan y Fforwm Craffu - un yn edrych a polisi iaith addysg mewn ysgolion a'r llall ar gwynion adrannau sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol craffu i'r Cyngor er cymeradwyaeth ym mis Hydref, gan amlinellu'r gwelliannau sydd wedi digwydd i'r trefniadau craffu dros 24/25. Roedd dri mis yn hwyrach na'r arfer yn cael ei gyhoeddi gan fod adnoddau'r tîm wedi eu blaenoriaethu i waith yr ymchwiliad a chynnal sesiynau llunio rhaglen waith y pwyllgorau craffu.

Bu llawer o gydweithio gyda swyddogion o adrannau amrywiol ac o sefydliadau allanol er mwyn hybu'r Gymraeg. Cydlynwyd gwaith Fforwm Iaith Gwynedd sy'n cynnwys dros 20 o sefydliadau gwahanol. Bu'r fforwm yn gweithio ar greu strategaeth iaith a sefydlu is-grwpiau i edrych yn fwy manwl ar heriau defnyddio'r Gymraeg gan ein pobl ifanc, yn ein cymunedau, yn y maes blynyddoedd cynnar a'r maes busnes. Yn dilyn ymgynghoriad gyda phobl ifanc 16-18 oed a amlygodd nad oeddynt yn gweld y Gymraeg fel sgil gwerthfawr, mae'r is-grwp pobl ifanc yn cynllunio ymyraethau i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr. Datblygwyd Prosiect 15, sy'n ceisio dylanwadau ar ddefnydd iaith cymdeithasol pobl ifanc ar y cyfryngau cymdeithasol, ymhellach gan roi sylw i geisio cael mwy o gynnwys addas, defnyddio dylanwadwyr a chynyddu dilynwyr.

Cyfrannwyd at waith Is-Grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a'r gwaith prosiect Chwalu'r Mythau am y Gymraeg sy'n adnodd i gynorthwyo sefydliadau i recriwtio siaradwyr Cymraeg yng ngogledd Cymru. Rhoddwyd mewnbwn i grŵp cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg gan Comisiynydd y Gymraeg a hefyd i weithdy a gynhaliwyd i greu fframwaith iaith sy'n cydblethu gyda chymwysterau addysg i weithleoedd yn seiliedig ar y fframwaith CEFR diweddaraf. Rhoddodd swyddog fewnbwn i greu Siarter Twf y Gymraeg yn y Gwaith TUC Cymru. Bu aelod o staff yn y lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn aelod o banel trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle a beth all eraill wneud i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Rhoddodd y Cabinet sêl bendith i fabwysiadu'r siarter cyn y Nadolig.

Bu'r gwaith yn parhau gyda'r prosiect gwarchod enwau lleoedd Cymreig yn ystod y flwyddyn gyda sylw yn cael ei roi i hyrwyddo enwau lleoedd mewn ysgolion a chynyddu gweledded drwy osod arwyddion Cymraeg. Mae'r prosiect wedi dod i ben ddiwedd Mawth 26 ond bydd y gwaith o osod arwyddion Cymraeg fel bo angen eu hadnewyddu yn parhau am gyfnod. Rhoddwyd sylwadau hefyd ar 41 o asesiadau effaith a gyflwynwyd gyda cheisiadau cynllunio. Yn unol a'r arfer cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg Cyngor Gwynedd a rhoddwyd sylw i wella cydymffurfiaeth mewn sawl maes gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefan, asesiadau effaith a chwynion.

DI5 - Gwasanaeth Democratiaeth

Sylw

Cynhaliwyd 109 o bwyllgorau ffurfiol yn ystod y flwyddyn, gyda 48 o'r cyfarfodydd hynny yn rhai aml leoliad yn cael eu gwe ddarlledu. Bu i 22,052 o wylwyr wylio'r gwe ddarllediad.

Yn sgil Adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder.Amddiffyn Plant - cynhaliwyd 3 cyfarfod arbenig - o'r Cyngor Llawn, y Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Bu i 2 aelod newydd gael eu hethol yn ystod y flwyddyn a bu cyfnod o anwytho i'r ddau.

Mae'r dechnoleg yn y siambrau wedi bod yn heriol trwy gydol y flwyddyn gyda phroblemau cyson o ran rhwydwaith, systemau allannol a phroblemau sain yn cael eu amlygu fel y prif heriau. Er hynny, drwy ddyfalbarhad y tîm, llwyddwyd i gynnal yr holl bwyllgorau ynghyd a gwe-ddarlledu'r cyfarfodydd i'r cyhoedd.

Mae gwaith paratoi ar gyfer etholiad 2027 wedi cychwyn, a gweithdai gyda aelodau i'w cynnal yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn cael eu barn ar y cynlluniau drafft.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Iechyd, Diogelwch a Llesiant - Gail Warrington

Pwrpas

Darparu arweiniad, cyngor a hyfforddiant arbenigol ym meysydd Iechyd Diogelwch a Llesiant mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol.
Hynny er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a lleihau risgiau mewnol.


Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	Cliciwch yma i weld y risgiau
	6	3		

ID1.1 - Adroddiadau RIDDOR (Chwarterol)

Hyd cyfartalog i gwblhau adroddiadau RIDDOR yn ystod y chwarter diwethaf




Sylw

Dyma'r amser, mewn dyddiau, y mae wedi gymryd i'r Uned Iechyd a Diogelwch adrodd digwyddiadau RIDDOR chwarter olaf 2025-6 (h.y. y cyfnod rhwng dyddiad y digwyddiad a'r dyddiad adrodd). Mae hanner wedi eu hadrodd o fewn yr amserlen cyfreithiol (h.y. o fewn 10 neu 15 diwrnod yn dibynnu ar natur y digwyddiad). Mae'r hanner arall yn hwyr. 72926 oedd y digwyddiad gymerodd hiraf i'w adrodd (31 diwrnod) a hynny oherwydd fo'r digwyddiad heb ei adrodd gan y gwasanaeth (mis ar ôl y digwyddiad). Cymerodd 72538 a 72770 21 diwrnod oherwydd fo'r rheolwr llinell yn hwyr yn ymchwilio'r digwyddiad ac felly'r wybodaeth sydd ei angen i adrodd o dan reoliadau RIDDOR ddim ar gael yn brydlon. Roedd sefyllfa 72583 (17 diwrnod) ychydig yn wahanol, roedd rhaid trafod natur y sefyllfa yn ôl a blaen gyda'r Pennaeth perthnasol er mwyn gweithio allan os oedd yn disgyn o dan y rheoliadau RIDDOR ai peidio. Rydym yn gobeithio y bydd y system ddigidol yn golygu adrodd digwyddiadau ac adrodd o dan RIDDOR yn fwy prydlon.

ID2.1 - Cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol

Canran o weithwyr sydd wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cael cyngor gan IG yn dilyn iddynt gael eu cyfeirio



Sylw

Derbyniwyd 1,070 cyfeiriad i'r Uned Iechyd Galwedigaethol rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026.

Mynychodd 704 aelod staff apwyntiad yn yr Uned. Roedd 451 allan o'r 704 apwyntiad yn absennol o'r gwaith.


Yn dilyn ymyraethau megis asesiad risg, rhaglen dychwelyd graddol, addasiadau rhesymol mae 170 o unigolyn wedi datgan eu bod yn dychwelyd i'w gwaith.

Ar hyn o bryd mae rhestr aros o 4 wythnos am apwyntiad.

Mae'r mesur perffromiad yma wedi cael ei adolygu a bydd gwybodaeth / data newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer y flwyddyn i ddod.

ID3.1 - Hyfforddiant IOSH (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel



Sylw


Mae 70% o reolwyr (gan gynnwys Dirprwy Benethiaid Adran, Penaethiaid Ysgol, Rheolwyr Gwasanaeth, Arweinyddion Tîm/Goruchwylwyr, a rheolwyr safle) wedi cwblhau hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel o fewn y dair mlynedd diwethaf - unai'r cwrs gwreiddiol neu gwrs adnewyddu. Mae hyn yn leihad o 74%.

Yn anffodus, er fo cyrsiau wedi rhedeg ers y cyfarfod herio perfformiad diwethaf a'r cyrsiau'n llawn ers rhai misoedd, roedd nifer uchel heb droi fyny ar y diwrnod neu wedi ymddiheuro funud olaf, gan arwain at ostyngiad yn y canran. Yng ngyrsiau 2025-26, mae 20% o fynychwyr heb droi fyny ar y diwrnod. Mae hyn er gwaethef ymdrechion yr Uned Iechyd a Diogelwch i dargedu rheolwyr a rhoi gwybod i Benaethiaid Adran pa reolwyr sydd heb fynychu, ac ymdrechion Dysgu a Datblygu i godi ffi pan nad ydi rhywun yn rhoi rheswm digonol i beidio mynychu. Posib fo trosiant mewn rheolwyr hefyd yn ychwanegu at y broblem.

Dros y chwarter nesaf, mae'r cyrsiau'n llawn unwaith eto, gyda 85 rheolwr wedi cofrestru i wneud y cwrs gwreiddiol neu adnewyddiad. Heb ganiatau am unrhyw drosiant, mae hynny'n golygu cynnydd yn y ganran i 83%.

ID3.2 - Hyfforddiant Rheoli Safle (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs Rheoli Safle




Sylw

Mae 60% o reolwyr safle wedi cwblhau'r Hyfforddiant Rheoli Safle yn y dair mlynedd diwethaf - gostyngiad o'r 62% cafodd ei adrodd y chwarter diwethaf am resymau tebyg i IOSH. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr safle sydd wedi cwblhau cwrs adnewyddu ar-lein (mae hwn ar gael ers diwedd 2024). Pe bai rheolwyr sydd angen adnewyddiad yn gwneud hynny drwy ddefnyddio modiwl e-ddysgu sydd ar gael ar-lein, mi fyddai'r canran dros 80%. Rydym wedi bod yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth gyda negeseuon ebyst uniongyrchol a drwy Benaethiaid Adran. Mae tri cwrs pellach wyneb yn wyneb wedi eu rhaglennu flwyddyn yma, a gyda cyrsiau llawn byddai'n bosib codi'r canran i dros 75%.

ID3.3 - Hyfforddiant i-Act (Chwarterol)

Canran o reolwyr wedi cwblhau cwrs i-Act




Sylw

Mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Gwasaneth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad er mwyn trafod hyrwyddo'r cwrs yn ehangach.

ID4.1 - Profion Clyw (Chwarterol)

Canran o'r profion ychwanegol clyw yn dilyn newid yn y gyfraith sydd wedi cael eu cynnal




Sylw

439 o unigolion wedi derbyn profion gwyliadwriaeth iechyd eleni. Gyda'r newid yn y gyfraith mae 350 o unigolion angen ei galw nol am brofion clyw ychwanegol.

ID5 - Cwnsela (Chwarterol)

Canran o weithwyr sy'n derbyn mwy na'r pedwar sesiwn cwnsela craidd



Sylw

Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 mae 409 o staff y Cyngor wedi cael ei cyfeirio am wasaeth cyfrinachol cwnsela.
Mae 122 o rheiny wedi derbyn sesiynau ychwanegol tu hwnt i'r 4 sesiwn craidd.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Ymchwil a Gwybodaeth - Emyr Edwards

Pwrpas


Galluogi'r Cyngor i drin a rheoli gwybodaeth yn gyfreithlon a'i ddefnyddio i wneud y penderfyniadau gorau, a galluogi'r cyhoedd i gael mynediad i ddata a gwybodaeth.

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	Cliciwch yma i weld y risgiau
	4			

YG1 - Digwyddiadau Gwybodaeth



Sylw


Er gwaetha'r ffaith yr adroddwyd rhywfaint mwy o ddigwyddiadau gwybodaeth yn Ionawr - Mawrth nag yn y misoedd blaenorol, dros y flwyddyn gyfan fe welwyd gostyngiad arwyddocaol (29 yn 2025/26, o'i gymharu â 42 yn 2024/25).

Mae'r patrwm yma yn galonogol iawn, yn enwedig gan ei fod wedi digwydd mewn cyfnod lle 'rydym yn ymwybodol bod trefniadau i adrodd ar ddigwyddiadau wedi'u gwella a'u cryfhau mewn nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'n awgrymu bod yr ymdrechion i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn dwyn ffrwyth felly, ac fe fyddwn yn parhau i roi sylw i hyn.

O ran Adrannau roedd 9 o'r digwyddiadau yn Gwasanaethau Corfforaethol, 5 yn Addysg, 4 yn Oedolion, 3 yn Tai ac Eiddo a'r gweddill yn 1 neu 2 ym mhob Adran arall.

Mae mwyafrif y digwyddiadau (18 o'r 29 yn y flwyddyn) yn parhau i ddeillio o e-byst yn cael eu hanfon at y derbynnydd anghywir - er bod y nifer yma wedi gostwng ychydig yn dilyn gwaith codi ymwybyddiaeth a newidiadau i'r system e-bost, mae'n ymddangos ei bod yn anodd iawn cyflawni gostyngiad pellach yn yr elfen yma. Er hyn, gyda dros 5 miliwn o e-byst yn cael eu hanfon yn y Cyngor yn flynyddol mae'r camgymeriadau yn ymwneud â chyfran fach iawn ohonynt.

YG1a - Digwyddiadau Gwybodaeth - Ysgolion




Sylw

Fe adroddwyd 12 digwyddiad gwybodaeth gan Ysgolion yn 2025/26, o'i gymharu â 5 digwyddiad yn 2024/25.

Ar yr wyneb byddai'n ymddangos bod perfformiad wedi gwaethygu felly, ond rydym wedi bod yn mynd o amgylch ysgolion yn ystod y flwyddyn i gynnal sesiynau hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff yno am yr angen i adrodd digwyddiadau, ac mae trefniadau cofnodi ac adrodd digwyddiadau mewn ysgolion wedi'u cryfhau yn sylweddol eleni.

Byddwn yn cadw llygad ar batrwm y digwyddiadau dros y flwyddyn nesaf ac yn parhau â'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth.

YG2 - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth



Sylw


** Ffigwr Mawrth yn amodol ar hyn o bryd (dyddiad targed rhai ceisiadau gyrhaeddodd fis Mawrth heb fod eto) **

Mae lefel perfformiad wedi gwella'n sylweddol eleni (ffigyrau 2024/25 ddim yn dangos yn y siart yma gan nad oedd modd ei fesur ar sail misol, ond y canran ar gyfer 2024/25 gyfan oedd 76%; canran gyfansawdd 2025/26 yn 89.9%). Mae hyn hefyd yng nghyd-destun cynnydd o 8% yn nifer y ceisiadau dderbyniwyd (o 1,132 yn 2024/25, i 1,222 yn 2025/26).

Rydym yn parhau i dybio bod y gwelliant yma'n deillio o ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r maes, cryfhau trefniadau a pholisïau a chyflwyno cwrs hyfforddiant mandadol newydd i staff; yn ogystal â phroffil uwch y maes yn gyffredinol yn dilyn archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r dashfwrdd perfformiad 'byw' gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn wedi galluogi swyddogion i gadw llygad cyson ar y sefyllfa ac ymateb i unrhyw resymau am oedi wrth iddynt godi.

I wella'r canran ymhellach eto, byddai angen un ai cynyddu capasiti i ymateb yn yr Adrannau (sy'n annhebygol) neu bod yn rhagweithiol o ran cyhoeddi mwy o wybodaeth ar y wefan - felly fe fyddwn yn canolbwyntio ar hynny dros y flwyddyn nesaf yn enwedig gan y bydd y Cyngor yn lawnsio gwefan newydd.

YG3 - Ceisiadau Diogelu Data (Chwarterol)




Sylw

Cafwyd dwbl nifer y ceisiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (113 yn 2025/26, o'i gymharu â 57 yn 2024/25). O ystyried hyn, mae'r ffaith i berfformiad aros fwy neu lai'n gyson (80% yn 2025/26, o'i gymharu â 82% yn 2024/25) yn ganmoladwy iawn ac yn adlewyrchu'r sylw a'r gwaith caled fu angen ei roi i'r maes yma yn ystod y flwyddyn.

Mae cynghorau eraill yn y rhanbarth hefyd wedi nodi eu bod wedi gweld cynnydd tebyg yn y niferoedd, ar draws amryw o wahanol wasanaethau - mae'n ymddangos bod tipyn o'r cynnydd yn ymwneud â defnydd cynyddol o AI gan ymgeiswyr i'w helpu i baratoi ceisiadau. Fe fydd angen parhau i gadw golwg ar hyn, ac ar y goblygiadau o ran yr adnodd sydd ei angen i ateb y ceisiadau, dros y flwyddyn nesaf.

YG3a - Ceisiadau Diogelu Data - Ysgolion (Chwarterol)



Sylw

O'r 25 cais atebwyd yn y flwyddyn fe atebwyd 20 ohonynt o fewn yr amserlen (Ffigwr amodol gan bod 5 cais arall yn dal yn agored ac yn dal o fewn yr amserlen ar hyn o bryd).

Mae'r ffigwr yma yn agos iawn i'r canran ar gyfer ateb ceisiadau diogelu data ar draws y Cyngor (mesur YG3 uchod), gyda materion tebyg yn codi o ran cymhlethdod rhai ceisiadau a'r adnodd sydd ar gael i ateb nifer cynyddol ohonynt.

YG4 - Prosiectau Ymchwil a Gwybodaeth

Sylw

Gwynedd yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru lle mae pob ysgol wedi mabwysiadu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) - mae hyn yn sicrhau, pryd bynnag y bydd angen rhannu gwybodaeth sensitif i amddiffyn disgybl, y caiff hyn ei wneud mewn ffordd gwbl safonol , yn ddiogel a chyda cyfrinachedd cyfreithiol llwyr. Cafwyd nodyn o ddiolch gan Lywodraeth Cymru oedd yn nodi bod hyn yn arddangos ymrwymiad at rannu gwybodaeth bersonol yn briodol er mwyn diogelu myfyrwyr ac yn deillio o ymroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghyd â'r adran Addysg ac arweinwyr ysgolion.

Ar ôl gwaith dros y flwyddyn ar gyflawni elfen 'Gwybodaeth a Data' Cynllun Digidol y Cyngor mae yna gynnydd sylweddol yn y defnydd o ddashfyrddau data gyda 25 dashfwrdd bellach wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnal gan y tîm gan gynnwys adrodd ar staff yn cwblhau hyfforddiant mandadol, data am ardaloedd lleol Gwynedd, a dadansoddi canlyniadau arolwg Llais Staff. Bydd gwaith pellach yn y maes yma yn y flwyddyn nesaf gan gynnwys gallu rhannu dashfyrddau yn ehangach mewn ffordd ddiogel.

Rydym wedi bod o amgylch timau rheoli holl adrannau'r Cyngor yn ddiweddar yn codi ymwybyddiaeth am wahanol elfennau o iGwynedd a'r potensial i'w ddefnyddio i hwyluso gwelliannau gwasanaeth. Cafwyd adborth positif i'r sesiynau hyn a byddwn yn dilyn i fyny ar y pwyntiau amrywiol a godwyd.

Rydym wedi bod yn rhan o grŵp prosiect Llechen Las (Adnabod y cyfleoedd o ran gwasanaethau i blant ag anableddau) gan gyfrannu dadansoddiadau ac ymchwil o ran newidiadau demograffig a thueddiadau yn niferoedd y plant anabl a'r galw am wasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol.

Dewis Blwyddyn: 2025-2026 | Dewis Chwarter: Chw 4 | Dewis Mis: Mawrth

Ymgynghorol Adnoddau Dynol - Eleri Jones

Pwrpas


Cefnogi rheolwyr a staff i fod yn fodlon a chynhyrchiol yn eu gwaith, trwy roi cyngor ac arweiniad ar faterion cyflogaeth a chydraddoldeb a hyrwyddo arferion da yn y ddau faes.
Arwain y gwaith o ddatblygu'r amodau gwaith lleol, a sicrhau fod materion cydraddoldeb yn ganolog i waith ein holl wasanaethau.

Switch to English

Risgiau Cyfredol

Risgiau Coch	Risgiau Oren	Risgiau Melyn	Risgiau Gwyrdd	
	2	2	1	Cliciwch yma i weld y risgiau

AD01 - Dyddiau Salwch




Sylw

Mae lefel absenoldeb salwch y Cyngor yn parhau ar gynnydd gyda'r cyfanswm cronnus hyd at ddiwedd Mawrth 2026 yn 13.01. Mae'r patrwm hynny yn un cyson ers sawl blwyddyn bellach. Mae hyn peri pryder o ystyried yr amcangyfrif cost llynedd oedd yn deillio o absenoldeb salwch, heb son wrth gwrs am y pryder ynghylch iechyd a lles staff a'r pryder posib i wytnwch gwasanaethau. Dyma'r camau cychwynnol sydd wedi eu sefydlu i fynd i'r afael a'r sefyllfa yma:

1. Mae'r sefyllfa wedi ei huchafu i lefel uchel yn y gofrestr risg corfforaethol
2. Rhannu dadansoddiad o lefelau salwch adrannol a chamau gweithredu gyda'r tîm rheoli corfforaethol a timau rheoli adrannol
3. Buddsoddiad amser gyda rheolwr ac arweinyddion timau i ddilyn prosesau a chynnal sgyrsiau gyda staff yn amserol ac effeithiol. Dengys ymchwil yn y maes adnoddau dynol fod cynnal sgyrsiau amserol ac effeithiol gyda staff, a dilyn prosesau'n gywir a chyson, yn arwain at ostyngiad mewn lefelau salwch dros amser.

Mae yna lawer o waith da yn digwydd eisoes gan adrannau a nifer o wasanaethau cefnogol yn y maes hwn, ond mae'r sefyllfa sydd ohono ar hyn o bryd yn gofyn am ymyrraeth benodol i ychwanegu at hynny.


AD02 - Pwyllgor Apel Cyflogaeth (Blynyddol)



Sylw

Mae'r mesur hwn yn dangos faint o benderfyniadau mae'r pwyllgor apêl cyflogaeth yn eu cymryd sydd yn newid penderfyniad gwreiddiol swyddogion y Cyngor mewn perthynas ag achosion cyflogaeth. Gall gwaith y Pwyllgor hwn arwain at amlygu pryderon am benderfyniadau neu batrymau o ddigwyddiadau ac achosion o fewn y Cyngor yn gyffredinol neu adrannau penodol. Yn ystod 2025/26, bu i'r pwyllgor ymdrin â 7 achos, gyda 5 o'r penderfyniadau hynny yn gyson â phenderfyniad gwreiddiol swyddogion y Cyngor a 2 wedi eu gwrthdroi (29%).

AD03a - Disgyblaeth




Sylw

Yn ystod 2025/26 bu 148 achos disgyblu o'r newydd, gyda 115 o'r achosion hynny wedi eu cau a 33 yn parhau yn agored. Mae'r graff yn dangos fod yna 4 o achosion dros y flwyddyn hyd yn hyn wedi mynd dros y terfyn uchaf ar gyfer cwblhau achosion.

Byddwn fel tîm yn edrych ar amgylchiadau'r achosion hyn ac adlewyrchu os oedd unrhyw beth y gallem ni ddylanwadu arno er mwyn eu datrys ynghynt. Gall nifer o achosion fod yn gymhleth iawn, ond credwn fod angen o leiaf herio ein hunain fel cyflogwr ynghylch sut yr ydym yn delio â sefyllfaoedd o'r math i'r dyfodol ac oes unrhyw welliannau y gallwn eu cynnig i'n prosesau ni yma yng Nghyngor Gwynedd.


AD03b - Cwynion (Chwarterol)



Sylw

Ymdriniwyd â 19 o gwynion ffurfiol gan staff dros y flwyddyn 2025/26 gyda 5 o'r achosion hyn wedi cyrraedd yn ystod chwarter 4 y flwyddyn. Mae'r nifer o gwynion ychydig yn uwch na'r flwyddyn blaenorol ble cyflwynwyd 15 o gwynion ffurfiol ond er hynny mae'r niferoedd hyn yn parhau'n gymharol isel, o ystyried fod y ffigwr yn cynnwys y cwynion ffurfiol hynny sydd yn cael eu cyflwyno o fewn ein hysgolion, yn ogystal â gwasanaethau ehangach y Cyngor. Mae'r sylwadau sydd wedi eu rhoi yn yr adroddiad hwn ynghylch effaith prosesau ar lesiant staff mewn perthynas ag achosion disgyblu yn berthnasol ar gyfer prosesau cwynion hefyd, ac byddwn yn cydweithio â'r undebau llafur er mwyn gweld sut y gellir gwella prosesau yn y maes hwn lle'n bosib.

AD04 - Perfformiad cwblhau Arfarniadau Swydd



Sylw

Yn ystod 2025/26 derbyniwyd 218 o o geisiadau gan reolwyr i gynnal arfarniadau cyflog swyddi, a chwblhawyd 182 o'r rheini. Mae'r amser i gwblhau arfarniadau yn parhau i amrywio, gyda'r cyfartaledd oddeutu 23 diwrnod. Cymerodd 6 arfarniad lawer yn fwy o amser na'r cyfartaledd i'w datrys ac rydym fel tim eisoes wedi adolygu'r sefyllfaoedd hynny. Prif sgil effaith hynny i adrannau wrth fod yna oedi ydi eu gallu i newid swyddi / ailstrwythuro gwasanaethau, a gan ddeall pa mor bwysig yw hynny rydym fel tîm yn ceisio blaenoriaethu yr arfarniadau hynny, weithiau ar draul unrhyw geisiadau i ôl ddyddio addasiadau swyddi a newidiadau cyflog i staff unigol. Yn nghanol y galw ehangach sydd ar y Gwasanaeth hefyd, mae arfarniadau yn dueddol o gael y flaenoriaeth gyda'r isaf pan fo yna bwysau sylweddol ar y tîm.

2025/26 – 218 o arfarniadau wedi eu derbyn, 182 wedi cwblhau
2024/25 – 147 o arfarniadau wedi eu derbyn, 126 wedi cwblhau

AD99 - Gweithgaredd arall y Gwasanaeth

Sylw

Adnoddau Dynol:
Mae'r tim wedi parhau i gael cyfnodau heriol o ran capasiti dros y flwyddyn diwethaf yn sgil cyfnodau o absenoldebau ac ymddiswyddiadau. Yn ogystal a hyn, mae'r elfen weithredol o waith Adnoddau Dynol yn parhau i fod yn drwm ar adnoddau'r tîm. Mae aelodau newydd bellach wedi ymuno a'r tîm ar sail dros dro i helpu gynyddu'r capasiti ac i helpu symud rhai prosiectau datblygol y tîm yn ei flaen.

Dyma rai o brif lwyddiannau datblygol y tîm Adnoddau Dynol dros y flwyddyn a fu;
• Parhau i rowlio allan rhaglen hyfforddiant i Reolwr ac Arweinyddion Tim ar y Polisi Absenoldebau Salwch
• Gwasanaeth wedi bod yn rhan o ddylunio a rhedeg sawl proses penodi prif swyddogion, o fewn y Cyngor ac yn rhanbarthol
• Cydweithio gyda'r 5 Cyngor ar ddatgymalu'r gwasanaeth GwE gyda oblygiadau TUPE/ail strwythuro/a diswyddiadau. Ni chafwyd unrhyw achos tribiwnlys yn dilyn y diswyddiadau.
• Cynorthwyo gyda TUPE Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i CBC

Cydraddoldeb:
• Gwaith yn parhau i ymateb i ddyfarniad yr Oruchaf Lys yn achos For Women Scotland vs The Scottish Ministers. Er bod y dyfarniad wedi dod i rym yn syth ar ei gyhoeddiad yn Ebrill 2025, yn ymarferol mae'r dyfarniad yn golygu bod angen i sefydliadau ystyried sut y gallant gyfarch gofynion y cyfreithiau perthnasol yn llawn. Mae cyhoeddi canllawiau manwl gan y Comisiwn yn allweddol i hynny yn enwedig yn sgil y ffaith fod eu canllawiau interim wedi eu tynnu'n ôl.
• Fforwm Cydraddoldeb wedi ei sefydlu gyda rhaglen o gyfarfodydd chwarterol ac eitemau penodol yn cysylltu i faterion cyflogaeth byw o fewn y Cyngor e.e. datblygiad polisïau adnoddau dynol.
• Cyrraedd Achrediad Lefel 2 o'r safon Hyderus o ran Anabledd ac yn anelu cyrraedd Achrediad Lefel 3 nesaf.
• Darparwyd hyfforddiant ar feysydd newydd- e.e. LGBTQ+

CYFARFOD	*Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi*
DYDDIAD	*18 Mehefin 2026*
TEITL	*Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Corfforaethol a Chyfreithiol*
RHESWM DROS GRAFFU	*Cyflwyno perfformiad y Gwasanaethau Cyfreithiol dros y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau fod Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib.*
AWDUR	*Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol*
AELOD CABINET	*Cynghorydd Llio Elenid Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg*

GWASANAETH CYFREITHIOL

Nia Grisdale – Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

Pwrpas : Darparu gwasanaeth cyfreithiol i'r Cyngor sydd yn ei alluogi i weithio yn effeithiol er budd pobl Gwynedd "

% yn sgorio 5/5 neu Bodlon Iawn gyda'r Gwasanaeth	% yn sgorio 5/5 neu Bodlon Iawn gyda'r Gwasanaeth	% yn sgorio 5/5 neu Bodlon Iawn gyda'r Gwasanaeth
2025/2026	**2024/2025**	**2023/2024**
95%	93%	81%

2025-2026														
Sgôr	**Canran**	**Ebrill**	**Mai**	**Meh**	**Gorff**	**Awst**	**Medi**	**Hyd**	**Tach**	**Rhag**	**Ion**	**Chw**	**Maw**	
Bodlon Iawn 5	95%	19	11	7	8	7	9	8	5	10	18	20	18	140
Bodlon 4	5%	1		1	3		1							6
Gweddol Fodlon 3														
Anfodlon 2														
Anfodlon Iawn 1														
Cyfanswm holiaduron wedi ei dychwelyd		20	11	8	11	7	10	8	5	10	18	20	18	146
Nifer wedi ei yrru allan		40	29	23	74*	77*	25	15	7	28	26	74	76	494

Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sydd yn derbyn gwasanaeth. Fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae'r trefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon Iawn lawr i 1 = Hollol Anfodlon). Mae hefyd yn bosibl i adrannau ychwanegu sylwad ynghyd a sgôr. Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, canlyniad y flwyddyn oedd fod 100% yn fodlon iawn neu yn fodlon gyda'r gwasanaeth. Gwelir fod y canran o fodlonrwydd llwyr wedi codi dros y misoedd diwethaf o'r flwyddyn ariannol sydd yn adborth bositif iawn.

Daethpwyd a system newydd o fod yn gofyn am adborth drwy lenwi holiadur ar e-bost i rym ers mis Mawrth 2024. Bu i broblemau technegol amharu ar y gwaith yma yn ystod cyfnodau o'r flwyddyn sydd wedi amharu ar y gwaith o gasglu data. Gwelir yn 2024-2025 mai dim ond tua 14% or holiaduron sydd wedi cael ei dychwelyd sydd yn amlwg yn isel ond tros y flwyddyn mae gwaith wedi ei wneud ar hyrwyddo ac annog Cleientiaid i gwblhau ymatebion. Dros y flwyddyn dychwelwyd 30%

Cafwyd hefyd sylwadau penodol am y gwasanaeth gan gynnwys:

- Hygyrch, rhwydd a hawdd cael mynediad buan, egluro'n dda ac yn gefnogol.
- Cyfathrebu yn sydyn a chlir.
- Ymateb amserol iawn. Cydweithio arbennig o dda. Cyngor cyfreithiol arbenigol i feysydd penodol. wedi helpu i gael ymatebion a canlyniadau cadarnhaol sydd yn golygu canlyniadau gwell i'r unigolyn ac wedi gallu arbed arian i'r Cyngor
- Gwasanaeth arbennig pob amser.
- Wedi derbyn arweiniad gwerthfawr ar sawl maes cymhleth dros y flwyddyn ddiwethaf
- perthynas [arbennig o dda] gyda staff ac ymddiriedaeth yn y cyngor

Cafwyd hefyd sylwadau ar le i wella:
- Cyflymdra'r ymateb i geisiadau.
- Egluro costau gwasanaethau sydd yn cael ei allanoli.
- Rydym yn cael mwy o achosion cymhleth ac angen llawer mwy o gefnogaeth cyfreithiol, mae'r gefnogaeth rydym yn ei gael yn ardderchog ond angen mwy o adnodd cyfreithiol arbenigol i gefnogi
- Gosod amserlen ar gyfer y gwaith.
- Trefniadau ymateb i ymholiadau a chysondeb yn ansawdd yr arweiniad
- Tracio ymholiadau ac amser ymateb. Byddai staff yn gwerthfawrogi gwybod fod cais wedi cael ei gofnodi a phryd y byddent yn debygol o gael ateb neu arweiniad.

Bydd yr ymatebion yma yn cael ei trafod yn y cyfarfod tim nesaf gan ystyried pwyntiau gweithredu ac unrhyw newidiadau i ein systemau i sicrhau ei fod yn cyrraedd gofynion adrannau client. Yn ogystal mae gwahoddiad wedi ei estyn i bob pennaeth adran fod croeso am unrhyw sgwrs neu drafodaeth bellach am y ddarpariaeth.

Yn ogystal ar holiadur ar ddiwedd pob achos, mae holiadur blynyddol wedi ei anfon i Benaethiaid a Rheolwyr adran yn gofyn am ei barn ynglŷn ar gwasanaeth ar y cyfan. Cafodd yr holiadur ei anfon ganol Chwefror ac cafwyd tua 33% o ymatebion. Cafwyd atebion cadarnhaol iawn gyda phob ymateb yn dweud fod y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd yn dda neu yn dda iawn.

- Rydym yn derbyn cyngor a chymorth cyfreithiol ym materion moderneiddio addysg ac eiddo addysg, prydlesi ayyb

- Credu bod y cyswllt wedi gwella yn ddiweddar ac yn ymateb i'n cwestiynau yn gynt. Mae'r cyswllt yn gyfeillgar
- ac yn hawdd siarad gyda nhw.
- Mae'r arweiniad yn safonol a thrylwyr.
- Rwy'n teimlo ein bod yn derbyn gwasanaeth gwych - ymateb amserol a wastad yn gefnogol i'r gwasanaeth.
- Ardderchog, hynod gefnogol a gwerthfawr
- Dros y flwyddyn diwethaf wedi cael tipyn o gefnogaeth gan yr adran gyfreithiol a'r broses wedi bod yn hwylus iawn.
- Wedi bod yn help mawr gallu cael cyswllt gyda un cyfreithiwr ar gyfer yr holl gefnogaeth ac hyn wedi hwyluso pethau
- cefnogaeth ardderchog. ymateb prydlon a trwyadl.

O ran awgrymiadau sut i wella y gwasanaeth i'r dyfodol a beth yw'r heriau, cafwyd ymatebion i'w ystyried yn ogystal ac un cadarnhaol

- Yr her fwyaf yw eu capasiti ac mae amser weithiau rhwng ymatebion gan greu oedi, a fel mae'n digwydd mae gennym nifer o gwestiynau wedi codi y ddiwedder 'run pryd.
- Dim angen gwella
- Bydd angen mwy o adnodd i ddelio gyda llwyth gwaith sydd i ddod gan yr adran yn y misoedd nesaf.

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn parhau i ddatblygu y Tim Cyfreithiol i greu gwytnwch o fewn y Tim

Beth sydd wedi ei gyflawni?
Mae'r adran wedi bod yn rhan o Gynllun Yfory ers rhai blynyddoedd ac wedi elwa o gyflogi hyfforddai sydd wedyn wedi symud ymlaen i gymhwyso ac yn gweithio o fewn yr adran fel cyfreithiwr. Ymhellach, mae'r adran hefyd wedi manteisio ar y cynllun prentisiaeth ac wedi cyflogi prentis paragyfreithol cyntaf yr adran. Mae hyn y gweithio'n dda ac yn gymorth mawr i gyfreithwyr yr adran.

Mae'r gwasanaeth wedi symud ymlaen o'i heriau recriwtio blaenorol a gall ganolbwyntio ar ddarparu a gwella'r gwasanaeth ar gyfer Adrannau'r Cyngor.

Yn dilyn rhai o'r sylwadau sydd wedi eu derbyn fel canlyniad i'r holiaduron a'r adborth gan benaethiaid bydd asesiad o gapasiti ac arbenigedd o fewn yr adran yn cael ei ystyried yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion ein cleientiaid.

Byddwn yn edrych i gwblhau gwaith wedi ildio achrediad Lexcel ar gyfer cynnal sustemau priodoldeb a safonau proffesiynol

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r adran bellach wedi ymgorffori sustem rheoli achosion newydd ac wedi edrych i gyfarch nodweddion o'r cymhwyster Lexcel a fyddai o fudd ar gyfer yr adran. Rydym yn edrych yn benodol ar ffurf o gefnogi ein gilydd drwy adborth cyd weithwyr ar achosion drwy adolygiadau ffeil (ildiwyd yr achrediad fel arbediad) Nid oes bwriad i geisio am y cymhwyster Lexcel ond yn hytrach i ddefnyddio rhai or egwyddorion i ddatblygu y ffordd o weithio ac i gryfhau sustemau.

Be ydan ni wedi bod yn ei wneud, esiamplau:

- Achosion amddiffyn plant –cynnydd mewn achosion yn ymwneud a phobl ifanc – ceisiadau cymhleth o flaen yr Uchel lys. Nifer o achosion yn fwy cymhleth ac yn cynnwys elfennau rhyngwladol.
- Cefnogi sawl prosiect Strategaeth Tai – Pryniant ychwanegol o 8 eiddo gyda amserlen dynn cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Gwaith newydd o greu prydlesi rhent canolradd, eto er mwyn sicrhau cartrefi i bobl Gwynedd.
- Cynnydd yn ngheisiadau DOLS o flaen y Llys Gwarchod a materion "ordinary residence" gan sicrhau fod Awdurdodau eraill yn derbyn cyfrifoldeb am unigolion nad oedd yn gyfrifoldeb i Wynedd.
- Cytundeb llwyddiannus wedi ei wneud gyda Bwrdd Iechyd am becyn gofal sylweddol yn dilyn her gyfreithiol gennym.
- Cyfarwyddiadau wedi ei derbyn ar gyfer 2 bryniant gwerth £3.1m i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.
- Cyflawni Gorchymyn Cau cyntaf i'r Cyngor mewn perthynas a siop yn gwerthu tybaco ffug.
- Gwaith cefnogi ac addasu'r Cyfansoddiad gan ailfformatio y fersiwn ar-lein
- Gorchmynion Traffig
- Gorchymyn Parcio a chytundeb gyda chynghorau cymuned
- Cefnogaeth gyfreithiol yn deillio o sefyllfa Friars.
- Ymdrin a achos llys Cyfarwyddyd Erthygl 4.
- Cynghori a drafftio yr adolygiad Polisi Canu'r Gloch Staff
- Gorchmynion wrth newid rhwydwaith hawliau cyhoeddus o fewn y sir.
- Cynghori ar Ddeddfwriaethau newydd –Deddfwriaeth Caffael 2023; Prosesau Arbennig o dan Ddeddf Iechyd Gyhoeddus;

PRIODOLDEB

Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro.

Pwrpas : Cynnal hyder pobl Gwynedd yn y Cyngor drwy sicrhau a hyrwyddo priodoldeb ei weithgareddau a'r safon uchaf o ymddygiad ymhlith cynghorwyr .

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau y Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddiaeth.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r gwaith yma yn barhaol ond yn benodol cynhelir cyfres o gyrsiau "Penderfyniadau Da" o Hydref ymlaen. Amcan y cyrsiau yw esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith gyfansoddiadol a rheoleiddio ynglŷn a chyflwyno adroddiadau i e.e Cabinet. Mae'r cwrs bellach yn rhedeg ar gyfer swyddogion gyda sesiynau wedi eu cynnal a chynllunio

Rydym yn darparu sylwadau a barn ar pob adroddiad Cabinet a Chyngor Lawn er sicrhau priodoldeb cyfreithiol a chyfansoddiadol ynghyd a chynghori yn gyffredinol ar faterion megis y corff penderfynu cywir a materion polisi a strategol. Mae'r gwaith yma yn cynnwys cefnogi a rhoi

arweiniad ar y lefel uchaf i brif faterion sydd yn effeithio ar y Cyngor a chynghori ar faterion megis llwybr democrataidd cywir a gofynion o amgylch penderfyniadau allweddol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau ynghyd a swyddogion perthnasol i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Mae'r gwaith yn waith parhaus ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Arweinyddion Grwpiau yn rheolaidd. Bydd ffrwyth y gwaith yma yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Safonau ond mae'r canlyniadau yn gadarnhaol a'r lefel o gydweithio yn dda.

Byddwn yn cwblhau gwaith o hyfforddi aelodau Cyngor Gwynedd mewn materion Cod Ymddygiad drwy gynnig sesiynau hyfforddiant manwl ar y Cod i aelodau sydd heb fynychu.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Cynhaliwyd cyrsiau yn Rhagfyr a Ionawr 24/25 a darparwyd recordiad hefyd at ddefnydd yr aelodau sydd ar gael ar lein gyda prawf i'w gwblhau. Mae yn un o'r cyrsiau creiddiol ond mae yna dal aelodau nad ydynt wedi manteisio ar y cwrs ac mae hyn yn cael ei drafod gyda Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol unigol er tynnu sylw ac annog yr aelodau i gwblhau yr hyfforddiant. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Arweinyddion i bwyso ar aelodau nad ydynt wedi cymryd mantais or' cwrs ar lein bellach i gwblhau y gwaith. Bydd pwyslais ar hyn wrth baratoi rhaglen anwytho aelodau ar gyfer etholiadau 2027.

Byddwn yn cefnogi y Pwyllgor Safonau i ddatblygu trefniadau i weithredu ei gyfrifoldebau tuag at Gynghorau Tref a Chymuned drwy gynnig sesiynau hyfforddiant.

Beth sydd wedi ei gyflawni?
Bu i'r Pwyllgor Safonau gynnal arolwg o'r cyd berthynas gyda Cynghorau Tref a Chymuned ac adnabod fod angen symud i gryfhau y bartneriaeth yma. I gyfarch hyn mae cwrs hyfforddiant rhithiol wedi ei baratoi ar eu cyfer. Bydd y ddarpariaeth yma yn gynnig sefydlog i'r Cynghorau Tref a Chymuned wrth symud ymlaen .

Byddwn yn adolygu a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogi gofynion ar y Gwasanaeth sydd yn deillio o waith rhanbarthol

Beth sydd wedi ei gyflawni?
Roedd ysgwyddo cyfrifoldebau Swyddog Monitro a darparu cefnogaeth gyfreithiol i'r CBC wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y 12-18 mis diwethaf. Golygai hyn fod ardrawiad sylweddol ar gapasiti i gyflawni rôl Pennaeth Cyfreithiol yng Ngwynedd ac i ddarparu yn ddigonol i'r CBC. O ganlyniad cafwyd cytundeb fod y CBC yn sefydlu rôl llawn amser mewnol i gyfarch eu anghenion a rhyddhau y Pennaeth Cyfreithiol yn ôl i waith Gwynedd yn llawn amser. Rhoddwyd y trefniadau yma mewn lle yn ystod Chwefror.

Byddwn yn parhau i gadw y Cyfansoddiad dan adolygiad gan anelu i gwblhau y prif dasgau erbyn Rhagfyr 2025

Beth sydd wedi ei gyflawni?
Adolygu cynlluniau dirprwyo Swyddogion -**cwblhawyd**
Adolygu darpariaethau Adran 11 Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad ar cyd gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol. **Angen ei gwblhau**
Cyfrannu at y gwaith o adolygu Trefn Canu'r Gloch-**cwblhawyd**
Diweddaru yn ôl yr angen

Yn ogystal adolygwyd yr Egwyddorion Ymddygiad a'r Cod Ymddygiad yn dilyn ar newidiadau statudol a gyhoeddwyd yn Ionawr.

Rhaid cydnabod fod y gwaith yma yn lled barhaol ac yn ymateb i ofynion sydd yn newid hefyd.

Be ydan ni wedi bod yn ei wneud, esiamplau:
- Rhoi barn priodoldeb ar bob adroddiad Cabinet a Cyngor
- Cefnogi a chynghori ar faterion cyfansoddiadol sydd yn codi yn ôl yr angen
- Rhoi arweiniad priodoldeb ar faterion Tim Arweinyddiaeth
- Adolygu y Cyfansoddiad
- Cynghori y Tim Rheoli ar faterion corfforaethol ar draws ystod o feysydd
- Ymateb i gynnydd mewn cyflymder dod a prosiectau ymlaen yn sgil adolygiad o waith y Swyddfa Portffolio CBC
- Arwain ar y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Craffu rhanbarthol ar gyfer y CJC
- CJC – cynghori ar lywodraethant a sefydlu Cyfansoddiad newydd ar gyfer y corff
- Cefnogi Aelodau gyda materion Cod Ymddygiad

ETHOLIADAU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL

Siôn Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

Pwrpas : Sicrhau fod gan bobl Gwynedd y cyfle i bleidleisio'n hwylus, a bod eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd y maent yn ei fwriadu.

CYNLLUNIAU ADRAN

Byddwn yn gweithio i gefnogi'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn benodol yn cyfarch:

Cynnal Etholiadau

Beth sydd wedi ei gyflawni ?

Cynhaliwyd is-etholiadau sirol ar gyfer wardiau Abermaw a Bethel Felinheli .

Etholiad y Senedd yn 2026

Cynhaliwyd yr etholiad ar sail etholaethau newydd a chan ddefnyddio system bleidleisio torfol . Mae'r etholaeth newydd 'Gwynedd Maldwyn' yn gyfuniad o etholaethau seneddol y DU Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn a Glyndŵr, ac yn ymwneud a rhannau o ardaloedd pedwar awdurdod lleol. Y Prif Weithredwr a benodwyd fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholaeth, ac roedd oblygiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn sgil maint daearyddol yr etholaeth, nifer y pleidleiswyr a'r trefniadau traws-ffiniol angenrheidiol. Cefnogodd y Gwasanaeth y Swyddog Canlyniadau i gynnal yr etholiad yn unol a'r gofynion gyda cyfrif a chanlyniad ar 8 Mai 2026.

Cynnal Arolwg Cymunedol Statudol

Byddwn yn cynnal proses Arolwg Cymunedol Statudol gan edrych ar ffiniau rhai cymunedau penodol a'r trefniadau etholiadol (wardiau a chynghorwyr) o fewn y cymunedau ar draws y sir.

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Yn dilyn gwaith cychwynnol o gasglu a chloriannu gwybodaeth ac ymgysylltu cymeradwywyd y bwriad a'r cylch gorchwyl i gynnal adolygiad cymunedol ac adolygiad o drefniadau etholiadol yn gyfochrog. Ers hynny cynhaliwyd y camau statudol canlynol:

- Tachwedd/Rhagfyr 2024 – Cyfnod ymgynghori cyntaf ar y cylch gorchwyl
- Mawrth 2025 - Cymeradwyo cynigion drafft
- Mawrth – Mai 2025 - Cyfnod ymgynghori ar y cynigion drafft

Y camau nesaf

Bu llithriad yn y r amserlen sy'n golygu bod y cynigion terfynol wedi eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 3 Hydref 2025. Bydd rhaid i unrhyw newidiadau i ffiniau cymunedau dderbyn cymeradwyaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd a'r grym i wneud y gorchymyn angenrheidiol. Bydd y newidiadau yn dod rym yn 2027 mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.

Cynllun Peilot Cofrestru Awtomatig Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gwirfoddoli i fod yn un o'r pedwar awdurdod ar draws Cymru sy'n rhan o'r cynllun. Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 wedi cyflwyno system cofrestru etholiadol heb gais ('cofrestru awtomatig') ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a Senedd Cymru, ond rhaid i'r drefn gael ei threialu cyn gall ddod i rym ar gyfer Cymru gyfan er mwyn asesu'r goblygiadau ymarferol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru etholwyr heb dderbyn cais, lle bydd ganddynt fanylion digonol . Bydd unigolyn cymwys yn derbyn hysbysiad ac yn cael cyfle i wrthwynebu i'r cofrestriad o fewn 60 diwrnod.

Beth sydd wedi ei gyflawni ?

Mae dwy brif ffrwd i'r gwaith.

1. Y broses graidd o gasglu a pharu data i adnabod unigolion a'u cofrestru.

2. Adnabod ac ymgysylltu ag unigolion na fydd y broses paru data yn debygol o'u hadnabod, a'u hannog a'u helpu i gofrestru. Dim ond Gwynedd sy'n gwneud yr agwedd hon.

Amserlen

Roedd cyfnod y peilot rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025 gyda'r gweithgareddau cofrestru ac ymgysylltu yn digwydd rhwng Mehefin a Medi. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn mynd ati i gloriannu cynaniadau'r peilot. Daeth y cyfnod ble roedd cofrestru awtomatig yn bosib i ben ar 30/09/25.

Y Canfas Blynyddol

Cwblhawyd y Canfas Blynyddol a chyhoeddwyd y Gofrestr Flynyddol.
Adnewyddu Pleidleisiau Post

Fel canlyniad i'r newidiadau statudol ysgrifennwyd at tua 13,000 o etholwyr i'w hysbysu bod eu pleidlais bost yn dod i ben mewn perthynas ag etholiadau y DU. Mae hyn yn ychwanegol i'r broses arferol flynyddol o adnewyddu pleidleisiau post sy'n dod i ben.

CRWNER

Sion Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

Cefndir

Mae Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Gwynedd a Môn. Ariannir y gwasanaeth ar y cyd gan y ddau awdurdod, ond Gwynedd sy'n cymryd y rôl arweiniol fel yr 'awdurdod perthnasol' statudol. Mae hyn gosod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau adnoddau digonol i'r gwasanaeth. Y Cyngor sy'n penodi ac yn talu'r Uwch Grwner a'r Crwneriaid Cynorthwyol. Yr Uwch Grwner sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ei hun. Mae heddlu Gogledd Cymru yn darparu 'Swyddogion Crwner' sy'n cysylltu gyda theuluoedd, yr heddlu, tystion, meddygon, staff ysbyty ayyb ar ei rhan.

Kate Robertson yw'r Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol yw Sarah Riley. Rydym yn cyflogi un aelod o staff llawn amser fel cymhorthydd personol i'r Crwner gyda chefnogaeth ychwanegol yn dod o'r Uned Weinyddol a'r Uned Etholiadau.

Byddwn yn parhau i ddarparu a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Crwner

Beth sydd wedi ei gyflawni?

Rydym wedi parhau i weithio i gryfhau'r gefnogaeth weinyddol, drwy edrych ar brosesau penodol a datblygu profiad a sgiliau o fewn yr Uned Weinyddol. Rydym hefyd wedi bod yn adolygu'r trefniadau gyda'r trefnwyr angladdau sy'n gweithio ar ran y Crwner gan gynnwys cynnal cyfarfod i

roi cyfle iddynt i godi unrhyw faterion gyda'r Crwner, yr Heddlu (sy'n gyfrifol am alw'r ymgymerwyr allan i farwolaethau) a'r awdurdod.

Er bod cytuno ar gyflog yn fater i bob Uwch Grwner a'u (h)awdurdod yn unigol, yn ymarferol mae hyn wedi bod yn digwydd drwy Gyd-bwyllgor Negodi i Grwneriaid, lle cynrychiolir ochr yr awdurdodau lleol ac ochr y crwneriaid, sydd wedi cytuno ar fodel a graddfa tâl ar gyfer Cymru a Lloegr ac ar y cynnydd tâl blynyddol. Ym Mis Mawrth 2025 eleni cyhoeddwyd fod ochr y crwneriaid wedi tynnu yn ôl o'r Cyd-bwyllgor am eu bod o'r farn nad yw bellach yn ddull priodol o osod eu cyflogau. O ganlyniad, roedd yn disgyn ar benderfyniadau lleol i fynd i'r afael â'r mater er ein bod yn cyfathrebu ag Awdurdodau Coronaidd eraill wrth ffurfio ymateb. Cwblhawyd hyn gyda chytundeb lleol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.